# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 29 Mai 2012
Tuesday, 29 May 2012

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

29 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

35 Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu
Statement: The Programme for Government Annual Report

62 Datganiad: Cynhwysiant Digidol/Cymunedau 2.0
Statement: Digital Inclusion/Communities 2.0

76 Datganiad: Cyflwyno Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Statement: Introduction of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

92 Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012
The Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012

94 Gorchymyn Cadw Mincod (Gwahardd) (Cymru) 2012
The Mink Keeping (Prohibition) (Wales) Order 2012

96 Jiwbilî Ddiemwnt Ei Mawrhydi Y Frenhines
Her Majesty the Queen's Diamond Jubilee

119 Pwynt o Drefn
Point of Order


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### GIG Cymru

### Welsh NHS

***1. Darren Millar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol GIG Cymru. OAQ(4)0536(FM)*

***1. Darren Millar:*** *Will the First Minister make a statement on the future of the Welsh NHS. OAQ(4)0536(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** To ensure the continuance of a safe and sustainable health service.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Sicrhau parhad gwasanaeth iechyd diogel a chynaliadwy.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, First Minister. You will be aware that there is a great deal of concern about emergency services across Wales. Last week, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board made a decision to move critically injured patients from hospitals in Liverpool to major trauma centres in Stoke for the tertiary provision of major trauma care. Obviously, this is a decision that has caused some concern in north Wales because it means an extra half hour travel time for people in accessing a service in Stoke rather than in Liverpool. What instructions does the Welsh Government give to health boards like Betsi Cadwaladr LHB, and others in Wales, when there is a significant change in service, and which will cause public concern, to ensure there is proper engagement with stakeholders like Assembly Members and other representatives so that people can have confidence that decisions are made for the right reasons?

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod llawer iawn o bryder am wasanaethau brys ledled Cymru. Yr wythnos diwethaf, gwnaethpwyd penderfyniad gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i symud cleifion sydd ag anafiadau difrifol o ysbytai yn Lerpwl i ganolfannau trawma mawr yn Stoke ar gyfer darpariaeth drydyddol o ofal trawma mawr. Yn amlwg, mae'r penderfyniad hwn wedi achosi rhywfaint o bryder yng ngogledd Cymru oherwydd ei fod yn golygu hanner awr yn ychwanegol o daith i bobl i gael gwasanaeth yn Stoke yn hytrach nag yn Lerpwl. Pa gyfarwyddiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i fyrddau iechyd fel Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac eraill yng Nghymru, pan fydd newid sylweddol yn y gwasanaeth a fydd yn achosi pryder i'r cyhoedd, i sicrhau bod cysylltiad priodol â rhanddeiliaid fel Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr eraill fel y gall pobl fod yn hyderus y caiff penderfyniadau eu gwneud am y rhesymau cywir?

**The First Minister:** We expect decisions to be taken on a clinical basis and we expect the appropriate clinical reasons to be given when people are transferred. There will be occasions when people are transferred to other hospitals in order to get treatment from more specialised medical personnel, but we certainly do not give instructions as to where

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn disgwyl i benderfyniadau gael eu gwneud ar sail glinigol ac rydym yn disgwyl i'r rhesymau clinigol priodol gael eu rhoi pan fydd pobl yn cael eu trosglwyddo. Bydd adegau pan fydd pobl yn cael eu trosglwyddo i ysbytai eraill er mwyn cael triniaeth gan staff meddygol mwy arbenigol, ond yn sicr nid ydym yn rhoi

people should be treated, simply that they should be treated in the most appropriate setting.

cyfarwyddiadau o ran lle y dylai pobl gael eu trin; y cyfan yr ydym yn ei wneud yw nodi y dylid eu trin yn y lleoliad mwyaf priodol.

**Julie Morgan:** Does the First Minister agree that one of the big challenges to the NHS is the affordability of the so-called cancer wonder drugs? Will he congratulate the Red Sock campaign on having helped negotiate a lower price with the manufacturers of abiraterone, which led to Wales approving this drug before England for the treatment of prostate cancer?

**Julie Morgan:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai un o'r heriau mawr i'r GIG yw fforddiadwyedd yr hyn a elwir yn gyffuriau gwyrthiol i drin canser? A wnaiff longyfarch ymgyrch 'Red Sock' am gynorthwyo'r gwaith o drafod pris is gyda chynhyrchwyr abiraterone, a barodd i Gymru gymeradwyo'r cyffur hwn o flaen Lloegr ar gyfer trin canser y prostad?

**The First Minister:** Yes. Abiraterone is widely used in Wales, and there are many drugs that are used widely in Wales and less widely in England. However, when claims are made by pharmaceutical companies about the efficacy of their drugs, it is important that they are tested through the National Institute for Health and Clinical Excellence. It is also important that where there are systems in place to show that drugs can be effective outside the context of NICE, there are ways of ensuring that those drugs are made available.

**Y Prif Weinidog:** Ydw. Caiff abiraterone ei ddefnyddio'n eang yng Nghymru, ac mae llawer o gyffuriau sy'n cael eu defnyddio yn eang yng Nghymru ac yn llai eang yn Lloegr. Fodd bynnag, pan fydd cwmnïau fferyllol yn honni bod eu cyffuriau'n effeithiol, mae'n bwysig i'r honiadau hynny gael eu profi trwy'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Mae hefyd yn bwysig, lle y mae systemau ar waith i ddangos y gall cyffuriau fod yn effeithiol y tu allan i gyd-destun NICE, fod ffyrdd o sicrhau bod y cyffuriau hynny ar gael.

**Elin Jones:** Brif Weinidog, un o fannau gwan yr NHS yw recriwtio nifer ddigonol o staff, ac mae gennych chi raglen yn y tymor byr i recriwtio staff meddygol o dramor. Fodd bynnag, o ran y tymor hirach—y pum i 10 mlynedd nesaf—onid yw hi'n bryd i chi ystyried rhaglen a fyddai'n ariannu myfyrwyr meddygol ac yn gofyn iddynt gyfrannu yn ôl i'r NHS drwy weithio am gyfnod penodol yn yr NHS?

**Elin Jones:** First Minister, one of the weak points of the NHS is the recruitment of adequate numbers of staff, and you have a short-term programme to recruit medical staff from overseas. However, with regard to the longer term—for the next five to 10 years—is it not time that you considered a programme of funding for medical students that asks them to contribute back to the NHS by working for a specific period within the NHS?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n syniad diddorol, ond nid yw'n gynaliadwy gan fod meddygon yn gallu symud i le bynnag y mynnant. Rydym ni am sicrhau bod pobl yn cael eu hyfforddi yng Nghymru ac yn aros yng Nghymru wrth iddynt ddod yn feddygon ymgynghorol. Rydym hefyd am sicrhau bod pobl yn dod mewn i Gymru ac yn dod â'u profiad gyda nhw. Rhaid sicrhau bod y system yn fwy cynaliadwy; nid ydym am roi arian i bobl a'u gweld yn gadael Cymru wedi i'w cyfnod nhw ddod i ben.

**The First Minister:** That is an interesting idea, but it is not sustainable because doctors can move wherever they choose. We want to ensure that people are trained in Wales and then remain in Wales as they become consultants. We also want to ensure that people come to Wales and bring their experience with them. We must ensure that the system is more sustainable; we do not want to just give funds to people and then see them leaving Wales after their period is at an end.

**Aled Roberts:** Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi derbyn tystiolaeth yn ystod yr

**Aled Roberts:** The Children and Young People Committee has received evidence

wythnosau diwethaf bod gwasanaethau newydd-enedigol yn y gogledd ddim ond yn cyflogi dau feddyg ymgynghorol yn hytrach nag wyth, ac nad ydynt wedi cyrraedd safonau cenedlaethol Prydeinig ers 2008. O gofio bod ymchwiliad yn cael ei gynnal, a allwch chi sicrhau eu bod nhw'n anelu at gyrraedd y safonau hynny yn y dyfodol?

over the past few weeks that neonatal services in north Wales only employ two consultants rather eight, and that they have not met British national standards since 2008. Bearing in mind that a review is taking place, will you ensure that they aim towards reaching those standards in the future?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod y safonau'n uchel, ond nid yw hi'n bosibl i bigo ymgynghorwyr o goeden yn rhywle. Rydym yn gwybod bod prinder meddygon ymgynghorol mewn sawl arbenigedd meddygol, ac mae'n bwysig dros ben felly bod gwasanaethau yn gynaliadwy wrth gadw'r ffaith honno mewn cof.

**The First Minister:** It is important that standards are high, but it is not possible to pick consultants off some magical tree. We know that there is a shortage of consultants in many areas of medical expertise, and it is very important therefore that services are sustainable bearing that fact in mind.

**Tryloywder**

**Transparency**

***2. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i hybu tryloywder ar draws y Llywodraeth. OAQ(4)0545(FM)*

***2. Janet Finch-Saunders:*** *Will the First Minister outline what steps he is taking to promote transparency throughout government. OAQ(4)0545(FM)*

**The First Minister:** We have been committed for many years to maximising openness and accountability. We have proactively published information such as Cabinet papers, ministerial decision reports and, more recently, details of payments made by the Welsh Government over £25,000.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi ymrwymo ers blynyddoedd lawer i sicrhau bod y Llywodraeth yn fwy agored ac atebol. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol, fel papurau'r Cabinet, adroddiadau ar benderfyniadau gan Weinidogion ac, yn fwy diweddar, manylion y taliadau dros £25,000 gan Lywodraeth Cymru.

**Janet Finch-Saunders:** The Freedom of Information Act 2000 is used by more than 50% of our residents wishing to access information held by the Welsh Government. Having signed the Information Commissioner's Office's commitment in March to be more responsive to these requests, what actions are you taking in this regard?

**Janet Finch-Saunders:** Defnyddir Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan fwy na 50% o'n trigolion sy'n dymuno cael mynediad at wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl i chi lofnodi ymrwymiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Mawrth i fod yn fwy ymatebol i'r ceisiadau hyn, pa gamau yr ydych yn eu cymryd i'r perwyl hwn?

**The First Minister:** We are continuing to ensure that we are an open and transparent Government.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn parhau i sicrhau ein bod yn Llywodraeth agored a thryloyw.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi comisiynu'r Athro Steve Smith, a fu unwaith yn dysgu yn Aberystwyth, i roi cyngor ar ad-drefnu prifysgolion yn ne-ddwyrain y wlad. A wnewch chi ymgymryd i gyhoeddi ei gyngor

**Simon Thomas:** First Minister, your Government has commissioned Professor Steve Smith, who used to teach in Aberystwyth, to give advice on the reorganisation of universities in the south-east of the country. Will you commit to

pan fyddwch yn ei dderbyn?

publishing his advice when you receive it?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, rydym yn ystyried yr holl gyngor sy'n dod atom fel Llywodraeth, wrth gofio taw'r nod yw sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sector addysg uwch yng Nghymru.

**The First Minister:** Of course, we do consider all the advice that is provided to us as a Government, bearing in mind that the aim is to secure a sustainable future for the higher education sector in Wales.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Presiding Officer:** I call on Peter Black to ask questions on behalf of the Leader of the Welsh Liberal Democrats.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Peter Black i ofyn cwestiynau ar ran Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

**Peter Black:** First Minister, a report published this week by the Women's Royal Voluntary Service and Demos concludes that older people in the UK are the loneliest, poorest and most concerned about age discrimination. What specific detailed indicators will the Welsh Government adopt to measure issues like health, income and social wellbeing to tackle this problem?

**Peter Black:** Brif Weinidog, mae adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan Wasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched a Demos yn dod i'r casgliad mai pobl hŷn yn y DU yw'r rhai mwyaf unig, y rhai tlotaf a'r rhai sy'n pryderu fwyaf am wahaniaethu ar sail oed. Pa ddangosyddion manwl penodol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu mabwysiadu i fesur materion fel iechyd, incwm a lles cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon?

**The First Minister:** We will consider the findings of any report to see whether we can learn from them and put in place measures to deal with some of the concerns that are outlined.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ystyried canfyddiadau unrhyw adroddiad i weld a allwn ddysgu oddi wrthynt a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a amlinellir.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. The Older People's Wellbeing Monitor for Wales, which measured these things, was last published in 2009. Will you make this an annual report?

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Cafodd Monitor Lles Pobl Hŷn Cymru, a oedd yn mesur y pethau hyn, ei gyhoeddi ddiwethaf yn 2009. A fyddwch yn gwneud yr adroddiad hwn yn un blynyddol?

**The First Minister:** In consultation with the older people's commissioner, we will look to see what should be done to assess outcomes for older people. The commissioner has an important role in advising us on that.

**Y Prif Weinidog:** Mewn ymgynghoriad â'r comisiynydd pobl hŷn, byddwn yn edrych i weld beth y dylid ei wneud i asesu canlyniadau ar gyfer pobl hŷn. Mae gan y comisiynydd rôl bwysig i'n cynghori ar hynny.

**Peter Black:** Currently, local councils decide the standards for social care. Your Government is planning a national social care standard. Will you guarantee that no elderly person in Wales will have their social care package downgraded or withdrawn as a result of these proposals?

**Peter Black:** Ar hyn o bryd, mae cynghorau lleol yn penderfynu ar y safonau ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae eich Llywodraeth yn cynllunio ar gyfer safon genedlaethol ym maes gofal cymdeithasol. A wnewch sicrhau na fydd pecyn gofal dim un person oedrannus yng Nghymru yn cael i israddio neu ei dynnu'n ôl o ganlyniad i'r cynigion hyn?

**The First Minister:** The objective is not to downgrade the social care packages of older people but to provide a more level playing field so that everyone in Wales, regardless of where they live, will have access to the same level of care.

**Y Prif Weinidog:** Nid israddio pecynnau gofal cymdeithasol pobl hŷn yw'r amcan ond cynnig mwy o chwarae teg er mwyn i bawb yng Nghymru, lle bynnag y maent yn byw, gael mynediad at yr un lefel o ofal.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, how many new cancer treatments are available in England as opposed to Wales?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, faint o driniaethau canser newydd sydd ar gael yn Lloegr o'i gymharu â Chymru?

**The First Minister:** What I can tell you is that there is no cancer treatment available across the whole of England, as compared with Wales.

**Y Prif Weinidog:** Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthych yw nad oes triniaeth canser ar gael ledled Lloegr, o'i gymharu â Chymru.

**Andrew R.T. Davies:** That was not what I asked. It is well known that 24 different treatments that are available to patients in England are not available in Wales. Last Thursday, your Minister for Health and Social Services issued a statement outlining the Welsh Government's objection to creating a cancer drugs fund in Wales. It professed that creating such a fund would create inequalities in the health budget and would drain money from other key areas. You choose to fund millionaires' access to paracetamol and Bonjela, yet you deny cancer patients a fund that would, in Welsh terms, be worth £3.5 million. What is equitable about such an approach to dealing with cancer patients in Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Nid dyna a ofynnais. Mae'n hysbys nad yw 24 o driniaethau gwahanol sydd ar gael i gleifion yn Lloegr ar gael yng Nghymru. Ddydd Iau diwethaf, cyhoeddodd eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad yn amlinellu gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i greu cronfa cyffuriau canser yng Nghymru. Roedd yn proffesu y byddai creu cronfa o'r fath yn creu anghydraddoldeb yn y gyllideb iechyd a fyddai'n sugno arian o feysydd allweddol eraill. Rydych yn dewis ariannu mynediad i filiwnyddion at barasetamol a Bonjela, ac eto rydych yn gwrthod cynnig cronfa i gleifion a fyddai, yn nhermau Cymru, yn werth £3.5 miliwn. Beth sy'n deg am ymagwedd o'r fath at ddelio â chleifion canser yng Nghymru?

**The First Minister:** The basic flaw in the Tory argument on prescriptions is that they say that millionaires should not pay for paracetamol but, if they are over 60, it is fine for them to do so; millionaires over 60 should have paracetamol for free, but not those under 60. In Wales, we spend more on cancer drugs than England; it is as simple as that. The cancer drugs fund was created to allow England partially to catch up with Wales, so why on earth should we introduce such a fund?

**Y Prif Weinidog:** Y gwendid sylfaenol yn nadl y Torïaid ar bresgripsiynau yw eu bod yn dweud na ddylai miliwnyddion dalu am barasetamol ond, os ydynt dros 60 oed, mae'n iawn iddynt wneud hynny; dylai miliwnyddion dros 60 gael parasetamol am ddim, ond nid y rhai sydd o dan 60 oed. Yng Nghymru, rydym yn gwario mwy ar gyffuriau canser na Lloegr; mae mor syml â hynny. Crëwyd y gronfa cyffuriau canser er mwyn galluogi Lloegr i ddal i fyny â Chymru yn rhannol, felly pam ar y ddaear y dylem gyflwyno cronfa o'r fath?

Secondly, the money in England was taken from the budget to pay for other drugs; it was not new money. Is the leader of the opposition willing to cut the money available for drugs for dementia or multiple sclerosis? I

Yn ail, cymerwyd yr arian yn Lloegr o'r gyllideb i dalu am gyffuriau eraill; nid arian newydd mohono. A yw arweinydd yr wrthblaid yn barod i dorri'r arian sydd ar gael i gyffuriau ar gyfer dementia neu sglerosis

think that the people of Wales deserve an answer to that question. I ask the question rhetorically, of course.

ymledol? Rwy'n meddwl bod pobl Cymru yn haeddu ateb i'r cwestiwn hwnnw. Rwy'n gofyn y cwestiwn hwnnw'n rhethregol, wrth gwrs.

**Andrew R.T. Davies:** You will definitely get an answer from this side of the Chamber, First Minister—we would not subsidise millionaires' access to paracetamol and Bonjela. We believe that cancer patients deserve access—[*Interruption*.]

**Andrew R.T. Davies:** Byddwch yn bendant yn cael ateb gan yr ochr hon i'r Siambr, Brif Weinidog—ni fyddem yn talu am fynediad miliwnyddion at barasetamol a Bonjela. Rydym yn credu bod cleifion canser yn haeddu mynediad—[*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order. I want to hear what the leader of the opposition is saying, please.

**Y Llywydd:** Trefn. Rwyf am glywed yr hyn y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei ddweud, os gwelwch yn dda.

**Andrew R.T. Davies:** We believe that cancer patients deserve access to the cutting-edge technology that is available in other parts of the United Kingdom. Is it not the case, First Minister, that you are the friend of millionaires on paracetamol and Bonjela, but you are the enemy of cancer patients in Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Credwn fod cleifion canser yn haeddu cael mynediad at y dechnoleg arloesol sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, mai chi yw cyfaill miliwnyddion ar barasetamol a Bonjela, ond gelyn cleifion canser yng Nghymru?

**The First Minister:** Many people in Wales have benefited from free prescriptions. The leader of the opposition is their enemy, by his own definition. We only have to think of all those people who would have to pay the tablet tax that he would introduce. He says that we are the friend of millionaires. I ask him this: who is plugging the cancer drugs fund the most if not the pharmaceutical companies? Will he answer that question for the people of Wales? The problem with the leader of the opposition is this: he substitutes abuse for ability, and bombast for eloquence. There are some in his party who want to see the back of him as the leader of the opposition. I, however, offer him my full support; he can stay there for the next 20 years as far as I am concerned. [*Interruption.*]

**Y Prif Weinidog:** Mae llawer o bobl yng Nghymru wedi elwa o gael presgripsiynau am ddim. Arweinydd yr wrthblaid yw gelyn y bobl hynny, yn ôl ei ddiffiniad ei hun. Nid oes ond angen inni feddwl am yr holl bobl hynny a fyddai'n gorfod talu'r dreth dabled y byddai'n ei chyflwyno. Mae'n dweud mai ni yw cyfaill y miliwnyddion. Gofynnaf y cwestiwn hwn iddo: pwy sy'n gwthio'r gronfa cyffuriau canser fwyaf os nad y cwmnïau fferyllol? A wnaiff ateb y cwestiwn hwnnw i bobl Cymru? Y broblem gydag arweinydd yr wrthblaid yw hyn: yn lle gallu cawn ganddo ddifenwi, ac ymffrost yn lle huodledd. Mae rhai yn ei blaid sydd am gefnu arno fel arweinydd yr wrthblaid. Fodd bynnag, rwy'n cynnig fy nghefnogaeth lwyr iddo; yn fy marn i, gall aros yno am yr 20 mlynedd nesaf. [*Torri ar draws*.]

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** When Plaid Cymru first unveiled in March 2011 its plans for a non-dividend vehicle to finance infrastructure projects, the Labour Party rubbished them as completely unworkable. You can imagine our surprise, therefore, last week when the idea popped up in the Government's infrastructure strategy. When exactly did you change your mind, First Minister?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Ym mis Mawrth 2011, pan gyflwynodd Plaid Cymru ei chynlluniau ar gyfer cyfrwng di-ddifidend i ariannu prosiectau seilwaith, difrïodd y Blaid Lafur y cynlluniau hyn gan ddweud eu bod yn gwbl anymarferol. Gallwch ddychmygu ein syndod, felly, yr wythnos diwethaf pan gododd y syniad yn strategaeth seilwaith y Llywodraeth. Pryd yn union y newidiasoch eich meddwl, Brif

Weinidog?

**The First Minister:** What we propose is not the same as Build for Wales. There are important differences between what we are proposing and the structure of Build for Wales.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r hyn yr ydym yn ei gynnig yr un peth ag Adeiladu dros Gymru. Mae gwahaniaethau pwysig rhwng yr hyn yr ydym yn ei gynnig a strwythur Adeiladu dros Gymru.

**Leanne Wood:** I would be grateful if you could outline those differences, First Minister.

**Leanne Wood:** Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r gwahaniaethau hynny, Brif Weinidog.

**The First Minister:** We are looking at ways of raising money in a way that allows us to work with local authorities and that does not leave Wales heavily indebted.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn edrych ar ffyrdd o godi arian mewn modd sy'n ein galluogi i weithio gydag awdurdodau lleol heb beri i Gymru fod mewn dyled fawr.

**Leanne Wood:** Let us turn to another Plaid Cymru policy adopted by your party in relation to borrowing powers. Does the First Minister think that it is coincidental, or just bad luck, that soon the only elected body in the United Kingdom without the power to borrow money will be the one in which his party has an unbroken record of power? The only borrowing powers that we did have were those of the Welsh Development Agency, which were thrown away because Labour did not do its homework. Why is it that a Scottish nationalist in Edinburgh or an Ulster unionist in Belfast, or even a Tory London mayor, seem to do a better job of fighting their corner than the Labour First Minister of Wales?

**Leanne Wood:** Gadewch inni droi at un arall o bolisïau Plaid Cymru a fabwysiadwyd gan eich plaid mewn perthynas â phwerau benthyca. A yw'r Prif Weinidog yn credu mai cyd-ddigwyddiad ydyw, neu ddim mwy nag anlwc, mai'r unig gorff etholedig yn y Deyrnas Unedig fydd heb y gallu i gael benthyg arian cyn bo hir yw'r un lle y mae gan ei blaid hanes di-dor o rym? Yr unig bwerau benthyca a oedd gennym oedd pwerau Awdurdod Datblygu Cymru, a gafodd eu taflu i ffwrdd oherwydd na wnaeth Llafur ei gwaith cartref. Pam mae cenedlaetholwr Albanaidd yng Nghaeredin neu undebwr Ulster yn Belfast, neu hyd yn oed maer Torïaidd Llundain, yn ymddangos fel petaent yn ymladd eu hachos yn well na Phrif Weinidog Cymru o'r blaid Lafur?

**The First Minister:** It seems to have escaped the attention of the leader of Plaid Cymru that we are not blocking borrowing powers; the UK Government is doing that. However, I know that it is more convenient to attack us on this. I agree that it is appalling that we in Wales should not have the power to borrow in the same way as Scotland and Northern Ireland. The reality is that when it comes to borrowing ideas from Plaid Cymru, there are no ideas to borrow. What has happened to Plaid Cymru? A once vibrant party is now a party with hardly any ideas at all. The party offered no legislative ideas at all in its manifesto. It was once a decent car, but it is now without any petrol. It has a new driver, but the tank is empty. That is the problem with Plaid Cymru—it is a party with no ideas, no competence and no ambition for

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ymddangos nad yw arweinydd Plaid Cymru wedi sylwi nad ydym yn rhwystro pwerau benthyca; Llywodraeth y DU sy'n gwneud hynny. Fodd bynnag, rwy'n gwybod ei bod yn fwy cyfleus ymosod arnom ni ar y mater hwn. Cytunaf ei bod yn warthus nad ydym ni yng Nghymru yn cael y pŵer i fenthyg yn yr un modd â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Y gwir amdani, o ran benthyca syniadau gan Blaid Cymru, yw nad oes dim syniadau i'w benthyca. Beth sydd wedi digwydd i Blaid Cymru? Mae plaid a oedd unwaith yn un fywiog erbyn hyn yn blaid heb fawr ddim syniadau o gwbl. Ni chynigiodd y blaid syniadau deddfwriaethol o gwbl yn ei maniffesto. Yr oedd unwaith yn gar eithaf da, ond bellach nid oes ganddo betrol. Mae ganddo yrrwr newydd, ond mae'r tanc yn wag. Dyna'r broblem gyda Phlaid Cymru—

Wales.

mae'n blaid heb ddim syniadau ganddi, nid oes gallu ganddi nac uchelgais ar gyfer Cymru.

**Corlan Hafren**

**Corlan Hafren**

***3. Simon Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran cynlluniau Corlan Hafren i adeiladu morglawdd. OAQ(4)0538(FM)*

***3. Simon Thomas:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's position on Corlan Hafren's plans to build a barrage. OAQ(4)0538(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r potensial gan aber afon Hafren i fod yn ffynhonnell bwysig o ynni adnewyddadwy a allai fod o fudd mawr i'r economi.

**The First Minister:** The Severn estuary represents a potentially important source of renewable energy that could provide substantial economic benefits.

**Simon Thomas:** Diolch am yr ateb, Brif Weinidog. Cyn inni ddod i gasgliad ar y materion hyn, bydd nifer o faterion i'w hystyried, gan gynnwys yr amgylchedd. Bythefnos yn ôl, wrth ateb cwestiwn gan Leanne Wood, dywedasoch fod hwn yn fater trawsffiniol, sy'n gywir, ac felly mai mater i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn unig ydyw. A wnewch chi ailystyried hynny, gan feddwl bod gennych chi rôl yn y mater hwn fel Llywodraeth Cymru, ac amlinellu pa gamau y byddech chi'n eu cymryd i sicrhau bod y penderfyniad yn un ar y cyd rhyngoch chi a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol?

**Simon Thomas:** Thank you for that response, First Minister. Before we reach a conclusion on these issues a number of considerations will need to have been taken into account, including the environment. A fortnight ago, in response to a question from Leanne Wood, you said that this is a cross-border issue, which is correct, and that it is therefore a matter for the UK Government alone. Will you reconsider that position, because as the Welsh Government you have a role to play in this matter, and outline what steps you would take to ensure that the decision is a joint one by you and the UK Government?

**Y Prif Weinidog:** Rôl Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod swyddi'n cael eu creu yn sgîl unrhyw brosiect yn y dyfodol a bod yr amgylchedd yn cael ei warchod ar yr ochr yma i'r ffin. Mae gennym rôl hefyd o safbwynt edrych ar gynlluniau a fydd yn dod gerbron yn y dyfodol, er mwyn gweld a allwn gefnogi'r cynlluniau hynny ai peidio.

**The First Minister:** The role of the Welsh Government is to ensure that jobs are created as a result of any future projects and that the environment is protected on this side of the border. We also have a role in terms of looking at the plans that come before us in order to see whether we can support those or not.

**Vaughan Gething:** I welcome the Welsh Government's positive response to, and interest in, a scheme to generate power from the Severn tidal range. Can you confirm that any support that the Government gives to a scheme will balance the potential to create significant amounts of low-carbon energy and the potential to create many jobs with the impact on the environment, both in terms of the Severn estuary itself and of creating this amount of power in an alternative manner?

**Vaughan Gething:** Croesawaf ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i'r cynllun i gynhyrchu ynni o amrediad llanw Afon Hafren, a'i diddordeb yn y cynllun hwnnw. A allwch gadarnhau y bydd unrhyw gymorth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i gynllun yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y potensial i greu symiau sylweddol o ynni carbon isel a'r potensial i greu nifer o swyddi, ar y naill law, a'r effaith ar yr amgylchedd, o ran aber Afon Hafren ei hun ac o ran creu cymaint â hyn o bŵer mewn ffordd amgen, ar y llaw arall?

1.45 p.m.

**The First Minister:** There are significant environmental issues that will need to be addressed if any Severn tidal project goes forward.

**Y Prif Weinidog:** Bydd angen mynd i'r afael â nifer o faterion amgylcheddol sylweddol os bydd unrhyw brosiect ynni'r llanw ar Aber Hafren yn mynd yn ei flaen.

**Russell George:** I would support moves to harness the tidal energy produced by the River Severn, but I would agree that there are real environmental concerns. In that regard, what recent discussions have you had with Peter Hain and members of the Corlan Hafren consortium to discuss their proposals for a Severn barrage?

**Russell George:** Byddwn yn cefnogi camau i harneisio ynni'r llanw a gynhyrchir gan Afon Hafren, ond byddwn yn cytuno bod gwir bryderon amgylcheddol. Yn hynny o beth, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ddiweddar gyda Peter Hain ac aelodau consortiwm Corlan Hafren am eu cynigion ar gyfer morglawdd Hafren?

**The First Minister:** I have had a meeting with Corlan Hafren and a phone call with representatives of Corlan Hafren, but I have not spoken to Peter Hain about Corlan Hafren.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi cael cyfarfod gyda Corlan Hafren a galwad ffôn gyda chynrychiolwyr o Corlan Hafren, ond nid wyf wedi siarad â Peter Hain am Corlan Hafren.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***4. Suzy Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ail flwyddyn tymor y Cynulliad hwn. OAQ(4)0540(FM)*

***4. Suzy Davies:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for the second year of this Assembly term. OAQ(4)0540(FM)*

**The First Minister:** Yes. They are in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Maent yn y rhaglen lywodraethu.

**Suzy Davies:** Your programme for government states that you will protect healthy ecosystems. You have outlined the 10 marine conservation zones, but there is not a zone protecting the area around the Gower coast. How are you proposing to protect the habitat and breeding areas of harbour porpoises, which are threatened under the proposals for the Atlantic Array windfarm, and will your Government be sending objections to National Infrastructure Planning?

**Suzy Davies:** Mae eich rhaglen lywodraethu yn datgan y byddwch yn diogelu ecosystemau iach. Rydych wedi amlinellu'r 10 parth cadwraeth morol, ond nid oes parth yn gwarchod yr ardal o amgylch arfordir Gŵyr. Sut yr ydych yn bwriadu gwarchod cynefin ac ardaloedd bridio llamhidyddion harbwr, sydd dan fygythiad o dan y cynigion ar gyfer fferm wynt Atlantic Array, ac a fydd eich Llywodraeth yn anfon gwrthwynebiad at Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol?

**The First Minister:** It is a matter for the Countryside Council for Wales to outline any concerns with wildlife, particularly in that part of Wales. There will be a full consultation regarding marine conservation zones in the near future.

**Y Prif Weinidog:** Mater i Gyngor Cefn Gwlad Cymru yw amlinellu unrhyw bryderon o ran bywyd gwyllt, yn enwedig yn y rhan honno o Gymru. Bydd ymgynghoriad llawn am barthau cadwraeth morol yn y dyfodol agos.

**Christine Chapman:** Widening participation in sport can play a role in eradicating child

**Christine Chapman:** Gall ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon gyfrannu at

poverty, as children from more deprived communities are less likely to participate. Free swimming and Communities First projects are helping young people to get involved in sport—for example, in Fernhill in my constituency. Given that the Olympic Games are in the spotlight, will you make building on this and maximising the opportunities for children and young people from disadvantaged communities to participate in sport a priority for the coming year?

ddileu tlodi plant, gan fod plant o gymunedau mwy difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan. Mae nofio am ddim a phosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon—er enghraifft, yn Fernhill yn fy etholaeth. O gofio bod y Gemau Olympaidd yn cael llawer o sylw, a fyddwch yn gwneud datblygu hynny ac ehangu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig gymryd rhan mewn chwaraeon yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?

**The First Minister:** Yes. Sport Wales aims to translate the interest from London 2012 into increasing sport participation. It will be investing some £32 million in community sport over the next three years, which will be used to improve the sporting opportunities available to people of all ages, abilities and social backgrounds.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn. Nod Chwaraeon Cymru yw cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon yn sgîl y diddordeb o ganlyniad i Lundain 2012. Bydd yn buddsoddi rhyw £32 miliwn mewn chwaraeon cymunedol dros y tair blynedd nesaf, a bydd yn cael ei ddefnyddio i wella'r cyfleoedd ym maes chwaraeon sydd ar gael i bobl o bob oedran, gallu a chefndir cymdeithasol.

**Jocelyn Davies:** In your infrastructure investment plan, there is a caveat on the 2014 start of the construction of the critical care unit in Torfaen, that it is subject to the availability of capital. Does that mean that this is not a priority, and will you outline your Government's investment projects for this year in Torfaen?

**Jocelyn Davies:** Yn eich cynllun buddsoddi mewn seilwaith, mae cafeat ar ddechrau'r gwaith o adeiladu'r uned gofal critigol yn Nhor-faen yn 2014, sy'n amodol ar argaeledd cyfalaf. Yw hynny'n golygu nad yw hyn yn flaenoriaeth, ac a wnewch amlinellu prosiectau buddsoddi eich Llywodraeth yn Nhorfaen eleni?

**The First Minister:** If you look at the infrastructure investment plan, you will see that it also concerns whether business cases have been made, and we will also have to see what money will be made available from the UK Government from 2014-15 onwards. The infrastructure investment plan contains what we intend to take forward, both for the coming year and the years beyond.

**Y Prif Weinidog:** Os edrychwch ar y cynllun buddsoddi mewn seilwaith, byddwch yn gweld hefyd ei fod yn ymwneud ag a yw achosion busnes wedi cael eu gwneud, a bydd rhaid inni hefyd weld faint o arian a fydd arian ar gael gan Lywodraeth y DU o 2014-15 ymlaen. Mae'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith yn cynnwys yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a'r blynyddoedd wedi hynny.

**Peter Black:** First Minister, your programme for government contains the aspiration to widen access to GPs. What is the target date for achieving that?

**Peter Black:** Brif Weinidog, mae eich rhaglen lywodraethu yn cynnwys dyhead i ehangu mynediad at feddygon teulu. Beth yw'r dyddiad targed ar gyfer cyflawni hynny?

**The First Minister:** During the course of this Government, up to 2016.

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod tymor y Llywodraeth hon, hyd at 2016.

**Kenneth Skates:** First Minister, this week, Unite, alongside the Trades Union Congress, launched a campaign to protect more than

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, yr wythnos hon, lansiodd Unite, ynghyd â Chyngres yr Undebau Llafur, ymgyrch i ddiogelu mwy na

20,000 railway jobs across the UK that are under threat because of the UK Government's plans to cut £3.5 billion from the rail budget, and to close one in four ticket offices. That means closing 23 offices in Wales alone. First Minister, will you do all that you can to oppose this cutback and closure programme and to improve access to our rail network in Wales?

20,000 o swyddi rheilffordd ar draws y DU sydd o dan fygythiad oherwydd cynlluniau Llywodraeth y DU i dorri £3.5 biliwn o'r gyllideb rheilffyrdd, ac i gau un o bob pedair swyddfa docynnau. Mae hynny'n golygu cau 23 swyddfa yng Nghymru yn unig. Brif Weinidog, a wnewch hynny a allwch i wrthwynebu'r rhaglen hon o gwtogi a chau ac i wella mynediad at ein rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru?

**The First Minister:** Yes, I will. Part of the problem is that, if you remove staff from stations, there are some sections of the population that will feel less secure using those stations. That means fewer people using public transport. That has consequences, such as the impact on the environment and on the viability of some lines.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Rhan o'r broblem yw, os ydych yn gwaredu staff o orsafoedd, y bydd rhai rhannau o'r boblogaeth yn teimlo'n llai diogel wrth ddefnyddio'r gorsafoedd hynny. Mae hynny'n golygu y bydd llai o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae canlyniadau i hynny, megis yr effaith ar yr amgylchedd ac ar hyfywedd rhai o'r rheilffyrdd.

**The Presiding Officer:** Question 5, OAQ(4)0551(FM), has been transferred for a written answer.

**Y Llywydd:** Mae cwestiwn 5, OAQ(4)0551(FM), wedi'i drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig.

**Parthau Cadwraeth Morol**

**Marine Conservation Zones**

***6. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Parthau Cadwraeth Morol arfaethedig. OAQ(4)0543(FM)*

***6. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister make a statement on the proposed Marine Conservation Zones. OAQ(4)0543(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Ein nod yw dynodi hyd at dri neu bedwar parth cadwraeth morol yn 2014, yn amodol ar ymgynghoriad cynhwysfawr. Dechreuodd y cam ymgynghori cyntaf y mis diwethaf gan nodi 10 safle posibl fel opsiynau i'w hystyried ymhellach.

**The First Minister:** We are aiming to designate up to three or four marine conservation zones in 2014, subject to a comprehensive consultation exercise. The first consultation phase started last month, setting out 10 potential sites as options for further consideration.

**Alun Ffred Jones:** Mae'r bwriad hwn wedi codi nyth cacwn yng Nghymru, nid yn unig ymhlith pysgotwyr ond hefyd ymhlith clybiau hwylio a'r sector ymwelwyr. Mae hefyd yn tanseilio'r cydweithio a gafwyd rhwng gwyddonwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r sector pysgota. Ar ba sail wyddonol y penderfynwyd creu'r ardaloedd hyn lle na fydd unrhyw weithgaredd yn cael ei ganiatáu?

**Alun Ffred Jones:** This proposal has stirred up a hornet's nest in Wales, not only among fishermen but also among sailing clubs and the tourism sector. It also undermines past collaboration between Countryside Council for Wales scientists and the fishing sector. On what scientific basis was the decision to create these zones where no activity will be allowed taken?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben bod pobl yn sylweddoli y bydd ymgynghori. Mae sawl safle wedi eu dynodi hyd yma. Fodd bynnag, pwrpas yr ymgynghori fydd

**The First Minister:** It is vital that people understand that consultation will take place. A number of sites have been earmarked to date. However, the aim of the consultation is

sicrhau bod pob un yn cael y cyfle i fynegi barn am lle dylai'r safleoedd fod ac ym mha ffordd y dylent gael eu sefydlu.

to ensure that everybody is given an opportunity to express an opinion about where these sites should be located and how they should be set up.

**Antoinette Sandbach:** Your Government's plans for the marine conservation zones on Anglesey and Gwynedd coasts have been a source of considerable worry for business owners there, with their proposals to ban a whole range of activities from pot fishing and boat charters through to dog walking and rock pooling. Given that tourism and the fishing industry are the life blood of these coastal communities, will you give an assurance that your Government will listen to local concerns during this consultation process and will not impose restrictions so draconian that local businesses are wiped out?

**Antoinette Sandbach:** Mae cynlluniau eich Llywodraeth ar gyfer y parthau cadwraeth morol ar arfordiroedd Ynys Môn a Gwynedd wedi bod yn destun pryder sylweddol i berchnogion busnesau yno, gyda'u cynigion i wahardd amrywiaeth eang o weithgareddau o bysgota â chewyll a llogi cychod i fynd â chŵn am dro a chwilio mewn pyllau yn y creigiau. O gofio bod twristiaeth a'r diwydiant pysgota yn hanfodol i'r cymunedau arfordirol hynny, a wnewch roi sicrwydd y bydd eich Llywodraeth yn gwrando ar bryderon lleol yn ystod y broses ymgynghori hon ac na fydd yn gosod cyfyngiadau llym fel y bydd busnesau lleol yn mynd i'r wal?

**The First Minister:** Absolutely. We want feedback from local communities, including fishing communities, and from leisure, tourism and environmental groups.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Rydym eisiau adborth gan gymunedau lleol, gan gynnwys cymunedau pysgota, a chan grwpiau hamdden, grwpiau twristiaeth a grwpiau'r amgylchedd.

**Mark Isherwood:** Concerns have been raised with me this week that the current proposals would have a major impact off Penrhyn Llŷn and the main sailing centres in north Wales around Pwllheli, Abersoch and so on. The proposals would directly impact on the main recreational sailing areas, such as Porth Ceiriad, and the moorings in Llanbedrog. Will you assure us that the consultation will take into full account the potential impact on tourism, leisure and watersports in the affected areas?

**Mark Isherwood:** Mae pryderon wedi'u codi gyda mi yr wythnos hon y byddai'r cynigion presennol yn cael effaith fawr oddi ar Benrhyn Llŷn a'r prif ganolfannau hwylio yng ngogledd Cymru o amgylch Pwllheli, Abersoch ac yn y blaen. Byddai'r cynigion yn cael effaith uniongyrchol ar y prif ardaloedd hwylio hamdden, megis Porth Ceiriad, a'r angorfeydd yn Llanbedrog. A wnewch ein sicrhau y bydd yr ymgynghoriad yn rhoi sylw llawn i'r effaith bosibl ar dwristiaeth, hamdden a chwaraeon dŵr yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt?

**The First Minister:** It is too early to say what leisure and recreation activities will need to be managed, but it is key for local communities to tell us how they use the proposed sites and how they would be affected if their activities were to be managed.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhy gynnar i ddweud pa weithgareddau hamdden ac adloniant y bydd angen eu rheoli, ond mae'n allweddol bod cymunedau lleol yn dweud wrthym sut y maent yn defnyddio'r safleoedd arfaethedig a sut y byddai'n effeithio arnynt pe byddai eu gweithgareddau'n cael eu rheoli.

### Cefnogaeth i Bobl Anabl

### Support for People with Disabilities

***7. Paul Davies:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl anabl yng*

***7. Paul Davies:*** *What is the Welsh Government doing to support people with*

*Nghymru. OAQ(4)0535(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cefnogi hawliau pobl anabl i gyfrannu'n llawn at gymdeithas a chael yr un dewisiadau â phawb arall. Drwy ein prosiect byw'n annibynnol, rydym yn gweithio i bennu pa gamau eraill y gallwn eu cymryd i gyflawni hyn.

**Paul Davies:** Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Rwyf wedi cael sylwadau gan etholwyr ynghylch bathodynnau anabledd a'r angen am fathodynnau glas dros dro i bobl sy'n anabl yn y tymor byr, boed hynny oherwydd salwch neu ddamwain. Rwy'n siŵr y gallwch werthfawrogi bod amgylchiadau lle mae rhywun yn cael gwaith cerdded ar ôl llawdriniaeth ddifrifol, ac mae angen amser i wella. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl sydd ag anableddau tymor byr neu broblemau dros dro? A yw Llywodraeth Cymru wedi edrych ar y posibilrwydd o roi bathodynnau glas dros dro i'r bobl hyn?

**Y Prif Weinidog:** I bobl yn y sefyllfa hon, mae'n bwysig bod cyfleusterau ar gael er mwyn iddynt allu dod dros eu llawdriniaeth. Mae sawl ysbyty yn gwneud hynny'n barod. O ran rhoi bathodyn glas iddynt, yr hyn sydd angen ei ystyried yw am faint o amser y byddant yn anabl; mae'n bwysig nad yw bathodynnau glas ar gael i bobl pan nad oes arnynt eu hangen mwyach—ac mae rhai yn y categori hwnnw. Ysgrifennaf at yr Aelod i weld a oes unrhyw ffordd o sicrhau bod pobl sydd yn anabl dros dro yn gallu cael bathodyn glas, heb iddynt allu eu cadw pan nad oes arnynt eu hangen.

**Lindsay Whittle:** We are all aware of the aim of Disabled Children Matter Wales campaign. What assurances can you give that the Welsh Government will make the support of disabled children and young people a priority over the next three years?

**The First Minister:** Families with disabled children face particular pressures. I know that the Deputy Minister has strengthened the duty on local authorities to provide short breaks for disabled children and young people, their families and carers. More widely, our Families First programme has a

*disabilities in Wales. OAQ(4)0535(FM)*

**The First Minister:** We support the rights of disabled people to participate fully in society and to exercise the same choices as everyone else. Through our independent living project we are working to identify what further action we can take to achieve this.

**Paul Davies:** I am grateful to the First Minister for that response. Representations have been made to me by constituents about disability badges and the need for temporary blue badges for those who are disabled in the short term, as a result of illness or an accident. I am sure that you can appreciate that, in some circumstances, people do find it difficult to walk following serious surgery, and they need time to get better. Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to support people who are facing short-term disabilities or problems? Has the Welsh Government looked at the possibility of providing these people with temporary blue badges?

**The First Minister:** For people in this situation, it is important that facilities are available so that they can get over their surgery. A number of hospitals already do this. As for providing them with blue badges, what needs to be considered is how long they will be disabled; it is important that people do not have blue badges when they no longer need them—there are some in that category. I will write to the Member to see if there is any way of ensuring that people who are temporarily disabled get a blue badge without being able to keep it when they no longer need it.

**Lindsay Whittle:** Rydym i gyd yn ymwybodol o nod yr ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cefnogi plant a phobl ifanc anabl yn flaenoriaeth dros y tair blynedd nesaf?

**Y Prif Weinidog:** Mae teuluoedd sydd â phlant anabl yn wynebu pwysau penodol. Gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi cryfhau'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwyliau byr i blant a phobl ifanc anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Yn ehangach, mae ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn

distinct focus on disabled children, supported by additional funding.

canolbwyntio'n arbennig ar blant anabl, gyda chefnogaeth arian ychwanegol.

**Eluned Parrott:** The Multiple Sclerosis Society is holding a reception here tomorrow night on the issue of MS and employment. Getting access to specialist nurses, the right therapies and treatments is crucial in order to help people with MS stay in employment for longer and to enjoy a better quality of life for longer. There is huge variation between access to services in urban areas and rural areas in Wales. What is your Government doing to ensure that people living with MS in rural areas get access to the services that they need?

**Eluned Parrott:** Mae'r Multiple Sclerosis Society yn cynnal derbyniad yma nos yfory ar sglerosis ymledol a chyflogaeth. Mae cael mynediad at nyrsys arbenigol, y therapïau a'r triniaethau cywir yn hanfodol er mwyn helpu pobl sydd â sglerosis ymledol i aros mewn gwaith am gyfnod hwy ac i fwynhau bywyd o ansawdd gwell am gyfnod hwy. Mae amrywiaeth enfawr rhwng mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig yng Nghymru. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda sglerosis ymledol mewn ardaloedd gwledig yn cael mynediad at y gwasanaethau y maent eu hangen?

**The First Minister:** We would expect people living in rural areas to have a similar level of access to help and support as those living in urban areas. Of course, it is a matter for local authorities and local health boards to ensure that that happens.

**Y Prif Weinidog:** Byddem yn disgwyl i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael mynediad tebyg at help a chefnogaeth i bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Wrth gwrs, mater i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yw sicrhau bod hynny'n digwydd.

**Blaenoriaethau ar gyfer Creu Swyddi**

**Priorities for Job Creation**

***8. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddi. OAQ(4)0537(FM)*

***8 Jocelyn Davies:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for job creation. OAQ(4)0537(FM)*

**The First Minister:** We are committed to delivering sustainable growth and jobs.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi ymrwymo i sicrhau twf a swyddi cynaliadwy.

**Jocelyn Davies:** Capital investment is an important factor in job creation in many sectors. Will you outline all of the new funding options that you are currently considering?

**Jocelyn Davies:** Mae buddsoddi cyfalaf yn ffactor bwysig wrth greu swyddi mewn sawl sector. A wnewch amlinellu'r holl opsiynau ariannu newydd yr ydych yn eu hystyried ar hyn o bryd?

**The First Minister:** The Wales small and medium-sized enterprise investment fund was launched in March. The microbusiness loan fund will become operational later in the year. We have Finance Wales's JEREMIE fund, totalling £150 million. We have the £0.5 million digital development fund, the £25 million Welsh life sciences fund, the £2 million high potential starts project, the business start-up service, and many other projects.

**Y Prif Weinidog:** Cafodd y gronfa fuddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru ei lansio ym mis Mawrth. Bydd y gronfa fenthyciadau i ficrofusnesau yn dod yn weithredol yn ddiweddarach eleni. Mae gennym gronfa JEREMIE Cyllid Cymru sy'n werth £150 miliwn, y gronfa datblygu digidol sy'n werth £0.5 miliwn, cronfa gwyddorau bywyd Cymru sy'n werth £25 miliwn, y prosiect ar gyfer busnesau newydd sydd â photensial mawr sy'n werth £2 filiwn, y gwasanaeth dechrau busnes, a llawer o brosiectau eraill.

**Darren Millar:** First Minister, that was a long list, but one thing that you did not mention specifically was business rates. We know that there will be a discussion on business rates in the Chamber in the coming weeks, but can you tell us whether there will be any additional support within any new packages for small businesses, which are the backbone of the economy in Wales? If any one of them was able to have additional rate relief, it could be the difference between creating a job and not doing so.

**Darren Millar:** Brif Weinidog, roedd y rhestr honno yn un hir, ond un peth na sonioch amdano'n benodol oedd ardrethi busnes. Gwyddom y bydd trafodaeth ar ardrethi busnes yn y Siambr yn ystod yr wythnosau sydd i ddod, ond a allwch ddweud wrthym a fydd unrhyw gymorth ychwanegol mewn unrhyw becynnau newydd ar gyfer busnesau bach, sef asgwrn cefn economi Cymru? Pe byddai unrhyw un ohonynt yn gallu cael rhyddhad ardrethi ychwanegol, gallai olygu'r gwahaniaeth rhwng creu swydd neu beidio.

**The First Minister:** As the Member knows, there has been a review of business rates in Wales and the outcome of that review is being considered.

**Y Prif Weinidog:** Fel y gŵyr yr Aelod, bu adolygiad o ardrethi busnes yng Nghymru ac mae canlyniad yr adolygiad hwnnw yn cael ei ystyried.

**Effaith y Dirywiad Ariannol ar Deuluoedd**

**Impact of the Financial Downturn on Families**

***9. Sandy Mewies:*** *Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y dirywiad ariannol parhaus ar deuluoedd yng Nghymru. OAQ(4)0541(FM)*

***9. Sandy Mewies:*** *What assessment has the Welsh Government made of the impact the continued financial downturn is having on families in Wales. OAQ(4)0541(FM)*

**The First Minister:** We undertook and published an assessment of the social impacts of the downturn in 2009. We have since examined health impacts and the negative impact of welfare reforms on family income. We will continue to monitor the effects of the downturn on a continuing basis through research and official statistics.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaethom gynnal a chyhoeddi asesiad o effeithiau cymdeithasol y dirywiad yn 2009. Ers hynny, rydym wedi archwilio effeithiau'r diwygiadau lles ar iechyd a'u heffaith negyddol ar incwm teuluoedd. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiau'r dirywiad yn barhaus drwy ymchwil ac ystadegau swyddogol.

**Sandy Mewies:** Thank you for that answer. A survey concluded recently that almost 20% of UK citizens are finding it difficult to afford essentials such as food and energy bills. In Wales, Home-Start has reported a sharp increase in the number of families coming forward. In Flintshire, last year alone, Home-Start supported 72 families with 165 children, and this was before the latest news that the UK economy has shrunk still further. It is clear that Welsh families are suffering disproportionately, so, First Minister, I ask you to ensure that the Welsh Government continues to monitor this situation and does what it can to help and support these people.

**Sandy Mewies:** Diolch am eich ateb. Mae arolwg yn ddiweddar wedi dod i'r casgliad bod bron 20% o ddinasyddion y DU yn ei chael yn anodd fforddio pethau hanfodol fel bwyd a biliau ynni. Yng Nghymru, mae Home-Start wedi nodi cynnydd sydyn yn nifer y teuluoedd sy'n gofyn am gymorth. Yn sir y Fflint, y llynedd yn unig, rhoddodd Home-Start gymorth i 72 o deuluoedd gyda 165 o blant, ac roedd hyn cyn y newyddion diweddaraf bod economi'r DU wedi crebachu ymhellach. Mae'n amlwg bod teuluoedd Cymru yn dioddef yn anghyfartal, felly, Brif Weinidog, gofynnaf i chi sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn gwneud popeth posibl i helpu a chefnogi'r bobl hyn.

**The First Minister:** Indeed, I can give the Member that assurance. It is essential that we continue to monitor the effect of the downturn in order to shape our response to it.

**Y Prif Weinidog:** Yn wir, gallaf roi'r sicrwydd hwnnw i'r Aelod. Mae'n hanfodol inni barhau i fonitro effaith y dirywiad er mwyn llunio ein hymateb iddo.

**Mark Isherwood:** You referred to the impact of the financial downturn on health services, for example. In planning for future changes in demand on health services, what direction has the Welsh Government provided to local health boards regarding the development of their primary care strategies to deal with population growth forecasts in areas such as Flintshire, where there is concern regarding GP practices. This needs to be factored in to ensure that future supply meets that demand.

**Mark Isherwood:** Gwnaethoch gyfeirio at effaith y dirywiad ariannol ar wasanaethau iechyd, er enghraifft. Wrth gynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol yn y galw am wasanaethau iechyd, pa arweiniad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i fyrddau iechyd lleol o ran datblygu eu strategaethau gofal sylfaenol i ymdrin â rhagolygon twf yn y boblogaeth mewn ardaloedd fel sir y Fflint, lle y mae pryder ynghylch practisau meddygon teulu. Mae angen ystyried hynny i sicrhau bod y cyflenwad yn y dyfodol yn bodloni'r galw hwnnw.

**The First Minister:** We would expect LHBs to keep a close eye on population movements within their boundaries in order to ensure that the right level of service is available to the people who live there.

**Y Prif Weinidog:** Byddem yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol gadw llygad barcud ar symudiadau poblogaeth o fewn eu ffiniau er mwyn sicrhau bod y lefel gywir o wasanaeth ar gael i'r bobl sy'n byw yno.

**Lluoedd Arfog**

**Armed Forces**

***10. Joyce Watson:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru i filwyr sy'n gwasanaethau yn y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd. OAQ(4)0548(FM)*

***10. Joyce Watson:*** *Will the First Minister make a statement on Welsh Government support services for serving Armed Forces personnel, veterans and their families. OAQ(4)0548(FM)*

**The First Minister:** Our package of support for the armed forces community in Wales reaffirms our continuing commitment to their welfare and sets out the commitments made by the Welsh Government.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein pecyn cymorth ar gyfer cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru yn cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i'w lles ac yn nodi'r ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

**Joyce Watson:** Thank you for that answer. Last week, I had the honour of attending the Dan Collins memorial game in Cardigan Rugby Club alongside his friends and family. The tremendous support from those in Cardigan and across Wales in helping armed forces personnel, veterans and families was truly humbling, particularly their work to raise funds for services for serving personnel and veterans suffering from possible post-traumatic stress disorder. First Minister, will you join me in paying tribute to all of those involved for their hard work, dedication and commitment in ensuring that armed forces personnel and their families are provided with the vital support that they need and

**Joyce Watson:** Diolch am eich ateb. Yr wythnos diwethaf, cefais y fraint o fynychu'r gêm goffa ar gyfer Dan Collins yng Nghlwb Rygbi Aberteifi ochr yn ochr â'i ffrindiau a'i deulu. Roedd y gefnogaeth aruthrol gan bobl Aberteifi a phobl ar draws Cymru i helpu personél y lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd yn peri i rywun fod yn ostyngedig, yn enwedig eu gwaith i godi arian ar gyfer gwasanaethau i bersonél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr sy'n dioddef, o bosibl, o anhwylder straen wedi trawma. Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i dalu teyrnged i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u hymrwymiad i sicrhau bod personél y lluoedd

deserve?

arfog a'u teuluoedd yn cael y gefnogaeth hanfodol y mae arnynt ei hangen ac y maent yn ei haeddu?

**The First Minister:** Yes, I will. It is exceptionally important that not only the Government does its bit—and I believe that we are doing that—but also those who work in the third sector. I have seen some of the excellent work that they are carrying out.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae'n eithriadol o bwysig nad y Llywodraeth yn unig sy'n gwneud ei rhan—credaf ein bod yn gwneud hynny—ond hefyd y rhai sy'n gweithio yn y trydydd sector. Rwyf wedi gweld rhywfaint o'r gwaith rhagorol y maent yn ei wneud.

2.00 p.m.

**William Graham:** In describing the reasoning for a military covenant, the Ministry of Defence states that

**William Graham:** Wrth ddisgrifio'r rhesymau dros gael cyfamod milwrol, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn datgan:

'In putting the needs of the Nation and the Army before their own, they forego some of the rights enjoyed by those outside the Armed Forces. So, at the very least, British soldiers should always expect the Nation and their commanders to treat them fairly, to value and respect them as individuals, and to sustain and reward them and their families'.

Drwy roi anghenion y Genedl a'r Fyddin o flaen eu rhai eu hunain, maent yn hepgor rhai o'r hawliau a gaiff eu mwynhau gan y rhai nad ydynt yn rhan o'r Lluoedd Arfog. Felly dylai milwyr Prydeinig bob amser o leiaf ddisgwyl i'r Genedl a'u rheolwyr eu trin yn deg, eu gwerthfawrogi a'u parchu fel unigolion, a sicrhau eu bod hwy a'u teuluoedd yn cael eu cynnal a'u gwobrwyo.

The Welsh Government has done much towards that, but will it commit to rewarding servicemen and veterans' families by providing free local bus travel, free swimming and free access to Cadw heritage sites?

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer i'r perwyl hwnnw, ond a wnaiff ymrwymo i wobrwyo milwyr a theuluoedd cyn-filwyr drwy ddarparu teithiau bws lleol am ddim, nofio am ddim a mynediad am ddim i safleoedd treftadaeth Cadw?

**The First Minister:** Let me outline what we are already doing for veterans. We continue to provide annual funding for the all-Wales veterans health and wellbeing service. We have extended the homebuy scheme to cover widows and widowers of personnel killed in action. We have made amendments to the disabled facilities grant means testing process to enable a disregard of war pensions. We have included veterans in the 10-year homelessness plan. We have ensured help through education. We have delivered automatic entitlement to blue badges for seriously injured service personnel. We have eased the application for concessionary travel for seriously injured service personnel by introducing automatic eligibility, and we are exploring the provision of free swimming for veterans and armed forces personnel on leave.

**Y Prif Weinidog:** Gadewch imi amlinellu'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud ar gyfer cyn-filwyr. Rydym yn parhau i ddarparu cyllid blynyddol ar gyfer y gwasanaeth iechyd a lles drwy Gymru gyfan i gyn-filwyr. Rydym wedi ymestyn y cynllun cymorth prynu i gynnwys gweddwon unigolion a gafodd eu lladd mewn brwydr. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r broses o brofi modd ar gyfer y grant cyfleusterau i'r anabl er mwyn sicrhau y gellir diystyru pensiynau rhyfel. Rydym wedi cynnwys cyn-filwyr yn y cynllun digartrefedd 10 mlynedd. Rydym wedi sicrhau help drwy addysg. Rydym wedi cyflwyno hawl awtomatig i fathodynnau glas ar gyfer unigolion yn y lluoedd arfog a anafwyd yn ddifrifol. Rydym wedi hwyluso'r broses o wneud cais am docynnau teithio rhatach i unigolion yn y lluoedd arfog a anafwyd yn ddifrifol drwy gyflwyno cymhwysedd awtomatig, ac rydym yn

ystyried cynnig nofio am ddim i gyn-filwyr ac unigolion yn y lluoedd arfog sydd ar wyliau o'u dyletswyddau.

**Lindsay Whittle:** First Minister, the City and County of Swansea's local development plan is proposing that the Clydach War Memorial Hospital, built by public subscription, be converted into residential flats. The charity, Healing the Wounds, has asked for it to be allocated to it as a dedicated care centre for ex-service personnel and their families. Last week, your Minister for health agreed to meet the charity. First Minister, would you consider intervening to put a stop on the LDP's housing proposal and allow Healing the Wounds to set up this much-needed service?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, mae cynllun datblygu lleol Dinas a Sir Abertawe yn cynnig bod Ysbyty Coffa Clydach, a adeiladwyd drwy gyfraniadau cyhoeddus, yn cael ei thrawsnewid yn fflatiau preswyl. Mae'r elusen, Healing the Wounds, wedi gwneud cais i adeiladau'r ysbyty gael eu neilltuo iddi fel canolfan ofal bwrpasol ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd. Yr wythnos diwethaf, cytunodd eich Gweinidog iechyd i gyfarfod â'r elusen. Brif Weinidog, a fyddech yn ystyried ymyrryd i roi terfyn ar gynnig y cynllun datblygu lleol a chaniatáu i Healing the Wounds sefydlu'r gwasanaeth hwn y mae angen mawr amdano?

**The First Minister:** As any LDP can potentially be dealt with by Welsh Ministers, it would not be appropriate for me to comment on any individual LDP.

**Y Prif Weinidog:** Gan ei bod yn bosibl y gall Weinidogion Cymru ymdrin ag unrhyw gynllun datblygu lleol, ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau ar unrhyw gynllun datblygu lleol unigol.

**E-ddemocratiaeth**

**E-democracy**

***11. David Melding:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu e-ddemocratiaeth. OAQ(4)0542(FM)*

***11. David Melding:*** *Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to promote e-democracy. OAQ(4)0542(FM)*

**The First Minister:** I am tempted to say that I will e-mail the Member with a response, but I can say that we fully support the growth of e-democracy as a way of allowing the citizens of Wales to engage with what we do here.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cael fy nhemtio i ddweud y byddaf yn anfon e-bost at yr Aelod gydag ymateb, ond gallaf ddweud ein bod yn llwyr gefnogi twf e-ddemocratiaeth fel ffordd o alluogi dinasyddion Cymru i ymgysylltu â'r hyn yr ydym yn ei wneud yma.

**David Melding:** First Minister, a Hansard Society report published last year commended your Government for mostly being ahead of the game in the UK and for establishing some best practice. However, on consultations, it said that the 'offerings are not particularly compelling'.

**David Melding:** Weinidog, roedd adroddiad Cymdeithas Hansard a gyhoeddwyd y llynedd yn canmol eich Llywodraeth am fod ar flaen y gad yn y DU ar y cyfan ac am sefydlu rhywfaint o arfer gorau. Fodd bynnag, o ran ymgynghoriadau, dywedodd nad oedd yr hyn a gynigiwyd yn arbennig o rymus.

I commend your Government's decision to issue more Green Papers, but having looked at them, I can see that you try to attract comments on them by the usual dull old method, where 15 questions are listed—it would have been posted out years ago—to

Rwy'n cymeradwyo penderfyniad eich Llywodraeth i gyhoeddi mwy o Bapurau Gwyrdd ond, o edrych arnynt, gallaf weld eich bod yn ceisio denu sylwadau arnynt drwy ddefnyddio'r hen ddull diflas arferol, lle rhestrir 15 o gwestiynau—byddent wedi

which people are invited to reply. Would it not be better if you did it a bit more as the media does on the internet, and had a blog article that poses one or two questions and invites comments in a more free and loose style, and where Members could even comment on the comments? We see this everywhere now, but you seem to be restricted to a way of consultation that is out of—

cael eu postio flynyddoedd yn ôl—y gwahoddir pobl i ymateb iddynt. Oni fyddai'n well pe byddech yn gwneud rhywbeth tebycach i'r hyn y mae'r cyfryngau yn ei wneud ar y rhyngrwyd, sef cael erthygl blog sy'n gofyn un neu ddau o gwestiynau ac yn gwahodd sylwadau mewn ffordd fwy rhydd a hamddenol, a lle gallai Aelodau hyd yn oed wneud sylwadau ar y sylwadau? Rydym yn gweld hyn ym mhob man yn awr, ond mae'n ymddangos eich bod wedi'ch cyfyngu i ffordd o ymgynghori sy'n—

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question, David Melding? [*Laughter.*]

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn, David Melding? [*Chwerthin.*]

**David Melding:** You seem to be restricted to a way of consultation that would have been used in the 1950s.

**David Melding:** Mae'n ymddangos eich bod wedi'ch cyfyngu i ffordd o ymgynghori a fyddai wedi cael ei defnyddio yn y 1950au.

**The First Minister:** I thank the Member for his statement. He raises an important point about how we engage—to use that dreaded word—with the public by using social media in an inclusive and comprehensive way. While I believe there is scope for using the methods to put forward a methodical consultation paper with a certain number of questions, we will always consider what scope there is to allow people to offer comments in an electronic way. I am sceptical of blogs and allowing people to comment on them, given that experience shows that you tend to have a lot of anonymous people blogging who will often say things that they would not dare to say to people's faces. So, I am not sure that that would necessarily be a step in the right direction.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelod am ei ddatganiad. Mae'n codi pwynt pwysig am y ffordd yr ydym yn ymgysylltu—i ddefnyddio'r gair erchyll hwnnw—gan fod y cyhoedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd gynhwysol a chynhwysfawr. Er fy mod yn credu bod lle i ddefnyddio'r dulliau hynny i gyflwyno papur ymgynghori trefnus gyda nifer penodol o gwestiynau, byddwn bob amser yn ystyried pa gwmpas sydd i alluogi pobl i gynnig sylwadau mewn modd electronig. Rwy'n amheus ynghylch blogiau a chaniatáu i bobl wneud sylwadau arnynt, gan fod profiad yn dangos eich bod yn tueddu i gael nifer o bobl yn blogio yn ddienw a byddant yn aml yn dweud pethau na fyddent yn meiddio ei ddweud i wynebau pobl. Felly, nid wyf yn siŵr y byddai hynny o reidrwydd yn gam i'r cyfeiriad cywir.

### Twf Economaidd

### Economic Growth

***12. Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r mesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau twf economaidd yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0546(FM)*

***12. Andrew R.T. Davies:** Will the First Minister outline measures that the Welsh Government is taking to ensure economic growth in South Wales Central. OAQ(4)0546(FM)*

**The First Minister:** Yes, those measures are to be found in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r mesurau hynny i'w cael yn y rhaglen lywodraethu.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb

answer, First Minister. Cardiff Council has decided recently to 'go back to the drawing board', in the words of a Cabinet member, in relation to plans for the central business district in Cardiff. The Welsh Government has a large stake in that, in that it has allocated a significant sum of its money for that project. Are you in a position, First Minister, to say how this delay or this 'back to the drawing board' approach that the council is taking could jeopardise the money that the Welsh Government has made available to the council, and what damage that could do to the overall project?

hwnnw, Brif Weinidog. Mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu'n ddiweddar i fynd yn ôl i'r cychwyn, fel y dywedodd aelod o'r Cabinet, mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer yr ardal fusnes ganolog yng Nghaerdydd. Mae'r mater hwn yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru, gan ei bod wedi neilltuo swm sylweddol o'i harian ar gyfer y prosiect hwnnw. A ydych mewn sefyllfa, Brif Weinidog, i ddweud sut y gallai'r oedi hwn neu ddull y cyngor o fynd yn ôl i'r cychwyn beryglu'r arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r cyngor, a pha niwed y gallai hyn ei wneud i'r prosiect yn gyffredinol?

**The First Minister:** The centre of Cardiff remains an enterprise zone and I have no doubt that Cardiff Council wants to take forward the economic wellbeing of the city, and to ensure that we attract more commercial firms into the centre.

**Y Prif Weinidog:** Mae canol Caerdydd yn parhau i fod yn ardal fenter ac nid oes gennyf amheuaeth bod Cyngor Caerdydd yn awyddus i fwrw ymlaen â'r gwaith o wella lles economaidd y ddinas, ac i sicrhau ein bod yn denu mwy o gwmnïau masnachol i ganol y ddinas.

**Vaughan Gething:** First Minister, you will be aware that transport infrastructure is essential to our economic growth prospects. I broadly welcome the warm tone of the comments we heard from the Secretary of State and the letter I have had from her deputy about rail electrification. However, there is continuing doubt about the extent to which the Secretary of State supports the full electrification of the Valleys lines, including Maesteg, Ebbw Vale and the Vale of Glamorgan, in particular avoiding the need for a double procurement exercise for diesel and electric train fleets as well as a double maintenance exercise. Therefore, First Minister, can you confirm the Government's continued position on the full electrification of the Valleys lines and the position that our colleagues in Parliament are taking to support the case for the whole Valleys lines network being electrified?

**Vaughan Gething:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod seilwaith trafnidiaeth yn hanfodol i'n rhagolygon ar gyfer twf economaidd. Rwy'n croesawu'n gyffredinol naws gynnes y sylwadau a glywsom gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r llythyr a gefais gan ei dirprwy am drydaneiddio'r rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae amheuaeth barhaus ynghylch i ba raddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn llawn, gan gynnwys Maesteg, Glyn Ebwy a Bro Morgannwg, yn enwedig gan osgoi'r angen am ddau ymarfer caffael ar gyfer fflydoedd o drenau disel a thrydan, yn ogystal â dau ymarfer cynnal a chadw. Felly, Brif Weinidog, a allwch gadarnhau safbwynt parhaus y Llywodraeth ynghylch trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn llawn a safbwynt ein cydweithwyr yn Senedd y DU i gefnogi'r achos dros drydaneiddio rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd yn llawn?

**The First Minister:** I can certainly confirm that the business case for electrification has been submitted, despite the impression that may have been given in this Chamber last week. The Government's view is quite simply this: we want to see electrification as far as Swansea and electrification of the Valleys lines in their fullest definition, which means Maesteg, Ebbw Vale and the Vale of

**Y Prif Weinidog:** Gallaf yn sicr gadarnhau bod yr achos busnes ar gyfer trydaneiddio wedi'i gyflwyno, er gwaethaf yr argraff y gellir fod wedi'i rhoi yn y Siambr hon yr wythnos diwethaf. Barn y Llywodraeth yn syml yw hyn: rydym am weld trydaneiddio cyn belled ag Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, gan ddefnyddio'r diffiniad ehangaf ohonynt, sy'n cynnwys

Glamorgan. Otherwise, we will end up in a situation where the through services that currently run from the various Valleys destinations to Barry and Penarth would have to stop at Cardiff Central because, of course, the traction would not exist to take them past Cardiff Central to Barry and Penarth. That would have a detrimental effect on the network.

Maesteg, Glyn Ebwy a Bro Morgannwg. Fel arall, byddwn mewn sefyllfa yn y pen draw lle byddai'n rhaid i'r gwasanaethau uniongyrchol sy'n rhedeg ar hyn o bryd o gyrchfannau amrywiol yn y Cymoedd i'r Barri a Phenarth orffen yng Nghaerdydd Canolog oherwydd, wrth gwrs, ni fyddai'r tyniant yn bodoli i fynd â'r trenau hynny heibio i Ganol Caerdydd i'r Barri a Phenarth. Byddai hynny'n cael effaith niweidiol ar y rhwydwaith.

**Cynllun Datblygu Gwledig**

**Rural Development Plan**

***13. Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Cynllun Datblygu Gwledig. OAQ(4)0549(FM)*

***13. Mark Isherwood:** Will the First Minister make a statement on the Rural Development Plan. OAQ(4)0549(FM)*

**The First Minister:** Yes, the preparation of the rural development plan for 2014 to 2020 is well under way.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r gwaith o baratoi'r cynllun datblygu gwledig ar gyfer 2014-2020 ar y gweill ers tro.

**Mark Isherwood:** Thank you. The current plan running to 2013 refers to renewable energy and exploiting opportunities and providing support for the installation of renewable energy technologies on farms, reducing farm dependency on external generation. However, it also talks about sustainability. Therefore, how would you respond to perhaps unforeseen consequences such as the proliferation of applications for single industrial turbines on farms on Anglesey, which are collectively causing some concern on the island, and to the so-far unique situation on the Mynydd Mynyllod windfarm near Corwen, which will be a test case for the whole of Wales, being the only onshore application in Wales entirely outside a TAN 8 area and for which the application will be decided at UK level?

**Mark Isherwood:** Diolch yn fawr. Mae'r cynllun presennol sy'n rhedeg hyd at 2013 yn cyfeirio at ynni adnewyddadwy, achub ar gyfleoedd a darparu cefnogaeth ar gyfer gosod technolegau ynni adnewyddadwy ar ffermydd, gan leihau dibyniaeth ffermydd ar gynhyrchu allanol. Fodd bynnag, mae hefyd yn sôn am gynaliadwyedd. Felly, sut y byddech yn ymateb i ganlyniadau annisgwyl o bosibl, fel gormod o geisiadau ar gyfer tyrbinau diwydiannol unigol ar ffermydd ar Ynys Môn, sydd gyda'i gilydd yn peri pryder ar yr ynys, a'r sefyllfa sydd hyd yn hyn yn unigryw ar fferm wynt Mynydd Mynyllod ger Corwen, a fydd yn achos prawf ar gyfer Cymru gyfan gan mai hwn yw'r unig gais yng Nghymru ar gyfer fferm wynt ar y tir sy'n gyfan gwbl y tu allan i ardal TAN 8 a bydd penderfyniad ar y cais yn cael ei wneud ar lefel y DU?

**The First Minister:** I cannot comment on individual planning applications, although I can say that I regret very much that that application will be decided in that way. By UK level, of course, he means England and Wales, and he means that it will be determined by English planning policy. Let us be absolutely accurate about this. It is a situation that we do not agree with. However, it is important that farmers are able to develop sources of microrenewable energy in order to supplement their incomes. I see

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf roi sylwadau ar geisiadau cynllunio unigol, er y gallaf ddweud fy mod yn gresynu'n fawr iawn y bydd y penderfyniad ar y cais yn cael ei wneud yn y ffordd honno. Drwy gyfeirio at lefel y DU, wrth gwrs, mae'n golygu Cymru a Lloegr, ac mae'n golygu y bydd y penderfyniad ar y cais yn seiliedig ar bolisi cynllunio Lloegr. Gadewch inni fod yn hollol glir am hyn. Nid ydym yn cytuno â'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ffermwyr yn gallu datblygu ffynonellau ynni

nothing wrong with that. It helps the environment and it helps farmers to put money in their pockets.

microadnewyddadwy er mwyn ychwanegu at eu hincwm. Ni welaf ddim o'i le ar hynny. Mae'n helpu'r amgylchedd ac mae'n helpu ffermwyr i roi arian yn eu pocedi.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Mae'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd wedi rhybuddio'n barod y bydd gostyngiad tebygol yn y gwariant ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae hefyd wedi rhybuddio gall fod gostyngiad yn y gwariant o gronfeydd Ewropeaidd cyffredinol ar raglenni a fyddai o fantais i'r amgylchedd naturiol a chadwraeth. A wnaiff ei Lywodraeth edrych eto ar y cydberthynas rhwng y rhaglenni hyn, yn enwedig gan fod yr Undeb Ewropeaidd yn pwysleisio bod angen astudio effaith rhaglenni ar y cyd ac y gallai hyn gael effaith ddifrifol ar y gwariant posib o'r cynllun datblygu gwledig yng Nghymru?

**Lord Elis-Thomas:** The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes has already warned that there is likely to be a reduction in expenditure on agri-environment schemes. He has also warned that there could be a reduction in expenditure from general European funds on programmes that would benefit the natural environment and conservation. Will his Government look again at the interrelationship between these programmes, particularly as the European Union is emphasising the need to study the impact of programmes jointly and given that this could have a serious impact on possible expenditure from the rural development plan in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn wastad yn sicrhau'r ddêl orau i Gymru. Mae llawer o reolau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'r gwahanol brosiectau'n cael eu symud ymlaen. Wrth gwrs, dydyn ni ddim yn gwybod eto beth fydd yr effaith gyffredinol ar gyllideb yr Undeb Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd, ond ein nod ni yw sicrhau bydd Cymru'n parhau i elwa o'r cynlluniau hyn sydd wedi cael eu creu dros y blynyddoedd diwethaf.

**The First Minister:** We always try to secure the best deal for Wales. There are many regulations that govern the way in which various projects are progressed. Of course, we do not yet know what the general impact on the budgets of the European Union and the European Commission will be, but our aim is to ensure that Wales continues to benefit from these schemes that have been created over the past few years.

### Maes Awyr Caerdydd

### Cardiff Airport

***14. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Maes Awyr Caerdydd. OAQ(4)0539(FM)*

***14. Mick Antoniw:*** *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's negotiations with regard to Cardiff Airport. OAQ(4)0539(FM)*

**The First Minister:** Yes. I issued a written statement about the airport task force this morning.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig am dasglu maes awyr Caerdydd y bore yma.

**Mick Antoniw:** I welcome very much the statement that has been made and the establishment of the airport task force. I think that we all see this as a very positive move. I also welcome the commitment given by the Government on the priority that you are giving to this matter, as demonstrated by the fact that you will be chairing the task force.

**Mick Antoniw:** Rwy'n croesawu'n fawr y datganiad a wnaed am sefydlu tasglu ar y maes awyr. Rwy'n meddwl ein bod oll yn gweld hyn fel cam cadarnhaol iawn. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i flaenoriaethu'r mater hwn, fel yr adlewyrchir gan y ffaith y byddwch yn cadeirio'r tasglu. A wnewch chi

May I just ask that you keep the Assembly informed as to these important developments that we hope will follow over the coming months?

sicrhau bod y Cynulliad yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau pwysig hyn yr ydym yn gobeithio a fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf?

**The First Minister:** Absolutely. I take some heart from the fact that the owners now seem to be taking this issue seriously. I look forward to working with them in order to develop the airport in future.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs. Mae’r ffaith bod y perchnogion yn awr fel pe baent yn cymryd y mater hwn o ddifrif yn galonogol i mi. Edrychaf ymlaen at weithio gyda hwy er mwyn datblygu’r maes awyr yn y dyfodol.

**Nick Ramsay:** I welcome your statement, First Minister, which is timely, given the question that was tabled today. I wish I had so much luck with the timing of written statements for my tabled questions.

**Nick Ramsay:** Croesawaf eich datganiad, Brif Weinidog, sy’n amserol, o ystyried y cwestiwn a gyflwynwyd heddiw. Byddai’n dda gennyf pe bawn yn cael cymaint o lwc o ran amseru datganiadau ysgrifenedig sy’n gysylltiedig â’r cwestiynau yr wyf yn eu cyflwyno.

Forgive my cynicism, First Minister, but this statement contains sentences such as, that you intend your new chaired taskforce to provide

Maddeuwch imi am fy sinigiaeth, Brif Weinidog, ond mae’r datganiad hwn yn cynnwys brawddegau megis eich bod yn bwriadu i’ch tasglu newydd ddarparu

‘better synergies, joint support and co-ordinated use of resources to achieve shared outcomes’.

‘gwell synergedd, cymorth ar y cyd a defnydd cydgysylltiedig o adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau a rennir’.

I am not necessarily a member of the Plain English Campaign, but I am still not entirely sure what that actually means on the ground. Will you tell us, First Minister, as far as outcomes go, why you will not simply give us an air strategy for Wales that would tie all of this together, rather than a random bunch of statements that conclude by saying:

Nid wyf o reidrwydd yn aelod o’r ymgyrch Saesneg clir, ond nid wyf yn hollol siŵr beth mae hynny’n ei olygu mewn gwirionedd ar lawr gwlad. A wnewch chi ddweud wrthym, Brif Weinidog, o safbwynt canlyniadau, pam na wnewch chi roi strategaeth awyr i Gymru a fyddai’n clymu hyn i gyd gyda’i gilydd, yn hytrach na chasgliad ar hap o ddatganiadau sy’n cloi drwy ddweud:

‘An initial meeting is in the process of being arranged.’?

‘Mae cyfarfod cychwynnol wrthi’n cael ei drefnu’?

Do you really think that the problems that the airport is suffering will be solved by this taskforce?

A ydych yn credu mewn gwirionedd y bydd y problemau y mae’r maes awyr yn eu dioddef yn cael eu datrys gan y tasglu hwn?

**The First Minister:** The difficulty for the Member is that his party was quite happy to see things bump along and passengers being lost at the airport, and they were critical of any attempt to resolve things and thought that any criticism of the airport was unfair. I have had a number of e-mails from users and airport staff supporting the position that the Government is taking. I will inform the Member exactly what we want. We put

**Y Prif Weinidog:** Yr anhawster i’r Aelod yw y bu ei blaid yn ddigon hapus i weld pethau’n llusgo yn eu blaen a theithwyr yn cael eu colli yn y maes awyr, ac roeddent yn feirniadol o unrhyw ymgais i ddatrys pethau ac yn meddwl bod unrhyw feirniadaeth o’r maes awyr yn annheg. Rwyf wedi cael nifer o negeseuon e-bost oddi wrth ddefnyddwyr a staff y maes awyr yn cefnogi safbwynt y Llywodraeth. Byddaf yn rhoi gwybod i’r

money on the table; we want the owners to do the same. In doing that, we can all work together to move the airport forward. If that cannot be done, there are alternative proposals on the table.

Aelod yn union beth yr ydym yn dymuno ei gael. Rydym yn rhoi arian ar y bwrdd; rydym am i'r perchnogion wneud yr un peth. Wrth wneud hynny, gallwn weithio gyda'n gilydd i symud y maes awyr yn ei flaen. Os na ellir gwneud hynny, mae cynigion amgen ar y bwrdd.

**Alun Ffred Jones:** As a regular user of Cardiff Airport, I would commend the staff for their work and the general amenities. What is missing, of course, is good and varied links to other European air hubs. There is also the poor quality of the public transport links between the airport and Cardiff and beyond. Will improving these aspects be part of the work that your group will be undertaking?

**Alun Ffred Jones:** Fel defnyddiwr rheolaidd o Faes Awyr Caerdydd, byddwn yn canmol y staff am eu gwaith a'r amwynderau cyffredinol. Yr hyn sydd ar goll, wrth gwrs, yw cysylltiadau da ac amrywiol â chanolfannau awyr Ewropeaidd eraill. Hefyd, ceir y mater o ansawdd gwael y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng y maes awyr a Chaerdydd a thu hwnt. A fydd gwella'r agweddau hyn yn rhan o waith eich grŵp?

**The First Minister:** Absolutely, it will. Increasing the number of flying routes out of Cardiff is important and increasing the transport links to the airport is also important. It is also important that we see commitment from the owners. We put money on the table. We spent two years trying to get European Commission approval for a funding package and, at that point, the owners decided that they were not going to invest the £21 million that they said they would. That was two years of work down the drain. We need to ensure that there is commitment and financial commitment in the short and medium term from the owners of the airport, and we will match that commitment financially, but we cannot do it all as Government. We need the owners to work with us as well.

**Y Prif Weinidog:** Bydd, yn sicr. Mae'n bwysig cynyddu nifer y llwybrau hedfan allan o Gaerdydd a chynyddu'r cysylltiadau trafnidiaeth i'r maes awyr. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gweld ymrwymiad gan y perchnogion. Rydym ni wedi rhoi arian ar y bwrdd. Rydym wedi treulio dwy flynedd yn ceisio cael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer pecyn cyllid ac, ar yr adeg honno, penderfynodd y perchnogion nad oeddent yn bwriadu buddsoddi'r £21 miliwn yr oeddent wedi dweud y byddent yn ei fuddsoddi. Aeth dwy flynedd o waith i lawr y draen. Mae angen inni sicrhau bod ymroddiad ac ymrwymiad ariannol yn y tymor byr a chanolig gan berchnogion y maes awyr, a byddwn yn cynnig arian i gyfateb â'r ymrwymiad hwnnw, ond ni allwn ni, fel Llywodraeth, wneud pob dim. Mae angen i'r perchnogion weithio gyda ni hefyd.

**Eluned Parrott:** First Minister, I also read your written statement with great interest this morning. With regard to negotiation and collaboration, it is vital that you are able to engage effectively with the airport's management. However, sadly, we have now lost the chief executive, Patrick Duffy, locally, who was doing an excellent job in difficult circumstances. Given that turmoil in the local situation, do you have a firm commitment from Abertis to engage with this taskforce?

**Eluned Parrott: B**rif Weinidog, darllenais eich datganiad ysgrifenedig gyda diddordeb mawr y bore yma hefyd. O ran cyd-drafod a chydweithio, mae'n hanfodol eich bod yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â rheolwyr y maes awyr. Fodd bynnag, yn anffodus, rydym wedi colli'r prif weithredwr, Patrick Duffy, yn lleol, a oedd yn gwneud gwaith ardderchog mewn amgylchiadau anodd. O gofio bod cythrwfl mewn perthynas â'r sefyllfa leol, a oes gennych ymrwymiad cadarn gan Abertis i ymgysylltu â'r tasglu hwn?

**The First Minister:** Yes, we do. Abertis, I

**Y Prif Weinidog:** Oes. Rwy'n credu bod

believe, is now taking the situation seriously, which is something that I applaud. As I have said before in this Chamber, there are other operators out there that are interested in the airport. It is frankly not fair on the people of Wales that the airport should be run as it is without improvement when there are others who would do a better job. Either the present owners do it—if they do, I applaud it—or they must consider their position and look at other owners who would come in and run it. I do not accept this argument that it is a private concern and, therefore, as a Government, we have no business in criticising it. I have not heard anything quite so ludicrous in all my time in politics. I am afraid that it came to the point where, when I was asking the owners what their plans were for the airport, there were far too many shrugs of the shoulders and far too many answers along the lines of, 'There is nothing we can do; it is inevitable that it will go into decline'. I cannot accept that as First Minister. I welcome the change of heart from the owners, and I welcome the work that the taskforce will take through.

Abertis yn awr yn cymryd y sefyllfa o ddifrif, ac rwy'n cymeradwyo hynny. Fel y dywedais o'r blaen wrth y Siambr hon, mae gweithredwyr eraill sydd â diddordeb yn y maes awyr. A dweud y gwir, nid yw'n deg ar bobl Cymru bod y maes awyr yn cael ei redeg fel y mae, heb gael ei wella, pan fo gweithredwyr eraill a fyddai'n gwneud y gwaith yn well. Naill ai bydd y perchnogion presennol yn gwneud hynny—a byddaf yn cymeradwyo hynny os bydd yn digwydd—neu bydd yn rhaid iddynt ystyried eu sefyllfa ac edrych ar berchnogion eraill a fyddai'n dod i mewn i redeg y maes awyr. Nid wyf yn derbyn y ddadl ei fod yn fater preifat ac, felly, fel Llywodraeth, nad ein lle ni yw ei feirniadu. Nid wyf wedi clywed unrhyw beth mor chwerthinllyd yn fy holl amser mewn gwleidyddiaeth. Mae arnaf ofn y daeth i'r pwynt lle, pan oeddwn yn gofyn i'r perchnogion beth oedd eu cynlluniau ar gyfer y maes awyr, roedd llawer gormod o godi ysgwyddau a llawer gormod o atebion ar hyd y llinellau, 'Nid oes unrhyw beth y gallwn ei wneud; mae'n anochel y bydd yn dirywio'. Ni allaf dderbyn hynny fel Prif Weinidog. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y perchnogion wedi newid eu meddwl, a chroesawaf y gwaith y bydd y tasglu yn ei wneud.

**Datblygu Chwaraeon**

**Sports Development**

***15. William Powell:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer datblygu chwaraeon yng Nghymru. OAQ(4)0550(FM)*

***15. William Powell:*** *Will the First Minister make a statement on his plans for sports development in Wales. OAQ(4)0550(FM)*

**The First Minister:** Our programme for government sets out our aims to widen participation in sports.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein rhaglen lywodraethu yn nodi ein bwriad i ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon.

**William Powell:** Thank you for that answer. During the recent British-Irish Parliamentary Assembly in Dublin, our delegation raised the prospect of a joint Celtic nations bid to host the UEFA Euro 2020 football championship. We raised that with the Irish Minister for Transport, Tourism and Sport, Leo Varadkar. He and Enda Kenny, the Taoiseach, were very supportive of that. Given the support that they showed and the subsequent formal expression of interest from the football associations of Ireland, Scotland and Wales, what concrete measures will the Government take to help to make that a

**William Powell:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Yn ystod y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig diweddar yn Nulyn, cyfeiriodd ein dirprwyaeth at y posibilrwydd y gallai'r cenhedloedd Celtaidd wneud cais ar y cyd i gynnal pencampwriaeth pêl-droed Euro 2020 UEFA. Rydym wedi sôn am hynny wrth Leo Varadkar, Gweinidog yr Iwerddon dros drafnidiaeth, twristiaeth a chwaraeon. Roedd ef ac Enda Kenny, y Taoiseach, yn gefnogol iawn o hynny. O ystyried y gefnogaeth y maent wedi'i dangos a'r mynegiant ffurfiol o ddiddordeb gan gymdeithasau pêl-droed yr Iwerddon, yr

reality?

Alban a Chymru a gafwyd ar ôl hynny, pa fesurau pendant y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i helpu i wireddu hynny?

2.15 p.m.

**The First Minister:** The Football Association of Wales has not approached us yet to discuss this issue. In some ways, I can understand that, because there was a need to put in an expression of interest in order to ensure that that interest was kept alive. Now work will have to be done to flesh out that expression of interest so that it becomes a firm bid in the future. As a matter of principle, we will be supportive of any bid by Scotland, Wales and the Republic of Ireland to host the tournament, and we are happy to sit down with the FAW to see what might be done in order to help.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi dod atom eto i drafod y mater. Mewn rhai ffyrdd, gallaf ddeall hynny, oherwydd bod angen cyflwyno datganiad o ddiddordeb er mwyn sicrhau bod y diddordeb hwnnw yn cael ei gadw yn fyw. Yn awr, bydd yn rhaid gweithio i atgyfnerthu'r datganiad o ddiddordeb er mwyn iddo ddod yn gynnig cadarn yn y dyfodol. Fel mater o egwyddor, byddwn yn gefnogol i unrhyw gais gan yr Alban, Cymru a Gweriniaeth Iwerddon i gynnal y twrnamaint, ac rydym yn hapus i gwrdd â'r gymdeithas i weld beth y gellid ei wneud i helpu.

**Darren Millar:** One very British sport that is played in north Wales in particular is crown green bowling, and, as a patron of the Welsh Crown Green Bowling Association, I would like to encourage the Welsh Government to invest more in the sport, which is an intergenerational sport, in that young people and old people are able to play it; it is one of those unusual sports. What support are you able to give crown green bowling to extend its development, particularly into south Wales?

**Darren Millar:** Un o'r chwaraeon sy'n Brydeinig iawn ei naws ac y cymerir rhan ynddo yn y gogledd yn arbennig yw bowlio lawnt gefngrom. A minnau'n noddwr i Gymdeithas Bowlio Lawnt Gefngrom Cymru, hoffwn annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mwy yn y gamp hon, sy'n pontio'r cenedlaethau, gan fod pobl ifanc a hen bobl yn gallu cymryd rhan ynddi; mae'n un o'r chwaraeon anarferol hynny. Pa gymorth y gallwch ei roi i fowlio lawnt gefngrom i ymestyn y broses o'i ddatblygu, yn enwedig i'r de?

**The First Minister:** I had the pleasure of opening a crown green bowling pavilion in the north last year, if I remember rightly. Crown green bowls is curious in the sense that it exists in the north of England and in north Wales and almost nowhere else. It is a very skilful game—I think that there is a nine-inch rise between the boundary of the green and the crown of the green. If the Welsh Crown Green Bowling Association, which I know exists, wishes to take forward any proposals that it has, the option is there for it to talk to Sport Wales. I cannot speak to what the bowling organisations in south Wales might make of any encroachment on their territory.

**Y Prif Weinidog:** Cefais y pleser o agor pafiliwn bowlio lawnt gefngrom yn y gogledd y llynedd, os cofiaf yn iawn. Mae bowlio lawnt gefngrom yn rhyfedd, yn yr ystyr ei fod yn bodoli yng ngogledd Lloegr ac yng ngogledd Cymru, ond nid yn unman arall, bron. Mae'n gêm y mae angen sgil i'w chwarae—rwy'n meddwl bod brig y lawnt naw modfedd yn uwch na ffin y lawnt. Os bydd Cymdeithas Bowlio Lawnt Gefngrom Cymru, sy'n bodoli, fe wn, yn dymuno datblygu unrhyw gynigion sydd ganddi, mae ganddi'r dewis o siarad â Chwaraeon Cymru. Ni allaf siarad am yr hyn y gallai cyrff bowlio de Cymru ei feddwl am unrhyw gamau i dresmasu ar eu tiriogaeth hwy.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have no changes to report to this week's planned business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Nid oes newidiadau i'w cyhoeddi ym musnes arfaethedig yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

**William Graham:** I thank the Leader of the House for her statement this afternoon. I ask that she bring forward a statement on road safety from her colleague the Minister for Local Government and Communities. The Minister will know well that this is a Wales-wide issue and that approximately five motorcyclists every week are killed or seriously injured on our roads in Wales. Over the last two weekends, there have been two fatal motorcycle accidents in South Wales East and there was another serious accident where an injured motorcyclist required transportation to hospital by helicopter. Our sympathies go out to those involved in those serious accidents. I would be grateful if the Minister would include in his statement how police forces are co-ordinating road safety, especially during the summer months when motorcycling is more prevalent.

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad y prynhawn yma. Gofynnaf iddi sicrhau bod ei chyd-Weinidog, y Gweinidog Llywodraeth a Chymunedau, yn gwneud datganiad am ddiogelwch ar y ffyrdd. Bydd y Gweinidog yn gwybod yn iawn fod hwn yn fater i Gymru gyfan, a bod tua phum beiciwr modur yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol bob wythnos ar ein ffyrdd yng Nghymru. Dros y ddau benwythnos diwethaf, cafwyd dwy ddamwain beic modur angheuol yn Nwyrain De Cymru, a chafwyd damwain ddifrifol arall, pan fu angen cludo gyrrwr beic modur a oedd wedi'i anafu i'r ysbyty mewn hofrennydd. Rydym yn cydymdeimlo â'r rhai a oedd yn y damweiniau difrifol hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn dweud yn ei ddatganiad sut y mae heddluoedd yn cydlynu diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf pan fo beicio modur yn fwy cyffredin.

**Jane Hutt:** I think that the Minister for transport, local government and with responsibility for police liaison will take this on board as an important statement that can be brought to the Assembly.

**Jane Hutt:** Rwy'n meddwl y bydd y Gweinidog dros drafnidiaeth a llywodraeth leol, sy'n gyfrifol hefyd am gyswllt â'r heddlu, yn ystyried hyn yn ddatganiad pwysig y gellir ei gyflwyno i'r Cynulliad.

**Julie Morgan:** Will the Minister in her role as the Minister for equalities make time for a statement about the composition of the new councils since the local government elections? In Cardiff, we have more councillors from ethnic minority groups, but it is still the case that only a third of Cardiff councillors are women.

**Julie Morgan:** A wnaiff y Gweinidog, yn rhinwedd ei rôl yn Weinidog dros gydraddoldeb, neilltuo amser ar gyfer datganiad am gyfansoddiad y cynghorau newydd ers yr etholiadau llywodraeth leol? Yng Nghaerdydd, mae gennym fwy o gynghorwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ond mae'n dal yn wir mai dim ond traean cynghorwyr Caerdydd sy'n fenywod.

**Jane Hutt:** It is important and welcome that the Local Government (Wales) Measure 2011

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig ac i'w groesawu fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

gave us the means to look at how we could improve representation in order to ensure that local government is fully representative of our society. Part of that was to bring in a survey that has to be undertaken by all authorities to get the full picture in terms of the backgrounds of the successful and the unsuccessful candidates. Local authorities will undertake that survey. I believe that the Equality and Human Rights Commission is also doing a report on this and I am sure that the Member for Cardiff North will also be interested to hear that we are funding the Women Making a Difference programme, which has supported and engaged women, including black and minority ethnic women, to come forward to stand for local government. Three women in Cardiff, one in Bridgend, one in Swansea and one in Treorchy came through that route. I am not sure whether they were successful, but it was an important development.

wedi ein galluogi i edrych ar sut y gallem wella cynrychiolaeth i sicrhau bod llywodraeth leol yn gwbl gynrychioliadol o'n cymdeithas. Roedd rhan o hynny'n ymwneud â chyflwyno arolwg y mae'n rhaid i bob awdurdod ei gwblhau i gael y darlun llawn o ran cefndir yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai aflwyddiannus. Bydd awdurdodau lleol yn cynnal yr arolwg hwnnw. Credaf fod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn gwneud adroddiad ar hyn, ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelod dros Ogledd Caerdydd am glywed ein bod yn ariannu rhaglen Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, sydd wedi cefnogi ac annog menywod, gan gynnwys menywod duon a lleiafrifoedd ethnig, i fod yn ymgeiswyr ar gyfer llywodraeth leol. Daeth tair menyw yng Nghaerdydd, un ym Mhen-y-bont ar Ogwr, un yn Abertawe, ac un yn Nhreorci drwy'r llwybr hwnnw. Nid wyf yn siŵr a fuont yn llwyddiannus, ond roedd yn ddatblygiad pwysig.

**Simon Thomas:** A yw Arweinydd y Tŷ yn bwriadu cynnal dadl yn amser y Llywodraeth ar blismona cyn bo hir a fydd yn gyfle i nifer o Aelodau fynegi eu pryderon am blismona yn eu hardaloedd lleol, a'r comisiynwyr a fydd yn cael eu hethol nes ymlaen eleni? Fy mhryder arbennig yn ardal Dyfed-Powys yw bod nifer o ddesgiau mewn swyddfeydd heddlu yn cael eu cau ar hyn o bryd. Mae saith yn cael eu cau, a hynny ar adeg y mae 130 heddwas yn cael eu gyrru i helpu plismona'r Gemau Olympaidd. Mae nifer o bobl yn cwestiynu'r blaenoriaethau yn yr ardal. Byddai dadl o'r fath o fudd i nifer o Aelodau wrth godi materion sy'n destun pryder iddynt.

**Simon Thomas:** Does the Leader of the House intend to hold a debate in Government time on policing before too long, which would be an opportunity for many Members to raise their concerns, about policing in their local areas and the commissioners that are due to be elected later this year? My particular concern in the Dyfed-Powys area is that a number of desks in police offices are being closed. Seven are being closed, and that at a time when 130 police officers are being sent to help police the Olympic Games. Many people are questioning the priorities in the area. Such a debate would be of benefit to many Members to raise issues that cause them concern.

**Jane Hutt:** I believe that the impact of the cuts—the equivalent of 1,600 police officers across Wales—is now beginning to be felt, and I am sure that the Minister, Carl Sargeant, will report on the impact of these cuts in due course. We need also to recognise that the Welsh Government is implementing through its programme of government the appointment of 500 new police community support officers.

**Jane Hutt:** Rwy'n credu bod effaith y toriadau—sy'n cyfateb i 1,600 o swyddogion yr heddlu ledled Cymru—yn dechrau dod i'r amlwg yn awr, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog, Carl Sargeant, yn adrodd yn ôl ar effaith y toriadau yn y man. Mae angen hefyd inni gydnabod bod Llywodraeth Cymru, drwy ei rhaglen lywodraethu, yn rhoi'r broses o benodi 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ar waith.

**Peter Black:** Minister, I understand that the Wales Audit Office is seeking to publish its report on the All Wales Ethnic Minority

**Peter Black:** Weinidog, caf ar ddeall fod Swyddfa Archwilio Cymru yn gobeithio cyhoeddi ei adroddiad ar Gymdeithas

Association before the end of the summer recess, raising the prospect of the report being buried, with very little discussion or scrutiny. Can you give an undertaking that, if that report comes out before we break for the summer, you will make an oral statement to the Chamber as soon as possible, so that we can scrutinise the contents of the report and the role of Ministers in the issues raised by it?

Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan cyn diwedd toriad yr haf; mae'n bosibl, felly, y bydd yr adroddiad yn cael ei gladdu, ac mai ychydig iawn o drafodaeth neu o waith craffu a fydd yn ei gylch. A allwch addo, os caiff yr adroddiad ei gyhoeddi cyn toriad yr haf, y byddwch yn gwneud datganiad llafar i'r Siambr cyn gynted ag y bo modd, fel y gallwn graffu ar gynnwys yr adroddiad a rôl Gweinidogion yn y materion y mae'n eu crybwyll?

**Jane Hutt:** As Peter Black rightly acknowledges, the timing of the completion of this report is a matter for the Wales Audit Office. I certainly hope that we will have it before the Assembly before recess, and we would then respond appropriately in terms of a response to the Chamber.

**Jane Hutt:** Fel y mae Peter Black yn cydnabod, yn gywir ddigon, mae amseriad y gwaith o gwblhau'r adroddiad hwn yn fater i Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf yn sicr yn gobeithio y bydd yn dod gerbron y Cynulliad cyn y toriad, a byddem wedyn yn ymateb yn briodol o ran rhoi ymateb i'r Siambr.

**Mark Isherwood:** I have two requests for statements. The first is on the Welsh Government's involvement with and positive support for the Welsh National Culinary Team. I know that the Welsh Culinary Association and the national culinary team have been grateful for the financial support of the Welsh Government over many years to raise the profile of Welsh food, drink and culinary excellence around the world, and I am sure that you will join me in welcoming the news that the association plans to enter senior and junior national culinary teams in this year's prestigious IKA/World Culinary Olympics, to be held in Germany in October. I am sure that you will agree that the chefs have helped to put Wales on the map with their culinary expertise. Could we therefore have a statement on how the Welsh Government proposes to continue with its crucial support of the teams in 2012-13?

**Mark Isherwood:** Mae gennyf ddau gais am ddatganiadau. Mae'r un cyntaf yn ymwneud â chyfranogiad Llywodraeth Cymru yn Nhîm Coginio Cenedlaethol Cymru, a'i chefnogaeth gadarnhaol iddo. Gwn fod Cymdeithas Goginio Cymru a'r tîm coginio cenedlaethol wedi bod yn ddiolchgar am y gefnogaeth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi dros nifer o flynyddoedd i godi proffil bwyd a diod Cymru a rhagoriaeth coginio Cymru ledled y byd. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi wrth groesawu'r newydd bod y gymdeithas yn bwriadu cyflwyno timau coginio cenedlaethol hŷn ac iau yng Ngemau Olympaidd Coginio'r Byd/IKA, a gynhelir yn yr Almaen ym mis Hydref. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod y cogyddion wedi helpu i roi Cymru ar y map gyda'u harbenigedd ym maes coginio. Felly, a allem gael datganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i roi ei chefnogaeth hanfodol i'r timau yn 2012-13?

Secondly, following today's Epilepsy Aware event at the Senedd, I call for a statement by the Welsh Government to update us on its support and proposals for people with epilepsy and their families. We must recognise and standardise good-quality care and effective practice, measure the true cost of epilepsy to families and communities, and respond to reduce the risk of epilepsy and its impact, noting that one in every 94 people in Wales has epilepsy, one in 10 of whom are

Yn ail, yn dilyn digwyddiad Ymwybyddiaeth Epilepsi yn y Senedd heddiw, galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i bobl sydd ag epilepsi a'u teuluoedd, a'r cynigion sydd ganddi ar eu cyfer. Rhaid inni gydnabod a safoni gofal o ansawdd da ac arferion effeithiol, mesur gwir gost epilepsi i deuluoedd a chymunedau, ac ymateb er mwyn lleihau'r risg o epilepsi a'i effaith, gan nodi bod un o bob 94 o bobl yng

under the age of 18.

Nghymru ag epilepsi, a bod un o bob 10 ohonynt o dan 18 oed.

**Jane Hutt:** I thank Mark Isherwood for the request for those two statements and updates from the Government. I am sure that we would all join him in congratulating the national culinary team; I am sure that we have all enjoyed the fruits of their skills at various occasions in the Senedd.

**Jane Hutt:** Diolch i Mark Isherwood am y cais am y datganiad a'r diweddariad gan y Llywodraeth. Rwy'n siŵr y byddem oll yn ymuno ag ef i longyfarch y tîm coginio cenedlaethol; rwy'n siŵr ein bod i gyd wedi mwynhau ffrwyth eu sgiliau ar wahanol adegau yn y Senedd.

We also recognise the event that was held here today; the Minister for Health and Social Services was clearly aware of that Epilepsy Aware event. We are working to ensure that not only prevention awareness, but engagement with those affected, is key in terms of our priorities.

Rydym hefyd yn cydnabod y digwyddiad a gynhaliwyd yma heddiw; roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlwg yn gwybod am ddigwyddiad Ymwybyddiaeth Epilepsi. Rydym yn gweithio i sicrhau bod nid yn unig ymwybyddiaeth ynghylch atal, ond ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt, yn allweddol o ran ein blaenoriaethau.

**Mick Antoniw:** Minister, not long ago, you issued a comprehensive report on the implications of regional pay for Wales, were it to be introduced. Could you provide us with a statement setting out what has happened since the report was issued, any responses you may have had from the UK Government, and what the next stages are in putting forward the arguments against regional pay?

**Mick Antoniw:** Weinidog, ychydig amser yn ôl, bu ichi gyhoeddi adroddiad cynhwysfawr ar oblygiadau tâl rhanbarthol ar gyfer Cymru, pe bai'n cael ei gyflwyno. A allech wneud datganiad inni yn nodi'r hyn sydd wedi digwydd ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, unrhyw ymatebion yr ydych efallai wedi'u cael gan Lywodraeth y DU, a'r camau nesaf o ran cyflwyno dadleuon yn erbyn tâl rhanbarthol?

**Jane Hutt:** I would be very happy to update Members on the follow-through from that important report by our chief economist, Jonathan Price, which has been well recognised and acknowledged across the UK and submitted to the UK Government. I am sure that many will have seen the statements made by the Royal College of Nursing in yesterday's *Western Mail*, stating its opposition to regional and local pay—the same views have been expressed across the Chamber. I would certainly like to update Members accordingly in a statement.

**Jane Hutt:** Byddwn yn hapus iawn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr hyn a ddaw yn sgîl yr adroddiad pwysig hwnnw gan Jonathan Price, ein prif economegydd, sydd wedi cael ei gydnabod yn adroddiad da ledled y DU, ac a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU. Rwy'n siŵr y bydd llawer o bobl wedi gweld y datganiadau a wnaed gan Goleg Brenhinol y Nyrsys yn y *Western Mail* ddoe, a oedd yn nodi ei wrthwynebiad i dâl rhanbarthol a lleol—mynegwyd yr un safbwyntiau ar draws y Siambr. Byddwn yn sicr yn hoffi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny i'r Aelodau mewn datganiad.

**Eluned Parrott:** The First Minister's written statement this morning on Cardiff Airport has generated a lot of interest in the Chamber this afternoon, and I feel sure that we could have come up with half an hour's worth of questions on the subject, had it been tabled as an oral statement rather than having been

**Eluned Parrott:** Mae datganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog y bore yma am Faes Awyr Caerdydd wedi ennyn llawer o ddiddordeb yn y Siambr y prynhawn yma, ac rwy'n sicr y gallem fod wedi gofyn digon o gwestiynau i lenwi hanner awr ar y pwnc hwn, pe bai datganiad llafar wedi'i gyflwyno yn hytrach

made as a written statement. Will you table time for us to give this information proper scrutiny and debate?

na bod datganiad ysgrifenedig wedi'i wneud. A wnewch neilltuo amser fel y gall y wybodaeth hon fod yn destun dadl a gwaith craffu priodol?

**Jane Hutt:** What is important is that the First Minister can lead this, as he is doing with his Cardiff Airport task group, in terms of the impact that can have on improving the relationship with the company and its delivery, and developing the partnership that we want to develop with it.

**Jane Hutt:** Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Prif Weinidog yn gallu arwain hyn, fel y mae'n gwneud yn achos ei grŵp gorchwyl ar Faes Awyr Caerdydd, o ran yr effaith y gall hynny ei chael ar wella'r berthynas â'r cwmni a'r modd y mae'n cyflawni, ac o ran datblygu'r bartneriaeth yr ydym yn dymuno ei datblygu â'r cwmni.

**Darren Millar:** I ask for a statement on housing standards in Wales. I took the opportunity to visit Ysgol Llanddulas in my constituency yesterday, and there was lots of discussion about all sorts of things, including the Eurovision song contest—particularly the Russian grannies and Engelbert Humperdinck—but one of the surprise items that was raised was the quality of rented housing in the private sector. The children presented me with a petition that I will formally present to the Petitions Committee, but it would be interesting to receive a statement from the Minister for Housing, Regeneration and Heritage on the proposals that he might have to extend the Welsh housing quality standard into the private sector.

**Darren Millar:** Gofynnaf am ddatganiad am safonau tai yng Nghymru. Achubais ar y cyfle i ymweld ag Ysgol Llanddulas yn fy etholaeth ddoe, a bu llawer o drafodaeth am bob math o bethau, gan gynnwys cystadleuaeth ganeuon Eurovision—yn enwedig y neiniau o Rwsia ac Engelbert Humperdinck. Un eitem a godwyd, a oedd yn peri syndod, oedd ansawdd tai ar rent yn y sector preifat. Cyflwynodd y plant ddeiseb imi y byddaf yn ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Deisebau, ond byddai'n ddiddorol cael datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth am y cynigion y bydd efallai'n gorfod ehangu safon ansawdd tai Cymru i'r sector preifat.

**Jane Hutt:** Darren Millar will have been here to hear the statement that the Minister for housing made in terms of the developments leading to the housing White Paper, which the Minister published and launched last week. That demonstrates that it is this Welsh Government that is taking action in terms of improving standards in the private rented sector, and, indeed, standards in terms of the letting agencies. The Welsh Government and the Minister for housing are leading in terms of improving these standards.

**Jane Hutt:** Byddai Darren Millar wedi bod yma pan wnaeth y Gweinidog dros dai ddatganiad am y datblygiadau sy'n arwain at y Papur Gwyn ynghylch tai, y gwnaeth y Gweinidog ei gyhoeddi a'i lansio yr wythnos diwethaf. Mae hynny'n dangos mai'r Llywodraeth hon yng Nghymru sy'n cymryd camau o ran gwella safonau yn y sector rhentu preifat, ac, yn wir, safonau o ran yr asiantaethau gosod. Mae Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog dros dai yn arwain o ran gwella'r safonau hyn.

**Aled Roberts:** Given the First Minister's response to Simon Thomas's question earlier regarding the report commissioned from Professor Steve Smith into the reconfiguration of the higher education sector in south-east Wales, and given the lack of a published business case with regard to the proposals, and the sensitivity of the issue for

**Aled Roberts:** O ystyried ymateb y Prif Weinidog i gwestiwn Simon Thomas yn gynharach ynglŷn â'r adroddiad a gomisiynwyd gan yr Athro Steve Smith ar ad-drefnu'r sector addysg uwch yn y de-ddwyrain, ac o ystyried y ffaith nad yw achos busnes wedi'i gyhoeddi ynghylch y cynigion, a sensitifrwydd y mater i staff a myfyrwyr yn

both staff and students at the institutions concerned, would the Government be willing to undertake that the report will be published as soon as possible?

y sefydliadau dan sylw, a fyddai'r Llywodraeth yn fodlon addo y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl?

**Jane Hutt:** I have nothing to add to the First Minister's response this afternoon.

**Jane Hutt:** Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at yr ymateb a roddodd y Prif Weinidog y prynhawn yma.

**Suzy Davies:** First of all, I would like to ask, developing Peter Black's theme, whether, when you are presenting information on AWEMA, you can give us an update any sooner on how third parties who have been working in financial partnership with AWEMA or sponsored by AWEMA are currently being supported during AWEMA's difficulties? Secondly, I ask for a statement from the Deputy Minister for Skills regarding curriculum development. It is over six months since he committed to considering making emergency life-saving skills a compulsory element of the school curriculum. I raised this matter three months ago, but I am afraid that I have not heard anything subsequently.

**Suzy Davies:** Yn gyntaf oll, gan ddatblygu thema Peter Black, hoffwn ofyn, pan fyddwch yn cyflwyno gwybodaeth am AWEMA, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am sut y mae trydydd partïon sydd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ariannol ag AWEMA neu a noddwyd gan AWEMA yn cael eu cefnogi yn ystod anawsterau AWEMA? Yn ail, gofynnaf am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau am ddatblygu'r cwricwlwm. Mae dros chwe mis wedi mynd heibio bellach ers iddo ymrwymo i ystyried sicrhau bod sgiliau achub bywyd brys yn elfen orfodol o gwricwlwm ysgolion. Crybwyllais y mater hwn dri mis yn ôl, ond mae arnaf ofn nad wyf wedi clywed dim ar ôl hynny.

**Jane Hutt:** We await the Wales Audit Office report on AWEMA, but I have been happy to respond not only to individual Members, but also more collectively, on the work that we are doing to protect those beneficiaries, and would be very happy to update you on that. We await the WAO report. I suggest that you raise questions on the curriculum issues with the Minister for Education and Skills during questions to him tomorrow.

**Jane Hutt:** Rydym yn aros am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar AWEMA, ond rwyf wedi bod yn hapus i ymateb nid yn unig i Aelodau unigol, ond yn fwy ar y cyd, ynglŷn â'r gwaith yr ydym yn ei wneud i ddiogelu'r buddiolwyr hynny, a byddwn yn hapus iawn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynny. Rydym yn aros am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Rwy'n awgrymu eich bod yn gofyn cwestiynau am faterion y cwricwlwm i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ystod y cwestiynau iddo yfory.

**Andrew R.T. Davies:** I endorse the comments of my colleague and South Wales Central Member, Eluned Parrott, in relation to the statement that was released today about Cardiff Airport. I have just looked at the attendee list and it is interesting to note that there is not one airline on that list of consultees or attendees for the task group. How on earth are you going to grow the airport if you are not having discussions with the airlines? I note that the First Minister is whispering something to you; perhaps you will be able to enlighten us.

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n ategu sylwadau fy nghyd-Aelod a'r Aelod dros Ganol De Cymru Eluned Parrott mewn perthynas â'r datganiad a gyhoeddwyd heddiw am Faes Awyr Caerdydd. Rwyf newydd edrych ar y rhestr o'r rhai a fydd yn cymryd rhan, ac mae'n ddiddorol nodi nad oes yr un cwmni awyrennau ar y rhestr honno o ymgyngoreion a'r rhai a fydd yn cymryd rhan. Sut yn y byd y byddwch yn peri i'r maes awyr dyfu os nad ydych yn cynnal trafodaethau â'r cwmnïau awyrennau? Sylwaf fod y Prif Weinidog yn sibrwd rhywbeth wrthych; efallai y byddwch yn gallu ein goleuo yn hyn o beth.

**Jane Hutt:** Clearly, there is interest across the Chamber in the Cardiff Airport task group, which is absolutely right. I, of course, have an interest as the local constituency Member as well. It is vital that we support the First Minister—that is the most important point that I would make—in his leadership in taking this forward with the appropriate partners and engaging as appropriate with those who will make Cardiff Airport the international airport of Wales, as it once was.

**Jane Hutt:** Yn amlwg, mae diddordeb ar draws y Siambr yng ngrŵp gorchwyl Maes Awyr Caerdydd, ac mae hynny'n hollol gywir. Mae gennyf fi ddiddordeb, wrth gwrs, gan mai fi yw'r Aelod etholaethol lleol hefyd. Mae'n hanfodol inni gefnogi'r Prif Weinidog—dyna'r pwynt pwysicaf yr hoffwn ei wneud—yn ei waith o arwain wrth fwrw ymlaen â hyn gyda'r partneriaid priodol ac ymgysylltu fel y bo'n briodol â'r rhai a fydd yn sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn faes awyr rhyngwladol Cymru, fel y bu ar un adeg.

## Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu
## Statement: The Programme for Government Annual Report

**The First Minister:** I am pleased to present my first annual report for this Assembly. It gives much more information than ever before. It sets out the progress that the Welsh Government is making in delivering the actions in the programme for government—actions that we believe will help to tackle the long-term challenges facing Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n falch o gyflwyno fy adroddiad blynyddol cyntaf yn y Cynulliad hwn. Mae'n rhoi llawer mwy o wybodaeth nag erioed o'r blaen. Mae'n nodi'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud wrth gyflawni'r camau gweithredu yn y rhaglen lywodraethu—camau y credwn a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu Cymru.

2.30 p.m.

It gives people statistics and analysis on the progress that Wales is making as a country on those long-term challenges in the context of wider national and international factors. In this way, the report puts transparency and accountability at the heart of what we do as a Government. This is because the people of Wales should know what their Government is doing on their behalf. It is also a self-discipline, which helps to focus the Welsh Government and our partners on delivery, and it is a mark of our commitment to deliver.

Mae'n rhoi ystadegau a dadansoddiad i bobl ar y cynnydd y mae Cymru'n ei wneud fel gwlad o ran heriau hirdymor yng nghyd-destun ffactorau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach. Fel hyn, mae'r adroddiad yn rhoi tryloywder ac atebolrwydd wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Llywodraeth. Mae hyn oherwydd dylai pobl Cymru wybod beth y mae eu Llywodraeth yn ei wneud ar eu rhan. Mae hefyd yn enghraifft o hunanddisgyblaeth, sy'n helpu Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i ganolbwyntio ar gyflawni, ac mae'n arwydd o'n hymrwymiad i gyflawni.

The economic and financial climate is extremely difficult. Jobs are our priority and we are doing all that we can to help right now. We have piloted Jobs Growth Wales successfully and we launched the full programme in April. We are tackling the barriers facing business by boosting capital spending as much as we can. For instance, our Wales economic growth fund has

Mae'r hinsawdd economaidd ac ariannol yn eithriadol o anodd. Ein blaenoriaeth yw swyddi ac yr ydym yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i helpu ar hyn o bryd. Rydym wedi treialu Twf Swyddi Cymru yn llwyddiannus a lansiwyd y rhaglen lawn ym mis Ebrill. Rydym yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu busnes drwy roi gymaint o hwb i wariant cyfalaf ag y gallwn.

committed over £30 million, levering in £91 million in capital investment. We have established the £100 million-worth Welsh life sciences fund to make Wales an even more attractive place in which to invest. Last week, we launched the Wales infrastructure investment plan to attract private capital investment.

Er enghraifft, mae ein cronfa twf economaidd i Gymru wedi ymrwymo dros £30 miliwn, gan ddenu £91 miliwn mewn buddsoddiad cyfalaf. Rydym wedi sefydlu cronfa gwyddorau bywyd Cymru, sy'n werth £100 miliwn, i wneud Cymru yn lle mwy deniadol nag erioed i fuddsoddi ynddo. Yr wythnos diwethaf, lansiwyd cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i ddenu buddsoddiad cyfalaf preifat.

Our scope for action would be much greater if the UK Government accepted the case for the Welsh Government to have the power to borrow for capital investment within defined limits. We need to be clear, however, that the action that we can take on the economy will mainly pay off in the long term, by strengthening Wales's economic fundamentals. This means, above all, raising our education and skills levels and making places in Wales highly attractive for business and highly skilled people.

Byddai ein cwmpas ar gyfer gweithredu yn fwy o lawer pe bai Llywodraeth y DU yn derbyn yr achos i Lywodraeth Cymru gael y pŵer i fenthyca ar gyfer buddsoddiad cyfalaf o fewn terfynau diffiniedig. Mae angen inni fod yn glir, fodd bynnag, y bydd y camau y gallwn eu cymryd ar yr economi yn talu ar eu canfed yn bennaf yn y tymor hir, drwy gryfhau hanfodion economaidd Cymru. Mae hyn, yn anad dim, yn golygu codi lefelau addysg a sgiliau a gwneud lleoedd yng Nghymru yn hynod ddeniadol ar gyfer busnes a phobl fedrus iawn.

Since 1999, the percentage of working-age adults qualified to level 2 and above and level 3 and above has risen faster in Wales than in any other country in the UK. However, we were starting from a low base and are still behind England and Scotland. The report sets out how we are redoubling our efforts to move ahead. We are driving forward our 20-point school improvement action plan, and, as part of that, our national literacy plan was published two weeks ago. The introduction of the foundation phase has been completed, and we are fulfilling our pledge to increase spending in Welsh schools by at least 1% above the UK Government block grant. We have also introduced the pupil deprivation grant to help to address the impact of deprivation on attainment. We are making progress in creating a stronger network of further education colleges, and we are working hard on expanding apprenticeships. We will be giving very close attention this coming year to helping young people who are not in education, employment or training.

Ers 1999, mae canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i lefel 2 ac uwch a lefel 3 ac uwch wedi codi'n gyflymach yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Fodd bynnag, roeddem yn dechrau o fan isel ac rydym yn dal y tu ôl i Loegr a'r Alban. Mae'r adroddiad yn nodi sut rydym yn dwysáu ein hymdrechion i symud ymlaen. Rydym yn bwrw ati ar ein cynllun gweithredu 20 pwynt i wella ysgolion, ac, fel rhan o hynny, cyhoeddwyd ein cynllun llythrennedd cenedlaethol bythefnos yn ôl. Mae'r gwaith o gyflwyno'r cyfnod sylfaen wedi'i gwblhau, ac rydym yn cyflawni ein haddewid i gynyddu gwariant yn ysgolion Cymru gan o leiaf 1% yn uwch na grant bloc Llywodraeth y DU. Rydym hefyd wedi cyflwyno'r grant amddifadedd disgyblion i helpu i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Rydym yn gwneud cynnydd o ran creu rhwydwaith cryfach o golegau addysg bellach, ac rydym yn gweithio'n galed ar ehangu prentisiaethau. Byddwn yn rhoi sylw agos iawn yn y flwyddyn i ddod i helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Our Wales infrastructure investment plan and the steps that we are taking to secure investment in broadband, transport, energy

Mae ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru a'r camau yr ydym yn eu cymryd i sicrhau buddsoddiad mewn band eang,

and science are all crucial to making Wales an attractive business location. The quality of life that we can offer and our environment are part of what makes Wales an attractive proposition. Getting our investment in places right will also help us to make the transition to a low-carbon economy. As part of this, we published in December the reprioritised national transport plan with a major programme of investment. Innovative partnership with local government and the private sector has also enabled us to take major strides towards our zero waste targets, through our waste procurement programme. We are backing our strategic agenda for science with £50 million to support investment in science research and development in Welsh universities, and we are making good progress towards an announcement on the results of the tender for broadband provision in Wales.

cludiant, ynni a gwyddoniaeth i gyd yn hanfodol i wneud Cymru'n lleoliad busnes deniadol. Mae'r ansawdd bywyd y gallwn ei gynnig, ynghyd â'n hamgylchedd, yn rhan o'r hyn sy'n gwneud Cymru yn gynnig deniadol. Bydd buddsoddi'n gywir mewn mannau hefyd yn ein helpu i newid i economi carbon isel. Fel rhan o hyn, gwnaethom gyhoeddi'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol wedi'i ail-flaenoriaethu ym mis Rhagfyr, gyda rhaglen sylweddol o fuddsoddiad. Mae partneriaeth arloesol gyda llywodraeth leol a'r sector preifat hefyd wedi ein galluogi i gymryd camau breision tuag at ein targedau o gael dim gwastraff, drwy ein rhaglen gaffael gwastraff. Rydym yn cefnogi ein hagenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth gyda £50 miliwn i gefnogi buddsoddiad mewn ymchwilio a datblygu gwyddoniaeth ym mhrifysgolion Cymru, ac rydym yn gwneud cynnydd da tuag at gyhoeddi canlyniadau'r tendr ar gyfer darpariaeth band eang yng Nghymru.

We are transforming our big public services to respond to rising expectations, while coping with financial constraints. Significant progress is being made in healthcare. There have been improvements in the rapid diagnosis and treatment of strokes, a continuing decline in hospital-acquired infections, and major falls in hospital waiting times. For instance, the number of people waiting over 36 weeks has been cut by 68% compared with the number in March 2011. The NHS delivery framework, published last autumn, sets out how we will drive further sustainable improvements. What this report also shows, however, is just how far Wales has to go in adopting healthy lifestyles.

Rydym yn trawsnewid ein gwasanaethau cyhoeddus mawr i ymateb i ddisgwyliadau cynyddol, wrth ymdopi â chyfyngiadau ariannol. Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ym maes gofal iechyd. Bu gwelliannau mewn cael diagnosis a thriniaeth gyflym ar gyfer strôc, gostyngiad parhaus mewn heintiau a geir mewn ysbytai, a chwymp mawr yn amseroedd aros ysbytai. Er enghraifft, mae nifer y bobl sy'n aros dros 36 wythnos wedi cael ei dorri 68% o'i gymharu â'r nifer ym mis Mawrth 2011. Mae fframwaith cyflawni'r GIG, a gyhoeddwyd hydref diwethaf, yn nodi sut y byddwn yn hybu gwelliannau cynaliadwy pellach. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn dangos hefyd yn union pa mor bell y mae'n rhaid i Gymru fynd o ran mabwysiadu ffyrdd iach o fyw.

Our fight to give every child the best start in life is especially important to tackling health and educational inequalities. Last December, we gave local authorities their indicative three-year financial allocations to expand the number of children benefitting from Flying Start. By 2013-14, there will be statutory integrated family support services providing a service across Wales.

Mae ein brwydr i roi cyfle i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd yn arbennig o bwysig o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac addysgol. Fis Rhagfyr diwethaf, gwnaethom roi dyraniadau ariannol dangosol dros dair blynedd i awdurdodau lleol i gynyddu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg. Erbyn 2013-14, bydd gwasanaethau cymorth statudol ac integredig i deuluoedd yn darparu gwasanaeth ledled Cymru.

We will soon be publishing our tackling poverty action plan, which will be driven forward by departments across the Welsh Government working together. We are ahead of schedule on our commitment to recruit 500 police community support officers, and all will be recruited, trained and deployed by September 2013. In addition, people are getting faster access to assessment and treatment for substance misuse. Underpinning this is the Welsh Government's five-year legislative programme, which is the most detailed presented since devolution. We are committed to delivering all the Bills in the legislative programme, and to consulting on the legislative proposals prior to their introduction into the Assembly.

Cyn hir, byddwn yn cyhoeddi ein cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi, a fydd yn cael ei hyrwyddo gan adrannau ar draws Llywodraeth Cymru sy'n cydweithio â'i gilydd. Rydym wedi gweithredu'n gynt na'r disgwyl o ran ein hymrwymiad i recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, a chaiff pob un ei recriwtio, ei hyfforddi a'i roi ar waith erbyn mis Medi 2013. Yn ogystal, mae pobl yn cael mynediad cynt at asesiad a thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Yn sail i hyn, dyma raglen ddeddfwriaethol bum mlynedd Llywodraeth Cymru, yr un fwyaf manwl a gyflwynwyd ers datganoli. Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno'r holl Filiau yn y rhaglen ddeddfwriaethol, ac i ymgynghori ar y cynigion deddfwriaethol cyn eu cyflwyno i'r Cynulliad.

In all areas, we are working to build confidence in Wales's future, because confidence, in so many ways, is the key to success for us as individuals, communities and as a country. However, if we are to move forward, we also need realism about the challenges that we face, what more needs to be done and how long action needs to be sustained if we are to achieve success. This annual report contributes hard evidence to help to inform mature discussion and debate on the key issues, so that we can build the wider shared understandings that are necessary to achieve our best as a country. I commend this report to you.

Ym mhob maes, rydym yn gweithio i gynyddu hyder yn nyfodol Cymru, gan mai hyder, mewn sawl ffordd, sy'n allweddol i'n llwyddiant ni fel unigolion, cymunedau a gwlad. Fodd bynnag, os ydym am symud ymlaen, mae angen bod yn realistig hefyd ynghylch yr heriau sy'n ein hwynebu, beth arall sydd angen ei wneud a pha mor hir y mae angen cynnal y camau hynny os ydym i lwyddo. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyfrannu tystiolaeth gadarn i helpu i lywio trafodaeth a dadl aeddfed ar y materion allweddol, fel y gallwn feithrin dealltwriaeth ehangach a rennir sy'n angenrheidiol inni gyflawni ein gorau fel gwlad. Cymeradwyaf yr adroddiad hwn i chi.

**Andrew R.T. Davies:** I thank the First Minister for his statement this afternoon. I note that the programme for government annual report runs to some 666 pages—the number of the beast, I believe—and that something has clearly gone wrong with the sunflower that appears on the front. The report is very detailed, but there are very few baseline projections. That is a criticism that we made last time, when you were outlining your programme for government to the Chamber. All that you have done in this report is galvanise all the spend, some £14.5 billion, and made the figures look as though a lot of activity is going on. However, when you look for improvements that people are seeing in their health service, the economy or

**Andrew RT Davies**: Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Nodaf fod adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraeth yn cynnwys 666 o dudalennau—rhif y diafol, credaf—a bod rhywbeth yn amlwg wedi mynd o'i le ar y blodyn yr haul sy'n ymddangos ar y blaen. Mae'r adroddiad yn fanwl iawn, ond nifer fach iawn o ragamcanion llinell sylfaen sydd. Roedd hynny'n feirniadaeth gennym y tro diwethaf, pan oeddech yn amlinellu eich rhaglen lywodraethu i'r Siambr. Y cyfan yr ydych wedi'i wneud yn yr adroddiad hwn yw cadarnhau'r holl wariant, sef tua £14.5 biliwn, a gwneud i'r ffigurau awgrymu bod llawer yn digwydd. Fodd bynnag, wrth chwilio am welliannau y gall pobl eu gweld

in education, you find that that activity is very thin on the ground. [*Interruption.*] I appreciate that the First Minister's deputy is chuntering on there. If he wishes to come in, that is fine and fair enough.

yn eu gwasanaeth iechyd, yr economi neu mewn addysg, gwelir mai ychydig iawn sy'n digwydd ar lawr gwlad. [*Torri ar draws*.] Rwy'n sylweddoli bod dirprwy'r Prif Weinidog yn grwgnach yn y fan acw. Os yw'n dymuno cyfrannu, mae hynny'n iawn ac yn ddigon teg.

We have supported the Department for Business, Enterprise, Technology and Science's scheme for enterprise zones, but, time and again, when we have looked for the detail, there is little or none available. I fully accept the point about the 1,000 jobs being created at St Athan, but that was nothing to do with the enterprise zone, because you were not able to say what would be on offer to businesses going there. It is now important for there to be some fleshing out of the Government's ideas, rather than for it to carry on with its public relations campaign from the centre.

Rydym wedi cefnogi cynllun yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer ardaloedd menter ond, dro ar ôl tro, ar ôl chwilio am y manylion, ychydig iawn sydd ar gael neu nid oes dim o gwbl. Rwy'n derbyn yn llwyr y pwynt am y 1,000 o swyddi sy'n cael eu creu yn Sain Tathan, ond nid oedd hynny'n ddim i'w wneud â'r ardal fenter, gan nad oeddech yn gallu dweud beth fyddai ar gael i fusnesau a fyddai'n mynd yno. Mae'n bwysig, bellach, ein bod yn rhoi cig ar esgyrn syniadau'r Llywodraeth, yn hytrach na gadael iddi barhau â'i hymgyrch cysylltiadau cyhoeddus o'r canol.

On the delivery unit, many people still do not understand what it is trying to drive across Government, given the lack of delivery with which the Government is engaged. In the section of the document on the economy, there are extensive comments about the importance of branding Wales as a positive and progressive country in which to invest, and yet the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has outlined how she believes the branding of Wales was gotten wrong in the past. This document does not touch on what actions the Government is taking to ensure that the brand of Wales is clearly understood by any businesses wishing to invest here.

O ran yr uned gyflawni, mae nifer o bobl o hyd nad ydynt yn deall beth y mae'n ceisio'i hyrwyddo ar draws y Llywodraeth, o ystyried y diffyg darpariaeth y mae'r Llywodraeth yn gysylltiedig â hi. Yn yr adran o'r ddogfen sy'n ymwneud â'r economi, mae sylwadau helaeth am bwysigrwydd brandio Cymru fel gwlad gadarnhaol a blaengar i fuddsoddi ynddi, ac eto mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi amlinellu sut y mae'n credu y bu gwaith brandio Cymru yn anghywir yn y gorffennol. Nid yw'r ddogfen hon yn cyffwrdd ar ba gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod brand Cymru yn cael ei ddeall yn glir gan unrhyw fusnesau sydd am fuddsoddi yma.

Week after week, we get initiative after initiative from the Government on education. Indeed, in one particular week, we had five statements from the Minister for Education and Skills. The education department has been in the control of Labour Party Ministers since devolution in Wales, and yet we have lamentable outcomes at secondary and primary level. That is because of the failure of successive Ministers to get to grips with the education portfolio in Wales—and that includes this Minister who has now been in post for two and a half years. Only last week, we had Estyn outlining basic numeracy and

Wythnos ar ôl wythnos, rydym yn cael menter ar ôl menter gan y Llywodraeth ar gyfer addysg. Yn wir, mewn un wythnos arbennig, cawsom bum datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Bu'r adran addysg o dan reolaeth Gweinidogion y Blaid Lafur ers datganoli yng Nghymru, ac eto mae canlyniadau ar lefel uwchradd a chynradd yn druenus. Mae hynny oherwydd methiant Gweinidogion olynol i fynd i'r afael â'r portffolio addysg yng Nghymru—ac mae hynny'n cynnwys y Gweinidog hwn a fu yn ei swydd am ddwy flynedd a hanner bellach. Yr wythnos diwethaf, er enghraifft,

literacy issues at key stage 3 and the improvements that are required. Yet, the Government fails to address this key stage 3 deficit that we have outlined. What key actions will the Government take to ensure that you improve skills at that difficult time, in key stage 3, so that pupils can go on to meet their full potential?

amlinellodd Estyn broblemau rhifedd a llythrennedd sylfaenol yng nghyfnod allweddol 3 a'r gwelliannau sydd eu hangen. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn methu mynd i'r afael â'r diffyg yng nghyfnod allweddol 3 a amlinellwyd gennym. Pa gamau gweithredu allweddol y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau eich bod yn gwella sgiliau yn ystod y cyfnod anodd hwnnw, yng nghyfnod allweddol 3, fel y gall disgyblion fynd ymlaen i gyrraedd eu llawn botensial?

On higher education mergers, the Minister seems to be bending to political will when you look at what has been going on in Glyndŵr University in the north, compared with what has been going on at Cardiff Metropolitan University. If the Government is to implement actions, it is important that it sees them through. Why are certain universities being targeted for special treatment when there is not an adherence to the recommendations of reports given to the Government?

O ran uno sefydliadau addysg uwch, ymddengys bod y Gweinidog yn plygu i ewyllys gwleidyddol pan edrychwch ar yr hyn a fu'n digwydd ym Mhrifysgol Glyndŵr yn y gogledd, o'i gymharu â'r hyn a fu'n digwydd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Os yw'r Llywodraeth am weithredu unrhyw gamau, mae'n bwysig ei bod yn eu cefnogi. Pam mae rhai prifysgolion yn cael eu targedu ar gyfer triniaeth arbennig pan na lynir wrth argymhellion adroddiadau a roddwyd i'r Llywodraeth?

The statement also touches on improvements within the big public services, but we know full well the actions relating to the All-Wales Ethnic Minority Association, for example, and the Government's relationships with key providers of services that the Government has sought to franchise out to the third sector. What action is the Government undertaking to ensure that such relationships are robust and that public money is protected, rather than see repetition after repetition of the AWEMA incident?

Mae'r datganiad hefyd yn cyfeirio at welliannau yn y gwasanaethau cyhoeddus mawr, ond rydym yn gwybod yn iawn am y camau gweithredu sy'n ymwneud â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, er enghraifft, a pherthynas y Llywodraeth â darparwyr gwasanaethau allweddol y mae'r Llywodraeth wedi ceisio eu rhyddfreinio i'r trydydd sector. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod cysylltiadau o'r fath yn gadarn a bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod, yn hytrach na'n bod yn gweld achos AWEMA yn cael ei ailadrodd drosodd a throsodd?

We have touched on the issue of the cancer drugs fund, and I believe that that is a key deficit in this Government's record: not delivering for patients in Wales. Waiting times within the NHS are another key failure: 120,000 more people are on NHS waiting lists today than when the First Minister came in in 2009. That is hardly addressing the key targets on which patients measure success in our health service.

Rydym wedi cyfeirio at y mater o gronfa cyffuriau canser, a chredaf fod hynny'n ddiffyg allweddol yn hanes y Llywodraeth hon: nid yw'n darparu ar gyfer cleifion yng Nghymru. Mae amseroedd aros o fewn y GIG yn fethiant allweddol arall: mae 120,000 yn fwy o bobl ar restrau aros y GIG heddiw nag oedd pan ddaeth y Prif Weinidog i'w swydd yn 2009. Prin iawn bod hynny'n mynd i'r afael â'r targedau allweddol y mae cleifion yn eu defnyddio i fesur llwyddiant ein gwasanaeth iechyd.

The First Minister closed with a point on

Gorffennodd y Prif Weinidog drwy gyfeirio

working to make Wales a progressive and dynamic country. We would celebrate that and work with the First Minister to ensure that we achieve it, but the posturing of his Government when trying to work with Westminster to develop a relationship does nothing to advance the cause of Wales. We have seen the £57 million investment in broadband from the Westminster Government, and yet the First Minister himself has outlined how that contract has slipped. It was due to be delivered by March, but it has still not been awarded. However, if we look at the two extremes of Estonia and Cornwall, we see them forging ahead with their IT provision. Where is the delivery from the First Minister on that front? Above all, we have the key decision over rail electrification. If the First Minister wants to lead a Government that constantly wants to posture and politicise, it will do no good at all in delivering the improvements that we need in Wales. While this statement is welcomed, it does not set a high ambition to deliver for the people of Wales what this First Minister and his Government have so far failed to deliver.

at weithio i wneud Cymru'n wlad flaengar a deinamig. Buasem yn dathlu hynny ac yn gweithio gyda'r Prif Weinidog er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni hynny, ond nid yw agwedd ei Lywodraeth wrth geisio gweithio gyda San Steffan ar feithrin perthynas yn gwneud dim i hyrwyddo achos Cymru. Rydym wedi gweld y £57 miliwn o fuddsoddiad mewn band eang gan Lywodraeth San Steffan, ac eto mae'r Prif Weinidog ei hun wedi amlinellu sut y mae'r contract hwnnw wedi llithro. Roedd disgwyl iddo gael ei gyflwyno erbyn mis Mawrth, ond mae'n dal heb ei ddyfarnu. Fodd bynnag, os edrychwn ar y ddau ben eithaf, sef Estonia a Chernyw, fe'u gwelwn yn bwrw ati i sicrhau eu darpariaeth TG. Sut mae'r Prif Weinidog yn cyflawni yn hynny o beth? Yn anad dim, mae angen gwneud y penderfyniad allweddol ynghylch trydaneiddio rheilffyrdd. Os yw'r Prif Weinidog am arwain Llywodraeth sydd am smalio a gwleidyddu'n gyson, ni fydd yn gwneud unrhyw ddaioni o gwbl o ran sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen arnom yng Nghymru. Er ein bod yn croesawu'r datganiad hwn, nid yw'n cyflwyno uchelgais i gyflawni dros bobl Cymru yr hyn y mae'r Prif Weinidog a'i Lywodraeth wedi methu eu cyflawni hyd yn hyn.

**The First Minister:** Is that it? Is that the best that the leader of the opposition can do? He startled badly, deteriorated, and then got even worse. By the end, he seemed to have transformed himself into the Secretary of State for Wales, going on and on about posturing and somehow trying to suggest that it was the fault of the Welsh Government that rail electrification is not taking place. The Secretary of State herself did not know that a business case had actually been submitted. He sits there as an apologist for her.

**Y Prif Weinidog:** Ai dyna'r cyfan? Ai dyna'r gorau y gall arweinydd yr wrthblaid ei wneud? Dechreuodd yn wael, dirywiodd, ac yna gwaethygodd. Erbyn y diwedd, roedd yn ymddangos fel pe bai wedi trawsnewid ei hun yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn mynd ymlaen ac ymlaen am smalio a rhywsut yn ceisio awgrymu mai Llywodraeth Cymru sydd ar fai am nad yw'r broses o drydaneiddio rheilffyrdd yn digwydd. Nid oedd yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun yn gwybod bod achos busnes wedi ei gyflwyno. Mae'n eistedd yno yn gwneud esgusion drosti.

Let us talk about some of the things that he mentioned. Let us come back to the cancer drugs fund. Is he really saying that, even though we spend more money on cancer drugs in Wales, we should take money from the budgets that pay for dementia drugs, diabetes drugs and MS drugs, and put more money again into cancer? If he is saying that, he should tell us which illnesses will have their funding suffer as a result of his

Gadewch inni siarad am rai o'r pethau y soniodd amdanynt. Gadewch inni ddod yn ôl at y gronfa cyffuriau canser. A yw o ddifri'n dweud y dylem, er ein bod yn gwario mwy o arian ar gyffuriau canser yng Nghymru, gymryd arian o'r cyllidebau sy'n talu am gyffuriau dementia, cyffuriau diabetes a chyffuriau MS a rhoi mwy o arian eto i ganser? Os yw'n dweud hynny, dylai ddweud wrthym cyllid pa salwch fydd yn dioddef o

suggestions, because the UK Government has put no extra money into the cancer drugs fund; it has simply taken it out of the NHS budget elsewhere.

ganlyniad i'w awgrymiadau, oherwydd nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw arian ychwanegol i mewn i'r gronfa cyffuriau canser; y cyfan y mae wedi'i wneud yw ei dynnu allan o gyllideb y GIG yn rhywle arall.

Our ambition on broadband is unmatched anywhere in the UK and our target, of ensuring that all people in Wales have access to a reasonable level of broadband by 2015, remains. That goes beyond what the UK Government is doing. He talks about waiting lists. What he does not understand is that the waiting list figures that he quoted include people who went to see the GP yesterday, or Friday or Thursday. Yes, more people are being referred to GPs for operations. That is a good thing. However, turning to waiting times, the reality is that they have come down in Wales, but he fails to understand how the figures are calculated.

Nid yw ein huchelgais ni ar gyfer band eang i'w weld yn unrhyw le yn y DU ac mae ein targed, i sicrhau bod yr holl bobl yng Nghymru yn cael mynediad at lefel resymol o fand eang erbyn 2015, yn parhau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Mae'n sôn am restrau aros. Yr hyn nad yw'n ei ddeall yw bod y ffigurau rhestrau aros a ddyfynnir ganddo yn cynnwys pobl a aeth i weld eu meddyg teulu ddoe, neu ddydd Gwener neu ddydd Iau. Oes, mae mwy o bobl yn cael eu dargyfeirio at feddygon teulu ar gyfer llawdriniaethau. Mae hynny'n beth da. Fodd bynnag, o ran amseroedd aros, y gwir yw eu bod wedi gostwng yng Nghymru, ond mae'n methu â deall sut mae'r ffigurau yn cael eu cyfrifo.

He talks about big public services and then mentions AWEMA, but it is not a big public service, to my mind. He implies that there is something fishy about the relationship between the Welsh Government and AWEMA. I can assure him that this is certainly not a replication of No. 10 and News Corp, with the inappropriate political relationship between Tory Ministers and the press, so if we want lessons, we will look elsewhere. The reality is that, through education, the national literacy plan and the work that we are putting in place to deal with those who are not in education, employment or training and those for whom we wish to ensure the best start in life through the Flying Start scheme, this Government is delivering.

Mae'n sôn am wasanaethau cyhoeddus mawr ac yna'n sôn am AWEMA, ond i mi, nid yw hwn yn wasanaeth cyhoeddus mawr. Mae'n awgrymu bod rhywbeth amheus am y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac AWEMA. Gallaf ei sicrhau nad yw hyn yn sicr yn ddyblygiad o'r hyn sy'n digwydd rhwng Rhif 10 a News Corp, sef y berthynas wleidyddol amhriodol rhwng Gweinidogion Torïaidd a'r wasg. Felly, os ydym am gael gwersi, byddwn yn edrych mewn mannau eraill. Y gwir yw bod y Llywodraeth hon yn cyflawni, drwy addysg, y cynllun llythrennedd cenedlaethol a'r gwaith yr ydym yn ei wneud i ymdrin â'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'r rhai yr ydym am sicrhau'r dechrau gorau iddynt drwy'r cynllun Dechrau'n Deg.

2.45 p.m.

We do not want free schools or the fragmentation of the education system; we want to ensure that we have an education system that is consistently good across the whole of Wales, as opposed to Government abdicating its responsibility, which is what is happening across the border in England.

Nid ydym am weld ysgolion rhydd na'r system addysg yn cael ei rhannu; rydym am sicrhau bod gennym system addysg sy'n gyson dda ledled Cymru, yn hytrach na Llywodraeth sy'n esgeuluso ei chyfrifoldeb, sef yr hyn sy'n digwydd dros y ffin yn Lloegr.

I am proud of this report. It does not run to

Rwy'n falch o'r adroddiad hwn. Nid yw'n

666 pages; there are more than that, but it is an interesting little line that he used. When he started off with that line, I thought that things could only get worse, but, in fairness to the leader of the opposition, he did not disappoint in that regard.

cynnwys 666 o dudalennau; mae mwy na hynny, ond roedd hynny’n gyfraniad diddorol ganddo. Pan ddechreuodd drwy ddweud hynny, roeddwn yn meddwl mai dim ond gwaethygu fyddai ei gyfraniad, ond, er tegwch i arweinydd yr wrthblaid, ni chawsom einn siomi yn hynny o beth.

**Christine Chapman:** I thank the First Minister for his statement today on how the Welsh Government, unlike the other parties across the Chamber, is going that extra mile in supporting the people of Wales.

**Christine Chapman:** Hoffwn ddiolch i’r Prif Weinidog am ei ddatganiad heddiw am sut y mae Llywodraeth Cymru, yn wahanol i’r pleidiau eraill yn y Siambr, yn mynd gam ymhellach wrth gefnogi pobl Cymru.

I want to touch on the issue of childcare. A recent report from the charity Daycare Trust calls for recognition of the important role childcare plays in allowing parents to take up and remain in work, thereby tackling child poverty. In its 2012 childcare cost survey it found that nursery costs have risen by 6% in the last year, which is significantly higher than the rate of inflation. It also highlights the effects of UK Government policy decisions on the ability of families to access childcare. This comes after the 2011 report, issued in partnership with Save the Children, which found that a quarter of parents in severe poverty had given up work and that a third had turned down a job because of high childcare costs.

Rwyf am sôn ychydig am ofal plant. Mae adroddiad diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd yn galw am gydnabod y rôl bwysig y mae gofal plant yn ei chwarae o ran caniatáu i rieni gael gwaith ac aros mewn gwaith, a thrwy hynny fynd i’r afael â thlodi plant. Yn ei arolwg o gost gofal plant yn 2012, canfu bod costau meithrin wedi codi 6% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy’n sylweddol uwch na’r gyfradd chwyddiant. Mae hefyd yn amlygu effeithiau penderfyniadau polisi Llywodraeth y DU ar allu teuluoedd i gael gafael ar ofal plant. Mae hyn yn dilyn adroddiad 2011, a gyhoeddwyd mewn partneriaeth ag Achub y Plant, a ganfu bod chwarter o rieni sydd mewn tlodi difrifol wedi rhoi’r gorau i weithio a bod traean wedi gwrthod swydd oherwydd costau uchel gofal plant .

There is clearly a need for good quality childcare. I welcome your statement’s reference to the progress made on expanding Flying Start, which includes childcare and which will target the poorest parents. However, I would like to ask what progress is being made by the Welsh Government on tackling the sometimes patchy provision of good quality, affordable childcare across Wales. We know that if we want to get parents back into work, a sufficient provision of quality childcare must be seen as one of those economic fundamentals that you referred to in your statement.

Mae’n amlwg bod angen gofal plant o ansawdd da. Rwy’n croesawu’r ffaith bod eich datganiad yn cyfeirio at y cynnydd a wnaed i ehangu Dechrau’n Deg, sy’n cynnwys gofal plant ac a fydd yn targedu’r rhieni tlotaf. Fodd bynnag, hoffwn ofyn pa gynnydd sy’n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru o ran mynd i’r afael â’r ffaith nad yw gofal plant fforddiadwy ac o safon ar gael ym mhob rhan o Gymru. Os ydym am gael y rhieni hynny i ddychwelyd i’r gwaith, mae’n rhaid ystyried bod gofal plant o safon yn un o’r hanfodion economaidd hynny y cyfeiriwyd atynt yn eich datganiad.

**The First Minister:** We know that the provision of good childcare is a way to ensure that people are raised out of poverty. The tackling poverty action plan will reinforce our commitment to giving children the best possible start in life. That means

**Y Prif Weinidog:** Gwyddom fod darparu gofal plant da yn ffordd o sicrhau bod pobl yn cael eu codi allan o dlodi. Bydd y cynllun gweithredu i fynd i’r afael â thlodi yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i roi’r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant. Mae

looking at all of the barriers that children and their parents face in order to give those children such a good start. We know that, from conception through to early adulthood, reducing inequalities at the earliest possible stage means that we break the link between socioeconomic disadvantage, educational underachievement and impaired life chances. That is why the action plan itself is a serious step forward in terms of making sure that we remove all of the barriers that we can to ensure that children get the right start in life.

hynny'n golygu edrych ar bob rhwystr y mae plant a'u rhieni'n eu hwynebu er mwyn rhoi dechrau cystal i'r plant hynny. O'r adeg y caiff plentyn ei genhedlu nes y bydd yn tyfu'n oedolyn ifanc, gwyddom fod lleihau anghydraddoldebau mor gynnar â phosibl yn golygu ein bod yn torri'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol, tangyflawni addysgol a diffyg cyfleoedd mewn bywyd. Dyna pam y mae'r cynllun gweithredu yn gam pwysig ymlaen o ran sicrhau ein bod yn cael gwared â phob rhwystr posibl i sicrhau bod plant yn cael y cychwyn iawn mewn bywyd.

**Leanne Wood:** The publication of annual progress reports is an essential part of the scrutiny process. The task of scrutiny may well have been helped if, as many people had expected, progress indicators had been made available within the original programme. It is not just us in Plaid Cymru who take this view; it is shared by commentators in the media, who also play an important part in the democratic scrutiny process.

**Leanne Wood:** Mae cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol yn rhan hanfodol o'r broses graffu. Byddai'r gwaith craffu wedi bod yn haws pe bai dangosyddion cynnydd wedi cael eu nodi yn y rhaglen wreiddiol, fel roedd llawer o bobl wedi'i ddisgwyl. Nid dim ond ni ym Mhlaid Cymru sy'n arddel y safbwynt hwn; mae sylwebyddion yn y cyfryngau o'r un farn, ac mae gan hwythau hefyd ran bwysig yn y broses graffu ddemocrataidd.

The programme contains a major commitment to reduce poverty and support the development of a fairer society, which is to be commended. Considering the headline commitment to tackle poverty, why has the Welsh Government failed to deliver a living wage throughout Wales in all sectors, as mentioned in its Assembly manifesto?

Mae'r rhaglen yn cynnwys ymrwymiad pwysig i leihau tlodi ac i helpu datblygu cymdeithas decach, ac mae hynny i'w ganmol. O ystyried y prif ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi, pam mae Llywodraeth Cymru wedi methu â darparu cyflog byw ledled Cymru ym mhob sector, fel y nodwyd yn ei maniffesto ar gyfer y Cynulliad?

The programme states that the Government will aim to mitigate the impact of the UK Government's Welfare Reform Act 2012. What does that mean if those on the lowest incomes will have to start to pay some form of council tax that they get benefit for now? Who would disagree with the desire for effective public services, a reduction in inequality or better health for all, which are the stated aims of the programme? They are fine words, but they mean nothing if the Government fails to deliver on them.

Mae'r rhaglen yn nodi y bydd y Llywodraeth yn anelu at liniaru effaith Deddf Diwygio Lles 2012 Llywodraeth y DU. Beth mae hynny'n ei olygu os bydd yn rhaid i'r rhai sydd ar yr incwm isaf ddechrau talu rhyw fath o dreth gyngor y maent yn cael budd-dal ar ei gyfer ar hyn o bryd? Pwy fyddai'n anghytuno â'r dymuniad i gael gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, llai o anghydraddoldeb neu iechyd gwell i bawb, sef yr amcanion a nodir yn y rhaglen? Maent yn eiriau gwych, ond nid ydynt yn golygu dim os bydd y Llywodraeth yn methu â'u cyflawni.

The First Minister once said that 'delivery' would be his watchword. We are still watching and we are still waiting. The Government has presented a whirlwind of data today for people to digest, but Plaid

Dywedodd Y Prif Weinidog un tro mai 'cyflawni' fyddai ei arwyddair. Rydym yn dal i wylio ac rydym yn dal i aros. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno corwynt o ddata heddiw i bobl gnoi cil arno, ond prif

Cymru's main question is: where is the substance? It is relatively easy to list all of the things that you want to do and all of the various indicators, but where is the sense of direction? When will we see a shift away from managerialism and towards confronting the serious challenges that our nation faces? We still look forward to seeing a game-changing moment, where the scale of the economic crisis is recognised and a serious plan is put together for the future of the Welsh economy. When will we see the outcomes that the people of this country deserve?

gwestiwn Plaid Cymru yw: ble mae'r sylwedd? Mae'n gymharol hawdd rhestru'r holl bethau rydych am eu gwneud a phob un o'r dangosyddion gwahanol, ond ble mae'r ymdeimlad o gyfeiriad? Pryd y byddwn yn eich gweld yn troi oddi wrth ddiwylliant reoli ac yn dechrau wynebu'r heriau difrifol sy'n wynebu ein cenedl? Rydym yn dal i edrych ymlaen at weld moment tyngedfennol, pan fydd maint yr argyfwng economaidd yn cael ei gydnabod a phan fydd cynllun difrifol yn cael ei lunio ar gyfer dyfodol economi Cymru. Pryd y byddwn yn gweld y canlyniadau y mae pobl y wlad hon yn eu haeddu?

**The First Minister:** First, I do not think that there can be any criticism of the detail of the report. It is more than 660 pages long—at least we can agree on that. There is no attempt to conceal anything. It provides a set of figures against which the success of this Government can be measured in the years to come. The leader of Plaid Cymru mentioned that media commentators have a view, but I am sure that the BBC does not have a view on this. However, it will certainly be possible next year to measure the Government's progress against the indicators in this year's annual report. That was always the intention and I am sure that people will be able to follow that.

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, nid wyf yn credu y gellir beirniadu manylder yr adroddiad. Mae'n fwy na 660 tudalen o hyd—o leiaf gallwn gytuno ar hynny. Nid oes ymgais i guddio unrhyw beth. Mae'n nodi set o ffigurau y gellir mesur llwyddiant y Llywodraeth hon yn eu herbyn yn y blynyddoedd i ddod. Soniodd arweinydd Plaid Cymru fod gan sylwebyddion yn y cyfryngau farn, ond rwy'n siŵr nad oes gan y BBC farn am hyn. Fodd bynnag, bydd yn sicr yn bosibl mesur cynnydd y Llywodraeth y flwyddyn nesaf yn erbyn y dangosyddion yn adroddiad blynyddol eleni. Dyna oedd y bwriad bob amser, ac rwy'n siŵr y bydd pobl yn gallu dilyn hynny.

A statement is being prepared by the Minister regarding the living wage, and that will be made to the Assembly in due course, outlining the good work that is being done in moving ahead with the minimum wage.

Mae'r Gweinidog yn paratoi datganiad am y cyflog byw, a bydd yn gwneud y datganiad hwnnw i'r Cynulliad maes o law, gan amlinellu'r gwaith da sy'n cael ei wneud i symud ymlaen â'r isafswm cyflog.

With regard to council tax, it is a difficulty for us as a Government to find £23 million at the drop of a hat when something has been thrown at us as a responsibility but with only 90% of the budget being devolved. It means that £23 million would have to come from somewhere else. The real difficulty for us is the question of where that money would come from. I have to say to the leader of Plaid Cymru that her party continues to willfully ignore, week after week in its press conferences, all of the things that have been done. I have to check the date of the transcript of the press conference just to make sure that it has that week's date, because it is the same press conference week

O ran y dreth gyngor, mae'n anodd i ni fel Llywodraeth ddod o hyd i £23 miliwn yn y fan a'r lle pan fo cyfrifoldeb wedi'i daflu atom a dim ond 90% o'r gyllideb wedi'i ddatganoli. Mae'n golygu y byddai'n rhaid i £23 miliwn ddod o rywle arall. Y gwir anhawster i ni yw penderfynu o ble y byddai'r arian hwnnw'n dod. Rhaid imi ddweud wrth arweinydd Plaid Cymru fod ei phlaid, o'r naill wythnos i'r llall yn ei chynadleddau i'r wasg, yn parhau i anwybyddu'n fwriadol, yr holl bethau sydd wedi' u gwneud. Rhaid imi edrych ar ddyddiad y trawsgrifiad o'r gynhadledd i'r wasg i wneud yn siŵr mai dyddiad yr wythnos honno sydd arno, oherwydd yr un

after week.

gynhadledd i'r wasg ydyw wythnos ar ôl wythnos.

The suggestion has been made that nothing has been done for the economy. I have outlined today, as I have done on other days, a large number of schemes, projects and funds that have been put in place to help businesses. If you feel that businesses are not happy with this, then I suggest that you talk to them. I can tell you that businesses are happy with what has been done as far as the Welsh Government is concerned. They would rather see more support from the UK Government, that much is true, but it is simply not true to say that, somehow, nothing has been done for the economy. I have outlined all of those projects that have been taken forward. There is no point having a go at us over council tax benefits; the fault lies with the UK Government in London. I wonder sometimes whether Plaid Cymru is in some sort of time warp and it still thinks that it is 2010. Attacking the Labour Party does not get you anywhere; have you not learned that yet from last year or this year? Therefore, my advice to the leader of Plaid Cymru would be: join us in order to ensure that we have ambition for Wales and in order to ensure that we stand up against the UK Government and its plans for Wales and the rest of the UK. We are more than happy to accept support from any party that takes that view.

Awgrymwyd nad oes dim wedi' i wneud i wella'r economi. Rwyf wedi amlinellu heddiw, fel rwyf wedi ei wneud ar ddiwrnodau eraill, bod nifer fawr o gynlluniau, prosiectau a chronfeydd wedi cael eu sefydlu i helpu busnesau. Os ydych yn teimlo nad yw busnesau yn hapus gyda hyn, rwy'n awgrymu eich bod yn siarad â nhw. Gallaf ddweud wrthych fod busnesau yn hapus â'r hyn sydd wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru. Byddai'n well ganddynt weld mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth y DU, mae hynny'n wir, ond nid yw'n wir dweud nad oes dim wedi'i wneud i wella'r economi. Rwyf wedi amlinellu'r prosiectau hynny sydd wedi'u datblygu. Nid oes diben cwyno wrthym ynghylch budd-daliadau'r dreth gyngor; Llywodraeth y DU yn Llundain sydd ar fai. Rwy'n meddwl weithiau fod Plaid Cymru yn byw yn y gorffennol ac yn dal i feddwl mai 2010 yw hi. Nid yw ymosod ar y Blaid Lafur yn cyflawni dim; onid ydych wedi dysgu hynny eto ers y llynedd neu eleni? Felly, fy nghyngor i arweinydd Plaid Cymru fyddai: ymunwch â ni er mwyn sicrhau bod gennym uchelgais ar gyfer Cymru ac er mwyn sicrhau ein bod yn sefyll yn erbyn Llywodreth y DU a'i chynlluniau ar gyfer Cymru a gweddill y DU. Rydym yn fwy na pharod i dderbyn cefnogaeth gan unrhyw blaid sy'n arddel y safbwynt hwnnw.

**Aled Roberts:** We welcome the publication of the annual report and the opportunity to discuss it this afternoon. I accept that we will be able to measure progress year on year. However, we feel that it is still missing any idea as to where this Government expects to be in 2016 as a result of the programmes that it has set out.

**Aled Roberts:** Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi a'n bod yn cael cyfle i'w drafod y prynhawn yma. Rwy'n derbyn y byddwn yn gallu mesur cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, rydym yn dal i deimlo nad yw'n cynnwys unrhyw syniad o ble mae'r Llywodraeth yn disgwyl bod yn 2016 o ganlyniad i'r rhaglenni y mae wedi'u nodi.

As Andrew R.T. Davies has already outlined, last year, we commented that the document was very pretty and, although the spin is that the document today contains more information, the reality is that this document is a collation of statistical information that, in the main, we have already received over the last months and years—from the Office for National Statistics in particular. What we do

Fel y mae Andrew R.T. Davies eisoes wedi amlinellu, y llynedd, nodwyd gennym fod y ddogfen yn ddeniadol iawn ac, er mai'r sbin yw bod y ddogfen heddiw yn cynnwys rhagor o wybodaeth, y realiti yw bod y ddogfen hon yn gasgliad o wybodaeth ystadegol yr ydym, ar y cyfan, eisoes wedi'i chael dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf—gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn arbennig.

not need in an annual report is a repackaging of Government statistics. It is a comprehensive package, and the First Minister should be congratulated on providing lots of statistics. However, what is really missing are targets. A smart Government would implement SMART performance indicators—targets that are specific, measurable, attainable, relevant and timely. However, given the Welsh Labour Government's aversion to scrutiny, as we suspected, there are no measurable targets in this document.

Nid oes arnom angen adroddiad blynyddol sy'n ailgyflwyno ystadegau'r Llywodraeth. Mae'n becyn cynhwysfawr, a dylid llongyfarch y Prif Weinidog am ddarparu nifer o ystadegau. Fodd bynnag, yr hyn sydd ar goll yw'r targedau. Byddai Llywodraeth glyfar wedi gweithredu dangosyddion perfformiad CAMPUS—targedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol. Fodd bynnag, o ystyried amharodrwydd Llywodraeth Lafur Cymru inni graffu ar ei gwaith, fel roeddem yn amau, nid oes targedau mesuradwy yn y ddogfen hon.

We accept that the main challenges facing the Government are the weak economy, underfunded schools and an NHS that is in dire need of reconfiguration. However, although we may be able to measure progress year on year, the Assembly cannot at present effectively scrutinise where all of this activity will take us by the end of this Assembly.

Rydym yn derbyn mai'r prif heriau sy'n wynebu'r Llywodraeth yw'r economi wan, tanariannu ysgolion a GIG y mae angen dybryd ei ad-drefnu. Fodd bynnag, er y byddwn yn gallu mesur cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall, ar hyn o bryd ni all y Cynulliad graffu'n effeithiol ar ble y bydd yr holl weithgarwch hwn yn mynd â ni erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

We welcome the creation of Jobs Growth Wales and we supported the budget because of the introduction of that scheme. However, we believe that the annual report fails to explain why this Government failed to introduce enterprise zones with any real sense of urgency. Can you commit to telling us when these enterprise zones will be up and running, and when will we know the detail of what they will offer?

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Twf Swyddi Cymru wedi'i greu a bu inni gefnogi'r gyllideb oherwydd bod y cynllun hwnnw wedi'i gyflwyno. Fodd bynnag, credwn nad yw'r adroddiad blynyddol yn egluro pam mae'r Llywodraeth hon wedi methu â chyflwyno ardaloedd menter gydag unrhyw ymdeimlad o frys gwirioneddol. A allwch ymrwymo i ddweud wrthym pryd y bydd yr ardaloedd menter yn weithredol, a phryd y byddwn yn cael manylion am yr hyn y byddant yn eu cynnig?

On underfunded schools, the reality is that most of the money going into schools is through the pupil premium. Can the Government, through this document, quantify how much additional money has gone to school budgets, apart from the money allocated in the pupil deprivation grant?

O ran tanariannu ysgolion, y realiti yw bod y rhan fwyaf o'r arian yn mynd i ysgolion drwy'r premiwm disgyblion. A all y Llywodraeth, drwy'r ddogfen hon, fesur faint o arian ychwanegol sydd wedi mynd i gyllidebau ysgolion, ar wahân i'r arian a ddyrannwyd drwy'r grant amddifadedd disgyblion?

The NHS is clearly the biggest challenge. This document again fails to outline how the Government's rhetoric is delivered on the ground. We were told month after month that the Government would not be bail out health boards. However, it has become clear in recent weeks that the bail-out was planned well in advance. How do you plan to ensure

Yn amlwg, y GIG yw'r her fwyaf. Unwaith eto, mae'r ddogfen hon yn methu ag amlinellu sut y mae rhethreg y Llywodraeth yn cael ei rhoi ar waith ar lawr gwlad. Dywedwyd wrthym o'r naill fis i'r llall na fyddai'r Llywodraeth yn achub croen y byrddau iechyd. Fodd bynnag, mae wedi dod yn amlwg yn ystod yr wythnosau diwethaf

that health boards do not overspend next year if they always believe that more money will be sent on to them? What would the £12 million have been spent on if it had not been used for a bail-out? There are concerns in north Wales that many of the savings achieved during this year have been made through non-recurrent funding arrangements. How will the Government ensure that savings are brought to the front line through proper reconfiguration of services, rather than the non-provision of services month on month?

bod y broses o achub croen wedi'i chynllunio'n bell o flaen llaw. Sut rydych yn bwriadu sicrhau nad fydd byrddau iechyd yn gorwario'r flwyddyn nesaf os ydynt bob amser yn credu y bydd rhagor o arian yn cael ei roi iddynt? Ar beth fyddai'r £12 miliwn wedi cael ei wario pe na bai wedi cael ei ddefnyddio i achub croen y byrddau iechyd? Mae pryderon yn y Gogledd fod nifer o'r arbedion a wnaed yn ystod y flwyddyn i'w priodoli i drefniadau ariannu anghylchol. Sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod arbedion yn cael eu dwyn i'r rheng flaen drwy ad-drefnuo gwasanaethau'n briodol, yn hytrach na thrwy beidio â darparu gwasanaethau o'r naill fis i'r llall?

The real concern, however, is that the Government's legislative programme is not set out properly to show how it will advance its agenda. For the first time, this Assembly is a body with a collection of elected representatives in Wales that has full law-making powers. We have a responsibility to ensure that we can use these new powers responsibly, maturely and effectively. Of the four Bills due to have been tabled by now, two are late. The cosmetic piercing Bill was due to be introduced shortly after the statement last year, but it is nowhere to be seen. The Food Hygiene Rating (Wales) Bill was promised at the end of 2011, and was introduced in May this year nearly six months late. With this record, we need confidence that Bills such as the environment Bill will be ready in the next six months as promised, that a social services Bill will be proposed by the end of the 2012, as promised; and that a planning Bill will be proposed by 2014 in time to be passed by this Assembly. As an effective opposition in all three party groups, we need some forward work plan with regard to how the Government will achieve its objectives, and, more importantly, so that we know where it wants to get to by the end of this term.

Y gwir bryder, fodd bynnag, yw nad yw rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth wedi'i osod allan yn gywir i ddangos sut y bydd yn datblygu ei hagenda. Am y tro cyntaf, mae'r Cynulliad hwn yn gorff sydd â chasgliad o gynrychiolwyr etholedig yng Nghymru sydd â phwerau deddfu llawn. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn gallu defnyddio'r pwerau newydd hyn yn gyfrifol, yn effeithiol ac mewn modd aeddfed. O blith y pedwar Bil y dylent fod wedi'u cyflwyno erbyn hyn, mae dau yn hwyr. Roedd y Bil tyllu cosmetig i fod i gael ei gyflwyno yn fuan ar ôl y datganiad y llynedd, ond nid oes golwg ohono. Addawyd Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ddiwedd 2011, ac fe'i cyflwynwyd ym mis Mai eleni, bron i chwe mis yn hwyr. Gyda'r record hwn, mae angen inni fod yn hyderus y bydd Biliau fel Bil yr amgylchedd yn barod yn ystod y chwe mis nesaf fel yr addawyd, y bydd Bil gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gynnig erbyn diwedd 2012, fel yr addawyd; ac y bydd Bil cynllunio yn cael ei gynnig erbyn 2014 mewn pryd i gael ei basio gan y Cynulliad hwn. Fel gwrthbleidiau effeithiol yn y tri grŵp plaid, mae angen rhywfaint o flaengynllun gwaith arnom o ran sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni ei hamcanion ac, yn bwysicach, fel ein bod yn gwybod lle mae'r Llywodraeth am gyrraedd erbyn diwedd y tymor hwn.

**The First Minister:** I thank the Member for his comments. As I have said before, it will be possible for members of the public to measure what we have done year on year by comparing us with the year previous. That is

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, bydd yn bosibl i'r cyhoedd fesur yr hyn rydym wedi'i wneud o'r naill flwyddyn i'r llall drwy gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

why we have published the figures that we have. The Member seemed to suggest that we have published too much information almost. We take that on the chin, and, if that is the case, we make no apologies for it. The target that we have is to do better year on year.

Dyna pam rydym wedi cyhoeddi'r ffigurau sydd gennym. Roedd yr Aelod fel pe bai'n awgrymu ein bod wedi cyhoeddi gormod o wybodaeth bron. Rydym yn fodlon derbyn hynny ac, os yw hynny'n wir, nid ydym yn ymddiheuro dim. Y targed sydd gennym yw gwneud yn well o'r naill flwyddyn i'r llall.

The Member asked what our plans were as a Government: they are to be found in our manifesto, and that is what any political party will do—outline its plans for a five-year term of government in a manifesto and then deliver on them. We are well on the way to doing that. It is also important that members of the public are able to measure what the Government is doing in more detail. That is why this annual report has been published.

Gofynnodd yr Aelod beth oedd ein cynlluniau fel Llywodraeth: maent i'w gweld yn ein maniffesto, a dyna beth fyddai unrhyw blaid wleidyddol yn ei wneud—amlinellu ei chynlluniau am gyfnod o bum mlynedd o lywodraeth mewn maniffesto ac yna eu rhoi ar waith. Rydym yn gwneud cynnydd da yn y cyswllt hwnnw. Mae hefyd yn bwysig bod y cyhoedd yn gallu mesur yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud mewn mwy o fanylder. Dyna pam mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i gyhoeddi.

With regard to enterprise zones, we now have clarity on the Deeside enterprise zone in terms of capital allowances. We still do not have clarity with regard to the others, and nor does Scotland for that matter. That will certainly help us in terms of putting forward a more comprehensive package, although it is right to say that enterprise zone groups have been brought together, for whom chairs have been appointed to move the enterprise zones forward.

O ran ardaloedd menter, mae sefyllfa ardal fenter Glannau Dyfrdwy o ran lwfansau cyfalaf yn awr yn glir. Nid yw sefyllfa'r gweddill yn glir eto, ac nid yw'r sefyllfa'n glir yn yr Alban chwaith. Yn sicr, bydd hynny'n ein helpu o ran cyflwyno pecyn mwy cynhwysfawr, er ei fod yn iawn dweud bod grwpiau ardaloedd menter wedi cael eu dwyn at ei gilydd a bod cadeiryddion wedi eu penodi i fwrw ymlaen â'r ardaloedd menter.

The Member mentioned the NHS and the £12 million given to local health boards. In the context of the NHS budget of some £6,000 million, it is a small amount of money; it is the equivalent of saying to someone 'I am going to lend you £6,000 and you pay me all of it back bar £1.20.' It is a small amount in the context that we are talking about here. What else should be done? The LHBs were given the task of coming in on budget, and they have more or less done so, apart from the small amount of money that they have asked for. What would the Member have us do—not give them the money? Is the Member suggesting that the money should not be given to the health service?

Soniodd yr Aelod am y GIG a'r £12 miliwn a roddwyd i fyrddau iechyd lleol. Yng nghyd-destun cyllideb y GIG, sef oddeutu £6,000 miliwn, mae'n swm bach o arian; mae'n gyfwerth â dweud wrth rywun 'Rwy'n mynd i fenthyg £6,000 ichi, talwch y swm i gyd yn ôl imi heblaw am £1.20.' Mae'n swm bach yn y cyd-destun hwn. Beth arall y dylid ei wneud? Gofynnwyd i'r byrddau iechyd aros o fewn eu cyllidebau, ac maent wedi gwneud hynny, mwy neu lai, ar wahân i'r swm bach o arian y maent wedi gofyn amdano. Beth y mae'r Aelod yn disgwyl inni ei wneud—peidio â rhoi'r arian iddynt? A yw'r Aelod yn awgrymu na ddylai'r arian gael ei roi i'r gwasanaeth iechyd?

3.00 p.m.

Given the efforts that it has made, this amount of money, which is small given the relative size of the health budget, is not

O ystyried yr ymdrechion y mae wedi'i wneud, nid yw'r swm hwn o arian, sy'n fach o ystyried maint cymharol y gyllideb iechyd,

something that we are particularly concerned about. It follows that, next year, the health service will be expected to come within budget again. It has made some fantastic progress on that.

yn rhywbeth yr ydym yn pryderu amdano yn arbennig. Mae'n dilyn y bydd disgwyl i'r gwasanaeth iechyd ddod o fewn y gyllideb unwaith eto flwyddyn nesaf. Mae wedi gwneud cynnydd gwych ar hynny.

I note with interest the Member's comments about the need for reconfiguration in the health service. I welcome those comments. Those are not views that are necessarily held across all parties in the Chamber, if I may put it that way. Nevertheless, it is a situation that we cannot avoid with regard to the future. He also mentioned the legislative programme. Bills have been introduced to the Assembly and there are further Bills that are out to consultation. When a Bill is proposed, there is a full consultation on the proposal, usually via a White Paper and, when that is concluded, a further consultation on the draft Bill. Then the Bill is introduced and it begins its formal progress through the Assembly. So, part of the issue is that it is a slow process. I do not criticise it, because, as a Government, we want to ensure that the Bills that we produce are properly scrutinised. Nevertheless, it is not possible to introduce Bills very quickly, because of the various stages that are gone through before a Bill becomes an Act. However, as in years gone by, the legislative programme was announced and we intend to ensure that the programme is delivered during the course of this Government's term.

Nodaf â diddordeb sylwadau'r Aelodau am yr angen i ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd. Rwy'n croesawu'r sylwadau hynny. Nid yw'r safbwyntiau hynny yn rhai sy'n cael eu rhannu ar draws pob plaid yn y Siambr o anghenraid, os caf ei roi felly. Serch hynny, mae'n sefyllfa na allwn ei hosgoi wrth edrych at y dyfodol. Soniodd hefyd am y rhaglen ddeddfwriaethol. Mae Biliau wedi cael eu cyflwyno i'r Cynulliad ac mae Biliau pellach yn destun ymgynghoriadau. Pan fydd Bil yn cael ei gynnig, cynhelir ymgynghoriad llawn ar y cynnig, fel arfer drwy Bapur Gwyn a, pan ddaw i ben, cynhelir ymgynghoriad pellach ar y Bil drafft. Yna bydd y Bil yn cael ei gyflwyno a bydd yn dechrau ei daith ffurfiol drwy'r Cynulliad. Felly, rhan o'r broblem yw ei bod yn broses araf. Nid wyf yn beirniadu hynny, oherwydd, fel Llywodraeth, rydym am sicrhau bod y Biliau yr ydym yn eu paratoi yn destun gwaith craffu priodol. Serch hynny, nid oes modd cyflwyno Biliau yn gyflym iawn, oherwydd y gwahanol gyfnodau y mae'n rhaid mynd drwyddynt cyn i Fil ddod yn Ddeddf. Fodd bynnag, fel yn y blynyddoedd a fu, cyhoeddwyd y rhaglen ddeddfwriaethol ac rydym yn bwriadu sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

**The Presiding Officer:** We have had a speaker from each of the parties now, so I request that the remaining speakers stick to questions only.

**Y Llywydd:** Rydym wedi cael siaradwr o bob un o'r pleidiau yn awr, felly gofynnaf i'r siaradwyr eraill gadw at gwestiynau yn unig.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, the programme for government has the bold aim of improving the quality of life in rural communities through employment opportunities, affordable housing, good access to public services and public transport and access to broadband. First Minister, if you meet people living and working in rural Wales they might be surprised that your Government claims to be making real progress on these areas. In your statement on the delivery unit, you said that you would deliver measurable and transparent targets.

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, mae'r rhaglen lywodraethu'n cynnwys nod beiddgar o wella ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig drwy gyfleoedd cyflogaeth, tai fforddiadwy, mynediad da i wasanaethau cyhoeddus a thrafnidiaeth gyhoeddus a mynediad at fand eang. Brif Weinidog, os ydych yn cwrdd â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru, efallai y byddant yn synnu bod eich Llywodraeth yn honni ei bod yn gwneud cynnydd gwirioneddol yn y meysydd hyn. Yn eich datganiad ar yr uned gyflawni, dywedasoch y

byddech yn cyflawni targedau mesuradwy a thryloyw.

First Minister, in relation to your programme for government and diversifying the rural economy, why is there no mention of technical advice note 6, which is the policy under which planning permission is provided for that diversification? Can you explain why only 14 rural enterprise dwellings have been built in the whole of Wales? There is not a single mention of TAN 6, and I fail to see where your transparent and measurable target is in relation to that. Perhaps you could enlighten us. Where are the transparent and measurable targets for microrenewables? Permitted development has long been allowed in England. Your Government has full devolved responsibility for projects under 50 MW. Can you explain why there are no permitted development rights and where that measurable target is in these 666 pages?

Brif Weinidog, o ran eich rhaglen lywodraethu ac arallgyfeirio'r economi wledig, pam nad oes unrhyw sôn am nodyn cyngor technegol 6, sef y polisi sy'n cwmpasu darparu caniatâd cynllunio ar gyfer yr arallgyfeirio hwnnw? A allwch chi esbonio pam mai dim ond 14 o anheddau mentrau gwledig sydd wedi cael eu hadeiladu dros Gymru gyfan? Nid oes unrhyw sôn am TAN 6, ac ni allaf weld lle mae eich targed tryloyw a mesuradwy mewn perthynas â hynny. Efallai y gallech egluro hyn inni. Ble mae'r targedau eglur a mesuradwy ar gyfer ddeunyddiau microadnewyddadwy? Mae hawl i ymgymryd â gwaith datblygu a ganiateir wedi bodoli ers amser hir yn Lloegr. Mae gan eich Llywodraeth gyfrifoldeb datganoledig llawn dros bbrosiectau o dan 50 MW. A allwch esbonio pam nad oes unrhyw hawliau datblygu a ganiateir a lle y mae'r targed mesuradwy hwnnw yn y 666 o dudalennau?

In relation to rural broadband, where are your measurable targets? How much did it cost to roll out the broadband that has been rolled out? What interim target are you setting yourself before 2015 against which we can measure the provision being made in rural areas? On rural transport, you talk about your continued commitment to the community transport concessionary fares initiative, certainly for the moment, although that is being reviewed by your Minister for Local Government and Communities. What transparent and measurable targets is it being assessed against?

O ran band eang gwledig, ble mae eich targedau mesuradwy? Faint oedd y gost o ymestyn y band eang sydd wedi cael ei gyflwyno? Pa darged dros dro yr ydych yn ei bennu i chi eich hun cyn 2015 y gallwn ei ddefnyddio i fesur y ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig? O ran trafnidiaeth wledig, rydych yn sôn am eich ymrwymiad parhaus i'r fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol, yn sicr am y tro, er bod hynny'n cael ei adolygu gan eich Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Pa dargedau tryloyw a mesuradwy a ddefnyddir i'w asesu?

**The First Minister:** I refer the Member to the answer that I gave some moments ago, namely that the way to measure the Government's progress is to examine the annual reports every year to see how the Government is doing by comparing it with the previous year. You mentioned TAN 6. TAN 6 is not the only TAN that affect rural Wales, and nor is it the TAN that will suddenly produce employment for rural Wales. That takes more effort. It also takes more effort from the UK Government to do that.

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais rai munudau yn ôl, sef mai'r ffordd o fesur cynnydd y Llywodraeth yw edrych ar yr adroddiadau blynyddol bob blwyddyn i weld sut mae'r Llywodraeth yn cyflawni drwy ei gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Soniasoch am TAN 6. Nid TAN 6 yw'r unig nodyn cyngor technegol sy'n effeithio ar Gymru wledig, ac nid hwnnw ychwaith yw'r nodyn cyngor technegol a fydd yn sydyn iawn yn creu cyflogaeth ar gyfer cefn gwlad Cymru. Mae hynny'n cymryd mwy o ymdrech. Mae hefyd yn cymryd mwy o ymdrech gan Lywodraeth y

DU i wneud hynny.

With regard to permitted development, we will always examine it in line with the Town and Country Planning (General Development Procedure) Order 1995, GDPO, to ensure it is fit for purpose. With regard to rural broadband, we have already given our target, which is 2015. That is something that is not being pursued elsewhere across the UK. We want ensure that people in rural Wales are not disadvantaged when it comes to accessing broadband services.

O ran datblygu a ganiateir, byddwn bob amser yn archwilio achosion yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. O ran band eang gwledig, rydym eisoes wedi pennu ein targed, sef 2015. Nid yw rhannau eraill o'r DU yn gweithio tuag at hynny. Rydym am sicrhau nad yw pobl yng nghefn gwlad Cymru o dan anfantais o ran cael mynediad at wasanaethau band eang.

She also made the extraordinary point that enterprise zones did not exist in rural areas. Trawsfynydd, to my mind, is fairly rural. The Haven Waterway and the one in the Vale are also at least semi-rural enterprise zones. The reality is that there is a limit to how many enterprise zones you can have before they become completely ineffective. We believe that we have the right number. Clearly, not every local authority in Wales can have an enterprise zone; there would far too many of them and they would be completely ineffective in their operation.

Gwnaeth hefyd y pwynt hynod nad oes ardaloedd menter yn bodoli mewn ardaloedd gwledig. Mae Trawsfynydd, yn fy marn i, yn eithaf gwledig. Mae Dyfrffordd Aberdaugleddau a'r un yn y Fro hefyd yn barthau menter sydd o leiaf yn lled-wledig. Y realiti yw bod terfyn ar faint o ardaloedd menter y gallwch eu cael cyn iddynt ddod yn gwbl aneffeithiol. Rydym yn credu bod gennym y nifer cywir. Yn amlwg, ni all pob awdurdod lleol yng Nghymru gael ardal fenter; byddai llawer gormod ohonynt a byddent yn gwbl aneffeithiol o ran eu gweithredu.

We have been steadfast in what we want to do to assist the people of rural Wales. One major issue is housing, of course, and that is why it is important that all local authorities allocate houses for their people to live in. We have set housing delivery targets of 7,500 additional affordable homes and 5,000 empty properties to be brought back into use during the term of our Government. Therefore, with regard to our delivery for the people of rural Wales, we have ensured that they are not being left behind when it comes to broadband and ensured that they are able to live the economic life that they deserve.

Rydym wedi bod yn ddiwyro o ran yr hyn rydym am ei wneud i helpu pobl cefn gwlad Cymru. Un broblem fawr yw tai, wrth gwrs, a dyna pam ei bod yn bwysig bod pob awdurdod lleol yn dyrannu tai i bobl fyw ynddynt. Rydym wedi pennu targedau darparu tai o 7,500 o dai fforddiadwy ychwanegol a 5,000 o eiddo gwag i ddod yn ôl i ddefnydd yn ystod tymor ein Llywodraeth. Felly, o ran ein darpariaeth ar gyfer pobl cefn gwlad Cymru, rydym wedi sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl o ran band eang a'u bod yn gallu byw'r bywyd economaidd y maent yn ei haeddu.

**Julie Morgan:** I thank the First Minister for his statement and for the efforts of his Government. Would the First Minister agree that this first year of his Government, covered by the annual report, has been largely dominated by surviving UK Government cuts and surviving the recession? He has indicated in his statement the importance of the UK Treasury's attitude to borrowing. What progress is being made to

**Julie Morgan:** Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad ac am ymdrechion ei Lywodraeth. A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod blwyddyn gyntaf ei Lywodraeth, a gwmpesir gan yr adroddiad blynyddol, wedi cael ei rheoli i raddau helaeth gan geisio groesi toriadau Llywodraeth y DU a goroesi'r dirwasgiad? Mae wedi nodi yn ei ddatganiad pa mor bwysig yw agwedd Trysorlys y DU tuag at

get the Treasury to lift the threat of cutting the annual grant if the Welsh Government comes up with innovative ways of borrowing in order to get the construction industry moving again and in order to get schools and houses built and people employed? Is any progress being made with the UK Government?

fenthyca. Pa gynnydd sy’n cael ei wneud o ran sicrhau bod y Trysorlys yn cael gwared ar y bygythiad o dorri’r grant blynyddol os bydd Llywodraeth Cymru yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o fenthyg er mwyn ysgogi’r diwydiant adeiladu i sicrhau bod ysgolion a thai yn cael eu hadeiladu a bod pobl yn cael eu cyflogi? A oes unrhyw gynnydd yn cael ei wneud gyda Llywodraeth y DU?

**The First Minister:** While we accept that we have a responsibility as a Government, what happens at UK level and beyond is bound to have an effect on what happens in Wales. It is inevitable that there will be a detrimental effect, both on revenue and, in particular, on capital budgets—if our budgets are slashed in the way that they are. That is unavoidable.

**Y Prif Weinidog:** Er ein bod yn derbyn bod gennym gyfrifoldeb fel Llywodraeth, mae’r hyn sy’n digwydd ar lefel y DU a thu hwnt yn sicr o gael effaith ar yr hyn sy’n digwydd yng Nghymru. Mae’n anochel y bydd yn cael effaith niweidiol ar refeniw ac, yn benodol, ar gyllidebau cyfalaf os bydd ein cyllidebau yn cael eu torri yn y modd y maent. Mae hynny’n anorfod.

With regard to the situation on borrowing, it is right to say that we have borrowing powers as a Government, but the difficulty is that, for every £1 that we borrow, it is taken from our capital budget, because we inherited those borrowing powers from the Welsh Development Agency.

O ran y sefyllfa fenthyca, mae’n iawn i ddweud bod gennym bwerau benthyca fel Llywodraeth, ond yr anhawster yw, am bob £1 rydym yn ei fenthyg, mae’n cael ei gymryd oddi ar ein cyllideb gyfalaf, oherwydd ein bod wedi etifeddu’r pwerau benthyca oddi wrth Asiantaeth Datblygu Cymru.

With regard to the situation with the Treasury, the question was posed earlier on by the leader of the opposition. He prevailed upon me not to posture and to work with the Wales Office. I simply ask rhetorically: what has the Wales Office actually delivered? We have had nothing on electrification, borrowing powers or even a Barnett floor. What can we say that the Wales Office has delivered? Yes, there was the Silk commission, but that was a remit written by us and agreed to by the Prime Minister, and that is pretty much it. The people of Wales are bound to ask the question: what has the Wales Office done for Wales? We have tried to work with the Wales Office where we can, but what are the results that have accrued as a result of that? It is right to say, as far as UK Treasury is concerned, that we want to see Wales in the same position as Scotland and Northern Ireland, and not to be disadvantaged. There is no reason why the people of Wales should be discriminated against, frankly, in that way, compared with the people of Scotland and Northern Ireland. We still want to see progress, especially

O ran y sefyllfa mewn perthynas â’r Trysorlys, gofynnwyd cwestiwn am hynny yn gynharach gan arweinydd yr wrthblaid. Roedd yn pwyso arnaf i beidio ag ymagweddu ac i weithio gyda Swyddfa Cymru. Gofynnaf gwestiwn rhethregol syml: beth y mae Swyddfa Cymru wedi’i gyflawni mewn gwirionedd? Nid ydym wedi cael unrhyw beth ar drydaneiddio, pwerau benthyca neu hyd yn oed derfyn isaf Barnett. Beth allwn ni ei ddweud y mae Swyddfa Cymru wedi ei gyflawni? Do, sefydlwyd y comisiwn Silk, ond ni ysgrifennodd y cylch gorchwyl a chytunodd Prif Weinidog y DU arno, a dyna oll, mwy neu lai. Mae’n anorfod y bydd pobl Cymru yn gofyn y cwestiwn: beth y mae Swyddfa Cymru ei wneud dros Gymru? Rydym wedi ceisio gweithio gyda Swyddfa Cymru lle y gallwn, ond beth yw’r canlyniadau a gafwyd o ganlyniad i hynny? Mae’n iawn i ddweud, cyn belled ag y mae Trysorlys y DU yn y cwestiwn, ein bod am weld Cymru yn yr un sefyllfa â’r Alban a Gogledd Iwerddon, ac i beidio â bod o dan anfantais. Nid oes unrhyw reswm pam y dylid gwahaniaethu yn erbyn pobl Cymru yn

regarding a Barnett floor and, in the longer term, progress with the Barnett formula. It is exceptionally important for us that we get co-operation from the UK Government, which means talking, as we do regularly, to the Prime Minister's office and to the Deputy Prime Minister. We know that, by talking to them, quite often, business is done.

y ffordd honno, o'i gymharu â phobl yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn parhau i fod yn awyddus i weld cynnydd, yn enwedig mewn perthynas â therfyn isaf Barnett ac, yn y tymor hwy, mewn perthynas â fformiwla Barnett. Mae'n eithriadol o bwysig i ni ein bod yn gweld Llywodraeth y DU yn cydweithredu, sy'n golygu siarad, fel yr ydym yn ei wneud yn rheolaidd, â swyddfa Prif Weinidog y DU a Dirprwy Brif Weinidog y DU. Rydym yn gwybod, yn aml iawn, bod busnes yn cael ei wneud drwy siarad â hwy.

**Alun Ffred Jones:** Wrth ystyried yr adroddiad hwn—a diolch amdano—nid wyf yn siŵr a ddylwn ei gymharu â'r nofel fawr Sbaenaidd *Don Quixote*, neu'r nofel o Iwerddon *Finnegans Wake*; os nad ydych wedi darllen honno, rhowch gynnig arni rywdro. Yn y bôn, mae'r diffyg targedau sydd ynghlwm â'r ddogfen hon yn ei thanseilio i raddau helaeth.

**Alun Ffred Jones:** In considering this report—and thank you for it—I am not sure whether to compare it with the great Spanish novel *Don Quixote*, or the Irish novel *Finnegans Wake*; if you have not read it, give it a try some time. Basically, the lack of targets associated with this document undermines it, to a great extent.

Rwyf am ganolbwyntio ar y materion sy'n ymwneud â'r economi yn bennaf, gan ddechrau â ffigurau alaethus y gwerth ychwanegol crynswth. Mae'r graff hwn yn dangos y gymhariaeth; nid oes llawer o wahaniaeth gyda phwy rydych yn ein cymharu, maent yn eithaf dychrynllyd. A yw'r Prif Weinidog yn fodlon ar ffigurau Cymru fel ag y maent ac a yw'n credu y bydd y rhaglen lywodraethu yn gwella'r ffigurau cymharol hynny? Beth yw ei fwriad dros gyfnod y Llywodraeth yn y cyfeiriad hwnnw?

I am mainly going to focus on economic matters, starting with the terrible gross value added figures. This graph shows the comparison; it does not matter with whom you compare us, they are fairly terrible. Is the First Minister happy with the figures as they stand for Wales, and does he believe that the programme for government will improve those comparative figures? What does he intend to do in that respect over this Government's term?

O safbwynt GVA, rydym wedi galw am gyhoeddi ffigurau GVA Cymru yn gyfredol â rhai Prydain. Am ryw reswm, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ein cefnogi yn hynny o beth. A gaf ofyn iddo pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cais hwnnw i ffigurau GVA Cymru gael eu cyhoeddi ar yr un pryd â rhai Prydain?

On GVA, we have called for the Welsh GVA figures to be published simultaneously with the British figures. For some reason, the Welsh Government did not support that. May I ask him why does the Welsh Government not support that request to have the Welsh GVA figures published simultaneously with the British figures?

Mae gennyf dri chwestiwn arall ynglŷn â'r economi ac mae dau ohonynt yn ymwneud ag incwm y pen. Fel rheswm dros y diffyg yng Nghymru, yn enwedig o'i gymharu â ffigurau incwm y pen yr Alban, mae'r Llywodraeth yn dweud yn yr adroddiad

I have three other questions on the economy, two of which are on per capita income. As a reason for the deficit in Wales, especially compared with the per capita income figures for Scotland, the Government says in the report that

'mae diffyg pwerau Llywodraeth Cymru dros drethi a budd-daliadau yn cyfyngu'n ddifrifol

'the Welsh Government's lack of powers over taxes and benefits severely limits our

ar ein dylanwad'

short-term influence over GDHI'.

dros incwm y pen. A wyf i gymryd felly eich bod o blaid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros drethi a budd-daliadau i ofal y Cynulliad er mwyn i ni gael symud materion ymlaen a gwella'n perfformiad yn y cyfeiriad hwn?

Am I, therefore, to take it that you are in favour of transferring responsibility for taxation and benefits to the Assembly, so that we can move forward and improve our performance in this respect?

Ar bwynt yr ydych wedi cyfeirio ato eisoes, wrth gymharu ffigurau'r Alban gyda ffigurau Cymru—mae'r Alban yn gwneud yn llawer gwell—mae'r Llywodraeth yn cynnig nifer o resymau posibl dros y gwahaniaeth hwn. Yn eu plith mae sgiliau gwell yn gyffredinol ymhlith poblogaeth yr Alban. Cyfeirir hefyd at well setliad Barnett. Felly, pam na wnaeth eich plaid newid fformiwla Barnett pan oedd mewn sefyllfa i wneud hynny yn Llundain? Dyna'r cwestiwn sylfaenol. Beth bynnag mae'r criw presennol yn ei wneud—a gallaf dderbyn eu bod yn gwrthod symud—pam na wnaeth y Blaid Lafur hynny pan oedd mewn sefyllfa i wneud hynny?

On a point to which you have already referred, in comparing the Scottish figures with the Welsh figures—Scotland is doing much better—the Government puts forward a number of potential reasons for the difference. Among those are the better skills levels, generally, among the Scottish people. Reference is also made to a better Barnett settlement. Therefore, why did your party not change the Barnett formula when it was in a position to do so in London? That is the fundamental question. Whatever the current lot does—and I accept that they are refusing to budge—why did the Labour Party not do it when it was in a position to do so?

A symud at y pwynt olaf, sef ynni drwy ffynonellau adnewyddadwy, mae graff cwbl ddibwynt ar dudalen 28 sy'n dangos y cynnydd sydd wedi bod. Mae'r Llywodraeth yn brolio y bu gwelliant rhwng 2004 a 2010 a bod cyfanswm yr ynni a ddaw o ffynonellau adnewyddadwy wedi cynyddu 60%. Mae hynny'n wir—mae wedi cynyddu o 3% o'r cyfanswm i 5%. Fodd bynnag, yr hyn na nodir yn yr adroddiad hwn yw bod y ffigur hwnnw 60% yn is na'r targed a osodwyd gan y Llywodraeth ar y pryd yn 2004. Mae absenoldeb y ffigurau cymharol hynny a'r diffyg cyfeiriad at y targed a osodwyd yn 2004 yn dweud cyfrolau wrthym am ansawdd a natur yr adroddiad hwn. Felly, a wnewch chi roi sylw ar y ffigurau hynny a pham fod y Llywodraeth wedi tangyflawni dros y cyfnod?

Moving to the final point—energy from renewable sources—there is a completely pointless graph on page 28, which shows the progress to date. The Government boasts that there was an improvement between 2004 and 2010 and that the total amount of energy generated from renewable sources increased by 60%. That is true—it has increased from 3% to 5% of the total. However, what is not included in this report is that that figure is 60% lower than the target set by the Government at the time in 2004. The absence of those comparative figures and the lack of reference to the target set in 2004 speaks volumes as regards the quality and nature of this report. Therefore, will you please focus on those figures and on why the Government has underperformed over that period?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn dweud nad oes targedau o gwbl ond mae sawl targed—ar iechyd, addysg a thai. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi sawl targed yr ydym eisiau anelu atynt. O ran GDP, mewn egwyddor, nid oes problem gan y Llywodraeth ynglŷn â chael ffigur GDP i Gymru. Mae problemau ymarferol i'w datrys, ond, mewn egwyddor, nid oes problem.

**The First Minister:** The Member says that there are no targets at all, but there are many targets—on health, education and housing. Over the last year, we have published a number of targets that we want to aim towards. On GDP, the Government has, in principle, no problem with having a GDP figure for Wales. There are practical issues to resolve but, in principle, there is no problem.

O ran incwm y pen, ni fyddai o les i bobl

In terms of per capita income, it would not be

Cymru weld pob math o drethi yn cael eu datganoli—rydym yn gwybod bod rhai yn cael eu trosglwyddo drwy'r system drethi i Gymru. Yn yr un ffordd â chyda budd-daliadau, byddem mewn sefyllfa lle byddai llai o arian gennym y pen i dalu budd-daliadau i'n pobl. Rydym wedi gweld hynny'n digwydd yn barod gyda budd-daliadau treth cyngor. Byddai hynny'n digwydd ond llawer yn waeth pe bai budd-daliadau yn cael eu datganoli.

beneficial for the people of Wales to see all taxation devolved—we know that some taxes are transferred via the taxation system to Wales. In the same way as with benefits, we would be in a position of having less money per capita to spend on benefits for our people. We have already seen that happening with council tax benefits. That would happen, but it would be much worse if benefits were devolved.

O ran fformiwla Barnett, mae pwynt ganddo, ac rwy'n deall hynny. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir dweud nad oedd y sefyllfa gynddrwg gyda fformiwla Barnett ddegawd yn ôl. Mae wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r bwlch rhwng Cymru a Lloegr mewn gwariant y pen wedi cau yn ystod yr amser hwnnw. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cael llawr Barnett i ddechrau, cyn adolygu Barnett yn gyfan gwbl.

In terms of the Barnett formula, he has a point, and I understand that. However, it is also true to say that the situation with the Barnett formula was not so bad a decade ago. It has deteriorated over the last few years and the gap between England and Wales in per capita expenditure has narrowed over that time. Therefore, it is important that we get a Barnett floor in the first place, before there is a review of Barnett as a whole.

O ran ynni adnewyddadwy, mae'n iawn dweud ei fod wedi bod yn anodd. Rydym wedi gweld llawer o bobl yn protestio yn erbyn ynni adnewyddadwy mewn rhai rhannau o Gymru. Mae'n bwysig i ddatblygu ynni morol ac, fel Llywodraeth, rydym eisiau gweld y pwerau a'r system cymhorthdal yn dod atom er mwyn sicrhau ein bod yn gallu hybu ynni morol. Byddai hynny'n help mawr i sicrhau ein bod yn yr un sefyllfa â'r Alban o ran y taliadau y maent yn gallu eu rhoi, ac yn helpu i gyrraedd y ffigur am ynni adnewyddadwy yr ydym am ei weld.

On renewable energy, he is right to say that it has been difficult. We have seen many people protesting against renewable energy in some parts of Wales. It is important to develop offshore energy and, as a Government, we want those powers and the subsidy system transferred to us, so that we can promote offshore energy. That would be of great assistance in ensuring that we are in the same position as Scotland in terms of the payments that it can provide, and help to reach the figure for renewable energy that we want to see.

3.15 p.m.

**Nick Ramsay:** I will just question the First Minister on three points in the document. I have managed to get my hands on as much of it as possible since we received it an hour ago, but I think that I am still only halfway there.

**Nick Ramsay:** Rwyf am holi'r Prif Weinidog ar dri phwynt yn y ddogfen. Rwyf wedi llwyddo i gael gafael ar gymaint ohono â phosibl ers inni ei gael awr yn ôl, ond dim ond tua hanner ffordd drwyddo yr wyf hyd yn hyn.

In his comments, I think that Alun Ffred Jones rightly referred to the GVA figures. I know that, traditionally, the Welsh Government has not liked looking at GVA figures; it tends to like looking at a range of other statistics to hide the fact that the GVA figures are bad. I am pleased that that is alluded to in this report, First Minister. Can

Credaf fod Alun Ffred Jones wedi cyfeirio at y ffigurau GYC yn ei sylwadau, yn gywir ddigon. Gwn nad yw Llywodraeth Cymru, yn draddodiadol, wedi hoffi edrych ar ffigurau GYC; mae'n tueddu i hoffi edrych ar ystod o ystadegau eraill i guddio'r ffaith bod y ffigurau GYC yn wael. Rwy'n falch bod cyfeiriad at hynny yn yr adroddiad hwn, Brif

you tell us what concrete actions you are taking to make sure that, in future, that indicator of economic growth is greatly improved? As far as I can see from the document, everything to do with GVA and GDP is simply blamed, in the words of the document, on the high profits of financial companies in the south-east of England. When I have spoken about GDP to the Deputy Minister for fisheries sitting over there, even he has given a far more robust reason than the one contained in this document for such low GDP figures in parts of Wales. Perhaps he should be consulted a bit more when this document is compiled again in future.

Weinidog. A allwch ddweud wrthym ba gamau pendant y byddwch yn eu cymryd i sicrhau y bydd y dangosydd twf economaidd hwnnw yn cael ei wella'n sylweddol yn y dyfodol? Hyd y gwelaf fi o ddarllen y ddogfen, mae popeth sy'n ymwneud â GYC a CMC yn cael ei feio yn syml, yng ngeiriau'r ddogfen, ar elw uchel cwmnïau ariannol yn ne-ddwyrain Lloegr. Pan wyf wedi trafod CMC â'r Dirprwy Weinidog dros bysgodfeydd, sy'n eistedd draw yn y fan acw, mae hyd yn oed ef wedi rhoi rheswm llawer mwy cadarn na'r un sydd yn y ddogfen hon i egluro pam mae'r ffigurau CMC mor isel mewn rhannau o Gymru. Efallai y dylid ymgynghori ychydig yn fwy ag ef pan fydd y ddogfen hon yn cael ei llunio eto yn y dyfodol.

Secondly, First Minister, you have mentioned Barnett and your enormous desire to have borrowing powers devolved. Clearly, the Silk commission is under way at the moment, and as has been said before in the Chamber, this is far more of a commitment than we had under the previous UK coalition Government, would you not agree? I only hope that attitudes in the UK Labour Party have changed towards the devolution of borrowing and the reform of Barnett, because at least progress is being made.

Yn ail, Brif Weinidog, rydych wedi crybwyll Barnett a'ch awydd mawr i ddatganoli pwerau benthyca. Yn amlwg, mae comisiwn Silk yn ymgymryd â'i waith ar hyn o bryd, ac, fel y dywedwyd o'r blaen yn y Siambr, mae hwn yn llawer mwy o ymrwymiad nag a oedd gennym o dan Lywodraeth glymblaid flaenorol y DU, oni fyddech yn cytuno? Ni allaf ond gobeithio bod agweddau ym Mhlaid Lafur y DU wedi newid tuag at ddatganoli benthyca a diwygio Barnett, oherwydd o leiaf mae cynnydd yn cael ei wneud.

Finally, Antoinette Sandbach mentioned the delivery unit in her questions. Admittedly, I only had an hour to look through this document, but I have only found one reference to the operation of the delivery unit—two if you include the translation. It simply says that the delivery unit is fully staffed and has been fully operational since October. There is nothing more than that. Could you tell us when we will have a statement on the operation of the delivery unit and what exactly it is doing?

Yn olaf, soniodd Antoinette Sandbach am yr uned gyflawni yn ei chwestiynau. Rhaid cyfaddef, dim ond awr yr wyf wedi'i chael i edrych drwy'r ddogfen hon, ond rwyf wedi dod o hyd i un cyfeiriad yn unig at weithrediad yr uned gyflawni—dau os ydych yn cynnwys y cyfieithiad. Yr oll y mae'n ei ddweud yw bod yr uned gyflawni wedi'i staffio'n llawn a'i bod wedi bod yn gwbl weithredol ers mis Hydref. Nid oes mwy na hynny. A allech ddweud wrthym pryd y byddwn yn cael datganiad ar weithrediad yr uned gyflawni a beth yn union y mae'n ei wneud?

**The First Minister:** With regard to the Member's first point, GDP figures are widely available, and GVA is very similar to GDP. Gross disposable household income figures, of course, show things in a much better light, and they are a more accurate index to the extent that they measure people's income where they live, not where they work. Now,

**Y Prif Weinidog:** O ran pwynt cyntaf yr Aelod, mae ffigurau CMC ar gael yn eang, ac mae GYC yn debyg iawn i CMC. Mae ffigurau incwm aelwydydd crynswth i'w wario, wrth gwrs, yn gwneud i bethau edrych yn llawer gwell, ac maent yn fynegai mwy cywir am eu bod yn mesur incwm pobl yn ôl lle maent yn byw, yn hytrach na lle maent yn

GDP figures cannot be ignored, and I accept that, but I believe that the GDHI figures are a better guide, because they are based on people's residence.

gweithio. Ni ellir anwybyddu ffigurau CMC, ac rwy'n derbyn hynny, ond credaf fod y ffigurau ynghylch incwm aelwydydd crynswth i'w wario yn well canllaw, oherwydd eu bod yn seiliedig ar ble y mae pobl yn byw.

On borrowing powers, he is absolutely right to say that this Government has done far more in taking forward the powers of the National Assembly than the previous coalition Government. That is because that Government existed in the 1930s.

O ran pwerau benthyca, mae'n llygad ei le wrth ddweud bod y Llywodraeth hon wedi gwneud llawer mwy i ddatblygu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol nag a wnaeth y Llywodraeth glymblaid flaenorol. Mae hynny oherwydd bod y Llywodraeth honno yn bodoli yn y 1930au.

As far as borrowing powers are concerned, I am surprised that he does not know that borrowing powers are outside the remit of the Silk commission, as indeed is the question of the Barnett floor, and with good reason. Borrowing powers and Barnett are matters for negotiation between the Welsh Government and the UK Government. The issues of Barnett and borrowing have to be resolved, in my view, before part 1 of the Silk commission's work can be taken forward; otherwise, there is no basis to build on part 1 of Silk. Borrowing powers therefore sit firmly outside the Silk process.

O ran pwerau benthyca, rwy'n synnu nad yw'n gwybod bod pwerau benthyca y tu allan i gylch gwaith comisiwn Silk, fel yn wir y mae'r cwestiwn am derfyn isaf Barnett, ac am reswm da. Mae pwerau benthyca a Barnett yn faterion i'w trafod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Rhaid datrys materion Barnett a benthyca, yn fy marn i, cyn y gellir bwrw ymlaen â rhan 1 o waith comisiwn Silk; fel arall, nid oes sail i adeiladu ar ran 1 o waith comisiwn Silk. Felly, mae pwerau benthyca y tu allan i broses Silk yn llwyr.

I come back to this point: what has the Wales Office delivered for Wales? As far as I can see, there is nothing tangible that the Conservative Party can point to.

Dychwelaf at y pwynt hwn: beth y mae Swyddfa Cymru wedi'i gyflawni i Gymru? Hyd y gwelaf fi, ni all y Blaid Geidwadol gyfeirio at unrhyw beth sylweddol.

**Nick Ramsay:** The referendum.

**Nick Ramsay:** Y refferendwm.

**The First Minister:** He mentioned the referendum. I know that his party is not supported by the people of Wales, and I know that it will never get the votes of the people of Wales, but is he really seriously saying that the referendum would have been opposed by his party, despite the result that we had last time and despite his principled stand in favour of a 'yes' vote? I can promise him that the referendum was delivered because the Prime Minister promised it. It was something that he saw as no problem, and I applaud him for that decision. In terms of something tangible, however, what about electrification? There is nothing. The Wales Office did not even know that a business case had been submitted. In terms of moving forward with borrowing powers, there is

**Y Prif Weinidog:** Soniodd am y refferendwm. Gwn nad yw pobl Cymru yn cefnogi ei blaid, a gwn na fydd byth yn cael pleidlais pobl Cymru, ond a yw'n dweud o ddifrif y byddai ei blaid wedi gwrthwynebu'r refferendwm, er gwaethaf y canlyniad a gawsom y tro diwethaf ac er iddo fod o blaid pleidlais 'ie' ar sail egwyddor? Rwy'n addo iddo fod y refferendwm wedi ei gyflwyno oherwydd bod y Prif Weinidog wedi addo hynny. Nid oedd ef yn ei weld yn broblem, ac rwy'n ei ganmol am y penderfyniad hwnnw. O ran rhywbeth sylweddol, fodd bynnag, beth am drydaneiddio? Nid oes dim. Nid oedd Swyddfa Cymru hyd yn oed yn gwybod bod achos busnes wedi'i gyflwyno. O ran symud ymlaen gyda phwerau benthyca, nid oes dim. O ran terfyn isaf Barnett, nid oes dim. Felly,

nothing. In terms of the Barnett floor, there is nothing. I therefore think it fair to point out that, as far as the Wales Office is concerned, there is a question mark over exactly what it has delivered.

credaf ei bod yn deg nodi, o ran Swyddfa Cymru, fod marc cwestiwn ynghylch beth yn union y mae wedi'i gyflawni.

In terms of the delivery unit, the Member misunderstands what it is there to do. The delivery unit is there to ensure that other departments do what they are meant to do. It brings to my attention any potential problems in order that they may be dealt with very early. The delivery unit also co-ordinates work across departments to ensure that they are working together. So, its role is in fact to ensure that other departments do the job that they are meant to do. It is quite simple, and it is something that the delivery unit is managing effectively.

O ran yr uned gyflawni, mae'r Aelod yn camddeall ei swyddogaeth. Swyddogaeth yr uned gyflawni yw sicrhau bod adrannau eraill yn gwneud yr hyn y maent i fod i'w wneud. Mae'n tynnu fy sylw at unrhyw broblemau posibl er mwyn eu datrys yn gynnar iawn. Mae'r uned gyflawni hyfed yn cydlynu gwaith ar draws adrannau i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd. Felly, ei rôl mewn gwirionedd yw sicrhau bod adrannau eraill yn gwneud y gwaith y maent i fod i'w wneud. Mae'n eithaf syml, ac mae'r uned gyflawni yn llwyddo i'w wneud yn effeithiol.

**Darren Millar:** I appreciate your statement, but I think that it smacked of complacency, actually, particularly with regard to the NHS, which you made very limited reference to in your statement. That is hardly surprising, given the very poor performance that you have managed to secure in the NHS. The NHS part of the document—the 666-page document that you circulated to Members—was one of the few that did not make comparisons with other parts of the United Kingdom. Again, that does not surprise me, because as you know, we fall well behind most other parts of the United Kingdom when it comes to health outcomes.

**Darren Millar:** Rwy'n gwerthfawrogi eich datganiad, ond roedd blas llaesu dwylo arno yn fy marn i, yn enwedig o ran y GIG, na gafodd lawer o sylw yn eich datganiad. Go brin fod hynny'n syndod, o ystyried y perfformiad gwael iawn yr ydych wedi llwyddo i'w sicrhau yn y GIG. Mae'r rhan o'r ddogfen sy'n trafod y GIG—y ddogfen 666 tudalen y gwnaethoch ei dosbarthu i Aelodau—yn un o'r ychydig rannau lle nad oes cymhariaeth â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Unwaith eto, nid yw hynny'n syndod imi, oherwydd, fel y gwyddoch, rydym ymhell y tu ôl i'r rhan fwyaf o rannau eraill y Deyrnas Unedig o ran canlyniadau iechyd.

Interestingly, you made no mention of the fact that you have missed the 26-week waiting time target since September 2010. You made no mention of the fact that the four-hour waiting times in A&E departments are getting worse. You made no mention of the fact that 60% of operations that are cancelled in the Welsh NHS are cancelled by hospitals or clinicians for other reasons. There was no mention of those things whatsoever and I would be interested to hear what you have to say on those things.

Mae'n ddiddorol na chyfeiriasoch at y ffaith eich bod wedi methu'r targed amser aros 26 wythnos ers mis Medi 2010. Ni chyfeiriasoch at y ffaith fod yr amseroedd aros pedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn gwaethygu. Ni chyfeiriasoch at y ffaith fod 60% o'r llawdriniaethau sy'n cael eu canslo yn GIG Cymru yn cael eu canslo gan ysbytai neu glinigwyr am resymau eraill. Nid oedd unrhyw gyfeiriad o gwbl at y pethau hynny, a byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud amdanynt.

You also made no mention of cancer. You have suggested that the £12.4 million bailout provided to local health boards was small fry, and yet you seem to think that the £3 million that we have suggested would be well spent

Ni chyfeiriasoch at ganser ychwaith. Rydych wedi awgrymu bod y £12.4 miliwn a ddarparwyd i achub croen y byrddau iechyd lleol yn ddibwys, ac eto ymddengys eich bod o'r farn fod y £3 miliwn yr ydym wedi

on a cancer drugs fund is a huge sum of money that is just unaffordable. There is an inconsistency there.

awgrymu y byddai'n dda ei wario ar gronfa cyffuriau canser yn swm enfawr o arian ac nad yw hynny'n fforddiadwy. Mae anghysondeb yno.

I have some specific questions, and they revolve around your manifesto commitments. The first manifesto commitment that I would appreciate an update on, because there is very limited information in the report about this, is the GP access indicator. I wonder what progress has been made on access to GPs in the evenings and at weekends, particularly on Saturdays. The last information that we had suggested that around 88% of GP practices were not offering weekend or evening appointments. I would appreciate an update on that.

Mae gennyf rai cwestiynau penodol am yr ymrwymiadau yn eich maniffesto. Yr ymrwymiad maniffesto cyntaf y byddwn yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf amdano, oherwydd prin yw'r wybodaeth yn yr adroddiad yn ei gylch, yw'r dangosydd am gael gafael ar feddyg teulu. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cael gafael ar feddygon teulu gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn arbennig ar ddydd Sadwrn? Roedd y wybodaeth ddiwethaf a gawsom yn awgrymu nad oedd tua 88% o bractisiau meddygon teulu yn cynnig apwyntiadau ar y penwythnos neu gyda'r nos. Byddwn yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny.

Secondly, on annual health checks for the over 50s, we are told that these will be implemented from 2013 onwards, but there is no information as to how you will achieve that in the report at all. I would again appreciate an update on that, including a cost update, showing from where you will find the money. Which budget within the NHS will you cut, given that you have already applied record-breaking cuts to the Welsh NHS in this financial year? Where is the money going to come from to pay for the extension of GP opening and access to annual health checks?

Yn ail, o ran archwiliadau iechyd blynyddol i bobl dros 50 oed, dywedir wrthym y bydd y rheini'n cael eu rhoi ar waith o 2013 ymlaen, ond nid oes dim gwybodaeth o gwbl yn yr adroddiad am sut y byddwch yn cyflawni hynny. Byddwn eto yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny, gan gynnwys diweddariad am y gost, yn dangos o ble y byddwch yn cael yr arian. Pa un o gyllidebau'r GIG y byddwch yn ei thorri, o gofio eich bod eisoes wedi cyflwyno'r toriadau mwyaf erioed i GIG Cymru yn y flwyddyn ariannol hon? O ble y bydd yr arian yn dod i dalu am ymestyn oriau agor gwasanaethau meddygon teulu a darparu archwiliadau iechyd blynyddol?

Finally, I would also ask for an update on ambulance handover times. You will be aware that there is a great deal of concern about emergency services across Wales. I raised this issue at questions to the First Minister earlier. I would appreciate your telling us what will happen in terms of keeping a watching eye on the manifesto commitment that you made to require LHBs to meet the cost of unacceptable delays in ambulance handover times at A&E units. Have any LHBs been held to account for that? Have any LHBs been charged for that? If not, when do you intend to start charging them for unacceptable delays in ambulance handover times?

Yn olaf, rwyf hefyd yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd trosglwyddo cleifion o ambiwlansys. Byddwch yn gwybod bod llawer iawn o bryder am wasanaethau brys ledled Cymru. Codais y mater hwn adeg cwestiynau i'r Prif Weinidog yn gynharach. Byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn dweud wrthym beth fydd yn digwydd o ran cadw llygad ar eich ymrwymiad maniffesto i'w gwneud yn ofynnol fod byrddau iechyd lleol yn talu costau oedi annerbyniol yn yr amseroedd trosglwyddo cleifion o ambiwlansys mewn unedau damweiniau ac achosion brys. A oes unrhyw fwrdd iechyd lleol wedi'i ddwyn i gyfrif am hynny? A oes tâl wedi'i godi ar

unrhyw fwrdd iechyd lleol am hynny? Os nad oes, pryd yr ydych yn bwriadu dechrau codi tâl arnynt am oedi annerbyniol mewn amseroedd trosglwyddo cleifion o ambiwlansys?

**The First Minister:** I thank the Member for his questions. He accuses us of complacency, but with a document so large, I am surprised to hear that, particularly given that our understanding is that a programme for government website set up by the UK coalition Government has in fact closed. If that is not complacency, I do not know what is.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. Mae'n ein cyhuddo o laesu dwylo, ond, o ystyried bod y ddogfen mor fawr, rwy'n synnu clywed hynny, yn enwedig o gofio mai ein dealltwriaeth ni yw bod gwefan rhaglen lywodraethu a sefydlwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU wedi cau. Beth yw hynny ond llaesu dwylo?

In terms of waiting times, let us have a look at the comparison of Wales with England. First of all, bear in mind that the referral-to-treatment times in England start when somebody sees a consultant for the first time; in Wales, it is when somebody sees a GP for the first time. Let us look at the comparison with England: at the end of March, in Wales there were 0.4% of patients waiting for 36 weeks compared with 0.8% in England. At the end of March, 0.1% of patients in Wales were waiting over 52 weeks, while in England it was 0.2%. So, exactly how it is that the Welsh health service is under-performing compared to the English health service is unclear. [*Interruption.*] It is not misusing data—it is there in black and white if you want to see it.

O ran amseroedd aros, gadewch inni edrych ar y gymhariaeth rhwng Cymru a Lloegr. Yn gyntaf oll, cofiwch fod yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn Lloegr yn dechrau pan fydd rhywun yn gweld meddyg ymgynghorol am y tro cyntaf; yng Nghymru, mae'n dechrau pan fydd rhywun yn gweld meddyg teulu am y tro cyntaf. Gadewch inni edrych ar y gymhariaeth â Lloegr: ddiwedd mis Mawrth, yng Nghymru roedd 0.4% o gleifion yn aros 36 wythnos, o gymharu â 0.8% yn Lloegr. Ddiwedd mis Mawrth, roedd 0.1% o gleifion yng Nghymru yn aros mwy na 52 wythnos, tra bo'r ganran yn 0.2% yn Lloegr. Felly, nid yw'n eglur sut yn union mae gwasanaeth iechyd Cymru yn perfformio'n waeth na gwasanaeth iechyd Lloegr. [*Torri ar draws.*] Nid yw hynny'n gamddefnyddio data—mae yno mewn du a gwyn os hoffech ei weld.

In terms of ambulance performance, I can say that the latest performance figures to be published were for March this year and they stated that 65.9% of category A calls were answered within 8 minutes and the target has been achieved in 10 out of the 12 months. Therefore, it is right to say that the Welsh health service is going in the right direction; compare that, for example, with the situation that exists in England, where the health service is going very much in the wrong direction. In England, waiting times are increasing and the number of people on waiting lists is increasing, whereas, in Wales, the figures for patients waiting over 36 weeks have improved by over 68%, compared with the figure in March 2011. Therefore, we can take no lectures from the party opposite about

O ran perfformiad ambiwlansys, gallaf ddweud bod y ffigurau perfformiad diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos perfformiad mis Mawrth eleni, a'u bod yn nodi bod 65.9% o alwadau categori A wedi cael eu hateb o fewn 8 munud a bod y targed wedi'i gyflawni mewn 10 allan o'r 12 mis. Felly, mae'n iawn dweud bod gwasanaeth iechyd Cymru yn mynd i'r cyfeiriad cywir; cymharwch hynny, er enghraifft, â'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae'r gwasanaeth iechyd yn mynd i'r cyfeiriad anghywir yn llwyr. Yn Lloegr, mae amseroedd aros yn cynyddu ac mae nifer y bobl sydd ar restrau aros yn cynyddu, ond, yng Nghymru, mae'r ffigurau ynghylch nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos wedi gwella dros 68%, o'u cymharu â'r ffigurau ar gyfer mis Mawrth 2011. Felly,

the NHS.

ni allwn glywed unrhyw ddarlith gan y blaid gyferbyn am y GIG.

The Government is not afraid to justify its manifesto promises. The over-50s health check was one of them, and the budget will be there to pay for that. In terms of GP access, we know that the number of GPs that are open beyond their core hours has increased in Wales by up to 25%, and we intend to deliver on our promise by 2016. What the party opposite failed to say is that what it wants to do is to make people pay for medicine and tablets. Why can they not be at the forefront and say, 'We want people to pay for their medicine'? They say that millionaires should pay for prescriptions. That must be millionaires of any age; therefore, where are their secret plans to make people over the age of 60 pay for prescriptions, given that that is the logic of their argument? I met many people who were on four or five different sets of tablets a month, but who were not entitled to exemptions and therefore had to pay. There are some people for whom not having to pay for their prescriptions makes the difference in terms of making it worthwhile for them to go to work and get a job. What about those people? Those people are discounted. Simple arguments are what the opposition like best. They do not do detail and, once again, this afternoon, they have shown that to the fullest extent.

Nid oes gan y Llywodraeth ofn cyfiawnhau ei haddewidion maniffesto. Roedd yr archwiliad iechyd i bobl dros 50 oed yn un ohonynt, a bydd cyllideb i dalu am hynny. O ran cael gafael ar feddyg teulu, gwyddom fod nifer y gwasanaethau meddygon teulu sydd ar agor y tu hwnt i'w oriau craidd wedi cynyddu yng Nghymru hyd at 25%, ac rydym yn bwriadu cyflawni ein haddewid erbyn 2016. Yr hyn y mae'r blaid gyferbyn wedi methu â'i ddweud yw mai'r hyn y mae am ei wneud yw gorfodi pobl i dalu am feddyginiaeth a thabledi. Pam na allant fod ar y blaen a dweud, 'Rydym am i bobl dalu am eu meddyginiaeth'? Maent yn dweud y dylai miliwnyddion dalu am bresgripsiynau. Rhaid bod hynny ar gyfer miliwnyddion ni waeth beth yw eu hoedran; felly, ble mae eu cynlluniau cyfrinachol i wneud i bobl dros 60 oed dalu am bresgripsiynau, am mai dyna yw rhesymeg eu dadl? Rwyf wedi cwrdd â llawer o bobl a oedd yn cymryd pedair neu bum cyfres wahanol o dabledi bob mis, ond nid oedd ganddynt yr hawl i gael eu heithrio ac felly roeddent yn gorfod talu. Mae rhai pobl y mae peidio â gorfod talu am bresgripsiynau yn ei gwneud yn werth chweil iddynt fynd i weithio a chael swydd. Beth am y bobl hynny? Mae'r bobl hynny'n cael eu diystyru. Dadleuon syml yw hoff beth yr wrthblaid. Nid oes diddordeb ganddynt yn y manylion ac, unwaith eto, y prynhawn yma, maent wedi dangos hynny i'r graddau eithaf.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.27 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.27 p.m.*

## Datganiad: Cynhwysiant Digidol/Cymunedau 2.0
## Statement: Digital Inclusion/Communities 2.0

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** People's lives are being transformed by their use of the internet: searching and applying for jobs, accessing public services, shopping—often with more choice and lower prices than on the high street—online banking, or just keeping in touch with friends and family. The pace at which technology is changing the way that our society and economy works is astonishing, so much so that in our modern

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae bywydau pobl yn cael eu trawsnewid gan eu defnydd o'r rhyngrwyd: drwy chwilio a gwneud cais am swyddi, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, siopa—yn aml gan gael mwy o ddewis a phrisiau is na'r stryd fawr—bancio ar-lein, neu gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu. Mae'r cyflymder y mae technoleg yn newid y ffordd y mae ein cymdeithas a'n heconomi yn gweithio yn rhyfeddol, gymaint felly fel bod

society, the need to be digitally included is fast becoming a necessity.

yr angen yn ein cymdeithas fodern i gael eich cynnwys yn ddigidol yn prysur ddod yn angenrheidiol.

Everyone should be able to benefit from using the latest digital technologies. This is a key social justice and equality issue that cuts across all areas of society, and one which we should all embrace. Yet in 2010, a third of the Welsh population—around 785,000 people—were not accessing the internet. Let us be clear what that means for individuals and families in Wales: they cannot apply for jobs that are increasingly only advertised online and require an e-mail application; they cannot save money by securing better deals on fuel bills and car insurance, which are often worth hundreds of pounds a year; and they cannot get their voice heard. Increasingly, the only way to make complaints is through the internet, and one of the main ways for individuals to influence Government is via e-petitions. People who are not accessing the internet cannot benefit from the convenience and simplicity of accessing online public services, such as those that allow them to renew their car tax or book a GP appointment. I am particularly concerned to ensure that digital proposals in the UK Government welfare reforms do not result in excluding some of the most disadvantaged people in Wales from these services.

Dylai pawb allu elwa ar ddefnyddio’r technolegau digidol diweddaraf. Mae hwn yn fater cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb allweddol sy’n berthnasol i bob rhan o gymdeithas, a dylem oll ei groesawu. Fodd bynnag, yn 2010, nid oedd traean o boblogaeth Cymru—tua 785,000 o bobl—yn defnyddio’r rhyngrwyd. Gadewch inni fod yn glir ynghylch beth mae hynny’n ei olygu i unigolion a theuluoedd yng Nghymru: ni allant wneud cais am swyddi sydd yn gynyddol yn cael eu hysbysebu ar-lein yn unig ac y mae angen gwneud cais amdanynt drwy e-bost; ni allant arbed arian drwy gael bargeinion gwell ar filiau tanwydd ac yswiriant car, sy’n aml yn werth cannoedd o bunnoedd y flwyddyn; ac ni allant leisio’u barn. Yn gynyddol, yr unig ffordd i wneud cwynion yw drwy’r rhyngrwyd, ac un o’r prif ffyrdd y gall unigolion ddylanwadu ar y Llywodraeth yw drwy e-ddeisebau. Ni all pobl nad ydynt yn defnyddio’r rhyngrwyd elwa ar y cyfleustra a’r symlrwydd o gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus ar-lein, fel y rhai sy’n eu galluogi i adnewyddu eu treth car neu drefnu apwyntiad gyda meddyg teulu. Rwy’n arbennig o awyddus i sicrhau na fydd y cynigion digidol yn niwygiadau lles Llywodraeth y DU yn arwain at eithrio rhai o’r bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru o’r gwasanaethau hyn.

The reasons why people are not digitally included are many and varied. Some do not see it as relevant to them, some lack the skills and trust to use the technology safely and confidently, and many simply cannot afford the equipment and services to be online. This Government is committed to reducing digital exclusion and the associated risk of increasing social and economic exclusion. Our digital inclusion framework identified that the majority of the digitally excluded in Wales are likely to be older people, the unemployed, residents of social housing, or disabled people. It is therefore logical that our digital inclusion activity is focused on these groups.

Mae nifer o resymau amrywiol pam nad yw pobl wedi’u cynnwys yn ddigidol. Nid yw rhai yn ystyried y peth yn berthnasol iddynt, nid oes gan rai’r sgiliau na’r ffydd i ddefnyddio’r dechnoleg yn ddiogel ac yn hyderus, ac mae llawer o bobl na allant fforddio’r offer a’r gwasanaethau y mae eu hangen i fod ar-lein. Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau allgáu digidol a’r risg gysylltiedig o gynyddu allgáu cymdeithasol ac economaidd. Canfu ein fframwaith cynhwysiant digidol fod mwyafrif y bobl sy’n cael eu hallgáu’n ddigidol yng Nghymru yn debygol o fod yn bobl hŷn, yn ddi-waith, yn drigolion tai cymdeithasol, neu’n bobl anabl. Felly, mae’n rhesymegol fod ein gweithgarwch ym maes cynhwysiant digidol yn canolbwyntio ar y grwpiau hynny.

We are working towards our 2015 target to reduce digital exclusion to 25% of the adult population. That means getting an additional 200,000 people online compared with the figure in 2010. There are already signs that we are making good progress. Indeed, the most recent Ofcom take-up figures for 2011 suggest a 7% decrease in exclusion to 29% since 2010. We will have an accurate picture of progress when the next national survey data comes out in September.

Rydym yn gweithio tuag at ein targed o leihau allgáu digidol i 25% o'r oedolion yn y boblogaeth erbyn 2015. Mae hynny'n golygu sicrhau bod 200,000 yn ychwanegol o bobl ar-lein o gymharu â'r ffigur yn 2010. Mae arwyddion eisoes ein bod yn gwneud cynnydd da. Yn wir, mae ffigurau mwyaf diweddar Ofcom ynghylch nifer y bobl a ddaeth ar-lein yn 2011 yn awgrymu y bu gostyngiad o 7% yn y lefel allgáu er 2010, i 29%. Bydd gennym ddarlun cywir o'r cynnydd a wnaed pan fydd data'r arolwg cenedlaethol nesaf yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi.

3.30 p.m.

A fully digitally-included society has the potential to improve people's lives and the communities in which they live. It can create economic opportunities, improve skills and offer more convenient access to services, including public services. Putting public services online can be an opportunity to engage more people, simplify services and reduce costs. However, we must recognise that access to online services will continue to represent a challenge for some. Those people will need the appropriate support, whether face-to-face, over the phone or through intermediaries, to ensure that those who most need access to services will be able to access them. Digital exclusion cannot be tackled in isolation and needs support across the public, private and third sectors. The Welsh Government approach is to align policies and plans, co-ordinate activities towards the common goal of digital inclusion, and to secure buy-in from a wide range of stakeholders across all sectors. As a Government, we will continue to ensure that our policies, strategies and initiatives—whether growth and prosperity, public service delivery, tackling poverty or independent living—align with our vision of a digitally-inclusive Wales.

Mae gan gymdeithas sy'n gwbl gynhwysol yn ddigidol y potensial i wella bywydau pobl a gwella'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Gall greu cyfleoedd economaidd, gwella sgiliau a chynnig mynediad mwy hwylus at wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus. Gall rhoi gwasanaethau cyhoeddus ar-lein fod yn gyfle i ymgysylltu â mwy o bobl, symleiddio gwasanaethau a lleihau costau. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod y bydd mynediad at wasanaethau ar-lein yn parhau i fod yn her i rai. Bydd angen y cymorth priodol ar y bobl hynny, boed wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn neu drwy gyfryngwyr, i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf o angen mynediad at wasanaethau yn gallu cael mynediad atynt. Ni ellir mynd i'r afael ag allgau digidol ar ei ben ei hunac mae angen cymorth ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn hynny o beth. Dull Llywodraeth Cymru yw alinio polisïau a chynlluniau, cydgysylltu gweithgareddau tuag at y nod cyffredin o gynhwysiant digidol a sicrhau ymrwymiad ystod eang o randdeiliaid ar draws pob sector. Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein polisïau, strategaethau a mentrau—boed yn hyrwyddo twf a ffyniant, darparu gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael â thlodi neu fyw'n annibynnol—yn cyd-fynd â'n gweledigaeth o Gymru sy'n ddigidol gynhwysol yn.

The Government has supported many different and complementary areas of activity that encourage or help people to be online, including engagement through libraries, learning opportunities and volunteering. Key

Mae'r Llywodraeth wedi cefnogi nifer o weithgareddau gwahanol a chyflenwol sy'n annog neu'n helpu pobl i fod ar-lein, gan gynnwys ymgysylltu trwy lyfrgelloedd, cyfleoedd dysgu a gwirfoddoli. Mae rhaglen

to achieving these has been the Communities 2.0 programme. It has helped many thousands of people in some of the most deprived areas of Wales to go online and start accessing the benefits and opportunities that so many of us take for granted. The programme, which has a further three years to run, has successfully linked with other campaigns and initiatives, such as the BBC First Click campaign, BT's Get IT Together initiative, and *Digital Day*, part of Adult Learners' Week. I have visited a number of projects over the last year, and each time I have been impressed by the positive impact that the internet can have on people's lives, whether it is care home residents learning to use Skype to keep in touch with family, or somebody buying goods online for the first time—the sense of achievement and confidence they show is remarkable. That can then encourage them to do more online and enjoy even greater benefits. Just last week on *Digital Day*, as part of Adult Learners' Week, I visited a project in Blackwood that is helping local housing association tenants—many of whom were unemployed—to learn more about how to use the internet, including how to search and apply for jobs online.

Cymunedau 2.0 wedi bod yn hanfodol wrth gyflawni hyn. Mae'r rhaglen wedi helpu miloedd o bobl mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru i fynd ar-lein a dechrau cael mynediad at y manteision a'r cyfleoedd y mae cymaint ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Mae'r rhaglen, sydd â thair blynedd arall i redeg, wedi cysylltu'n llwyddiannus ag ymgyrchoedd a mentrau eraill, fel ymgyrch *First Click* y BBC, menter *Get IT Together* BT a'r *Digital Day*, rhan o'r Wythnos Addysg Oedolion. Rwyf wedi ymweld â nifer o brosiectau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a phob tro, yr hyn sydd wedi cael argraff arnaf yw'r effaith gadarnhaol y gall y rhyngrwyd ei chael ar fywydau pobl, boed yn breswylwyr mewn cartref gofal yn dysgu sut mae defnyddio Skype i gadw mewn cysylltiad â theulu, neu rywun yn prynu nwyddau ar-lein am y tro cyntaf—mae'r ymdeimlad o gyflawniad a hyder y maent yn ei ddangos yn rhyfeddol. Gall hynny wedyn eu hannog i wneud mwy ar-lein ac elwa hyd yn oed yn fwy. Dim ond yr wythnos diwethaf ar *Digital Day*, fel rhan o'r Wythnos Addysg Oedolion, bûm yn ymweld â phrosiect yn y Coed Duon sy'n helpu tenantiaid y gymdeithas dai leol—llawer ohonynt yn ddi-waith—i ddysgu mwy am sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys sut i chwilio am swyddi ar-lein a gwneud cais amdanynt.

Through the Communities 2.0 initiative, we have supported a pan-Wales project with Care and Repair Cymru whereby case workers assist people to get online in their homes. Communities 2.0 also recently supported Age Cymru's Myfriends Online Week, which helped older people to make more use of social media. We also work closely with organisations such as Age Cymru and Disability Wales to increase internet take-up among their members, which helps to reduce isolation and assists independent living. We recognise the opportunities afforded by the digital age to boost the Welsh language by encouraging people to use Welsh in everyday life through new technology and social media. Communities 2.0 activities are delivered in the language of people's choice and a number of dedicated Welsh-language initiatives are supported. The importance of volunteering in tackling digital inclusion is reflected in the

Drwy'r fenter Cymunedau 2.0, rydym wedi cefnogi prosiect ledled Cymru gyda Gofal a Thrwsio Cymru lle mae gweithwyr achos yn cynorthwyo pobl i fynd ar-lein yn eu cartrefi. Yn ddiweddar, bu Cymunedau 2.0 hefyd yn cefnogi *Myfriends Online Week* Age Cymru, a oedd yn helpu pobl hŷn i wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Age Cymru ac Anabledd Cymru i gynyddu'r defnydd o'r rhyngrwyd ymhlith eu haelodau, sy'n helpu i leihau unigrwydd ac yn cynorthwyo byw'n annibynnol. Rydym yn cydnabod y cyfleoedd a gynigir gan yr oes ddigidol i roi hwb i'r iaith Gymraeg trwy annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd drwy dechnoleg newydd a chyfryngau cymdeithasol. Caiff gweithgareddau Cymunedau 2.0 eu cynnig i bobl yn eu dewis iaith ac mae nifer o fentrau yn yr iaith Gymraeg yn benodol yn cael eu cefnogi. Mae pwysigrwydd gwirfoddoli o ran

joint initiative that Communities 2.0 and the Wales Council for Voluntary Action are taking to host a conference this autumn on volunteering in a digital age.

mynd i'r afael â chynhwysiant digidol yn cael ei adlewyrchu yn y fenter ar y cyd rhwng Cymunedau 2.0 a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynnal cynhadledd yn yr hydref ar wirfoddoli mewn oes ddigidol.

This is a cross-cutting issue that needs to be mainstreamed across organisations in all sectors. The economic potential of more people being online is considerable. In an increasingly digital age, we need to do everything we can to ensure that Wales can fully reach its digital potential, while ensuring that people are not left behind. Simply put, I see this as a social necessity and an economic opportunity.

Mae hwn yn fater trawsbynciol y mae angen ei brif-ffrydio ar draws sefydliadau ym mhob sector. Mae potensial economaidd cael mwy o bobl ar-lein yn sylweddol. Mewn oes fwyfwy ddigidol, mae angen inni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y gall Cymru gyrraedd ei llawn botensial yn ddigidol, tra'n sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael ar ôl. Yn syml, rwy'n gweld hyn fel anghenraid cymdeithasol a chyfle economaidd.

**Mohammad Asghar:** I thank the Minister for her statement this afternoon. We all know the benefits of being online, whether in accessing cheaper goods and services, acquiring new skills or boosting our education. It is estimated that around a third of the population in Wales do not use the internet. The majority of these are likely to be older people, the unemployed, or those living in deprived areas, including ethnic minorities. In short, those groups who would benefit the most from digital inclusion are denied it at present. The Welsh Government has set an objective of making Wales a truly digital nation by 2020. Will the Minister provide an update on progress to reduce the levels of digital exclusion among adults to 30% this year and 25% per cent by 2015? The Welsh Government has set an ambitious target for all businesses in Wales to have access to next generation broadband by the middle of 2016 and for all households to have such access by 2020. Again, will the Minister confirm that the Government is on track to meet that target? According to Ofcom's 2011 communications market report for Wales, broadband take-up in Wales is below the UK average. What is the Minister doing to raise the level of broadband take-up in Wales to UK levels? What action is she taking in conjunction with the private sector to achieve that? Finally, how much, if any, extra funds are allocated to achieve her ambitious policies, strategies and initiatives in this sector?

**Mohammad Asghar:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Rydym oll yn ymwybodol o fanteision bod ar-lein, boed hynny wrth gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau rhatach, meithrin sgiliau newydd neu wrth hybu ein haddysg. Amcangyfrifir nad yw tua thraean o'r boblogaeth yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl hyn yn debygol o fod yn bobl hŷn, yn ddi-waith, neu'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig. Yn syml, y grwpiau hynny a fyddai'n elwa fwyaf o gynhwysiant digidol sy'n cael eu hamddifadu ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y nod o wneud Cymru yn genedl wirioneddol ddigidol erbyn 2020. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gostwng lefelau allgau digidol ymhlith oedolion i 30% eleni a 25% erbyn 2015? Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed uchelgeisiol i bob busnes yng Nghymru gael mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn canol 2016 ac i bob cartref gael mynediad o'r fath erbyn 2020. Unwaith eto, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod y Llywodraeth ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed hwnnw? Yn ôl adroddiad Ofcom ar y farchnad gyfathrebu yn 2011, mae'r defnydd o fand eang yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i godi'r lefel yng Nghymru i lefelau'r DU? Pa gamau y mae'n eu cymryd gyda'r sector preifat i gyflawni hynny? Yn olaf, faint o arian ychwanegol, os o gwbl, sy'n cael ei ddyrannu i gyflawni ei pholisïau, strategaethau a

mentrau uchelgeisiol yn y sector hwn?

**Jane Hutt:** I thank Mohammad Asghar for his very positive response to my statement. As you say so clearly, the groups who would benefit most need it most. That is why we have ambitious targets for ensuring that digital inclusion can reach those particular groups. I have mentioned the developments in reducing digital exclusion, the 2015 target, and how recent Ofcom take-up figures suggest a 7% decrease in exclusion since 2010 to 29%. I have given a number of examples of the way in which we are delivering this and reaching those targets. For example, the investment from Communities 2.0, with a budget of £19.9 million over six years between 2009 and 2015—which includes convergence funding via the European regional development fund, funding from the Welsh Government's targeted match funding and from our own strategic planning, finance and performance budget—has helped us in delivering many of the projects. This package of support covers financial assistance to support social enterprises to improve their operations and achieve efficiencies through ICT. Social enterprises were identified as requiring support to adapt to and benefit from the latest digital technologies. In terms of the coverage, particularly in the most disadvantaged areas, this programme can support digital inclusion projects effectively.

**Jane Hutt:** Diolch i Mohammad Asghar am ei ymateb cadarnhaol iawn i fy natganiad. Fel yr ydych yn ei ddweud mor glir, y grwpiau a fyddai'n elwa fwyaf sydd ei angen fwyaf. Dyna pam mae gennym dargedau uchelgeisiol i sicrhau y gall cynhwysiant digidol gyrraedd y grwpiau penodol hynny. Rwyf wedi sôn am y datblygiadau o ran lleihau allgau digidol, targed 2015 a'r ffordd y mae ffigurau diweddar Ofcom yn awgrymu gostyngiad o 7% mewn allgau digidol ers 2010 i 29%. Rwyf wedi rhoi nifer o enghreifftiau o'r ffordd rydym yn cyflawni hyn a'r ffordd rydym yn cyrraedd y targedau hynny. Er enghraifft, mae'r buddsoddiad o fenter Cymunedau 2.0, gyda chyllideb o £19.9 miliwn dros chwe blynedd rhwng 2009 a 2015—sy'n cynnwys arian cydgyfeiriant drwy gyfrwng cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, arian o gyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru sydd wedi'i dargedu ac arian o'n cyllideb cynllunio, cyllid a pherfformiad strategol ein hun—wedi'n helpu i weithredu nifer o'r prosiectau hyn. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys cymorth ariannol i gefnogi mentrau cymdeithasol i wella eu gwaith a sicrhau effeithlonrwydd drwy TGCh. Mae mentrau cymdeithasol yn cael eu nodi fel rhai sydd angen cefnogaeth i addasu i'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf ac elwa ohoni. O ran lefel y ddarpariaeth, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gall y rhaglen hon gefnogi prosiectau cynhwysiant digidol yn effeithiol.

**Simon Thomas:** Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad ac rwy'n croesawu nifer o'r camau sydd wedi'u amlinellu ynddo. A yw'n cytuno, fel mae pethau'n datblygu, fod hwn yn un o'r meysydd lle rydym yn gweld yr eithrio a'r camwahaniaethu mwyaf dybryd mewn cymdeithas? Mae hi wedi sôn am sawl ffactor—mae oedran, er enghraifft, yn un sy'n gwahaniaethu rhwng pobl yn eu defnydd o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd, ac mae tlodi yn un arall. Nid oes braidd neb o blant yn y dosbarthiadau cymdeithasol A a B heb fynediad at y rhyngrwyd, ond nid oes gan draean o blant yn nosbarth cymdeithasol E fynediad ato. Mae pobl anabl hefyd yn ei chael yn anodd cael mynediad at y rhyngrwyd, nid oherwydd yr offer yn unig, ond oherwydd sut y mae rhai gwefannau

**Simon Thomas:** I thank the Minister for her statement, and I welcome many of the steps outlined in it. Does she agree, as things are developing, that this is one of the areas in which we are seeing exclusion and discrimination at their worst in society? She has mentioned several factors—age, for example, is one factor that sets people apart in their use of computers and the intranet, and poverty is another. Virtually no children in social classes A and B have no access to the internet, but a third of children in social class E have no access to the internet. Disabled people also find it difficult to get access to the internet, not just because of the equipment required, but because of the way in which some websites are designed. The way in which you interact with websites can

wedi'u cynllunio. Mae'r ffordd o ryngweithio â gwefannau hefyd yn ei gwneud yn anodd i rai pobl ag anabledd ymwneud â hynny. Felly, rhaid i unrhyw Lywodraeth fynd i'r afael â hyn, neu byddwn yn gweld nifer fawr o'n dinasyddion yn cael eu heithrio o'r hyn sy'n cael ei drin a'i drafod fel y ffordd normal o fynd o gwmpas bywyd cyhoeddus bellach.

also make it difficult for some people who have disabilities to get involved. Therefore, any Government would have to get to grips with this issue, or we will see a vast number of our citizens being excluded from what is by now considered to be the normal way of going about things in public life.

Soniodd y Gweinidog am gael 200,000 ychwanegol o bobl ar-lein yn ystod cyfnod y Llywodraeth bresennol. Hoffwn wybod ychydig mwy am sut y mae'n bwriadu helpu'r bobl hyn i fynd ar-lein. A fydd yn dibynnu ar y farchnad yn llwyr, neu a oes cynlluniau penodol ganddi i helpu'r 200,000 ychwanegol hyn?

The Minister talked about getting an additional 200,000 people online during the term of the current Government. I would like to know more about how she intends to help those people to get online. Will she be entirely reliant on the market to provide, or does she have specific schemes in mind to help those 200,000 extra people?

Mae mynediad at fand eang yn hanfodol i'r cynlluniau hyn. Bellach, nid yw *dial-up* yn unrhyw fath o ateb os ydych eisiau cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ar-lein. Dim ond 68% o Gymru sy'n cael mynediad at fand eang ar hyn o bryd. Sut y bydd y Llywodraeth yn gwella hynny? Rydym newydd gael adroddiad blynyddol gan y Prif Weinidog. Mae'r adroddiad hwnnw yn datgan yn glir mai amcan y Llywodraeth yw y bydd pobl yn cael mynediad at 50% o wasanaethau cyhoeddus drwy ddulliau digidol erbyn 2015. Sut y byddwch yn gwneud hynny? A ydych yn cytuno, Weinidog, fod egwyddor bwysig yn y fan hon? Yn y sector preifat, mae pobl yn cael eu cosbi os nad ydynt yn mynd ar-lein: er enghraifft, os ydych am dalu bil trydan drwy siec, rydych yn cael eich cosbi gan ei fod yn rhatach talu ar-lein. Mae'n bwysig yn y sector cyhoeddus, o leiaf, fod gan bobl ddewis ac nad ydym yn cosbi pobl sydd am ddefnyddio dulliau mwy hen ffasiwn. Yn sicr, dylem ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl ddefnyddio'r systemau newydd, ond dylai fod ganddynt ddewis. Mae hynny'n bwysig yn y sector cyhoeddus.

Access to broadband is crucial to these plans. Dial-up is no longer any kind of solution if you want to access public services online. Only 68% of Wales can get access to broadband at the moment. How will the Government improve that rate? We have just had the annual report from the First Minister. That report states clearly that it is the Government's target for people to be able to access 50% of public services via digital means by 2015. How will you achieve that? Minister, do you accept that there is an important principle at stake here? In the private sector, people are penalised if they do not go online: for instance, if you want to pay your electricity bill by cheque, you are penalised, as it is cheaper to pay online. It is also important that, at least in the public sector, people continue to be given a choice and that we do not penalise people who want to make use of more old-fashioned methods of payment. Certainly, we should make it as easy as possible for people to make use of the new systems, but they should have a choice. That is important in the public sector.

Rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am lyfrgelloedd. Bûm yn y llyfrgell newydd yn Aberystwyth yn ddiweddar a gwelais y ddarpariaeth wych sydd yno erbyn hyn ar gyfer cael mynediad at y rhyngrwyd a chyfrifiaduron. Mae hynny yn bwysig, yn enwedig i bobl ddi-waith.

I welcome what the Minister said about libraries. I was in the new library in Aberystwyth recently, and I saw the excellent provision that is available there for accessing the internet and use computers. That is important, especially for people who are unemployed.

Rwyf hefyd yn croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am yr iaith Gymraeg. Mae'n bwysig nad yw'r Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl wrth i'r dechnoleg hon ddatblygu.

I also welcome what the Minister said about the Welsh language. It is important that it does not get left behind as this technology advances.

Hoffwn bennu gydag un peth na chafodd ei grybwyll yn natganiad y Gweinidog ond sy'n dod yn fwyfwy pwysig yn awr o ran y ffordd y mae pobl yn ymwneud â chwmnïau—a Seneddau a Llywodraethau—sef y defnydd o *apps*, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Nid eistedd wrth gyfrifiadur, neu ddefnyddio gliniadur hyd yn oed, y mae pobl ifanc, ond defnyddio ffonau symudol ac *apps* er mwyn cael mynediad at yr wybodaeth y maent yn chwilio amdani. Mae hyn yn mynd yn ôl at y pwynt a godwyd gan y Dirprwy Lywydd, am ffyrdd mwy clyfar o ymwneud â phobl. O ran yr adroddiad blynyddol sydd newydd ei gyhoeddi gan y Llywodraeth, cafodd ei gyhoeddi ar-lein, ond mae'n 666 o dudalennau ar-lein. Nid dyna'r ffordd mwyaf doeth o ddefnyddio technoleg modern i wneud pethau'n hygyrch i bobl. Hoffwn glywed am yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud yn ystod y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod *apps* yn cael eu datblygu yng Nghymru i agor gwasanaethau cyhoeddus i fyny yn y ffordd honno.

I want to close on one issue that was not mentioned in the Minister's statement but which is becoming more and more important now in the way in which people engage with organisations—and Parliaments and Governments—namely the use of apps, particularly by young people. Young people do not sit in front of a computer or even use a laptop these days; they are using their mobile phones and apps to get access to the information that they are seeking. This goes back to the point raised by the Deputy Presiding Officer about finding smarter ways of engaging people. On the annual report just published by the Government, it was published online, but it is 666 pages long online. That is not the smartest use of modern technology to make things more accessible to people. I would like to hear about what the Government will be doing over the next few years to ensure that purpose-built apps are developed in Wales, to open up public services in that way.

**Jane Hutt:** I thank the Member for his response and questions. It is important that we look at the targeted work that we are doing with those priority groups. If you look at the quality of life of older people, for example, and how we can improve that through using the internet to reduce isolation, enhance their opportunity and capacity for independent living and provide more efficient access for them to public services and, as consumers, to cheaper goods and services, good progress has been made in raising awareness of digital inclusion among organisations. I have mentioned the work that is being done through Age Cymru, and the office of the older people commissioner, for example, is represented on the digital inclusion programme board. Communities 2.0 is also working with key older people's groups, which are represented on our advisory board, and is working, as I have mentioned, to develop a proposal with Care and Repair Cymru, looking at multiple benefits online, particularly targeting older people and disabled people. That is

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod am ei ymateb a'i gwestiynau. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y gwaith wedi'i dargedu yr ydym yn ei wneud gyda'r grwpiau blaenoriaeth hynny. Os edrychwch ar ansawdd bywyd pobl hŷn, er enghraifft, a sut y gallwn wella hynny drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd i leihau unigedd, gwella cyfleoedd pobl hŷn i fyw'n annibynnol a'u gallu i wneud hynny a darparu mynediad mwy effeithlon iddynt at wasanaethau cyhoeddus ac, fel defnyddwyr, at nwyddau a gwasanaethau rhatach, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch cynhwysiant digidol ymhlith sefydliadau. Rwyf wedi sôn am y gwaith sy'n cael ei wneud drwy Age Cymru, ac mae swyddfa'r comisiynydd pobl hŷn, er enghraifft, yn cael ei gynrychioli ar fwrdd y rhaglen cynhwysiant digidol. Mae Cymunedau 2.0 hefyd yn gweithio gyda grwpiau allweddol pobl hŷn, sy'n cael eu cynrychioli ar ein bwrdd ymgynghorol, ac mae'n gweithio, fel rwyf wedi sôn eisoes, i ddatblygu cynnig gyda Gofal a Thrwsio Cymru, sy'n edrych ar fudd-daliadau lluosog

interesting in terms of tackling barriers and we have extended the project to make new areas eligible. Communities 2.0 is focused and funded by the convergence programme. However, the opportunities and benefits are being extended to areas in Powys, Wrexham and Flintshire.

ar-lein, i dargedu pobl hŷn a phobl anabl yn benodol. Mae hynny'n ddiddorol o ran mynd i'r afael â rhwystrau, ac rydym wedi ymestyn y prosiect i wneud ardaloedd newydd yn gymwys. Caiff menter Cymunedau 2.0 ei ffocysu a'i hariannu gan y rhaglen gydgyfeirio. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd a'r manteision yn cael eu hymestyn i ardaloedd ym Mhowys, Wrecsam a Sir y Fflint.

I welcome your comments on libraries, because they make a wide-ranging contribution to ensuring that everyone can get online, as well as your point about children's access in terms of using the library facilities for homework. A number of library authorities provide dedicated homework school project support through clubs and access. Libraries were a key stakeholder of First Click, the two-year BBC learning campaign established in 2010. I have mentioned the work of BT, and it is important that we recognise that this is cross-sectoral with the private, public and third sectors.

Croesawaf eich sylwadau ar lyfrgelloedd, oherwydd maent yn gwneud cyfraniad mawr at sicrhau y gall pawb fynd ar-lein, yn ogystal â'ch pwynt ar fynediad plant o ran defnyddio cyfleusterau mewn llyfrgell ar gyfer gwaith cartref. Mae nifer o awdurdodau llyfrgell yn darparu cymorth penodol ar gyfer gwaith cartref a phrosiectau ysgol drwy glybiau a thrwy cynnig mynediad. Roedd Llyfrgelloedd yn rhanddeiliaid allweddol yn *First Click*, sef ymgyrch ddwy flynedd a sefydlwyd yn 2010 gan adran ddysgu'r BBC. Rwyf wedi crybwyll gwaith BT, ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod hyn yn draws-sectoraidd, gan gynnwys y sectorau preifat a chyhoeddus, a'r trydydd sector.

3.45 p.m.

It is important that we look at the lack of skills and confidence as well as the wider barriers such as a lack of access to the appropriate equipment. We have a recycling project that gives people access to equipment and kit, and it is important to make the point about finding smarter ways of making access available, particularly by using mobile phone applications. Indeed, there is a lot that we can learn from those in the developing world given how they are accessing IT opportunities. That reflects on the question asked earlier by the Deputy Presiding Officer to the First Minister about e-democracy and the lessons that we have to learn as a Government. I certainly want to take back that question and the point made by Simon Thomas this afternoon.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y diffyg sgiliau a hyder yn ogystal â'r rhwystrau ehangach, fel diffyg mynediad at yr offer priodol. Mae gennym brosiect ailgylchu sy'n rhoi cyfle i bobl gael gafael ar offer, ac mae'n bwysig gwneud y pwynt ynghylch dod o hyd i ffyrdd callach o sicrhau bod mynediad ar gael, yn enwedig drwy ddefnyddio rhaglenni ffôn symudol. Yn wir, mae llawer y gallwn ei ddysgu gan y rheini yn y byd sy'n datblygu o ystyried sut y maent hwy yn cael mynediad at gyfleoedd TG. Mae hynny'n adlewyrchiad o'r cwestiwn a ofynnwyd yn gynharach gan y Dirprwy Lywydd i'r Prif Weinidog ynghylch e-ddemocratiaeth a'r gwersi sydd gennym i'w dysgu fel Llywodraeth. Rwyf yn sicr am fynd â'r cwestiwn hwnnw'n ôl a'r pwynt a wnaed gan Simon Thomas y prynhawn yma.

As the First Minister has said, it is clear that we have a target on providing access to broadband, namely the 2015 broadband target, which we are committed to achieving in the programme for government. Our digital framework is what drives us and steers

Fel y mae'r Prif Weinidog wedi dweud, mae'n amlwg fod gennym darged o ran darparu mynediad at fand eang, sef targed band eang 2015, yr ydym wedi ymrwymo i'w gyflawni yn y rhaglen lywodraethu. Ein fframwaith digidol sy'n ein hysgogi ac sy'n

us through our approaches, whether to aligning policies, obtaining buy-in from stakeholders, undertaking activities on the ground, digital inclusion and delivery through to the community, extending the range of geographical coverage, where support is available, or to increasing the involvement of the private, public and third sectors. Indeed, as I have said, it is also important that we recognise that this is key for the Welsh language, and so we are already developing those options.

ein llywio drwy ein dulliau gweithredu, p'un ai o ran alinio polisïau, ennyn cefnogaeth gan randdeiliaid, ymgymryd â gweithgareddau ar lawr gwlad, cynhwysiant digidol a darparu hyd y gymuned, ymestyn y cwmpas daearyddol, lle y mae cefnogaeth ar gael, neu gynyddu cyfranogiad y sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector. Yn wir, fel yr wyf wedi dweud, mae'n bwysig hefyd ein bod yn cydnabod bod hyn yn allweddol i'r iaith Gymraeg, ac felly rydym eisoes yn datblygu'r opsiynau hynny.

**Eluned Parrott:** Thank you, Minister, for your statement today. I will not rehearse the problems that people face as a result of digital exclusion, because this statement is dedicated to the subject. You paint an evocative picture of the problems that people face, but the proactive steps that you mean to take to do something about them are rather less evident to me. There are 23 paragraphs in this statement, Minister, and only one of them talks about future action—and even that refers to an event being organised for the Welsh Government by the third sector. However, when you are reflecting on past work in this area, it is perhaps even more shocking to see how absolutely reliant you are on the work of others. You talk about supporting project X, working with group Y. I recognise the value of collaboration, but what is the Welsh Government actually doing in and of itself? The main area of activity that you are able to point to relates to visiting projects managed by the third sector, and that worries me. Where is the accountability and control in that? If you are not driving the car, you really do not have any control over the destination. Therefore, Minister, will you please clarify the Welsh Government's role in supporting the projects that you named in the statement today? Is the Welsh Government funding these projects? If so, are they procured contractual services, or some other form of proxy arrangement?

**Eluned Parrott:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Nid wyf am ailadrodd y problemau y mae pobl yn eu hwynebu o ganlyniad i allgáu digidol, gan fod y datganiad yn ymwneud â'r pwnc hwnnw'n benodol. Rydych yn peintio darlun atgofus o'r problemau sy'n wynebu pobl, ond mae'r camau rhagweithiol yr ydych yn bwriadu eu cymryd i wneud rhywbeth yn eu cylch ychydig yn llai amlwg imi. Mae 23 o baragraffau yn y datganiad hwn, Weinidog, a dim ond un ohonynt sy'n sôn am weithredu yn y dyfodol—ac mae hyd yn oed hwnnw'n cyfeirio at ddigwyddiad sy'n cael ei drefnu i Lywodraeth Cymru gan y trydydd sector. Fodd bynnag, pan fyddwch yn myfyrio ar waith blaenorol yn y maes hwn, efallai ei bod hyd yn oed yn fwy brawychus gweld y graddau yr ydych yn gwbl ddibynnol ar waith pobl eraill. Rydych yn sôn am gefnogi prosiect X, gweithio gyda grŵp Y. Rwy'n cydnabod gwerth cydweithio, ond beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ei hun mewn gwirionedd? Mae'r prif faes gweithgarwch yr ydych yn gallu cyfeirio ato yn ymwneud ag ymweld â phrosiectau a reolir gan y trydydd sector, ac mae hynny'n destun pryder imi. Ble mae'r atebolrwydd a'r rheolaeth yn hynny? Os nad chi sy'n gyrru'r car, ni allwch reoli i ble y bydd yn mynd. Felly, Weinidog, a wnewch chi egluro rôl Llywodraeth Cymru yn y gwaith o gefnogi'r prosiectau y gwnaethoch eu henwi yn y datganiad heddiw? A yw Llywodraeth Cymru yn ariannu'r prosiectau hyn? Os felly, a ydynt yn wasanaethau o dan gontract a gaffaelwyd, neu'n rhyw fath arall o drefniant dirprwyol?

You go on to state that nearly a third of people in Wales are digitally excluded. Given the problems that you outline, I would say that your target of 25% digital exclusion in

Rydych yn nodi'n ddiweddarach fod bron draean o bobl yng Nghymru yn cael eu hallgáu'n ddigidol. O ystyried y problemau yr ydych yn eu hamlinellu, byddwn i'n

2015 is still far too high. In fact, for me, it is the most shocking thing about your statement today. Minister, you have spent 23 paragraphs trying to persuade us that the Welsh Government understands the problems of digital exclusion, but by accepting that a quarter of our population will still be excluded in 2015, you have given us proof positive that you really do not. If the Government understood, you would have tabled today a statement full of real, positive action to change people's lives. You would have looked at the most excluded groups and targeted action directly at the specific barriers that they face. You would have been able to tell us specifically what that action was today. If the Government really understood what it felt like to be excluded, it would not accept a target of 25%. Minister, will you revisit that target? Will you come back to the Chamber with a plan of action? Will you make digital inclusion a priority, because, right now, it has fallen off the bottom of the Government's to-do list, as far as I can see?

dweud bod eich targed o gyrraedd lefel allgáu digidol o 25% yn 2015 yn dal yn llawer rhy uchel. Yn wir, i mi, dyna'r peth mwyaf syfrdanol am eich datganiad heddiw. Weinidog, rydych wedi treulio 23 o baragraffau yn ceisio ein darbwyllo bod Llywodraeth Cymru yn deall y problemau sy'n ymwneud ag allgáu digidol, ond, gan dderbyn y bydd chwarter ein poblogaeth yn dal i gael eu heithrio yn 2015, rydych wedi rhoi prawf cadarnhaol inni nad ydych yn eu deall mewn gwirionedd. Pe bai'r Llywodraeth yn deall, byddech wedi cyflwyno datganiad heddiw a fyddai'n llawn o gamau gweithredu go iawn a chadarnhaol i newid bywydau pobl. Byddech wedi edrych ar y grwpiau hynny sydd wedi'u hallgáu fwyaf ac wedi sicrhau bod camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r rhwystrau penodol sy'n eu hwynebu. Byddech wedi gallu dweud wrthym heddiw beth yn union oedd y camau gweithredu hynny. Pe bai'r Llywodraeth yn wir yn deall yr ymdeimlad o fod wedi'ch cau allan, ni fyddai'n derbyn targed o 25%. Weinidog, a wnewch chi ailystyried y targed hwnnw? A wnewch chi ddod yn ôl i'r Siambr gyda chynllun gweithredu? A wnewch chi sicrhau bod cynhwysiant digidol yn flaenoriaeth, oherwydd, ar hyn o bryd, ymddengys i mi ei fod wedi disgyn oddi ar waelod rhestr y Llywodraeth o bethau i'w gwneud?

3.50 p.m.

Minister, 'thin' does not begin to describe the statement before us today, and I query the thought processes that went into deciding to bring this to the Chamber but to send Cardiff Airport to our inboxes today. Digital exclusion is a blight on our society and is a really important issue. Be ambitious. Be proactive. Come back to us with a specific targeted plan of action, and I will be the first to welcome it.

Weinidog, nid yw 'tila' yn air sy'n dechrau disgrifio'r datganiad ger ein bron heddiw, ac rwy'n amau'r prosesau meddwl a arweiniodd at y penderfyniad i ddod â hwn i'r Siambr ond i anfon Maes Awyr Caerdydd i'n mewnflychau heddiw. Mae allgáu digidol yn falltod ar ein cymdeithas ac yn fater pwysig iawn. Byddwch yn uchelgeisiol. Byddwch yn rhagweithiol. Dewch yn ôl atom gyda chynllun gweithredu wedi'i dargedu a phenodol, a fi fydd y cyntaf i'w groesawu.

**Jane Hutt:** I am disappointed by the Member's response to this statement, which seems to me to have been welcomed, not just in the Chamber but also by the people I visited in Markham only recently, in the county borough of Caerphilly, where there is evidence of investment from Communities 2.0. I will not repeat the figures for the

**Jane Hutt:** Rwyf wedi fy siomi gan ymateb yr Aelod i'r datganiad hwn; ymddengys i mi fod y datganiad wedi'i groesawu, nid yn unig yn y Siambr ond gan y bobl yr ymwelais â hwy yn Markham yn ddiweddar, ym mwrdeistref sirol Caerffili, lle y ceir tystiolaeth o fuddsoddiad gan Cymunedau 2.0. Nid wyf am ailadrodd y ffigurau o ran y

investment that we are making, but I will say that that is a strategically aligned programme that is making a real difference to the lives of some of the most disadvantaged people in that community. I had a good discussion about future opportunities with those who are now learning the skills and accessing jobs and opportunities as a result of the investment in that community, which is linked to Communities First projects. The local primary school pupils were there, and they had had access to iPads as a result of our Communities 2.0 investment. They were using them proactively and creatively to great benefit and effect, as they demonstrated to me. That is in one of our more disadvantaged communities in Wales. The younger people I met through to the elderly and those who were economically excluded were looking to take advantage of online opportunities. Get Caerphilly Online was part of that project, but it is important and right to account for the outputs of this investment. I hope that the Member will be reassured by these outputs in light of the progress that we have achieved up to March of this year.

buddsoddiad yr ydym yn ei wneud, ond fe ddywedaf ei bod yn rhaglen sydd wedi ei halinio'n strategol ac sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau rhai o'r bobl mwyaf difreintiedig yn y gymuned honno. Cefais drafodaeth dda am gyfleoedd yn y dyfodol â'r rhai sy'n dysgu'r sgiliau yn awr ac sy'n cael mynediad at swyddi a chyfleoedd yn sgîl y buddsoddiad yn y gymuned honno, sy'n gysylltiedig â phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd disgyblion yr ysgol gynradd leol yno, ac roedd ganddynt fynediad at iPads o ganlyniad i'r buddsoddiad a wnaethom drwy Cymunedau 2.0. Roeddent yn eu defnyddio yn rhagweithiol ac yn greadigol gan gael budd mawr ohonynt a chan gael effaith fawr, fel y gwnaethant ddangos imi. Mae hynny yn un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd y bobl iau y cwrddais â hwy, hyd at yr henoed a'r rhai a oedd wedi'u hallgáu yn economaidd, yn bwriadu manteisio ar gyfleoedd ar-lein. Roedd Dewch Ar-lein Caerffili yn rhan o'r prosiect hwnnw, ond mae'n bwysig ac yn gywir rhoi cyfrif am allbynnau'r buddsoddiad hwn. Gobeithio y bydd yr Aelod wedi'i chalonogi gan y canlyniadau hyn yn wyneb y cynnydd yr ydym wedi'i gyflawni hyd at fis Mawrth eleni.

We have targets taking us to 2015. The number of enterprises assisted, for example, is 128; in fact, our target was 120. The number of enterprises financially supported is 50, the number of individuals assisted is 109, the number of initiatives to tackle barriers in Rhondda Cynon Taf is five, the number of jobs created is 19, the number of enterprises created is 15, and there are also enterprise equality strategies. The number of community groups assisted is 172 and there have been 9,889 beneficiaries as a result of the Communities 2.0 project outputs. Importantly—and I know that you would recognise this, and I would be happy to share this with Members in greater detail—the three-year evaluation of Communities 2.0 concluded that the programme is making good progress and that it has put the building blocks in place for more extensive future delivery.

Mae gennym dargedau hyd at 2015. Rhoddir cymorth i 128 o fentrau, er enghraifft; ein targed oedd 120. Cefnogir 50 o fentrau yn ariannol, rhoddir cymorth i 109 o unigolion, ceir pum menter yn Rhondda Cynon Taf i fynd i'r afael â rhwystrau, crëwyd 19 o swyddi, crëwyd 15 o fentrau, a cheir strategaethau cydraddoldeb ar gyfer mentrau hefyd. Cynorthwywyd 172 o grwpiau cymunedol, a chafwyd 9,889 o fuddiolwyr yn sgîl canlyniadau prosiect Cymunedau 2.0. Mae'n bwysig nodi—a gwn y byddech yn cydnabod hyn, a byddwn yn hapus i roi rhagor o fanylion i'r Aelodau am hyn—daeth y gwerthusiad tair blynedd o Cymunedau 2.0 i'r casgliad fod y rhaglen yn gwneud cynnydd da a'i fod wedi creu'r sail ar gyfer darparu'n helaethach yn y dyfodol.

It is important that we recognise that the work that we are doing stretches far beyond

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod y gwaith yr ydym yn ei wneud yn ymestyn

those direct beneficiaries. I did not want to turn my statement into a list of examples, not just of projects that I have visited, which are, of course, of interest in the constituencies that you represent, but also of more strategic projects, such as our work with the WJEC to embed digital inclusion in the community development element of the Welsh baccalaureate qualification, so that students competent in ICT will help people in their communities to get online. Communities 2.0 teams are working with them, and that reaches more secondary beneficiaries.

ymhell y tu hwnt i'r buddiolwyr uniongyrchol hynny. Nid oeddwn am droi fy natganiad yn rhestr o enghreifftiau, nid yn unig o brosiectau yr wyf wedi ymweld â hwy, sydd, wrth gwrs, o ddiddordeb yn yr etholaethau yr ydych yn eu cynrychioli, ond hefyd o brosiectau mwy strategol, fel ein gwaith gyda CBAC i ymgorffori cynhwysiant digidol yn yr elfen datblygu cymunedol o gymhwyster bagloriaeth Cymru, fel y bydd myfyrwyr sy'n alluog ym maes TGCh yn helpu pobl yn eu cymunedau i fynd ar-lein. Mae timau Cymunedau 2.0 yn gweithio gyda hwy, ac mae hynny'n cyrraedd mwy o fuddiolwyr eilaidd.

I also mentioned social enterprises. Communities 2.0 funded a social enterprise in Bangor, which is estimated to have the potential to reach 2,000 people over the next three years. That is helped in part by the improved ICT facilities in the enterprise.

Soniais hefyd am fentrau cymdeithasol. Ariannodd Cymunedau 2.0 fenter gymdeithasol ym Mangor, ac amcangyfrifir bod ganddi'r potensial i gyrraedd 2,000 o bobl dros y tair blynedd nesaf. Caiff hynny ei helpu yn rhannol gan y cyfleusterau TGCh gwell yn y fenter.

Skills and training have been mentioned. The train-the-trainer events that are undertaken as part of this project create many more secondary beneficiaries. I have already mentioned libraries, and it is estimated that they have helped over 100,000 people to get online, according to records of the number of people whom library staff assist across the library network in Wales.

Crybwyllwyd sgiliau a hyfforddiant. Mae'r digwyddiadau hyfforddi'r hyfforddwr sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r prosiect hwn yn creu llawer mwy o fuddiolwyr eilaidd. Rwyf eisoes wedi sôn am lyfrgelloedd, ac amcangyfrifir eu bod wedi helpu dros 100,000 o bobl i fynd ar-lein, yn ôl y cofnodion o nifer y bobl y mae aelodau staff mewn llyfrgelloedd yn eu cynorthwyo ar draws y rhwydwaith llyfrgelloedd yng Nghymru.

Finally, on the social marketing campaigns, we do liaise, and the BBC's First Click campaign is one example, as are national campaigns such as Race Online 2012. Extending the Communities 2.0 programme beyond the convergence areas that I have already mentioned means that we are looking at this and operating with many national organisations in the third sector as well as the private and public sectors on a pan-Wales level. That is to ensure that digital inclusion cuts across our Government policies, strategies and initiatives, ultimately reaching more people.

Yn olaf, o ran yr ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol, rydym yn cysylltu, ac mae ymgyrch First Click y BBC yn un enghraifft, fel y mae ymgyrchoedd cenedlaethol fel Race Online 2012. Mae'r ffaith fod rhaglen Cymunedau 2.0 yn cael ei hymestyn y tu hwnt i'r ardaloedd cydgyfeirio yr wyf eisoes wedi eu crybwyll yn golygu ein bod yn edrych ar hyn ac yn gweithredu gyda nifer o sefydliadau cenedlaethol yn y trydydd sector, yn ogystal â'r sectorau preifat a chyhoeddus, ar lefel Cymru gyfan. Nod hynny yw sicrhau bod cynhwysiant digidol yn mynd ar draws polisïau, strategaethau a mentrau'r Llywodraeth, gan gyrraedd mwy o bobl yn y pen draw.

**Mike Hedges:** I welcome the statement very strongly. I also strongly agree with the need

**Mike Hedges:** Croesawaf y datganiad yn fawr iawn. Rwyf innau'n cytuno'n gryf â'r

for internet access in job hunting and so on. What is planned to ensure that people use the internet most effectively and safely? Given phishing scams and other things that happen online, we need to ensure that people not only have access but safe access. What does the Minister intend to do to promote concept keyboards and Braille keyboards so that more disabled people have access to the internet? After 4 p.m. each day, a large number of publicly funded IT systems in colleges and schools remain unused until 9 a.m. the next day. Does the Minister have any plans to discuss with the Minister for Education and Skills ways to increase the community availability of this equipment after 4 p.m.? Finally, as people who have been listening to me in here will know, I have been promoting the use of an Assembly app without much support, particularly—

angen am fynediad at y rhyngrwyd wrth chwilio am swydd ac yn y blaen. Beth sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y modd mwyaf effeithiol a diogel? O ystyried sgamiau gwe-rwydo a phethau eraill sy'n digwydd ar-lein, oes mae angen inni sicrhau bod gan bobl fynediad ond mae angen mynediad diogel hefyd. Beth y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud i hyrwyddo cyffyrddellau a bysellfyrddau Braille fel bod mwy o bobl anabl yn cael mynediad at y rhyngrwyd? Ar ôl pedwar o'r gloch bob dydd, mae nifer fawr o systemau TG a ariennir yn gyhoeddus mewn colegau ac ysgolion yn aros yn segur, heb eu defnyddio tan naw o'r gloch fore d drannoeth. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i drafod â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ffyrdd i sicrhau bod yr offer hwn ar gael i'r gymuned ar ôl pedwar o'r gloch? Yn olaf, fel y bydd pobl sydd wedi bod yn gwrando arnaf yma yn gwybod, rwyf wedi bod yn hyrwyddo'r defnydd o 'app' i'r Cynulliad, a hynny heb lawer o gefnogaeth, yn arbennig—

**Darren Millar:** [*Inaudible*.]

**Darren Millar:** [*Anghlywadwy.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This is not a conversation. Mike Hedges, please continue.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid sgwrs yw hyn. Mike Hedges, ewch yn eich blaen, os gwelwch yn dda.

**Mike Hedges:** I have not had much support for that, especially from the Commissioner responsible. Will the Minister join me in supporting the idea of an app for this place to make it easier for people outside to access it?

**Mike Hedges:** Nid wyf wedi cael llawer o gefnogaeth i hynny, yn enwedig o du'r Comisiynydd cyfrifol. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i gefnogi'r syniad o gael 'app' i'r lle hwn i'w gwneud yn haws i bobl y tu allan gael mynediad iddo?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I remind the Member that he can put questions to Commissioners. I am sure that the Minister will have the elegance to avoid that particular reference, which does not really fall within her responsibilities.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Hoffwn atgoffa'r Aelod y gall ofyn cwestiynau i'r Comisiynwyr. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ddigon huawdl i osgoi'r cyfeiriad a wnaed, nad yw'n dod o fewn ei chyfrifoldebau mewn gwirionedd.

**Jane Hutt:** I am sure that we all recognise the fact that Mike Hedges has taken the opportunity to promote something about which he can question the relevant Commissioner in due course, as you say, Deputy Presiding Officer.

**Jane Hutt:** Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cydnabod y ffaith fod Mike Hedges wedi manteisio ar y cyfle i hyrwyddo rhywbeth y gall ofyn cwestiwn i'r Comisiynydd perthnasol amdano maes o law, fel y dywedwch, Ddirprwy Lywydd.

It is important that we recognise our responsibilities to ensure access to IT

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ein cyfrifoldebau i sicrhau mynediad at offer TG.

equipment. We have responsibilities and can encourage others to take responsibility through volunteering and community development. I have mentioned the work being done to encourage young people to engage through the Welsh baccalaureate and the fact that they are undertaking intergenerational digital inclusion work as materials are being developed. Those are now being circulated by Welsh bacc co-ordinators. Again, that is being supported by the Communities 2.0 co-ordinators and teams.

Mae gennym gyfrifoldebau, a gallwn annog eraill i gymryd cyfrifoldeb drwy wirfoddoli a datblygu cymunedol. Rwyf wedi sôn am y gwaith sy’n cael ei wneud i annog pobl ifanc i gymryd rhan drwy fagloriaeth Cymru a’r ffaith eu bod yn gwneud gwaith ym maes cynhwysiant digidol sy’n pontio’r cenedlaethau wrth i adnoddau gael eu datblygu. Mae’r rheini bellach yn cael eu dosbarthu gan gydgysylltwyr Bagloriaeth Cymru. Unwaith eto, cefnogir hynny gan gydgysylltwyr a thimau Cymunedau 2.0.

There are also a number of computer recycling schemes available across Wales. I am sure that we are all aware of those schemes, which offer low-cost machines that help people to get started at home quickly, easily and affordably. We have organisations such as Partners IT, which collects redundant ICT equipment from private businesses, public bodies and education establishments. They also refurbish and distribute equipment back to communities.

Mae nifer o gynlluniau ailgylchu cyfrifiaduron hefyd ar gael ledled Cymru. Rwy’n siŵr ein bod i gyd yn gwybod am y cynlluniau hynny, sy’n cynnig peiriannau rhad sy’n helpu pobl i ddechrau arni yn y cartref yn gyflym, mewn ffordd hawdd a fforddiadwy. Mae gennym sefydliadau fel Partners IT, sy’n casglu offer TGCh diangen gan fusnesau preifat, cyrff cyhoeddus a sefydliadau addysg. Maent hefyd yn adnewyddu offer ac yn ei ddosbarthu yn ôl i gymunedau.

I have brought this statement to the Assembly, and Members have been very constructive and helpful in providing a steer on the route that we are taking for our digital framework, building on the digital inclusion delivery plan, which is guiding this. It is a national framework, and its targets and objectives are backed by the public, private and third sectors. That framework, published in December 2010, offers a shared vision of how to get increasing numbers of people to use the internet and recognises that we in the Welsh Government have a responsibility to work on and deliver progress on that framework.

Rwyf wedi dod â’r datganiad hwn i’r Cynulliad, ac mae’r Aelodau wedi bod yn adeiladol iawn ac wedi cynorthwyo o ran darparu cyfeiriad i’r llwybr yr ydym yn ei gymryd yng nghyswllt ein fframwaith digidol, gan adeiladu ar y cynllun cyflawni cynhwysiant digidol, sy’n llywio hyn. Fframwaith cenedlaethol ydyw, ac mae ei dargedau a’i amcanion yn cael eu cefnogi gan y sectorau cyhoeddus a phreifat, a’r trydydd sector. Mae’r fframwaith hwnnw, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010, yn cynnig gweledigaeth a rennir ynghylch sut y gellir sicrhau bod mwy a mwy o bobl yn defnyddio’r rhyngrwyd, ac mae’n cydnabod bod gennym ni yn Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb i weithio i sicrhau y gwneir cynnydd yng nghyswllt y fframwaith hwnnw.

4.00 p.m.

## Datganiad: Cyflwyno Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
## Statement: Introduction of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** Yesterday, I laid the Food Hygiene Rating (Wales) Bill, together with an explanatory memorandum,

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Ddoe, gosodais Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), yn ogystal â’r memorandwm

before the National Assembly for Wales. I also issued a written statement, and I am pleased to introduce the Bill for Assembly Members' consideration today.

esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig, ac rwy'n falch o gyflwyno'r Bil i'w ystyried gan Aelodau'r Cynulliad heddiw.

The Bill gives effect to the Welsh Government's proposals to introduce a statutory food hygiene rating scheme in Wales. This is the first health Bill to be introduced by the Welsh Government and aims to contribute to the prevention of poor health and the reduction of health inequalities. The Bill will contribute to these Welsh Government priorities by providing consumers with information on the hygiene standards of a food business so they can make better informed choices about where to eat or shop for food. The tragic consequences of the 2005 E. coli outbreak demonstrate the impact food hygiene has on public health. I am determined to improve food hygiene standards in Wales and believe that the introduction of the provisions in this Bill will make a positive difference to people in Wales.

Mae'r Bil yn rhoi grym i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru. Hwn yw'r Bil iechyd cyntaf i gael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw cyfrannu at atal iechyd gwael a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd y Bil yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru drwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am safonau hylendid busnesau bwyd fel y gallant wneud dewisiadau mwy gwybodus ynghylch ble i fwyta neu siopa am fwyd. Mae canlyniadau trasig yr achosion E. coli yn 2005 yn dangos effaith hylendid bwyd ar iechyd y cyhoedd. Rwy'n benderfynol o wella safonau hylendid bwyd yng Nghymru ac rwy'n credu y bydd cyflwyno'r darpariaethau yn y Bil hwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl yng Nghymru.

The Food Standards Agency introduced a voluntary food hygiene rating scheme in October 2010. Although the scheme has achieved good results, because it is voluntary for food businesses to display their food hygiene rating, not all food businesses do so. Indeed, research undertaken by the FSA last year found that only 31% of food businesses voluntarily displayed their food hygiene rating. For those with scores of zero, one or two, only 6% had chosen to display. This can make it difficult for consumers to find out what a food business's food hygiene rating is. I want to change this. The Bill will, therefore, establish a food hygiene rating scheme on a statutory footing and ensure that food hygiene ratings are visible for all to see.

Cyflwynodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd gynllun graddio hylendid bwyd gwirfoddol ym mis Hydref 2010. Er bod y cynllun wedi arwain at ganlyniadau da, oherwydd bod busnesau bwyd yn arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar sail wirfoddol, nid yw pob busnes bwyd yn gwneud hynny. Yn wir, yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd y flwyddyn ddiwethaf, dim ond 31% o fusnesau bwyd a oedd yn arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn wirfoddol. Ymhlith y busnesau a oedd â sgoriau o sero, un neu ddau, dim ond 6% a oedd wedi dewis arddangos eu sgoriau. Gall hyn ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr gael gwybod beth yw sgôr hylendid bwyd busnes bwyd. Rwyf am newid hyn. Bydd y Bil, felly, yn sefydlu cynllun graddio hylendid bwyd ar sail statudol ac yn sicrhau bod sgoriau hylendid bwyd yn weladwy i bawb.

The Welsh Government undertook a consultation on the draft Food Hygiene Rating (Wales) Bill from 14 December 2011 to 7 March 2012 in order to gain views on the proposed content of the Bill. Although the responses received demonstrate the positive support that consumers and key stakeholders

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) drafft rhwng 14 Rhagfyr 2011 a 7 Mawrth 2012 er mwyn cael barn pobl am gynnwys arfaethedig y Bil. Er bod yr ymatebion a ddaeth i law yn dangos cefnogaeth gadarnhaol defnyddwyr a

have for the introduction of a mandatory food hygiene rating scheme, some important comments on the content of the Bill were made by respondents. In light of these responses, I made some significant amendments to the Bill. These include extending the time periods for appeals, making the provisions relating to right of reply clearer and removing proposals that required food hygiene rating certificates to be retained. Full details of all the changes made to the Bill following the consultation are included in the explanatory memorandum that was laid alongside the Bill.

rhanddeiliaid allweddol tuag at gyflwyno cynllun graddio hylendid bwyd gorfodol, gwnaed sylwadau pwysig gan ymatebwyr ar gynnwys y Bil. Yng ngoleuni'r ymatebion hynny, rwyf wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys ymestyn y cyfnodau amser ar gyfer apelio, a fydd yn gwneud y darpariaethau sy'n ymwneud â'r hawl i ymateb yn gliriach ac yn dileu cynigion a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gadw tystysgrifau sgôr hylendid. Ceir manylion llawn am yr holl newidiadau a wnaed i'r Bil yn dilyn yr ymgynghoriad yn y memorandwm esboniadol a osodwyd ochr yn ochr â'r Bil.

The Bill introduced to the Assembly comprises of 26 sections and one Schedule, which is in two parts. The Bill makes provision for the production of food hygiene ratings, the display of information about food hygiene ratings and the enforcement of requirements to display.

Mae'r Bil a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn cynnwys 26 o adrannau ac un Atodlen, sydd mewn dwy ran. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer llunio sgoriau hylendid bwyd, arddangos gwybodaeth am sgoriau hylendid bwyd a gorfodi'r gofynion i arddangos.

The Bill will apply to all food businesses that supply food directly to consumers for consumption. This includes, among others, restaurants, takeaways, mobile caterers, schools, hospitals, residential care homes, bakeries, delicatessens and supermarkets. The Bill enables, by way of regulations, for certain categories of establishment to be exempt from rating. It is my intention for these and other regulations provided for by the Bill to be fully consulted upon subject to the Bill completing Stage 2 of the Assembly's consideration.

Bydd y Bil yn gymwys i bob busnes bwyd sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i'w fwyta gan ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, bwytai, siopau tecawê, arlwywyr symudol, ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal preswyl, siopau bara, siopau delicatessen ac archfarchnadoedd. Mae'r Bil, drwy gyfrwng rheoliadau, yn galluogi i gategorïau penodol o sefydliad gael eu heithrio rhag cael eu sgorio. Fy mwriad i yw bod y rheoliadau hyn a rheoliadau eraill y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer yn destun ymgynghoriad llawn os bydd y Bil yn cwblhau Cyfnod 2 o'r broses o gael ei ystyried gan y Cynulliad.

The Bill also requires those establishments involved in food business-to-business trade to be included in the scope of the scheme. These are businesses that produce, process or prepare food and include food manufacturers, wholesalers and transporters. Establishments involved in food business-to-business trade are currently not rated under the voluntary FSA scheme. However, I want to ensure that this Bill covers as wide a range of food businesses as possible, including those supplying food to our schools and hospitals.

Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y sefydliadau hynny sy'n ymwneud â masnach bwyd busnes-i-fusnes yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cynllun. Mae'r rhain yn fusnesau sy'n cynhyrchu, yn prosesu neu'n paratoi bwyd ac maent yn cynnwys gwneuthurwyr bwyd, cyfanwerthwyr a chludwyr. Nid yw sefydliadau sy'n ymwneud â masnach bwyd busnes-i-fusnes yn cael eu sgorio ar hyn o bryd o dan gynllun gwirfoddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Fodd bynnag, rwyf am sicrhau bod y Bil hwn yn cwmpasu ystod mor eang o fusnesau bwyd ag y bo modd, gan gynnwys y rhai sy'n cyflenwi bwyd i'n hysgolion a'n hysbytai.

The Bill requires food authorities to inspect food business establishments within their area, assess the food hygiene standards and produce a food hygiene rating, scored against criteria set out by the FSA. Within 14 days of the inspection, the food authority must provide written notification and a food hygiene rating sticker to the food business operator. The food business will be required to display this sticker at their establishment, and the FSA will be required to publish the rating on its website. Given the wide range of food business establishments in Wales, it is my intention to prescribe in regulations where the sticker must be displayed at different types of establishment. Importantly, the Bill also requires food business operators to inform a person verbally of their establishment's food hygiene rating if requested to do so. This will not only provide some assurance to blind or partially sighted people, but enable consumers to call a food business to find out its food hygiene rating if they wish to do so.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau bwyd yn archwilio sefydliadau busnes bwyd o fewn eu hardal, asesu'r safonau hylendid bwyd a llunio sgôr hylendid bwyd, wedi'u hasesu ar sail y meini prawf a bennwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. O fewn 14 diwrnod i'r archwiliad, rhaid i'r awdurdod bwyd ddarparu hysbysiad ysgrifenedig a sticer sgôr hylendid bwyd i weithredwr y busnes bwyd. Bydd yn ofynnol bod y busnes bwyd yn arddangos y sticer yn y sefydliad bwyd, a bydd yn ofynnol bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi'r sgôr ar ei gwefan. O ystyried yr ystod eang o sefydliadau busnes bwyd yng Nghymru, fy mwriad i yw pennu mewn rheoliadau lle y dylid arddangos y sticer mewn mathau gwahanol o sefydliadau. Mae'n bwysig nodi bod y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod gweithredwyr busnesau bwyd yn rhoi gwybod i berson ar lafar am sgôr hylendid bwyd y sefydliad os gofynnir iddynt wneud hynny. Bydd hyn nid yn unig yn darparu rhywfaint o sicrwydd i bobl ddall neu rannol ddall, ond yn galluogi defnyddwyr i alw busnes bwyd i gael gwybod ei sgôr hylendid bwyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

While my main objective is to provide information on hygiene standards to consumers, I intend for the Bill to be fair to food businesses. Although they will be required to display their food hygiene rating, the Bill provides a food business operator with a right to appeal their establishment's rating and also the right to comment upon it. These comments will be published on the FSA website for consumers to see.

Er mai fy mhrif amcan yw darparu gwybodaeth am safonau hylendid i ddefnyddwyr, rwy'n bwriadu i'r Bil fod yn deg i fusnesau bwyd. Er y bydd yn ofynnol iddynt arddangos eu sgôr hylendid bwyd, mae'r Bil yn cynnig yr hawl i weithredwyr busnes bwyd apelio yn erbyn sgôr y sefydliad a hefyd yr hawl i wneud sylwadau arno. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddefnyddwyr gael eu gweld.

Food businesses can also request, and pay for, a food authority to carry out a further inspection and assessment of the food hygiene standards of the establishment to consider whether a food hygiene rating should be changed. This will give the food business operator an incentive to improve hygiene at the establishment in order for it to be given a new rating, if appropriate, without having to wait until the next planned food hygiene inspection.

Gall busnesau bwyd hefyd ofyn i'r awdurdod bwyd gynnal archwiliad ac asesiad pellach o safonau hylendid bwyd y sefydliad i ystyried a ddylai'r sgôr hylendid bwyd gael ei newid. Bydd y busnes yn talu am hyn. Bydd hyn yn ysgogi'r gweithredydd busnes bwyd i wella hylendid ei sefydliad er mwyn iddo gael sgôr newydd, os yn briodol, heb orfod aros tan yr archwiliad hylendid bwyd nesaf.

The Bill requires food authorities to enforce the requirements to display food hygiene

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau bwyd yn gorfodi'r gofynion i

information and provides authorities with the means to do so through the use of fixed-penalty notices and, where appropriate, prosecution.

arddangos gwybodaeth hylendid bwyd ac yn rhoi'r modd i awdurdodau wneud hynny drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig a'r opsiwn i erlyn, lle y bo'n briodol.

I believe that the Food Hygiene Rating (Wales) Bill will introduce a simple but effective public health measure that will empower consumers and help to improve food hygiene standards. I look forward to working with Assembly Members and others with an interest in the food hygiene rating scheme in scrutinising the Bill.

Credaf y bydd Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn cyflwyno mesur iechyd cyhoeddus syml ond effeithiol a fydd yn rhoi grym i ddefnyddwyr ac yn helpu i wella safonau hylendid bwyd. Edrychaf ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad ac eraill sydd â diddordeb yn y cynllun sgôr hylendid bwyd yn ystod y broses o graffu ar y Bil.

**Darren Millar:** Thank you, Minister, for your statement to the Assembly today on the Food Hygiene Rating (Wales) Bill. It is a Bill that we, as the official opposition in the Assembly, very much welcome. We have long been supporters of a mandatory scores-on-the-doors hygiene rating scheme. In fact, we have called for such a system in manifestos and many other times before. We all know that the voluntary scheme has been successful and well received by consumers, but it is disappointing that some organisations still do not voluntarily display their food hygiene ratings on their premises. We all know that Consumer Focus Wales research has demonstrated that 94% of the public thinks that the displaying of these rating should be compulsory.

**Darren Millar:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad i'r Cynulliad heddiw ar Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). Mae'n Fil yr ydym ni, fel yr wrthblaid swyddogol yn y Cynulliad, yn ei groesawu. Rydym wedi cefnogi cael cynllun gorfodol ar gyfer arddangos sgôr hylendid ar ddrysau ers cryn amser. Yn wir, rydym wedi galw am system o'r fath mewn maniffestos ac ar sawl adeg arall yn y gorffennol. Rydym i gyd yn gwybod y bu'r cynllun gwirfoddol yn llwyddiannus a'i fod wedi cael ymateb da gan ddefnyddwyr, ond mae'n siomedig bod rhai sefydliadau yn parhau i beidio ag arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn wirfoddol ar eu heiddo. Rydym oll yn gwybod bod gwaith ymchwil Llais Defnyddwyr Cymru wedi dangos bod 94% o'r cyhoedd yn credu y dylai arddangos sgoriau fod yn orfodol.

The mandatory scheme gives an opportunity to improve the information given to consumers and to other food businesses. I was pleased to see an attempt in the Bill to ensure that business-to-business food hygiene ratings are given and shared not just with the public, but with any organisation that is procuring food. We all know that there can be tragic consequences when things go wrong with food hygiene. We have seen a number of outbreaks of E. coli in Wales over the past few years, and we all remember the tragic death of five-year-old Mason Jones in 2005. It is a tribute to him and to his family that we are able to discuss this issue in the Assembly today, to ensure that nothing like that ever happens again and that we do everything we can to minimise the risk of that happening again.

Mae'r cynllun gorfodol yn rhoi cyfle i wella'r wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr ac i fusnesau bwyd eraill. Roeddwn yn falch o weld ymgais yn y Bil i sicrhau bod sgoriau hylendid bwyd busnes-i-fusnes yn cael eu rhannu—nid yn unig gyda'r cyhoedd, ond hefyd gydag unrhyw sefydliad sy'n cyflenwi bwyd. Rydym i gyd yn gwybod pan fydd pethau'n mynd o'i le ym maes hylendid bwyd y gall arwain at ganlyniadau trasig. Rydym wedi gweld nifer o achosion o E. coli yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym i gyd yn cofio marwolaeth drasig Mason Jones, y bachgen pum mlwydd oed, yn 2005. Mae'n deyrnged iddo ef ac i'w deulu ein bod yn gallu trafod y mater hwn yn y Cynulliad heddiw, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw beth fel hynny byth yn digwydd eto a'n bod yn gwneud popeth y gallwn ei wneud

i leihau'r risg o hynny'n digwydd eto.

There are a number of issues I want to raise with you, Minister. There is a need to ensure that there is consistency in the way the hygiene rating system works across Wales so that if someone gets a rating of 4 or 5 in Cardiff, it is done in the same way as a 4 or 5 might be applied to a business in Conwy or elsewhere. We need some confidence that the regulatory regime will be applied in a fair and consistent way. I would be grateful if you could tell us, at this reasonably early stage, what work you have done with your officials to ensure that that is the case.

Mae nifer o faterion yr wyf am eu codi gyda chi, Weinidog. Mae angen sicrhau bod cysondeb yn y ffordd y mae'r system sgorio hylendid yn gweithio ledled Cymru er mwyn sicrhau os yw rhywun yn cael sgôr o 4 neu 5 yng Nghaerdydd, bod y sgôr hwnnw'n cael ei roi yn yr un ffordd ag y byddai'n cael ei roi i fusnes yng Nghonwy neu yn rhywle arall. Mae angen hyder y bydd y gyfundrefn reoleiddio yn cael ei gweithredu mewn ffordd deg a chyson. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym, yn y cyfnod cymharol gynnar hwn, pa waith yr ydych wedi ei wneud gyda'ch swyddogion i sicrhau bod hynny'n digwydd.

I welcome the fact that you have attempted to catch all food-related businesses, but many businesses from which people purchase their food in Wales may well be based outside of Wales. What action are you able to take to safeguard the people of Wales from poor food hygiene standards elsewhere in the United Kingdom or overseas? Another area that needs to be considered is the takeaway market in Wales. Many takeaways offer food delivery services and access to a food hygiene rating will not be readily available to consumers if they are ordering food over the telephone. I wonder whether there ought to be some form of disclosure to consumers in the case of orders over the telephone to takeaways.

Croesawaf y ffaith eich bod wedi ceisio cynnwys yr holl fusnesau sy'n ymwneud â bwyd, ond mae'n bosibl bod nifer o fusnesau y mae pobl yn prynu eu bwyd ganddynt yng Nghymru wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Pa gamau y gallwch eu cymryd i ddiogelu pobl Cymru rhag safonau hylendid bwyd gwael mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig neu dramor? Maes arall y mae angen rhoi ystyriaeth iddo yw'r farchnad bwyd tecawê yng Nghymru. Mae nifer o siopau tecawê yn cynnig gwasanaethau cludo bwyd ac ni fydd yn hawdd i ddefnyddwyr gael mynediad at y sgôr hylendid bwyd os ydynt yn archebu bwyd dros y ffôn. Tybed a ddylid cael rhyw fath o system i ddatgelu'r wybodaeth i ddefnyddwyr pan fyddant yn archebu bwyd gan siopau tecawê dros y ffôn.

Finally, I do welcome the right to appeal that the Minister referred to. We need to look at that in more detail at the committee stage to see exactly how it might work, so that people have an opportunity for redress where they feel they have been unfairly treated as a business. However, with regard to leadership in this issue, I welcome the fact that schools and hospitals will be included in the scope of this legislation—I think that it is important that they are. However, how will the Minister ensure that parents and patients have ready access to information about food hygiene standards? In hospitals, will it be in leaflet form, to be provided on admission? In schools, will it be in an annual report to parents, or in the headteacher's report to parents? It is really important that that

Yn olaf, rwy'n croesawu'r hawl i apelio y cyfeiriodd y Gweinidog ato. Mae angen inni edrych ar hynny'n fanylach yn ystod y cyfnod pwyllgor i weld sut yn union y gallai weithio, fel bod pobl â busnes yn cael cyfle i gael iawndal os ydynt yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg. Fodd bynnag, o ran arweinyddiaeth mewn perthynas â'r mater hwn, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd ysgolion ac ysbytai yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y ddeddfwriaeth—rwy'n credu bod hynny'n bwysig. Fodd bynnag, sut y gwnaiff y Gweinidog sicrhau bod rhieni a chleifion yn cael mynediad parod at wybodaeth am safonau hylendid bwyd? Mewn ysbytai, a fydd ar ffurf taflen a ddarperir pan fyddant yn cyrraedd? Mewn ysgolion, a fydd yn cael ei chynnwys mewn

information is shared once any organisation has a hygiene rating. I would therefore appreciate any feedback on those issues. In short, however, we do welcome this legislation and we are very grateful that the Government has finally brought it forward.

adroddiad blynyddol i'r rhieni, neu yn adroddiad y pennaeth i rieni? Mae'n bwysig iawn bod y wybodaeth yn cael ei rhannu unwaith y bydd unrhyw sefydliad yn cael sgôr hylendid. Byddwn felly yn gwerthfawrogi unrhyw adborth ar y materion hynny. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r ddeddfwriaeth hon ac rydym yn ddiolchgar iawn bod y Llywodraeth wedi ei chyflwyno o'r diwedd.

**Lesley Griffiths:** I thank the opposition spokesperson for his support. The point about business-to-business trade is very important; it is important that everyone knows that suppliers have the same high standards as food establishments. You are right; it is a tribute to Mason Jones and, in particular, his mother, who has been incredibly supportive of the measures that we have been taking and persistent in ensuring that the issues were addressed.

**Lesley Griffiths:** Hoffwn ddiolch i lefarydd yr wrthblaid am ei gefnogaeth. Mae'r pwynt am fasnach busnes-i-fusnes yn bwysig iawn; mae'n bwysig bod pawb yn gwybod bod gan gyflenwyr yr un safonau uchel â sefydliadau bwyd. Rydych yn iawn: mae'n deyrnged i Mason Jones, ac i'w fam yn arbennig, a fu'n eithriadol o gefnogol o'r mesurau yr ydym wedi'u rhoi ar waith ac yn daer wrth sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

On the issue of inspections being consistent, it is important that we have that consistency throughout Wales, so that there is no variation. Clearly, we need to ensure that the regulatory regime is fair and that the inspectors have the same level of training. Training is one aspect that we need to look at carefully as we take this Bill forward and we introduce this mandatory scheme across Wales.

O ran cynnal arolygiadau yn gyson, mae'n bwysig ein bod yn cael cysondeb ledled Cymru, fel nad oes dim amrywiad. Yn amlwg, mae angen inni sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio yn deg a bod arolygwyr yn cael yr un lefel o hyfforddiant. Mae hyfforddiant yn un agwedd ar hyn y mae angen inni edrych arno'n ofalus wrth inni symud ymlaen â'r Bil hwn a chyflwyno'r cynllun gorfodol ledled Cymru.

You mentioned takeaways. We are ensuring that a person who rings a food establishment and asks about the food hygiene standard is told on the phone. On the issue of whether to have it on published leaflets, obviously, takeaways blanket an area with literature through the post, but we thought that that would perhaps be too much of a burden on businesses, because leaflets are changed and so on, but it is certainly something that we can look at, as you say, as it goes through scrutiny at the committee stage.

Gwnaethoch sôn am siopau tecawê. Rydym yn sicrhau bod person sy'n galw sefydliad bwyd ac yn gofyn am safon hylendid bwyd yn cael y wybodaeth honno dros y ffôn. O ran a ddylid cyhoeddi'r wybodaeth ar daflenni, yn amlwg, mae siopau tecawê yn dosbarthu taflenni i ardal drwy'r post, ond rydym yn credu y byddai hynny, o bosibl, yn ormod o faich ar fusnesau, gan fod taflenni yn cael eu newid ac yn y blaen, ond mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn ei ystyried, fel y dywedwch, wrth i'r Bil fynd drwy'r broses graffu yn y cyfnod pwyllgor.

You asked about schools and hospitals. Clearly, I have written to all hospitals to ensure that the food hygiene rating is displayed now, even under the voluntary scheme. Obviously, that will be displayed all over the hospital, and not just in one place. However, we need to look at having it in

Gwnaethoch ofyn am ysgolion ac ysbytai. Yn amlwg, rwyf wedi ysgrifennu at bob ysbyty i sicrhau bod y sgôr hylendid bwyd yn cael ei arddangos yn awr, hyd yn oed o dan y cynllun gwirfoddol. Yn amlwg, bydd y wybodaeth yn cael ei harddangos ar hyd a lled yr ysbyty, ac nid dim ond mewn un lle.

different food outlets in hospitals where necessary. Patients can certainly ask about it, and if I feel that it is appropriate, I can ask health boards to ensure that the information is put on leaflets sent to patients. As for schools, I have asked the Minister for Education and Skills if he will write to schools or to local authority directors of education to ensure that schools have the information on display under the voluntary scheme. Again, they would have to do that under a mandatory scheme, but that information could certainly get to parents via the annual report, if headteachers thought it appropriate.

Fodd bynnag, mae angen inni edrych ar gael y wybodaeth mewn mannau gwerthu bwyd gwahanol mewn ysbytai lle bo angen. Gall cleifion yn sicr ofyn am y wybodaeth, ac os byddaf yn teimlo ei bod yn briodol, gallaf ofyn i fyrddau iechyd sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhoi ar daflenni a anfonir i gleifion. O ran ysgolion, rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a wnaiff ysgrifennu at ysgolion neu gyfarwyddwyr addysg yr awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion yn arddangos y wybodaeth o dan y cynllun gwirfoddol. Unwaith eto, byddai'n rhaid iddynt wneud hynny o dan gynllun gorfodol, ond byddai rhieni yn sicr yn cael y wybodaeth honno drwy'r adroddiad blynyddol, os bydd penaethiaid yn meddwl bod hynny'n briodol.

**Elin Jones:** Rwyf innau'n croesawu cyhoeddi'r Bil hwn. Mae Plaid Cymru yn bendant yn cefnogi'r angen i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn i greu cynllun sgorio hylendid bwyd statudol gyda gorfodaeth ar fusnesau bwyd i arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn eu sefydliadau.

**Elin Jones:** I also welcome the introduction of this Bill. Plaid Cymru certainly supports the need to introduce legislation in this field to create a statutory food hygiene rating scheme and require food businesses to display their food hygiene rating in their institutions.

Mae rhoi gwybodaeth i gwsmer ar ffurf sgôr hylendid sefydliad, a rhoi gwybodaeth i gwsmer am yr hyn sy'n digwydd, yn aml y tu ôl i ddrws caeedig, o ran paratoi bwyd, yn rhoi'r grym iddo o ran penderfynu a yw'n barod i brynu bwyd yno ai peidio. Mae'r wybodaeth am sgôr hylendid yn gyhoeddus yn barod, wrth gwrs—dim ond chwilio ar y we y mae'n rhaid i rywun ei wneud am y sgorau hynny. Yn aml, mae gweld sgôr sefydliad yn ddarllen diddorol ac, ambell waith, annisgwyl. Mae dau o'r sefydliadau rwy'n mwynhau bwyta ynddynt yn fy etholaeth â sgôr o 1, sy'n annisgwyl iawn i mi.

The provision of information to a customer in the form of a hygiene rating for the establishment, and the provision of information about what happens, often behind closed doors, in terms of food preparation, gives him or her the necessary information to decide whether to buy food there or not. Information about hygiene ratings is already in the public domain, of course—one need only search on the web for those ratings. Often, an establishment's rating makes interesting reading and is, occasionally, surprising. Two of the establishments that I enjoy eating at in my constituency have a score of 1, which surprised me greatly.

4.15 p.m.

Rwyf hefyd yn croesawu'r hyn sy'n gynwysedig yn y Bil, sef bod sefydliadau sy'n gwerthu bwyd i fusnesau hefyd yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Gwyddom i gyd o brofiad trasig pa mor bwysig yw cynnwys y sefydliadau hynny.

I also welcome what is included in the Bill, that is, that business that sell food to other businesses are also included in the legislation. We all know from tragic experience how important it is to include these establishments.

Mae tri maes penodol rwyf eisiau gofyn cwestiynau amdanynt. Yn gyntaf, mae'r sgôr

There are three particular fields that I would like to ask questions about. First, the score

o ddim i chwech yn arwydd o hylendid, ond mae'n fesur digon amrwd ynddo'i hun, a thu ôl i bob sgôr mae gan bob sefydliad adroddiad hylendid wedi ei baratoi gan swyddogion yr awdurdod lleol, sy'n rhoi cyd-destun a rhesymau dros y sgôr. Ar hyn o bryd, er mwyn gweld yr adroddiad hwnnw, mae'n rhaid gwneud cais rhyddid gwybodaeth i'r awdurdod lleol, a chredaf fod hynny'n annigonol yn y tymor canol i dymor hir. Felly, a wnaiff y Gweinidog, wrth i'r ddeddfwriaeth hon gael ei chyflwyno, hefyd edrych ar ffordd o osod yr adroddiadau hynny ar y we, yn gyhoeddus, fel eu bod ar gael i'r cyhoedd?

from zero to six is a sign of hygiene, but this measure is a little crude, and behind every score is a full hygiene report on every establishment that has been prepared by local authority officers, giving context and the reasons for that score. At the moment, in order to see that report, you have to make a freedom of information request to the local authority, and that is inadequate in the medium to long term. Therefore, will the Minister, as this legislation is introduced, also look at means of placing those reports on the internet, in the public domain, so that they are available to the public?

Yn ail, mae bwriad yn y ddeddfwriaeth i osod sticer gyda'r sgôr mewn man cyhoeddus yn y sefydliad. Yn fy marn i, dylid ystyried rhoi un sticer y tu allan i'r sefydliad ac un sticer y tu mewn i'r sefydliad. Rhannaf gonsýrn Darren Millar ynglŷn â sefydliadau *takeaway*. Mae'r Gweinidog wedi ateb y pryder hwnnw'n rhannol, ond nid yw llawer o bobl sy'n prynu *takeaway* yn mynd yn agos at y sefydlaid i allu gweld y sgôr—yn aml, maent yn dibynnu ar fwydlenni sy'n cael eu dosbarthu o ddrws i ddrws. Un opsiwn yw ei gwneud yn orfodol i'r sgôr ymddangos ar y bwydlenni hynny. Mae hwnnw'n fater rwyf am iddo gael ei ystyried wrth inni graffu ar y ddeddfwriaeth.

Secondly, the legislation will require that a sticker showing the score is put in a public place within the establishment. In my opinion, we should consider placing a sticker on the outside of the establishment as well as within. I share Darren Millar's concern about takeaway businesses. The Minister has responded to that in part, but the fact is that many people who buy takeaways do not go anywhere near the business itself to see what the score is—they often obtain information about that food from menus that are distributed from door to door. One option would an obligation for the score to appear on those menus. That is an issue that could be considered as we scrutinise the legislation.

Yn olaf, rheoliadau fydd yn cyflwyno rhai agweddau pwysig ar y ddeddfwriaeth hon—er enghraifft, lleoliad y sticeri. Rheoliadau hefyd fydd yn amlinellu'r eithriadau i'r ddeddfwriaeth. Mae'r agweddau hynny yn bwysig ac yn sylfaenol i'r ddeddfwriaeth. A wnewch, felly, ystyried cyhoeddi'r rheoliadau drafft hynny yn fuan yn y broses ddeddfwriaethol, er mwyn inni allu gweld y darlun llawn o ran yr hyn sydd gennych mewn golwg wrth gychwyn ar y broses graffu?

Finally, some important aspects of this Bill will be introduced in regulations—for example, on the location of the sticker. Regulations will also outline the exceptions to the legislation. Those two aspects are very important and are fundamental to the legislation. Will you, therefore, give consideration to publishing the draft regulations sooner rather than later in the legislative process, so that we have the full picture of what you have in mind as we start the scrutiny of this legislation?

**Lesley Griffiths:** I thank Elin Jones for her support for the Bill. In relation to the report that she referred to, I know that some Members and some organisations, such as Consumer Focus Wales, have strong views on greater access to information, but I have to take into account the additional pressures that that would be put on local authorities in Wales. I have not rejected the idea

**Lesley Griffiths:** Diolch i Elin Jones am ei chefnogaeth i'r Bil. O ran yr adroddiad y cyfeiriodd ato, rwy'n gwybod bod gan rai Aelodau a rhai sefydliadau, fel Llais Defnyddwyr Cymru, deimladau cryf ynghylch cael rhagor o fynediad at wybodaeth, ond rhaid i mi ystyried y pwysau ychwanegol a fyddai'n cael ei roi ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid wyf

completely, but I am minded to await the outcome of ongoing Food Standards Agency work into the issue and allow time for the compulsory display of hygiene ratings to bed down. For the majority of consumers, that would probably be enough information. However, I am aware that these reports are done by public sector employees paid for with public money, so these reports belong to the public. That is something that we have to have a look at. Certainly, I have not ruled it out completely.

wedi gwrthod y syniad yn llwyr, ond rwyf o blaid aros am ganlyniad y gwaith ar y mater y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ei wneud ar hyn o bryd a rhoi amser i sefydlu trefniadau ar gyfer arddangos sgorau hylendid yn orfodol. Mae'r wybodaeth honno'n debygol o fod yn ddigon ar gyfer y mwyafrif o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod yr adroddiadau hyn yn cael eu paratoi gan weithwyr y sector cyhoeddus y telir iddynt gan arian cyhoeddus, felly mae'r adroddiadau hyn yn perthyn i'r cyhoedd. Mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni edrych arno. Yn sicr, nid wyf wedi'i ddiystyru'n llwyr.

She mentioned regulations, and that a few major issues will have to be considered within regulations, such as the location of the sticker and so on. I mentioned in my opening remarks that they would be published at the end of Stage 2, but I will certainly consider publishing them earlier as we take the Bill through, because I think that they are very important to the Bill and how people wish to consider it. So, yes, I will look at that.

Soniodd am reoliadau, ac y bydd rhaid ystyried rhai materion o bwys mewn rheoliadau, fel lleoliad y sticer ac yn y blaen. Soniais yn fy sylwadau agoriadol y byddent yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd Cyfnod 2, ond byddaf yn sicr yn ystyried eu cyhoeddi yn gynharach wrth inni fynd â'r Bil yn ei flaen, oherwydd credaf eu bod yn bwysig iawn i'r Bil a sut y mae pobl yn dymuno ei ystyried. Felly, byddaf yn edrych ar hynny.

Again, you referred to Darren Millar's point about takeaway menus, and that is something that Members can certainly consider as we go through the process.

Unwaith eto, gwnaethoch gyfeirio at bwynt Darren Millar am fwydlenni tecawê, ac mae hynny'n rhywbeth y gall Aelodau yn sicr ei ystyried wrth inni fynd drwy'r broses.

**Mark Drakeford:** Rwy'n siarad fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ganiatáu i weision sifil friffio'r pwyllgor ar y Bil.

**Mark Drakeford:** I speak as Chair of the Health and Social Care Committee. I would like to thank the Minister for allowing civil servants to brief the committee on the Bill.

Tomorrow, the committee will agree its timetable for the completion of its Stage 1 consideration within the timetable set out by the Business Committee. In helping us with that, could the Minister let us know whether she is confident that the views of private businesses were adequately considered during the consultation period?

Yfory, bydd y pwyllgor yn cytuno ar ei amserlen ar gyfer cwblhau ystyriaeth Cyfnod 1 o fewn yr amserlen a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes. I'n cynorthwyo gyda'r gwaith hwnnw, a all y Gweinidog roi gwybod inni a yw'n hyderus bod barn busnesau preifat wedi cael ei hystyried yn ddigonol yn ystod y cyfnod ymgynghori?

**Lesley Griffiths:** I thank the Chair of the Health and Social Care Committee for that contribution. I think that their views were taken into consideration, but as a committee you will have the opportunity again to question them as you go through your scrutiny. I am pleased that you found the technical briefing from my officials helpful

**Lesley Griffiths:** Diolch i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y cyfraniad hwnnw. Rwy'n meddwl bod eu barn wedi cael ei hystyried, ond fel pwyllgor byddwch yn cael cyfle i'w holi eto wrth i chi wneud eich gwaith craffu. Rwy'n falch eich bod yn ystyried bod y briff technegol gan fy swyddogion wedi bod o gymorth wrth inni

as we started the Bill process.

ddechrau ar broses y Bil.

**Aled Roberts:** On behalf of our group, and Kirsty Williams in particular, as our spokesperson for health, I welcome the statement this afternoon and indicate our support for the introduction of the mandatory scheme. It is important, given my comments to the First Minister earlier, that I recognise that, as far as this Bill is concerned, quite a few amendments have been introduced as a result of the consultation period. That should be acknowledged as a strength of this Bill.

**Aled Roberts:** Ar ran ein grŵp, a Kirsty Williams yn benodol, fel ein llefarydd dros iechyd, rwy'n croesawu'r datganiad y prynhawn yma ac yn nodi ein cefnogaeth i gyflwyno'r cynllun gorfodol. Mae'n bwysig, o ystyried fy sylwadau i'r Prif Weinidog yn gynharach, fy mod yn cydnabod, cyn belled ag y mae'r Bil hwn yn y cwestiwn, fod cryn dipyn o welliannau wedi cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori. Dylai hynny gael ei gydnabod fel un o gryfderau'r Bil hwn.

You will be aware, as one of the constituency Members for Wrexham county borough, that it is fortunate that we did not have a similar case in Wrexham, in Llay, some 12 to 18 months ago to the case involving Mason Jones in south Wales in 2005. We should acknowledge the steps that Mason Jones's family have taken in bringing this matter to the attention of the Assembly.

Byddwch yn ymwybodol, fel un o'r Aelodau etholaethol dros fwrdeistref sirol Wrecsam, ei bod yn ffodus na fu gennym achos tebyg yn Wrecsam, yn Llai, ryw 12 i 18 mis yn ôl i'r achos yn ymwneud â Mason Jones yn ne Cymru yn 2005. Dylem gydnabod y camau y mae teulu Mason Jones wedi eu cymryd wrth ddod â'r mater hwn i sylw'r Cynulliad.

I have very few questions, because I recognise that much of the detail will be borne out in the regulations and Mark Drakeford's committee will have to undertake some work in that regard. However, there are issues with regard to dual-use facilities, in particular premises such as community centres, where a centre will not be involved in food preparation, but may be used by a number of organisations. There is some concern, from my experience in Wrexham, about the strength of regulations in certain circumstances, for example when a toddler group may use a community centre, followed by a luncheon club. My understanding is that, under the current regulations, both of those providers would need to be registered for those purposes. However, there is a question about how the regulations pan out as far as the display of certificates by a number of voluntary organisations using the same premises is concerned.

Ychydig iawn o gwestiynau sydd gen i, gan fy mod yn cydnabod y bydd llawer o'r manylion yn cael eu cadarnhau yn y rheoliadau ac y bydd pwyllgor Mark Drakeford yn gorfod gwneud rhywfaint o waith yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae materion yn codi o ran cyfleusterau defnydd deuol, yn enwedig adeiladau fel canolfannau cymunedol, lle na fydd canolfan yn ymwneud â pharatoi bwyd, ond efallai y bydd yn cael ei defnyddio gan nifer o sefydliadau. Mae peth pryder, yn ôl fy mhrofiad yn Wrecsam, ynghylch cryfder rheoliadau o dan rai amgylchiadau, er enghraifft pan fydd grŵp plant bach yn defnyddio canolfan gymunedol cyn i glwb cinio wneud hynny. Yn ôl a ddeallaf, o dan y rheoliadau cyfredol byddai angen i'r ddau ddarparwr hynny gael eu cofrestru at y dibenion hynny. Fodd bynnag, mae cwestiwn o ran sut y mae'r rheoliadau'n datblygu o safbwynt arddangos tystysgrifau gan nifer o sefydliadau gwirfoddol sy'n defnyddio'r un adeilad.

Given our own experiences in Wrexham, there is a need to ensure that, as far as possible, the Food Standards Agency is able to reach agreement with the Welsh Local Government Association that there is one fee throughout Wales with regard to the

O ystyried ein profiadau yn Wrecsam, mae angen sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gallu dod i gytundeb â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar un ffi ledled Cymru o ran y gyfundrefn arolygu. Mae gan awdurdodau

inspection regime. Local authorities have some concerns with regard to resource implications, and I understand that, as a result of the increased attention given to this particular proposal, the numbers of re-inspections in those authorities that have piloted such schemes for a great deal of time have risen significantly over the past 12 months. There are real concerns with regard to whether the food authorities currently have the resources to carry out those particular requirements.

lleol rai pryderon ynghylch y goblygiadau ar gyfer adnoddau, ac o ganlyniad i'r sylw cynyddol a roddwyd i'r cynnig penodol hwn, rwy'n cael ar ddeall fod nifer yr ailarolygiadau yn yr awdurdodau hynny sydd wedi treialu cynlluniau o'r fath am gyfnod hir wedi cynyddu'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Mae pryderon gwirioneddol yn codi o ran y cwestiwn a oes gan awdurdodau bwyd yr adnoddau i ymgymryd â'r gofynion penodol hynny ar hyn o bryd.

Finally, could you tell us this afternoon who is likely to be responsible for the imposition of fixed penalties as a result of breaches and whether those fixed penalties are likely to be issued on-site during the course of any visit to the premises? The only other issue that may be of concern to the committee when considering matters further is the growth in takeaway premises delivering the foodstuffs. It is all very well for the premises to be inspected, but given the turnover with regard to staff employed in delivering these items, there is an issue in relation to dealing with the situation of where the food may have been prepared hygienically, but is not then transported hygienically to the point of consumption. However, we generally support, as much as we can, the Bill.

Yn olaf, a allech ddweud wrthym y prynhawn yma pwy sy'n debygol o fod yn gyfrifol am osod cosbau penodedig o ganlyniad i dorri'r rheolau ac a yw'r cosbau penodedig hynny'n debygol o gael eu rhoi yn y fan a'r lle yn ystod unrhyw ymweliad â'r safle hwnnw? Yr unig fater arall a allai fod yn peri pryder i'r pwyllgor wrth ystyried materion ymhellach yw'r twf mewn safleoedd bwyd tecawê sy'n cludo'r bwydydd. Mae'n ddigon hawdd arolygu'r safleoedd, ond o ystyried y trosiant o ran y staff a gyflogir i gludo'r eitemau hyn, mae cwestiwn yn codi mewn perthynas ag ymateb i sefyllfa lle y gall y bwyd fod wedi cael ei baratoi'n hylan ond nid yw'n cael ei gludo'n hylan i'r man lle y mae'n cael ei fwyta. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi'r Bil yn gyffredinol, hyd y gallwn.

**Lesley Griffiths:** I thank Aled Roberts for his support. You are quite right; there were several amendments and I think that they strengthen the Bill very much. You mentioned Llay in my constituency of Wrexham; it was actually three years ago—time goes by quickly. That is absolutely right; this is a huge public health issue, and poor hygiene has a massive impact on public health.

**Lesley Griffiths:** Diolch i Aled Roberts am ei gefnogaeth. Rydych yn llygad eich lle; roedd nifer o welliannau a chredaf eu bod yn cryfhau'r Bil yn fawr iawn. Soniasoch am Lai yn fy etholaeth yn Wrecsam; digwyddodd hynny dair blynedd yn ôl, mewn gwirionedd—mae amser yn hedfan. Mae hynny'n hollol gywir; mae hwn yn fater pwysig ar gyfer iechyd cyhoeddus, ac mae hylendid gwael yn cael effaith enfawr ar iechyd y cyhoedd.

You mentioned community centres, but this Bill is for food establishments where food is bought, so places such as community centres would not come under these regulations. However, it is clearly an issue where food is prepared for people to consume. In relation to working with the WLGA, you are absolutely right and I have had assurances that we have the resources within local authorities. One of the reasons that I was keen to introduce a repayment if establishments wanted to be

Soniasoch am ganolfannau cymunedol, ond mae'r Bil hwn yn trafod safleoedd bwyd lle y mae bwyd yn cael ei brynu, felly ni fyddai mannau fel canolfannau cymunedol yn dod o dan y rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod mater yn codi lle y caiff bwyd ei baratoi er mwyn i bobl ei fwyta. O ran gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydych yn llygad eich lle, ac rwyf wedi cael sicrwydd bod gennym yr adnoddau o fewn awdurdodau lleol. Un o'r

reassessed was so that money could go towards inspectors. It is unfair for a business to demand a re-inspection to up its rating if we do not have enough resources, so it is important that we have the correct number of inspectors.

rhesymau pam yr oeddwn yn awyddus i gyflwyno ad-daliad pe bai safleoedd am gael eu hailasesu oedd er mwyn i'r arian hwnnw allu mynd tuag at arolygwyr. Mae'n annheg i fusnes fynnu cael ei ailarolygu er mwyn codi ei sgôr os nad oes gennym ddigon o adnoddau, felly mae'n bwysig bod gennym y nifer cywir o arolygwyr.

In relation to penalties, prosecution would be an option in relation to all offences under the Act. The decision whether to prosecute in any given case would be a matter for the local authority, having regard to all of the facts of the case and the code of practice for prosecutors. In relation to most offences, the food authority will have the option of issuing a fixed-penalty notice as an alternative to prosecution, which is an important point. This would not be an option, however, when there is an offence of obstruction. How often the powers are used is up to each local authority, but I hope that we are introducing a mandatory scheme in Wales by encouragement and persuasion, so hopefully the powers would be used very little. Another important issue is that there would have to be a consistent approach to enforcement. Training and guidance will have to be provided to local authorities so that we can help promote the consistency that we have spoken about.

Mewn perthynas â chosbau, byddai erlyniad yn opsiwn ar gyfer yr holl droseddau o dan y Ddeddf. Byddai'r penderfyniad i erlyn mewn unrhyw achos penodol yn fater i'r awdurdod lleol, gan ystyried holl ffeithiau'r achos a'r cod ymarfer i erlynyddion. Mewn perthynas â'r rhan fwyaf o droseddau, bydd yr awdurdod bwyd yn cael y dewis o roi hysbysiad cosb benodedig fel dewis arall yn hytrach nag erlyniad, sy'n bwynt pwysig. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n opsiwn os rhwystro oedd y drosedd. Mae pa mor aml y mae'r pwerau'n cael eu defnyddio yn benderfyniad i bob awdurdod lleol, ond rwy'n gobeithio ein bod yn cyflwyno cynllun gorfodol yng Nghymru drwy anogaeth a pherswâd, felly rwy'n gobeithio mai anaml iawn y byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio. Mater pwysig arall yw y byddai rhaid cael ymagwedd gyson tuag at orfodi. Bydd rhaid darparu hyfforddiant a chanllawiau i awdurdodau lleol fel y gallwn helpu i hyrwyddo'r cysondeb yr ydym wedi sôn amdano.

**Mick Antoniw:** I have concerns around two areas, which will no doubt come up during the scrutiny process. During the very helpful technical briefing to the Health and Social Care Committee on this, the first area of concern that I had was with establishments with 0, 1 and 2 ratings. The answer given at the time was that those were establishments that would have significantly contravened food safety law and that the law does not allow for them to be closed down unless there is imminent risk of injury to health. I feel that there is a contradiction there—that you can significantly contravene food safety law and that there is a question mark over whether that means that there is an imminent risk to health. So, I am concerned that we might be advertising a system that is saying that you take your life in your hands if you eat something at a particular establishment, but that that is okay with us. We need to be a bit

**Mick Antoniw:** Mae gennyf bryderon ynghylch dau faes a fydd yn sicr o godi yn ystod y broses graffu. Yn ystod y briff technegol defnyddiol iawn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y mater hwn, y mater cyntaf oedd yn peri pryder i mi oedd sefydliadau sydd â sgôr 0, 1 a 2. Yr ateb a roddwyd ar y pryd oedd mai'r rheini oedd y sefydliadau a fyddai wedi mynd yn groes i gyfraith diogelwch bwyd yn sylweddol ac nad yw'r gyfraith yn caniatáu iddynt gael eu cau oni bai fod risg ar fin digwydd i iechyd. Rwy'n teimlo bod hynny'n wrthddywediad—y gallwch fynd yn groes i gyfraith diogelwch bwyd yn sylweddol a bod cwestiwn ynghylch a yw hynny'n golygu bod risg ar fin digwydd i iechyd. Felly, rwy'n pryderu y gallwn fod yn hysbysebu system sy'n dweud eich bod yn peryglu eich bywyd os ydych yn bwyta rhywbeth mewn sefydliad penodol, ond bod hynny'n iawn gennym ni. Mae angen inni fod

cautious about that.

The bigger concern that I have, however, is about cross-border mobile vans. Mobile vans are covered in the legislation, and Welsh businesses will be required to comply and to register. When I raised the issue of what happens when vans come across the border, the answer was given that, on the mandatory aspect, the law cannot be enforced in Wales on someone who is trading from England and crossing over the border. That must be wrong. If there is a business in England that wants to trade in Wales, it should be covered by food standard regulations that apply equally to Welsh businesses. The alternative is that Welsh businesses that comply and pay the fees are disadvantaged compared with those across the border who do not have to pay the registration and do not have to maintain the standards and so on. I am not suggesting that there are dozens and dozens of mobile vans coming over solely with the intent of food poisoning the Welsh population, but I think that you get the point about the unfairness of the system. I did not accept at the time that it cannot be done and that we should wait until England decides that it is a good idea and does the same thing. This is something that has to be addressed in terms of fairness to those who are trading on the Welsh side. There are many large public events, we know that there are many cross-border exchanges, and, if we are going to say that there are certain standards that we are going to apply to Welsh businesses, someone wishing to come to Wales to trade should equally abide by those standards.

yn wyliadwrus ynghylch hynny.

Mae'r pryder mwyaf sydd gennyf, fodd bynnag, yn ymwneud â faniau symudol trawsffiniol. Mae faniau symudol wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, a bydd busnesau Cymru yn gorfod cydymffurfio a chofrestru. Pan godais y mater o ran beth sy'n digwydd pan mae faniau'n dod dros y ffin, yr ateb a roddwyd mewn perthynas â'r agwedd orfodol oedd na all y gyfraith gael ei gorfodi yng Nghymru ar rywun sy'n masnachu o Loegr ac yn croesi'r ffin. Mae'n rhaid bod hynny'n anghywir. Os oes busnes yn Lloegr sydd am fasnachu yng Nghymru, dylai'r busnes hwnnw gael ei gwmpasu gan reoliadau safonau bwyd sydd yr un mor berthnasol i fusnesau Cymru. Y dewis arall yw bod busnesau Cymru sy'n cydymffurfio ac yn talu'r ffioedd o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai ar draws y ffin nad oes rhaid iddynt dalu i gofrestru ac nad oes rhaid iddynt gynnal y safonau ac yn y blaen. Nid wyf yn awgrymu bod dwsinau a dwsinau o faniau symudol yn dod draw gyda'r bwriad o wenwyno bwyd poblogaeth Cymru, ond rwy'n meddwl eich bod yn deall y pwynt am annhegwch y system. Nid oeddwn yn derbyn ar y pryd na ellir gwneud hynny ac y dylem aros nes bydd Lloegr yn penderfynu ei fod yn syniad da ac yn gwneud yr un peth. Mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater hwn er mwyn sicrhau tegwch i'r rhai sy'n masnachu ar ochr Cymru i'r ffin. Ceir llawer o ddigwyddiadau cyhoeddus mawr, gwyddom fod llawer o gyswllt trawsffiniol ac, os ydym yn mynd i ddweud bod rhai safonau yr ydym yn mynd i'w gosod ar gyfer busnesau Cymru, dylai rhywun sydd am ddod i Gymru i fasnachu gadw at y safonau hynny yn yr un modd.

4.30 p.m.

**Lesley Griffiths:** If there is an imminent risk, a food establishment will be closed down immediately, whether it has zero, one, two, three, four or five stars. It is about getting the information out to consumers about what each star represents. As we take this forward, that will become much more apparent. We have to have an education programme alongside it too.

**Lesley Griffiths:** Os oes risg ar fin digwydd, bydd sefydliad bwyd yn cael ei gau i lawr ar unwaith, p'un ai un, dau, tri, pedair neu bum seren sydd ganddo. Mae'n ymwneud â chael yr wybodaeth i ddefnyddwyr am beth mae pob seren yn cynrychioli. Wrth i ni fwrw ymlaen â hyn, bydd hynny'n dod yn llawer mwy amlwg. Mae'n rhaid i ni gael rhaglen addysg ochr yn ochr â hyn hefyd.

In relation to mobile traders, as someone who represents a border constituency, I have

O ran masnachwyr symudol, fel rhywun sy'n cynrychioli etholaeth ar y ffin, rwyf wedi

thought of that, but we cannot require mobile food traders registered with an English local authority to display a rating awarded under the FSA's voluntary scheme. Consumer demand will lead to a display of hygiene ratings in Wales. Therefore, it will be in the interest of mobile traders, if they come over from England, to display the food hygiene rating awarded to them under the voluntary scheme. We do not propose to require traders from Europe to display a hygiene rating either. It will only be mobile traders who are registered in Wales. To seek to include mobile traders from outside Wales would really complicate what is a very straight forward Bill for the sake of very few cases.

meddwl am hynny, ond ni allwn ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr bwyd symudol sydd wedi cofrestru gydag awdurdod lleol yn Lloegr arddangos sgôr a ddyfarnwyd o dan gynllun gwirfoddol yr ASB. Bydd galw gan ddefnyddwyr yn arwain at arddangos sgoriau hylendid yng Nghymru. Felly, bydd o fudd i fasnachwyr symudol, os ydynt yn dod draw o Loegr, arddangos y sgôr hylendid bwyd a ddyfarnwyd iddynt o dan y cynllun gwirfoddol. Nid ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr o Ewrop arddangos sgôr hylendid chwaith. Dim ond ar gyfer masnachwyr symudol sydd wedi cofrestru yng Nghymru y bydd yn ofynnol. Byddai ceisio cynnwys masnachwyr symudol o'r tu allan i Gymru yn cymhlethu Bil syml er mwyn ychydig iawn o achosion.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, thank you for your statement today. I would like to put my appreciation on record, and Members' appreciation I am sure, for the work that Consumer Focus has put into this campaign. I do not believe that we would be at the stage that we are today without the hard work that it has undertaken over successive years.

**Andrew R. T. Davies:** Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad, a gwerthfawrogiad Aelodau rwy'n siŵr, am waith Llais Defnyddwyr gyda'r ymgyrch hon. Nid wyf yn credu y byddem wedi cyrraedd lle yr ydym heddiw heb ei waith caled dros y blynyddoedd.

My specific question to you is about where the notices would be on display in premises; you touched on it in your statement and highlighted that there would be different categories of premises. It concerns me that surely the overriding rule should be that the customer can see the display and understand it, irrespective of the type of premises. Surely, the overriding principle should be the prominence of the notice. Are you in a position to outline your thinking on the word 'prominence' in terms of understanding the guidance as to where the display notices should be, so that the consumer can understand exactly what the health and hygiene criteria of that establishment is?

Mae gennyf gwestiwn penodol am le byddai hysbysiadau'n cael eu harddangos mewn safleoedd; crybwyllwyd hynny yn eich datganiad a nodwyd y byddai gwahanol gategorïau o safleoedd. Mae'n peri pryder i mi achos onid y peth pwysicaf yw bod cwsmeriaid yn gallu gweld yr hysbysiad a'i ddeall, beth bynnag fo math y safle? Onid amlygrwydd yr hysbysiad yw'r egwyddor bwysicaf? A ydych mewn sefyllfa i amlinellu eich syniadau ar y gair 'amlygrwydd' o ran deall y canllawiau ynghylch lle dylid arddangos yr hysbysiadau, fel y gall defnyddwyr ddeall yn union beth yw meini prawf iechyd a hylendid y sefydliad hwnnw?

**Lesley Griffiths:** I thank the leader of the Welsh Conservatives for that question.

**Lesley Griffiths:** Diolch i arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig am y cwestiwn hwnnw.

As I say, that is something that I will look at in regulations. I quite agree that the rating should be displayed in a very prominent place. In relation to high street food establishments, the best place would be in the door—when someone walks in through the

Fel y dywedais, byddaf yn edrych ar hynny yn y rheoliadau. Rwy'n cytuno y dylid arddangos y sgôr mewn lle amlwg iawn. O ran sefydliadau bwyd ar y stryd fawr, yn y drws fyddai'r lle gorau—pan fydd rhywun yn cerdded i mewn trwy'r drws, byddant yn

door, they will be able to see it. I do not think that it should be hidden away so that the consumer would have to go in and then come out because they did not like the food hygiene rating that they saw.

gallu ei weld. Ni ddylid ei guddio fel bod rhaid i ddefnyddiwr fynd i mewn ac yna dod allan oherwydd nad oeddent yn hoffi'r sgôr hylendid bwyd a welsant.

I mentioned hospitals in my opening remarks. In a hospital, you will have a variety of places where the rating should be displayed if there are several food outlets, and it is the same for a supermarket. There could be several entrances into a supermarket, so we will have to look at the most pragmatic way of displaying it, perhaps that will be at the entrance that most people use: the main entrance. However, there is nothing to stop several stickers being on display. We will certainly look at that through regulations.

Soniais am ysbytai yn fy sylwadau agoriadol. Mewn ysbyty, bydd nifer o lefydd lle dylai'r sgôr gael ei arddangos os oes nifer o siopau bwyd, ac mae'r un peth yn wir yn achos archfarchnad. Gallai archfarchnad gael mwy nag un fynedfa, felly bydd rhaid edrych ar y ffordd fwyaf pragmatig o'i arddangos, efallai y byddai hynny wrth y fynedfa mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei defnyddio: y brif fynedfa. Fodd bynnag, nid oes dim i atal arddangos sawl sticer. Byddwn yn edrych ar hynny yn y rheoliadau.

**Nick Ramsay:** I still have Mick Antoniw's image in my mind of these fleets of dirty vans coming across the border from Herefordshire with their disreputable goods. However, I understand what the Minister said with regard to the need to keep the legislation simple.

**Nick Ramsay:** Mae delwedd Mick Antoniw o'r fflydoedd o faniau budr yn dod dros y ffin o Swydd Henffordd â'u nwyddau amheus yn dal i fod yn fy meddwl. Fodd bynnag, rwy'n deall yr hyn a ddywedodd y Gweinidog o ran yr angen i gadw'r ddeddfwriaeth yn syml.

Minister, you have pretty much covered many of the points that I was going to make. I was going to ask you to reiterate the need to maintain consistency across Wales, because that has been a problem in the past in areas of food hygiene, from county to county, but you have touched on that.

Weinidog, rydych wedi ymdrin â nifer o'r pwyntiau yr oeddwn yn mynd i'w gwneud. Roeddwn yn mynd i ofyn i chi bwysleisio bod angen cynnal cysondeb ledled Cymru, oherwydd bod hynny wedi bod yn broblem yn y gorffennol o ran hylendid bwyd, o sir i sir, ond rydych wedi cyfeirio at hynny.

My main concern in relation to the star system, the numbering system or whatever will be used is the issue of the public perception of that. I understand that it is currently on websites, but this will introduce that whole system to a much wider section of the public than was the case before. Therefore, it is important that the public understand what it means. If you could tell us how you intend, when that is published, for that to be obvious, that would be good.

Fy mhrif bryder am y system seren, y system rhifo neu beth bynnag fydd yn cael ei ddefnyddio yw canfyddiad y cyhoedd ohoni. Rwy'n deall ei bod ar wefannau ar hyn o bryd, ond bydd hyn yn cyflwyno'r system i lawer mwy o'r cyhoedd nag o'r blaen. Felly, mae'n bwysig bod y cyhoedd yn deall beth mae'n ei olygu. Pe gallech ddweud wrthym sut ydych yn bwriadu i hynny fod yn amlwg pan gaiff ei chyhoeddi, byddai hynny'n dda.

In this Bill, you talk about the need to improve public health and we have heard the cases that we hope that this will address, and I fully agree with that. However, there is a difference between that and the actual eating of healthy food. In other words, you could have food that is quite unhealthy, but the hygiene rating of the place producing it might

Yn y Bil hwn, rydych yn sôn bod angen gwella iechyd y cyhoedd ac rydym wedi clywed yr achosion yr ydym yn gobeithio y bydd hyn yn mynd i'r afael â hwy, ac rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng hynny a bwyta bwyd iach. Mewn geiriau eraill, gallai bwyd fod yn eithaf afiach, ond gallai sgôr hylendid y lle

be good, if you can follow that logic. Therefore, once again, this is a question of public understanding. Will you tell us how you intend to educate people to fully understand what you are proposing?

sy'n ei gynhyrchu fod yn dda, os gallwch ddilyn y rhesymeg honno. Felly, unwaith eto, mae hwn yn ymwneud â dealltwriaeth y cyhoedd. A wnewch chi ddweud wrthym sut ydych yn bwriadu addysgu pobl i ddeall yn llawn yr hyn yr ydych yn ei gynnig?

**Lesley Griffiths:** Thank you, Nick Ramsay, for that question. In relation to public perception, I think that people are much more aware of the voluntary scheme and they are used to seeing these stickers in the doorways of food establishments. Once we introduce the mandatory scheme, they will be everywhere and people will be much more aware of them. I mentioned in my previous answer that I think that it is very important that we get as much information out to the public as we can.

**Lesley Griffiths:** Diolch, Nick Ramsay, am y cwestiwn. O ran canfyddiad y cyhoedd, credaf fod pobl yn llawer mwy ymwybodol o'r cynllun gwirfoddol ac maent yn gyfarwydd â gweld y sticeri yn nrysau sefydliadau bwyd. Ar ôl i ni gyflwyno'r cynllun gorfodol, byddant ym mhob man a bydd pobl yn llawer mwy ymwybodol ohonynt. Soniais yn fy ateb blaenorol fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn rhoi cymaint o wybodaeth i'r cyhoedd ag y gallwn.

In relation to food, I am not quite sure if you are telling me that I should be stopping the sale of unhealthy food, but this is certainly a very important public health issue. This will have a hugely positive impact on the health of the people of Wales and it is fantastic that we are the first country in the UK to take forward such a mandatory scheme.

O ran bwyd, nid wyf yn hollol siŵr os ydych yn dweud wrthyf y dylwn atal gwerthu bwyd afiach, ond mae'n sicr yn fater pwysig iawn sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Bydd hyn yn cael effaith hynod gadarnhaol ar iechyd pobl Cymru ac mae'n wych mai ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i ddatblygu cynllun gorfodol o'r fath.

## Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012
## The Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012

*Cynnig NDM4995 Jane Hutt*

*Motion NDM4995 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2012.*

*Approves that the draft The Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 May 2012.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move the motion.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

The Order that has been laid before the Assembly for your consideration today is being introduced under the Mental Health (Wales) Measure 2010, which received Royal

Mae'r Gorchymyn sydd wedi'i osod gerbron y Cynulliad i chi ei ystyried heddiw yn cael ei gyflwyno o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a dderbyniodd

Approval in December 2010. This Order is being made in relation to Parts 1, 2 and 3 of the Measure. In order for the Measure to operate effectively, it is important that we are clear about which services will be included in the new primary mental health services and which will be secondary mental health services.

Cymeradwyaeth Frenhinol ym mis Rhagfyr 2010. Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud mewn perthynas â Rhannau 1, 2 a 3 o'r Mesur. Er mwyn i'r Mesur weithredu'n effeithiol, mae'n bwysig ein bod yn glir ynghylch pa wasanaethau fydd yn wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol newydd a pha rai fydd yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Section 49 of the Measure provides a definition of 'secondary mental health services', but it does not exclude services that are appropriately provided within the new local primary mental health support services. This means that those providing services within primary care would need to complete the same care and treatment plan as those in secondary services. This would not be in the spirit of the Measure, which was designed to ensure that service users had access to a primary care service that was not unduly bureaucratic and did not require care planning with the same depth as that for those receiving secondary care.

Mae adran 49 o'r Mesur yn rhoi diffiniad o 'wasanaethau iechyd meddwl eilaidd', ond nid yw'n eithrio gwasanaethau a ddarperir yn briodol o fewn y gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol newydd. Mae hynny'n golygu y byddai angen i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau o fewn gofal sylfaenol ddilyn yr un cynllun gofal a thriniaeth a'r rhai mewn gwasanaethau eilaidd. Ni fyddai hynny'n unol ag ysbryd y Mesur, a gafodd ei gynllunio i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael gafael ar wasanaeth gofal sylfaenol nad yw'n rhy fiwrocrataidd a lle nad oes angen cynllunio'r gofal i'r un graddau ag ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal eilaidd.

The Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012 is intended to amend the existing definition of 'secondary mental health services' provided in section 49 of the Measure to ensure that services provided within primary mental health support services under Part 1 of the Measure are not regarded as secondary mental health services for the purposes of Parts 2 and 3 of the Measure. It also extends the existing definition of 'secondary mental health services' to ensure that Welsh residents can also have access back into secondary care. We see this as being important both in terms of fairness and equality.

Bwriad Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012 yw diwygio'r diffiniad presennol o 'wasanaethau iechyd meddwl eilaidd' a ddarperir yn adran 49 o'r Mesur i sicrhau nad yw gwasanaethau a ddarperir o fewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol o dan Ran 1 y Mesur yn cael eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Mesur. Mae hefyd yn ymestyn y diffiniad presennol o 'wasanaethau iechyd meddwl eilaidd' i sicrhau y gall trigolion Cymru hefyd gael mynd yn ôl i mewn i ofal eilaidd. Mae hynny'n bwysig er tegwch a chydraddoldeb.

This Order removes ambiguity as to which services are to be considered secondary mental health services for the purposes of Parts 2 and 3 of the Measure. Service providers in primary care will, therefore, not be required to appoint care co-ordinators or provide care and treatment plans as laid down in statute. Article 4 of this Order will clarify that it is those who have been in receipt of secondary mental health services who are entitled to seek reassessment within three

Mae'r Gorchymyn hwn yn dileu amwysedd ynghylch pa wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Mesur. Ni fyddai angen, felly, i ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol benodi cydlynwyr gofal neu ddarparu cynlluniau gofal a thriniaeth fel sydd wedi'i nodi yn y statud. Bydd Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn egluro mai'r rhai sydd wedi bod yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd

years of being discharged from such a service. This will apply even if those services have been received in other parts of the UK. These may include individuals who have travelled to other parts of the UK for employment or on holiday and who have required treatment from a community mental health team or admission to a psychiatric hospital, or prisoners placed outside Wales who have received secondary mental health services in reach. This article will ensure equity of access for such individuals. I commend this Order to the National Assembly.

â'r hawl i ofyn am ailasesiad o fewn tair blynedd o gael eu rhyddhau o wasanaeth o'r fath. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os derbyniwyd y gwasanaethau hynny mewn rhannau eraill o'r DU. Gall y rhain gynnwys unigolion sydd wedi teithio i rannau eraill o'r DU ar gyfer cyflogaeth neu ar wyliau ac sydd wedi bod angen triniaeth gan dîm iechyd meddwl cymunedol neu wedi'u derbyn i ysbyty seiciatrig, neu garcharorion a leolwyd tu allan i Gymru sydd wedi derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Bydd yr erthygl hon yn sicrhau hawliau cydradd i unigolion o'r fath. Cymeradwyaf y Gorchymyn hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**The Deputy Presiding Officer:** I have no speakers on this item. I assume that you have nothing further to say, Minister. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes gennyf siaradwyr ar yr eitem hon. Rwy'n cymryd nad oes gennych unrhyw beth pellach i'w ddweud, Weinidog. Felly, y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Gorchymyn Cadw Mincod (Gwahardd) (Cymru) 2012
## The Mink Keeping (Prohibition) (Wales) Order 2012

*Cynnig NDM4996 Jane Hutt*

*Motion NDM4996 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cadw Mincod (Gwahardd) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2012.*

*Approves that the draft The Mink Keeping (Prohibition) (Wales) Order 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 May 2012.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.39 p.m.*
*The Presiding Officer took the Chair at 4.39 p.m.*

The North American mink is not a native species to Wales, but because of licensed fur farms—a practice that was banned in 2000—

Nid yw minc Gogledd America yn rhywogaeth frodorol i Gymru, ond oherwydd ffermydd ffwr trwyddedig—arfer a gafodd ei

escaped mink have bred and become widespread and well established in Wales.

wahardd yn 2000—mae mincod a ddihangodd wedi bridio a lledu ledled Cymru.

Their presence in the Welsh landscape is considered harmful to biodiversity. There is considerable evidence that mink kill and eat water vole, for example, and have been a major factor in the serious decline of water vole populations in recent decades. In addition, mink are considered to be voracious predators of fish, and compete with other life forms such as otters for fish as a food source. That predation undermines fish stocks and threatens the wellbeing of Wales's iconic otter population.

Mae eu presenoldeb yn nhirwedd Cymru yn cael ei ystyried yn niweidiol i fioamrywiaeth. Mae cryn dystiolaeth bod mincod yn lladd a bwyta llygod y dŵr, er enghraifft, a'u bod yn ffactor pwysig yn y dirywiad difrifol mewn poblogaethau llygod y dŵr yn y degawdau diwethaf. Yn ogystal, mae mincod yn cael eu hystyried i fod yn ysglyfaethwyr pysgod barus gan gystadlu gydag eraill fel dyfrgwn am bysgod fel ffynhonnell fwyd. Mae'r ysglyfaethu hynny'n tanseilio stociau pysgod ac yn fygythiad i les poblogaeth ddyfrgwn eiconig Cymru.

As well as through the banning of fur farming, the keeping of mink was also prohibited under a separate Order. This Order is made under the Destructive Imported Animals Act 1932. Similar Orders are also made under this legislation in relation to the keeping of grey squirrels and coypu, for example. The last mink keeping Order in Wales has lapsed and the Welsh Government is therefore enacting legislation using the powers within the Act to again prohibit the keeping of mink in Wales.

Yn ogystal â thrwy wahardd ffermio ffwr, cafodd cadw mincod hefyd ei wahardd mewn Gorchymyn arall. Gwnaed y Gorchymyn hwnnw o dan y Ddeddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932. Gwneir Gorchmynion tebyg o dan y ddeddfwriaeth hon hefyd o ran cadw gwiwerod llwyd a coipwod, er enghraifft. Mae'r Gorchymyn cadw mincod diwethaf yng Nghymru wedi mynd yn ddi-rym, felly mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu deddfwriaeth gan ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf i wahardd cadw mincod yng Nghymru unwaith eto.

Despite the presence of the mink population in the wild, I believe that the keeping of mink is still not appropriate at this time in Wales. Controls on keeping mink will support the efforts being made to eradicate mink from localised areas in Wales through preventing further accidental releases.

Er gwaethaf presenoldeb y boblogaeth minc yn y gwyllt, credaf nad yw cadw mincod yn addas ar hyn o bryd yng Nghymru. Bydd rheolaethau ar gadw mincod yn cefnogi'r ymdrechion i ddileu minc o ardaloedd lleol yng Nghymru drwy atal rhagor ohonynt rhag cael eu rhyddhau yn ddamweiniol.

**Antoinette Sandbach:** The Welsh Conservatives support these measures, but it is important to note, as the Minister said, that the Order lapsed and, in fact, lapsed in 2004. I appreciate that the Minister was not the Minister for environment then, but it would be helpful if he could give this Assembly an explanation of how that lapse was not picked up for eight years. In theory, it would have been legal to keep mink here during that time, albeit not for the production of fur. I do not know whether you have seen the destructive impact of a mink, but we had some of those escaped mink up near us locally in north Wales. They were voracious

**Antoinette Sandbach:** Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r mesurau hyn, ond mae'n bwysig nodi, fel y dywedodd y Gweinidog, bod y Gorchymyn wedi mynd yn ddi-rym ac, yn wir, iddo fynd yn ddi-rym yn 2004. Rwy'n sylweddoli nad y Gweinidog hwn oedd Gweinidog yr amgylchedd ar y pryd, ond byddai o gymorth pe gallai roi esboniad i'r Cynulliad pam na sylweddolwyd y ffaith iddo fynd yn ddi-rym am wyth mlynedd. Mewn egwyddor, byddai wedi bod yn gyfreithiol i gadw minc yma yn ystod y cyfnod hwnnw, er nid ar gyfer cynhyrchu ffwr. Ni wn a ydych wedi gweld effaith ddinistriol mincod, ond cawsom rai a'r

eaters of not only fish and water voles, but chickens. They wreak havoc and destruction in the countryside and it is worrying that it has taken eight years for the lapse of this Order to be picked up by the Government. I would like to know what steps have been put in place to make sure that something similar does not happen with other legislation that may have sunset clauses. We totally support the aims of the Order, but it would useful to have that explanation.

mincod hynny a ddihangodd gerllaw yn lleol yng ngogledd Cymru. Roeddent yn fwytawyr barus o bysgod a llygod y dŵr yn ogystal ag ieir. Maent yn creu llanast a dinistr yng nghefn gwlad ac mae'n destun pryder ei fod wedi cymryd wyth mlynedd i'r Llywodraeth sylwi bod y Gorchymyn hwn wedi mynd yn ddi-rym. Hoffwn wybod pa gamau sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau na fydd rhywbeth tebyg yn digwydd gyda deddfwriaeth arall a allai gynnwys cymalau machlud. Rydym yn cefnogi amcanion y Gorchymyn yn llwyr, ond byddai o gymorth i gael yr esboniad hwnnw.

**John Griffiths:** I thank Antoinette Sandbach for her views and questions, which I think are valid. I can only say that it was an administrative oversight that led to the lapse of the Order. Thankfully, perhaps, it was not only the Welsh Government that did not realise that that was the case—no-one else realised either—so it has not had any effect in practice. We are looking at administrative processes to see what lessons can be learnt for the future, and I give the Member that reassurance.

**John Griffiths:** Diolch i Antoinette Sandbach am ei sylwadau a'i chwestiynau, sy'n rhai dilys. Gallaf ond ddweud mai amryfusedd gweinyddol a arweiniodd at y Gorchymyn yn mynd yn ddi-rym. Diolch byth, efallai, nad Llywodraeth Cymru yn unig fethodd â sylweddoli hynny—ni sylwodd neb arall chwaith—felly, nid oedd unrhyw effaith ymarferol. Rydym yn edrych ar brosesau gweinyddol i weld pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer y dyfodol, a rhoddaf y sicrwydd hwnnw i'r Aelod.

**The Presiding Officer:** There are no other speakers. The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Llywydd:** Nid oes siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

4.45 p.m.

**The Presiding Officer:** Does the First Minister wish to raise a point of order?

**Y Llywydd:** A yw'r Prif Weinidog yn dymuno gwneud pwynt o drefn?

**The First Minister:** I do wish to raise a point of order, but I thought it best to leave it to the end of Plenary as is customary.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n dymuno gwneud pwynt o drefn, ond roeddwn yn meddwl mai'r peth gorau oedd ei adael tan ddiwedd y Cyfarfod Llawn, yn ôl yr arfer.

**The Presiding Officer:** That is not customary, but that will be fine. Thank you.

**Y Llywydd:** Nid dyna'r arfer, ond bydd hynny'n iawn. Diolch.

## Jiwbilî Ddiemwnt Ei Mawrhydi Y Frenhines
## Her Majesty the Queen's Diamond Jubilee

**The Presiding Officer:** Members will wish

**Y Llywydd:** Bydd Aelodau'n dymuno

to be aware that I have sent Her Majesty the Queen a scroll on behalf of the National Assembly for Wales to commemorate the Diamond Jubilee. The artist's proof of the scroll has been framed and will be on display in the Oriel from this weekend. During the next week, we will also be showing footage from each of the four royal openings of the National Assembly.

gwybod fy mod wedi anfon sgrôl at Ei Mawrhydi Y Frenhines ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddathlu'r Jiwbilî Ddiemwnt. Mae proflen yr artist o'r sgrôl wedi ei fframio, a bydd yn cael ei harddangos yn yr Oriel o'r penwythnos hwn ymlaen. Yn ystod yr wythnos nesaf, byddwn hefyd yn dangos ffilm o bedwar agoriad brenhinol y Cynulliad Cenedlaethol.

I have selected amendment 1 in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham.

*Cynnig NDM4997 Jane Hutt*

*Motion NDM4997 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn llongyfarch Ei Mawrhydi Y Frenhines ar achlysur ei Jiwbilî Ddiemwnt ac yn talu teyrnged i'w chefnogaeth ddiwyro i Gymru dros y 60 mlynedd ddiwethaf.*

*Congratulates Her Majesty the Queen on the occasion of her Diamond Jubilee and pays tribute to her steadfast support for Wales over the last 60 years.*

**The First Minister:** I move the motion.

**Y Prif Weinidog:** Cynigiaf y cynnig.

This debate is an opportunity for us to congratulate Her Majesty Queen Elizabeth II on the occasion of her Diamond Jubilee and to pay tribute to her steadfast support for Wales over the last 60 years. It is right to say that this is a truly historic occasion, and I get a real sense that, across Wales, it is being embraced by people from all walks of life and different communities. In April, Her Majesty, accompanied by His Royal Highness Prince Philip the Duke of Edinburgh, undertook a two-day Diamond Jubilee royal tour of Wales, commencing with a national service of thanksgiving at Llandaff Cathedral. Along with many others, I was privileged to participate in the service and I was delighted to see such a large congregation—some 600—including Assembly Members from all parties. In the congregation there were also many children and young people and individuals representative of all sectors of society in Wales. It was a truly inclusive service. Those who were there or who saw media coverage of the service would have noted that there was an impressive turnout of the people of Wales to welcome the royal party. It was particularly impressive given that the weather was not on its best behaviour that day.

Mae'r ddadl hon yn gyfle inni longyfarch Ei Mawrhydi Y Frenhines Elizabeth II ar achlysur ei Jiwbilî Ddiemwnt ac i dalu teyrnged i'w chefnogaeth gadarn i Gymru dros y 60 mlynedd diwethaf. Mae'n iawn dweud bod yr achlysur hwn yn un gwirioneddol hanesyddol, ac rwy'n cael argraff gwirioneddol, ledled Cymru, ei fod yn cael ei groesawu gan bobl o bob cefndir a chan gwahanol gymunedau. Ym mis Ebrill, aeth Ei Mawrhydi, yng nghwmni Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Philip, Dug Caeredin, ar daith frenhinol deuddydd o hyd o amgylch Cymru i ddathlu'r Jiwbilî Ddiemwnt, gan ddechrau gyda gwasanaeth cenedlaethol o ddiolchgarwch yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Ynghyd â nifer o bobl eraill, cefais y fraint o gymryd rhan yn y gwasanaeth ac roeddwn wrth fy modd i weld cynulleidfa mor fawr yno—tua 600—gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad o bob plaid. Roedd hefyd nifer o blant a phobl ifanc yn y gynulleidfa, yn ogystal ag unigolion yn cynrychioli pob sector o'r gymdeithas yng Nghymru. Roedd yn wasanaeth gwirioneddol gynhwysol. Byddai'r rhai a oedd yno neu a welodd y gwasanaeth yn y cyfryngau wedi nodi'r ffaith bod cymaint o bobl Cymru wedi mynd allan i groesawu'r parti brenhinol. Roedd hyn yn arbennig o nodedig o ystyried nad oedd y

tywydd ar ei orau y diwrnod hwnnw.

There were similar scenes at other events that were part of the royal tour. You will also know from the media that the focus of the Diamond Jubilee is a central weekend in London. However, Wales is not allowing itself to be left out. Across Wales, more than 300 applications have been submitted to local authorities for street party road closures. I am sure that there will also be hundreds of parties hosted that will not require a road closure. I suspect that St Asaph will see its fair share, having been awarded city status with a long-standing Anglican cathedral, which sits in the city.

Gwelwyd golygfeydd tebyg mewn digwyddiadau eraill a oedd yn rhan o'r daith frenhinol. Byddwch hefyd yn gwybod o'r cyfryngau mai canolbwynt y Jiwbilî Ddiemwnt yw penwythnos canolog yn Llundain. Fodd bynnag, nid yw Cymru yn caniatáu ei hun i gael ei gadael allan. Ledled Cymru, mae mwy na 300 o geisiadau wedi eu cyflwyno i awdurdodau lleol i gau ffyrdd ar gyfer partïon stryd. Rwy'n siŵr y bydd cannoedd o bartïon yn cael eu cynnal na fydd angen cau'r ffordd ar eu cyfer. Tybiaf y bydd Llanelwy yn gweld ei chyfran deg ar ôl ennill statws dinas, gydag eglwys gadeiriol Anglicanaidd hirsefydlog yn sefyll ynddi.

Some 200 beacons will be lit across Wales at events organised by charities, communities and councils. It is also right to say that world heritage site castles, Beaumaris and Caernarfon, will be among those displaying beacons. Other Cadw sites participating include Coity castle, Laugharne castle and Swansea castle. It is also right that a team from Walking with the Wounded will light a beacon at the summit of Snowdon.

Bydd tua 200 o goelcerthi'n cael eu cynnau ledled Cymru mewn digwyddiadau a drefnwyd gan elusennau, cymunedau a chynghorau. Mae hefyd yn gywir dweud y bydd Biwmares a Chaernarfon, cestyll sydd â statws safleoedd treftadaeth y byd, ymhlith y rhai sy'n cynnau coelcerthi. Mae safleoedd Cadw eraill sy'n cymryd rhan yn cynnwys castell Coety, castell Talacharn a chastell Abertawe. Mae hefyd yn gywir y bydd tîm o elusen *Walking with the Wounded* yn cynnau coelcerth ar gopa'r Wyddfa.

In London, nine vessels from Wales are participating in the Thames Diamond Jubilee pageant. There are four rowed vessels—Cwch John Kerr, Fleetwing, Cunnigar Stinger and Calon Dyfi—three historic boats, one narrow boat and one racing yacht. A little closer to home, I am honoured to have been invited by the First Battalion, The Royal Welsh to attend its Diamond Jubilee parade and to present a number of Diamond Jubilee good conduct and long service medals.

Yn Llundain, mae naw llong o Gymru yn cymryd rhan ym mhasiant y Jiwbilî Ddiemwnt ar y Tafwys. Bydd pedwar cwch rhwyfo—Cwch John Kerr, Fleetwing, Cunnigar Stinger a Calon Dyfi—tri chwch hanesyddol, un cwch cul ac un cwch hwylio rasio yn cymryd rhan. Ychydig yn nes at adref, rwyf wedi cael yr anrhydedd o gael gwahoddiad gan Fataliwn Cyntaf y Gatrawd Frenhinol Gymreig i fynd i'w orymdaith Jiwbilî Ddiemwnt ac i gyflwyno nifer o fedalau Jiwbilî Ddiemwnt i nodi ymddygiad da a gwasanaeth hir.

A diamond jubilee is an extremely unusual event. It is more than 100 years since the last one took place. There are many in Britain who will want to offer their congratulations for the service that Her Majesty the Queen has given over the term of her reign and, indeed, before. There are many in Wales who will look forward to celebrating events on Monday and Tuesday. This is an opportunity for the National Assembly to add its

Mae jiwbilî ddiemwnt yn ddigwyddiad hynod o anghyffredin. Aeth dros 100 mlynedd heibio ers yr un diwethaf. Bydd nifer o bobl ym Mhrydain a fydd yn awyddus i longyfarch Ei Mawrhydi Y Frenhines am y gwasanaeth y mae wedi ei gynnig yn ystod ei theyrnasiad ac, yn wir, cyn hynny. Mae nifer o bobl yng Nghymru a fydd yn edrych ymlaen at ddathlu digwyddiadau ddydd Llun a dydd Mawrth. Dyma gyfle i'r Cynulliad

congratulations.

Cenedlaethol ychwanegu ei longyfarchiadau.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert at end of motion:*

*‘, gan gydnabod cyfraniad anferth Ei Mawrhydi Y Frenhines ac aelodau eraill y Teulu Brenhinol at y sectorau elusennol a gwirfoddol yma yng Nghymru’.*

*‘, recognising the enormous contribution shown by Her Majesty the Queen and other members of the Royal Family to the charitable and voluntary sectors here in Wales’.*

**Andrew R.T. Davies:** I move amendment 1 in the name of William Graham.

**Andrew R.T. Davies:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham.

We on these benches endorse the sentiments with which the First Minister opened the debate, celebrating Her Majesty the Queen’s 60 years on the throne and her many decades of public service. Thinking back to 1952 and the country that was the United Kingdom then, it was a time of austerity following the war years with rationing and so on, and we can reflect on how the Queen, her family and the monarchy have conducted themselves over the last 60 years to transform themselves, as this country has transformed itself into the vibrant society in which we live today. The devolved context in which we live today, celebrating all parts of the United Kingdom, really is a tribute to the way that the royal family holds the fabric of this country together and, in particular, to the way Her Majesty the Queen conducts herself. It is interesting to note that the significant changes that have gone on in this country have also accommodated the changing face of the royal family in terms of how the royal family interacts with society. We have gone from the era of the empire in the 1950s to today’s open, transparent and inclusive royal family, which reaches out to all sections of society.

Rydym ni, ar y meinciau hyn, yn ategu sylwadau’r Prif Weinidog wrth agor y ddadl hon, gan ddathlu 60 mlynedd Ei Mawrhydi Y Frenhines ar yr orsedd a’i degawdau o wasanaeth cyhoeddus. Wrth feddwl yn ôl i 1952 a’r Deyrnas Unedig ar yr adeg honno, roedd yn gyfnod o lymder yn dilyn blynyddoedd y rhyfel, gyda dogni ac yn y blaen, a gallwn adlewyrchu ar sut y mae’r Frenhines, ei theulu a’r frenhiniaeth wedi llwyddo i drawsnewid eu hunain dros y 60 mlynedd diwethaf, yn yr un modd ag y mae’r wlad hon wedi trawsnewid ei hun i’r gymdeithas fywiog yr ydym yn byw ynddi heddiw. Mae’r cyd-destun datganoledig yr ydym yn byw ynddo heddiw, sy’n dathlu pob rhan o’r Deyrnas Unedig, yn deyrnged i’r ffordd y mae’r teulu brenhinol yn dal y wlad at ei gilydd ac, yn benodol, ymddygiad Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae’n ddiddorol nodi bod y newidiadau sylweddol yn y wlad hon hefyd wedi cynnwys newid o fewn y teulu brenhinol o ran sut y mae’n rhyngweithio â’r gymdeithas. Rydym wedi symud o gyfnod yr ymerodraeth yn y 1950au at deulu brenhinol agored, tryloyw a chynhwysol heddiw, sy’n estyn allan at bob rhan o gymdeithas.

The royal family has been tireless in undertaking work in support of charities the length and breadth of Wales and of the United Kingdom. I will list just some of the organisations with which the royal family is connected and of which Her Majesty the Queen is patron: Cardiff Royal Infirmary, the Friends of Llandaff Cathedral, the Football Association of Wales, the Welsh Rugby Union, the Royal Welsh Agricultural Society—I could go on; the list is almost

Bu’r teulu brenhinol yn ddiflino wrth ymgymryd â gwaith i gefnogi elusennau ledled Cymru a’r Deyrnas Unedig. Byddaf yn rhestru rhai o’r sefydliadau y mae’r teulu brenhinol yn gysylltiedig â hwy ac y mae Ei Mawrhydi Y Frenhines yn eu noddi: Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Cyfeillion Eglwys Gadeiriol Llandaf, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru—gallwn barhau; mae’r rhestr bron yn ddiddiwedd.

endless. All of those organisations benefit from the patronage of the royal family in raising valuable funds as well as offering inspiration to many voluntary organisations to improve the quality of life of people in Wales and in the rest of the United Kingdom.

Mae pob un o'r sefydliadau'n elwa ar nawdd y teulu brenhinol wrth godi arian gwerthfawr yn ogystal â chynnig ysbrydoliaeth i nifer o fudiadau gwirfoddol i wella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

It was interesting to look at the facts and figures—I am sure that many people saw the figures that appeared in all the Sunday supplements about the forthcoming jubilee weekend. Ipsos MORI has been polling the British population for the last 40 years, since 1969, on its views on the royal family. Consistently, in 1969, 1993, 2002 and 2010, only 18% believe that we should do away with the royal family and the monarchy in this country. The jubilee offers us a great opportunity to look at the fabric of this country and how Her Majesty the Queen embodies British society and, indeed, Welsh, Scottish, Northern Irish and English life and the fabric of this great country of ours.

Roedd yn ddiddorol edrych ar y ffeithiau a'r ffigurau—rwy'n siŵr bod nifer o bobl wedi gweld y ffigurau a ymddangosodd yn y papurau dydd Sul mewn perthynas â'r penwythnos jiwbilî sydd i ddod. Bu Ipsos MORI yn holi poblogaeth Prydain dros y 40 mlynedd diwethaf, ers 1969, am ei farn am y teulu brenhinol. Yn gyson, ym 1969, 1993, 2002 a 2010, dim ond 18% a oedd yn credu y dylem gael gwared ar y teulu brenhinol a'r frenhiniaeth yn y wlad hon. Mae'r jiwbilî yn cynnig cyfle gwych i edrych ar sylfeini'r wlad hon a sut y mae Ei Mawrhydi Y Frenhines yn ymgorffori'r gymdeithas ym Mhrydain ac, yn wir, bywyd Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a gwead ein gwlad wych.

I endorse the sentiments that I have heard expressed around Wales to date, which will be galvanised by the jubilee weekend. In our village, great celebrations are planned around the local pub. I can remember the Silver Jubilee in 1977 and being one of the kids in the fancy dress competition then; my children will be attending a similar competition this weekend. It is about that continuity and the ability for people of all ages in our society to identify with the institution that is the monarchy and, above all, is Her Majesty the Queen. I have great pleasure in standing in support of this motion today and, in particular, moving the amendment in the name of William Graham.

Rwy'n cefnogi'r teimladau yr wyf wedi'u clywed yn cael eu mynegi o gwmpas Cymru hyd yma, y byddant yn cael eu cadarnhau ymhellach gan y penwythnos jiwbilî. Yn ein pentref, mae dathliadau mawr wedi cael eu trefnu o amgylch y dafarn leol. Gallaf gofio'r Jiwbilî Arian ym 1977 a bod yn un o'r plant yn y gystadleuaeth gwisg ffansi ar y pryd; bydd fy mhlant yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth debyg y penwythnos hwn. Mae'n ymwneud â pharhad a rhoi'r gallu i bobl o bob oed yn ein cymdeithas uniaethu gyda'r frenhiniaeth fel sefydliad ac, yn anad dim, gydag Ei Mawrhydi Y Frenhines fel rhan o'r sefydliad hwnnw. Mae'n bleser mawr gennyf sefyll o blaid y cynnig hwn heddiw ac, yn benodol, gynnig y gwelliant yn enw William Graham.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** I will start by thanking the First Minister for affording me the opportunity to place on record my personal best wishes and those of my party to the Queen as she celebrates her 60 years of public service. There are, of course, many more pressing matters to address, given the grave problems faced by many people in Wales today. However, this occasion gives us a chance to highlight the contribution not just of one

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Prif Weinidog am gynnig cyfle imi nodi fy nymuniadau gorau personol a rhai fy mhlaid i'r Frenhines wrth iddi ddathlu ei 60 mlynedd o wasanaeth cyhoeddus. Mae nifer o faterion pwysicach i fynd i'r afael â nhw wrth gwrs, o ystyried y problemau y mae nifer o bobl yng Nghymru yn eu hwynebu heddiw. Fodd bynnag, mae'r achlysur hwn yn rhoi cyfle inni dynnu sylw at gyfraniad nid dim ond un person, ond

person, but that of an entire generation whose service and sacrifice we pay tribute to today.

cenhedlaeth gyfan yr ydym yn talu teyrnged i'w gwasanaeth a'i haberth heddiw.

The Queen was born in 1926, that 'summer of soups and speeches'. As people thank her for her long reign, we should also remember those mineworkers, steelworkers, soldiers and others who never made it to 60 years of life, let alone 60 years of work; their great sacrifice is also honoured here this afternoon.

Ganwyd y Frenhines ym 1926, sef haf y cawl ac areithiau. Wrth i bobl diolch iddi am ei theyrnasiad hir, dylem gofio hefyd y glowyr, y gweithwyr dur, y milwyr a'r bobl eraill na wnaethant gyrraedd 60 mlynedd yn eu bywydau, heb sôn am 60 mlynedd o waith; rydym hefyd yn talu teyrnged i'w haberth mawr y prynhawn yma.

Much progress has been made over the course of the Queen's life on so many fronts. When she was born, women were still denied equal rights. Although there is room for improvement, women now make up almost 50% of this Chamber. The Queen is part of a generation that remembers life before the NHS. Sixty years ago, there were no equal rights, unless you happened to be male, professional, Protestant and white. Discrimination against gays and lesbians was not only widespread, but sanctioned by law. In Wales, in 1952, this city was not our capital and *y ddraig goch* was not officially our flag. Welsh was not an official language and Wales was rarely represented at any Cabinet table, let alone having a Senedd of its own.

Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yn ystod bywyd y Frenhines mewn sawl ffordd. Pan gafodd ei geni, roedd menywod yn parhau i beidio â chael hawliau cyfartal. Er bod lle i wella, mae menywod yn awr yn cyfrif am bron i 50% o'r Siambr. Mae'r Frenhines yn rhan o genhedlaeth sy'n cofio bywyd cyn y GIG. Drigain mlynedd yn ôl, nid oedd unrhyw hawliau cyfartal, oni bai eich bod yn digwydd bod yn ddyn proffesiynol, Protestannaidd a gwyn. Roedd gwahaniaethu yn erbyn hoywon a lesbiaid nid yn unig yn gyffredin, ond roedd y gyfraith yn ei sancsiynu. Yng Nghymru, ym 1952, nid y ddinas hon oedd ein prif ddinas ac nid y ddraig goch oedd ein baner swyddogol. Nid oedd y Gymraeg yn iaith swyddogol ac anaml yr oedd Cymru'n cael ei chynrychioli wrth unrhyw fwrdd Cabinet, heb sôn am gael Senedd ei hun.

The magnificent progress made over six decades can provide hope for us in these difficult economic times. It shows what can be achieved over the course of 60 years. It prompts the question: where Wales will be in 2072? Green, I would hope, fair, equal, prosperous, confident, creative and, yes, independent too. What achievements will today's generation of twentysomethings be able to look back on in 60 years' time? It is, perhaps, a question that we ask with trepidation in this age of austerity. Will the social safety net that has been built up over the course of the Queen's reign have been discarded? Will there even be a pension to look forward to? With all the bad news and the grim economic predictions, the extra bank holiday will provide people with a welcome opportunity to relax, to forget about our current troubles and to bask in the glow of happy times and, hopefully, continued warm weather.

Gall y cynnydd gwych a wnaed dros chwe degawd roi gobaith inni yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn. Mae'n dangos beth y gellir ei gyflawni dros gyfnod o 60 mlynedd. Mae hyn yn codi'r cwestiwn: lle fydd Cymru yn 2072? Bydd yn wlad werdd, gobeithio, yn deg, cyfartal, ffyniannus, hyderus, creadigol ac, ie, annibynnol hefyd. Pa lwyddiannau y bydd y genhedlaeth bresennol o bobl ifanc yn eu hugeiniau yn gallu edrych yn ôl arnynt ymhen 60 mlynedd? Mae'n gwestiwn, o bosibl, y gofynnwn yn betrusgar yn yr oes hon o galedi. A fydd y rhwyd ddiogelwch gymdeithasol a ddatblygwyd yn ystod teyrnasiad y Frenhines wedi cael ei hepgor? A fydd pensiwn i edrych ymlaen ato, hyd yn oed? Gyda'r holl newyddion drwg a'r rhagolygon economaidd difrifol, bydd y gwyliau banc ychwanegol yn cynnig cyfle i bobl ymlacio, i anghofio am ein trafferthion ar hyn o bryd ac i fwynhau adegau hapus a,

gobeithio, dywydd cynnes.

However, it could also be an opportunity to rekindle hope. Sixty years ago, when the Queen began her reign, there was rationing. Many of our cities and towns still stood in the ruins of war, yet a generation rebuilt a society with the blueprint of ambition. With a plan B to hand, so too can we rebuild an economy that has been ravaged not by the tragedy of war but by the travesty of greed. We honour today an older generation whose gift to us was the society that they built through a lifetime of commitment. Let us commit, in their honour, to ensuring that today's young people are given an equal chance to contribute to tomorrow's Wales. Let us help them to realise their potential so that they too can help rebuild and inspire generations to come.

Fodd bynnag, gallai hefyd fod yn gyfle i ailgynnau gobaith. Drigain mlynedd yn ôl, pan ddechreuodd y Frenhines ei theyrnasiad, roedd dogni'n parhau. Roedd nifer o'n dinasoedd a threfi yn parhau i sefyll ymysg adfeilion rhyfel, ac eto ailadeiladwyd cymdeithas gan genhedlaeth yn defnyddio uchelgais fel sail iddi. Gyda chynllun B wrth law, gallwn ninnau hefyd ailadeiladu economi sydd wedi cael ei ddifrodi, nid gan drychineb rhyfel ond gan warth trachwant. Heddiw, rydym yn anrhydeddu cenhedlaeth hŷn a roddodd inni gymdeithas a adeiladwyd ganddi drwy oes o ymrwymiad. Gadewch inni ymrwymo, er mwyn anrhydeddu'r genhedlaeth hon, i sicrhau bod pobl ifanc heddiw yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu at Gymru yfory. Gadewch inni eu cynorthwyo i wireddu eu potensial fel eu bod hefyd yn gallu helpu i ailadeiladu ac ysbrydoli cenedlaethau i ddod.

**William Powell:** It is a great pleasure to stand here today on behalf of my party and to add our congratulations to Her Majesty the Queen on 60 remarkable years. I have to start by reflecting on how beautiful Wales looks at the moment, resplendent in bunting and jubilee flags. Like the leader of the opposition, I have been active in my community, Talgarth, where the local jubilee committee has acted as a catalyst, pulling together people of all ages and from all parts of the community. It is very much a unifying force. Next weekend, on Mynydd Troed, that iconic mountain that some of you will know and others of you may have climbed in the Brecon Beacons, we will have a beacon of our own to be proud of—one of the many that will be burning brightly across the land.

**William Powell:** Mae'n bleser mawr sefyll yma heddiw ar ran fy mhlaid, ac ychwanegu ein llongyfarchiadau i Ei Mawrhydi Y Frenhines am 60 mlynedd rhyfeddol. Rhaid imi ddechrau drwy adlewyrchu ar ba mor hardd y mae Cymru'n edrych ar hyn o bryd, yn ysblennydd o dan rubanau a baneri jiwbilî. Yn yr un modd ag arweinydd yr wrthblaid, bûm yn weithgar yn fy nghymuned, Talgarth, lle mae'r pwyllgor jiwbilî lleol wedi gweithredu fel catalydd, drwy dynnu pobl o bob oed ac o bob rhan o'r gymuned ynghyd. Mae'r jiwbilî yn sicr yn dwyn pobl ynghyd. Penwythnos nesaf, ar Fynydd Troed, y mynydd eiconig y bydd rhai ohonoch yn ei adnabod ac y bydd eraill ohonoch wedi ei ddringo ym Mannau Brycheiniog, bydd gennym goelcerth ein hunain i fod yn falch ohoni—un o lawer a fydd yn llosgi'n llachar ledled y wlad.

Whatever you think about the position of the monarchy and of the monarch as the head of state in a theoretical, constitutional context, we all have to agree that the Queen has been a steadfast head of state over the past 60 years, not only for our country, but also in her contribution at Commonwealth level, which is not to be underestimated. Those of us who had the privilege to be present a few weeks ago at the British-Irish Parliamentary

Beth bynnag yw eich barn am sefyllfa'r frenhiniaeth a'r brenin neu'r frenhines fel pennaeth y wladwriaeth mewn cyd-destun damcaniaethol a chyfansoddiadol, rhaid inni oll gytuno y bu'r Frenhines yn bennaeth cadarn ar y wladwriaeth dros y 60 mlynedd diwethaf, nid yn unig ar gyfer ein gwlad ni, ond hefyd yn ei chyfraniad ar lefel y Gymanwlad na ddylid ei ddiystyru. Cafodd y rhai ohonom a gafodd y fraint o fod yn

Assembly, which I referenced earlier in my question to the First Minister, were moved to hear the tribute of the Irish President, Michael D. Higgins, in speaking about the contribution that Her Majesty's visit made to cementing the peace process. That is surely of great importance to all of us.

bresennol yng nghyfarfod y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig rai wythnosau yn ôl, y cyfeiriais ato yn fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog, yr anrhydedd o glywed teyrnged deimladwy Michael D. Higgins, Arlywydd Iwerddon, a oedd yn sôn am gyfraniad ymweliad Ei Mawrhydi at gadarnhau'r broses heddwch. Mae hynny'n siŵr o fod o bwys mawr i bob un ohonom.

Queen Elizabeth has reigned through changing times, as Leanne Wood has described in a moving and thoughtful way. In 2002, 1 million people turned up for the Golden Jubilee celebrations in London. I hope that as many, if not more, will celebrate this year with Her Majesty—not only in London, but, as we anticipate, throughout Wales, in its towns, cities and villages.

Mae'r Frenhines Elizabeth wedi teyrnasu drwy gyfnodau newidiol, fel y disgrifiodd Leanne Wood mewn ffordd deimladwy a meddylgar. Yn 2002, roedd 1 filiwn o bobl yn bresennol ar gyfer y dathliadau Jiwbilî Aur yn Llundain. Rwy'n gobeithio y bydd cynifer, os nad mwy, yn dathlu gydag Ei Mawrhydi eleni—nid yn unig yn Llundain, ond, fel yr ydym yn ei ragweld, ledled Cymru, yn ei threfi, dinasoedd a phentrefi.

The Queen is the second longest serving head of state that we have had and the longest-lived monarch of the United Kingdom. Her popularity has soared in recent years, with some 69% of the public believing that we would be significantly worse off without the royal family, and just 10% of those surveyed recently in favour of  moving to a republic at this time. Those figures speak for themselves.

Y Frenhines yw'r pennaeth sydd wedi gwasanaethu'r wladwriaeth am y cyfnod hiraf ond un, a hi yw teyrn mwyaf hirhoedlog y Deyrnas Unedig. Mae ei phoblogrwydd wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda thua 69% o'r cyhoedd yn credu y byddem yn sylweddol waeth ein byd heb y teulu brenhinol, a dim ond 10% o'r rhai a holwyd yn ddiweddar a oedd o blaid symud tuag at weriniaeth ar hyn o bryd. Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain.

5.00 p.m.

Indeed, it has been a reforming period, as we heard earlier, and that reform continues. The Westminster coalition Government is currently implementing an historic change in the rules of succession, with female members of the royal family given equal rights—and rightly so—to succeed to the throne. Similarly, the iniquitous bar on the heir to the throne marrying a Roman Catholic is to be consigned to the history books. Such reforms at the beginning of the Queen's reign would have been simply unthinkable.

Yn wir, mae wedi bod yn gyfnod o ddiwygio, fel y clywsom yn gynharach, ac mae'r diwygio'n parhau. Mae'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan ar hyn o bryd yn rhoi newid hanesyddol ar waith mewn perthynas â'r rheolau olyniaeth, gan roi hawliau cyfartal i aelodau benywaidd o'r teulu brenhinol esgyn i'r orsedd —ac mae hynny'n briodol. Yn yr un modd, bydd y rhwystr anghyfiawn i etifedd yr orsedd rhag priodi person Pabyddol yn cael ei drosglwyddo i'r llyfrau hanes. Byddai diwygiadau o'r fath ar ddechrau teyrnasiad y Frenhines wedi bod y tu hwnt i amgyffred.

June 1952 saw the Queen's first visit to Wales, and we have welcomed her back to

Ym mis Mehefin 1952, ymwelodd y Frenhines â Chymru am y tro cyntaf, ac

every part of our country since, from the Llangollen international eisteddfod in 1953 to her meeting our Grand Slam heroes just this year. Wales has become a more democratic nation with the arrival of devolution, and we are a country that has much to be proud of. The Queen has seen Wales develop as a nation, and I am proud of how far we have come as a nation since her accession.

rydym wedi ei chroesawu yn ôl i bob rhan o'n gwlad ers hynny, o eisteddfod ryngwladol Llangollen ym 1953 i gyfarfod â'n harwyr Camp Lawn eleni. Mae Cymru wedi dod yn genedl fwy democrataidd gyda dyfodiad datganoli, ac rydym yn wlad sydd â llawer i ymfalchïo ynddo. Mae'r Frenhines wedi gweld Cymru yn datblygu fel cenedl, ac rwy'n falch o ba mor bell yr ydym wedi dod fel cenedl ers ei hesgyniad i'r orsedd.

Just last year, the royal wedding captured the imagination of many in our country. We saw the newly married couple settle in Anglesey as they started their life together. They know what we all know: Wales is a good place to be and a good place to live. The Duchess of Cambridge will play an active role in the Anglesey Scouts, following in the footsteps of other members of the royal family who have done a great deal of charitable work, as has already been confirmed, including the notable examples of the Prince's Trust and Prince Harry's role as patron of Dolen Cymru, the Wales-Lesotho link. That, in itself, is enough for us to support amendment 1, and to do so with a good conscience.

Dim ond y llynedd, cipiodd y briodas frenhinol ddychymyg llawer o bobl yn ein gwlad. Gwelsom y pâr yn ymgartrefu yn Ynys Môn wrth iddynt ddechrau eu bywyd ynghyd ar ôl iddynt briodi. Maent yn gwybod yr hyn yr ydym i gyd yn ei wybod: mae Cymru yn lle da i fod, ac yn lle da i fyw. Bydd Duges Caer-grawnt yn chwarae rhan weithredol yn Sgowtiaid Ynys Môn, yn dilyn aelodau eraill o'r teulu brenhinol sydd wedi gwneud llawer iawn o waith elusennol, fel sydd eisoes wedi'i gadarnhau, gan gynnwys yr enghreifftiau nodedig o Ymddiriedolaeth y Tywysog a rôl Tywysog Harry fel noddwr Dolen Cymru, y ddolen Cymru-Lesotho. Mae hynny, ynddo'i hun, yn ddigon i'n darbwyllo i gefnogi gwelliant 1, ac i wneud hynny gyda chydwybod dda.

Along with everyone in the Chamber, I look forward to celebrating the Queen's Jubilee next week with the people of my community and the people of Wales.

Ynghyd â phawb yn y Siambr, edrychaf ymlaen at ddathlu Jiwbilî'r Frenhines yr wythnos nesaf gyda phobl fy nghymuned a phobl Cymru.

**Joyce Watson:** I start by congratulating Her Majesty the Queen on her work in supporting Wales over the past 60 years. The Queen and the royal family play a vital role in supporting national and local events and commemorations across the UK and also Wales. The large number of royal visits to Wales over many decades, some of which have been mentioned today, have been proud and memorable moments for all involved. Such visits are occasions that honour the work and achievements of an organisation, individuals and a community as a whole. Every year, the royal family as a whole carries out more than 2,000 official engagements throughout the UK and worldwide.

**Joyce Watson:** Dechreuaf drwy longyfarch Ei Mawrhydi Y Frenhines ar ei gwaith yn cefnogi Cymru dros y 60 mlynedd diwethaf. Mae'r Frenhines a'r teulu brenhinol yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi digwyddiadau cenedlaethol a lleol a dathliadau ledled y DU a hefyd yng Nghymru. Mae'r nifer fawr o ymweliadau brenhinol sydd wedi dod i Gymru dros sawl degawd—mae rhai ohonynt wedi cael eu crybwyll heddiw—wedi bod yn brofiadau cofiadwy i bawb a fu'n bresennol. Mae ymweliadau o'r fath yn achlysuron sy'n anrhydeddu gwaith a chyflawniadau sefydliad, unigolion a chymuned yn ei chyfanrwydd. Bob blwyddyn, mae'r teulu brenhinol yn ei gyfanrwydd yn ymgymryd â mwy na 2,000 o ymrwymiadau swyddogol ledled y DU a ledled y byd.

It is clear that the royal family also plays an important role in supporting and encouraging the public and charity sectors. About 3,000 organisations list a member of the royal family as patron or president, and we have heard many people say that today. The huge range of these organisations, covering every subject from education to the environment, and hospitals to housing, allows members of the royal family to meet people from across a wide spectrum of national and local life. We all know that some members of the royal family have also established their own charities, such as the Prince's Trust and the Duke of Edinburgh's Award scheme. There is also the Princess Royal Trust for Carers, a charity that provides advice and support for people acting as carers.

Mae'n amlwg bod y teulu brenhinol yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi ac annog y sectorau cyhoeddus ac elusennol. Rhestra tua 3,000 o sefydliadau aelod o'r teulu brenhinol fel noddwr neu lywydd, ac rydym wedi clywed llawer o bobl yn dweud hynny heddiw. Mae'r ystod eang o sefydliadau, sy'n cwmpasu pob pwnc o addysg i'r amgylchedd, ac ysbytai i dai, yn caniatáu i aelodau o'r teulu brenhinol gwrdd â phobl o drawstoriad eang o fywyd cenedlaethol a lleol. Rydym oll yn gwybod bod rhai aelodau o'r teulu brenhinol hefyd wedi sefydlu eu helusennau eu hunain, megis Ymddiriedolaeth y Tywysog a chynllun Gwobr Dug Caeredin. Ceir hefyd Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr, sef elusen sy'n darparu cyngor a chymorth i bobl sy'n gweithredu fel gofalwyr.

Many Members will already be aware that, in April, as part of the jubilee tour, the Queen visited Aberfan, Ebbw vale and, in my constituency, the Glanusk estate in Powys.

Bydd llawer o Aelodau eisoes yn ymwybodol o'r ffaith bod y Fernhines, fel rhan o'r daith jiwbilî ym mis Ebrill, wedi ymweld ag Aberfan, Glynebwy ac, yn fy etholaeth i, ystâd Glanusk ym Mhowys.

I end by again congratulating Her Majesty the Queen on the considerable work that she and the royal family have done and on the contribution that they have made to the charitable sector in particular in Wales over the past 60 years.

I gloi, rwyf am longyfarch Ei Mawrhydi Y Frenhines unwaith eto ar y gwaith sylweddol y mae hi a'r teulu brenhinol wedi ei wneud ac ar y cyfraniad y maent wedi'i wneud i'r sector elusennol yn arbennig yng Nghymru dros y 60 mlynedd diwethaf.

**Byron Davies:** I am delighted to speak in this debate and pay tribute to Her Majesty on the occasion of the sixtieth anniversary of her accession to the throne. On her first address to the nation as Queen, Her Majesty pledged that, throughout her life and with all her heart, she would strive to be worthy of the people's trust. That she has achieved beyond any doubt. Equally, there is no doubt that the Welsh people hold her in their hearts, not just as the figurehead of an institution, but as an individual who has served this country with unerring grace and dignity.

**Byron Davies:** Rwy'n falch iawn i siarad yn y ddadl hon a thalu teyrnged i Ei Mawrhydi ar yr achlysur o 60 o flynyddoedd ers iddi esgyn i'r orsedd. Yn ei hanerchiad cyntaf i'r genedl fel Brenhines, gwnaeth Ei Mawrhydi addewid y byddai, drwy gydol ei bywyd a gyda'i holl galon, yn ymdrechu i fod yn deilwng o ymddiriedaeth y bobl. Nid oes amheuaeth ei bod wedi cyflawni hynny. Yn yr un modd, nid oes amheuaeth bod lle iddi yng nghalonnau pobl Cymru, nid yn unig fel prif gynrychiolydd sefydliad, ond fel unigolyn sydd wedi gwasanaethu'r wlad hon yn raslon a gydag urddas.

The Queen, if I am not mistaken, is the longest-lived monarch in our history and has remained resolutely unchanged in her commitment and studious in her duties. She has been a permanent anchor. Crucially, she has moved the monarchy forward. It has been said that the art of progress is to preserve

Y Frenhines, os nad wyf yn camgymryd, yw'r brenin neu frenhines sydd wedi byw am y cyfnod hiraf yn ein hanes ac mae wedi bod yn benderfynol ynghylch cadw'n ddigyfnewid mewn perthynas â'i ymroddiad a'n ddyfal o ran ei dyletswyddau. Mae hi wedi bod yn angor parhaol. Yn hanfodol,

order amid change and change amid order, and Her Majesty has managed both with ease. In doing those things, the Queen ended the 1,000-year distance that existed between British monarchs and their people. Indeed, while much of her life has been governed by tradition and protocol, the Queen has always taken a thoroughly pragmatic view of such matters. Over 60 years, according to one royal biographer, she has met 4 million people in person, which is equivalent to the entire population of New Zealand. At garden parties alone, she has invited some 2 million to tea. She is Queen of 16 countries, and has surely travelled more widely than any other head of state in history. As she herself has been heard to say, and this is perhaps a lesson for us all in the Chamber,

mae wedi symud y frenhiniaeth yn ei flaen. Dywedwyd mai'r grefft o gynnydd yw cadw trefn yng nghanol newid a newid yng nghanol trefn, ac mae Ei Mawrhydi wedi llwyddo i wneud y ddau yn ddidrafferth. Wrth wneud y pethau hynny, rhoddodd y Frenhines ddiwedd ar y pellter a oedd wedi bodoli rhwng brenhinoedd Prydeinig a'u pobl ers 1,000 o flynyddoedd. Yn wir, er bod llawer o'i bywyd wedi cael ei reoli gan draddodiad a phrotocol, mae'r Frenhines erioed wedi cymryd golwg hollol bragmatig ar faterion o'r fath. Dros 60 mlynedd, yn ôl un cofiannydd brenhinol, mae hi wedi cyfarfod â 4 miliwn o bobl yn bersonol, sy'n gyfwerth â phoblogaeth gyfan Seland Newydd. Yn y partïon gardd yn unig, mae wedi gwahodd tua 2 filiwn o bobl i de. Mae'n Frenhines ar 16 o wledydd, ac mae wedi teithio yn sicr yn fwy eang nag unrhyw bennaeth gwladwriaeth arall mewn hanes. Fel y mae hi ei hun wedi ei ddweud, ac efallai bod hyn yn wers i ni i gyd yn y Siambr,

'I have to be seen to be believed'.

Rhaid i mi gael fy ngweld i gael fy nghredu.

Then there is the Commonwealth. It is doubtful whether that great alliance would ever have thrived without the dedication of Her Majesty. When the Queen became head of the Commonwealth in 1952—a very famous year, I have to say—it had eight members. Today, it has 54. No-one has done more to promote this unique family of nations spanning every continent, all the main religions, and nearly a third of the world's population. For my generation growing up, the big event was the Silver Jubilee in 1977. I remember being in London and witnessing the outpouring of national pride. Then came the Golden Jubilee in 2002, when I was greatly honoured as a police officer to be presented with a jubilee medal, which I am proud to wear on appropriate occasions. This year, in June, it will be the turn of the next generation to share in the excitement and pride in our nation, history and monarchy.

Yna mae'r Gymanwlad. Mae'n amheus a fyddai'n gynghrair fawr honno erioed wedi ffynnu heb ymroddiad Ei Mawrhydi. Pan ddaeth y Frenhines yn bennaeth y Gymanwlad ym 1952—blwyddyn enwog iawn, rhaid i mi ddweud—roedd wyth aelod. Heddiw, mae 54. Nid oes neb wedi gwneud mwy i hyrwyddo'r teulu unigryw hwn o wledydd sy'n ymestyn dros bob cyfandir, yr holl brif grefyddau, a bron i draean o boblogaeth y byd. Y digwyddiad mawr i fy nghenhedlaeth i wrth dyfu i fyny oedd y Jiwbilî Arian ym 1977. Rwy'n cofio bod yn Llundain a phrofi'r ffrwd o falchder cenedlaethol. Yna daeth y Jiwbilî Aur yn 2002 a chefais yr anrhydedd fawr fel swyddog heddlu o dderbyn medal jiwbilî yr wyf yn falcho'i gwisgo ar adegau priodol. Eleni, ym mis Mehefin, tro'r genhedlaeth nesaf fydd hi i rannu yn y cyffro a'r balchder yn ein cenedl, hanes a brenhiniaeth.

In these moments, we are reminded that we are four nations in one union, with a shared sense of purpose and integrity. When we celebrated the Golden Jubilee, it fittingly became not only a celebration of the Queen's reign, but of the very best features of the

Ar yr adegau hyn, cawn ein hatgoffa ein bod yn bedair cenedl mewn un undeb, gyda'r un ymdeimlad a rennir o bwrpas a gonestrwydd. Pan wnaethom ddathlu'r Jiwbilî Aur, roedd yn briodol iawn y daeth nid yn unig yn ddathliad o deyrnasiad y Frenhines, ond

United Kingdom. The Diamond Jubilee gives us a chance to show our gratitude. By the time she opens the Olympic Games, the Queen's jubilee tour will have taken her and Prince Philip to every part of the United Kingdom. As a Welshman, I am proud to wear all her medals, as indeed I am proud to stand here today and contribute to this debate. It is an appropriate tribute on behalf of the people of Wales, and I ask the Chamber to give unanimous support to Her Majesty.

hefyd o nodweddion gorau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Jiwbilî Ddiemwnt yn rhoi cyfle inni ddangos ein diolchgarwch. Erbyn iddi agor y Gemau Olympaidd, bydd taith jiwbilî'r Frenhines wedi mynd â hi a'r Tywysog Phillip i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Fel Cymro, rwy'n falch o wisgo ei holl fedalau, fel, yn wir, rwy'n falch o sefyll yma heddiw a chyfrannu at y ddadl hon. Mae'n deyrnged briodol ar ran pobl Cymru, a gofynnaf i'r Siambr roi cefnogaeth unfrydol i Ei Mawrhydi.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Mae'n bleser gennyf ychwanegu fy llais fy hun a llais etholwyr Dwyfor Meirionnydd, at lais pawb sydd wedi llefaru yn barod yn y ddadl hon. Mae byw mewn brenhiniaeth gyfansoddiadol yn brofiad cyffredin drwy Ewrop a thrwy'r byd. Un ffurf ar gyfansoddiad yw honno, fel yr ydym wedi clywed yn barod. Fodd bynnag, o fyw o fewn ffurf ar gyfansoddiad, mae'n bwysig ein bod yn gallu defnyddio'r cyfansoddiad hwnnw yn effeithiol ar gyfer newid a datblygu.

**Lord Elis-Thomas:** It is a pleasure to add my own voice and that of the constituents of Dwyfor Meirionnydd to the voices of all those who have already participated in this debate. Living in a constitutional monarchy is a common experience throughout Europe and throughout the world. It is one form of constitution, as we have heard already. However, living within such a constitution, it is important that we are able to use that constitution effectively to promote change and progress.

Rwyf eisiau talu teyrnged dwymgalon i'r Frenhines Elisabeth ac yn wir i'w theulu, ac yn arbennig Iarll Meirionydd, ei phriod—teitl yr oeddwn wastad yn ei arddel bob tro y byddai'n dod i'r lle hwn. Nid yw'n is o deitl na Dug Caeredin ond mae'n bwysig ein bod yn cofio y teitlau herodrol Cymreig. Rhof deyrnged hefyd i Dywysog Cymru a'r teulu cyfan am eu cyfraniad a'u cynhaliaeth i'r Frenhines dros gyfnod maith o wasanaeth cyhoeddus.

I want to pay warm-hearted tribute to Queen Elizabeth and indeed to her family, particularly the Earl of Merioneth, her husband—a title that I always used every time he would visit this place. It is no lower title than that of Duke of Edinburgh, but it is important that we remember the Welsh heraldic titles. I also pay tribute to the Prince of Wales and the entire family for their contribution and support for the Queen during her many years of public service.

Mae wedi bod yn brofiad arbennig iawn bod yn y gwasanaethau i ddathlu'r jiwbilî. Rwyf wedi llwyddo i fynd i ddau hyd yn hyn, ac rwy'n edrych ymlaen at un arall. Clywais ddiwinyddion difrifol megis Archesgob Cymru yn cyfarch y Frenhines ac yn diolch iddi am ei gwasanaeth cyhoeddus fel prif ddinesydd y wladwriaeth, ac mae honno'n neges bwysig inni i gyd. Mae'n fy atgoffa o etifeddiaeth y Dr Richard Price o Langynnwr, a oedd yn dweud o hyd bod y brenin yn bod i gynrychioli'r bobl ac nid i arglwyddiaethu drostynt. Dyna yw brenhiniaeth gyfansoddiadol.

It has been a very special experience to have attended the various services to celebrate the jubilee. I have managed to attend two to date, and I am looking forward to attending one more. I listened to serious theologians such as the Archbishop of Wales addressing the Queen and thanking her for her public service as chief citizen of the state, and that is a very important message for us all. It reminds me of the legacy of Dr Richard Price of Llangunnor, who constantly stated that the king existed to represent the people, and not to preside over them. That is what a constitutional monarch is.

Drwy'r cyfnod ers dyfodiad datganoli, mae'r Frenhines wedi dod yma i agor ein

Throughout the period since the advent of devolution, the Queen has come here to open

gweithgareddau. Gŵyr y Prif Weinidog yn dda iawn am bethau fel hyn, ond nid yw'n arferiad yn sicr i Gyfrin Gynghorwr o bawb i ddatgelu unrhyw drafodaethau preifat gyda'r sawl sy'n cario'r goron, ond awgrymais wrth y Frenhines unwaith na fyddai angen iddi ddod yma ar bob achlysur os nad oedd hynny'n gyfleus, ond roedd hwnnw'n bechod difrifol yn ei golwg hi. Dywedodd yn syth nad oeddwn i gael unrhyw syniad felly oherwydd dyna oedd ei dyletswydd hi. Roedd hi'n cysylltu'r ddyletswydd honno â'i dyletswydd tuag at weddill y Deyrnas Unedig, ac at yr Alban yn arbennig, oherwydd ei chysylltiadau â'r frenhiniaeth honno—'*our Queen of Scots*', fe y'i gelwir yno—a'i chysylltiad â'r Gymanwlad.

our sessions as an Assembly. As the First Minister will know well, it is certainly not customary for a Privy Councillor of all people to reveal the details of any private discussions with the holder of the crown, but I once suggested to the Queen that she did not need to come here for every such occasion if it were not convenient for her, but that was a serious transgression in her view. She replied immediately that I was not to get any such ideas, as that was her duty. She associated that duty with her duty towards the remainder of the United Kingdom, and especially to Scotland, given her connection with the monarchy there—'our Queen of Scots' as she is called there—and her connections with the Commonwealth.

Bob tro y mae wedi dod yma, mae wedi traethu anogaeth i ni fel Aelodau Cynulliad, ac wedi dathlu, drwy gyfrwng ei hareithiau, ddatblygiad datganoli a thwf ein cyfansoddiad. Wedi'r cyfan, drwy'r Cydsyniad Brenhinol, hi arwyddodd y ddwy Ddeddf sy'n ffurfio ein cyfansoddiad. Mae'r Arglwydd Morris yn sôn yn ei hunangofiant am y digwyddiad ym 1999, pan osododd o'i blaen hi flaenddalen Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Arwyddodd hi'r ochr Saesneg, ac yna, am y tro cyntaf erioed, drwy un symudiad o'i llaw, arwyddodd, yn yr un maint ysgrifen, y fersiwn Gymraeg a oedd drws nesaf. I mi, fel rhywun a oedd wedi ceisio ymladd o blaid dwyieithrwydd ac ieithoedd swyddogol am flynyddoedd—ond nid awn ar ôl hynny heddiw—gosododd y weithred honno Elisabeth II bron yn yr un lle ag Elisabeth I am awdurdodi'r Ddeddf i gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, a hynny o ran cydnabod y Gymraeg fel iaith swyddogol yn y Deyrnas Unedig.

Every time she has come here, she has set out her encouragement for us as Assembly Members, and has celebrated, through her addresses, the development of devolution and the growth of our constitution. After all, it was she, through Royal Assent, who signed the two Acts that make up our constitution. In his autobiography, Lord Morris talks about the event in 1999 when he placed before her the front page of the Government of Wales Act 1998. She signed the English side, and then, for the first time ever, with one movement of her hand, she signed the Welsh version next to it, in the same size writing. For me, as someone who has tried to fight for bilingualism and for official languages for years—but we will not go after that today—that single act placed Elizabeth II almost on a par with Elizabeth I when she approved the Act to translate the Bible into Welsh, in respect of recognising the Welsh language as an official language within the United Kingdom.

Rhoddodd ei chydnabyddiaeth o fathodyn brenhinol Cymru bleser arbennig imi hefyd. A ydych yn cofio'r dyddiau pan oedd gennym Fesurau cyn bod gennym Ddeddfau iawn? Ar bob Mesur yn y Cynulliad hwn, roedd bathodyn brenhinol, a hwnnw'n cynrychioli sofraniaeth y Cymry, y Tywysog Llywelyn, ac, wrth gwrs, sefyllfa Cymru heddiw.

Her recognition of the royal seal of Wales also gave me particular gratification. Do you remember the days when we had Measures before we had proper Acts? On every Measure of this Assembly, there was a royal seal displayed, and it represented the sovereignty of the Welsh people, Prince Llywelyn, and, of course, of the situation of Wales today.

Felly, am ei chyfraniad i hyrwyddo datganoli a'i phresenoldeb yma ar hyd y blynyddoedd, rwy'n diolch i Ei Mawrhydi Y Frenhines

Therefore, for her contribution to the promotion of devolution and her attendance here over many years, I thank Her Majesty,

Elisabeth am fod yn gyson ei chefnogaeth i Gymru.

Queen Elizabeth for being unwavering in her support for Wales.

**Kenneth Skates:** I am delighted to speak in today's debate paying tribute to Her Majesty the Queen—not as a royalist or republican, but because I am a firm believer in civic duty and the role that it plays in civic society. Today is not about the pros and cons of the monarchy, but about recognising the value of civic duty, leadership, kinship and unity in our collective existence. These are virtues exemplified by Her Majesty, as someone who has transcended party-political differences and provided stability at times of uncertainty.

**Kenneth Skates:** Rwy'n falch iawn o siarad yn y ddadl heddiw i dalu teyrnged i Ei Mawrhydi Y Frenhines—nid fel brenhinwr neu weriniaethwr, ond oherwydd fy mod yn credu'n gryf mewn dyletswydd ddinesig a'r rhan y mae'n ei chwarae mewn cymdeithas ddinesig. Nid yw heddiw yn gyfle i drafod manteision ac anfanteision y frenhiniaeth, ond yn gyfle i gydnabod gwerth dyletswydd ddinesig, arweinyddiaeth, carennydd ac undod yn ein bodolaeth ar y cyd. Mae'r rhain yn rhinweddau a arddangosir gan Ei Mawrhydi, fel rhywun sydd wedi goresgyn gwahaniaethau pleidiol-wleidyddol ac wedi darparu sefydlogrwydd ar adegau o ansicrwydd.

I speak on behalf of a large section of my constituents in supporting today's debate and offering my sincere congratulations to Her Majesty on her Diamond Jubilee. I am minded today to relate a wise observation by President Obama, who said of his youth, when he was trying to find himself:

Rwy'n siarad ar ran nifer fawr o fy etholwyr wrth gefnogi'r ddadl heddiw a chynnig fy llongyfarchiadau diffuant i Ei Mawrhydi ar ei Jiwbilî Ddiemwnt. Rwyf am gyfeirio at sylw doeth gan yr Arlywydd Obama, a ddywedodd wrth sôn am ei ieuenctid, pan oedd yn ceisio darganfod ei hun:

'The only way my life makes sense is if, regardless of culture, race, religion, tribe, there is this commonality, these essential human truths and passions and hopes and moral precepts that are universal. And that we can reach out beyond our differences.'

Yr unig ffordd y gall fy mywyd i wneud synnwyr yw os, heb ystyried diwylliant, hil, crefydd na llwyth, fod elfen sy'n gyffredin i bawb, sef gwirioneddau hanfodol, angerdd a gobeithion dynol a gwirebau moesol sy'n gyffredinol; ac y gallwn ymestyn y tu hwnt i'n gwahaniaethau.

Over six decades, Her Majesty has represented and served our entire population and has conveyed the universal moral precepts that define our cultural integrity. However, of course, Her Majesty's leadership and inspiration go much further because, at the age of 26, not only did Princess Elizabeth take the throne and become Queen, but also adopted a role as head of the Commonwealth, for which there was no official appointment.

Dros chwe degawd, mae Ei Mawrhydi wedi cynrychioli a gwasanaethu ein holl boblogaeth ac mae wedi cyfleu'r gwirebau moesol cyffredinol sy'n diffinio ein huniondeb diwylliannol. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae arweinyddiaeth ac ysbrydoliaeth Ei Mawrhydi yn mynd llawer ymhellach oherwydd, pan oedd yn 26 oed, yn ogystal ag esgyn i'r orsedd a dod yn Frenhines, mabwysiadodd y Dywysoges Elizabeth hefyd rôl pennaeth y Gymanwlad, lle nad oedd penodiad swyddogol.

Sixty years later, her position at the head of a growing network that brings together 54 members may turn out to be her most enduring legacy. From the start, she understood the values and the benefit of the Commonwealth link, and has sought to bind

Drigain mlynedd yn ddiweddarach, efallai y bydd ei swydd fel pennaeth rhwydwaith sy'n tyfu ac yn dod â 54 o aelodau ynghyd yn golygu mai dyma ei hetifeddiaeth fwyaf hir dymor. O'r dechrau, roedd yn deall gwerthoedd a budd cyswllt y Gymanwlad, ac

together the 2 billion people within it. The most recent addition to the Commonwealth family came in 2009 when Rwanda joined. Rwanda has no former colonial or constitutional links with the UK, but it sought to join many other countries in shared purpose and peace.

mae wedi ceisio rhwymo 2 biliwn o bobl at ei gilydd o fewn y Gymanwlad. Rwanda oedd y wlad fwyaf diweddar i ymuno â theulu'r Gymanwlad, pan ymunodd yn 2009. Nid oes gan Rwanda gysylltiadau trefedigaethol neu gyfansoddiadol gyda'r DU cyn hynny, ond roedd am ymuno â llawer o wledydd eraill mewn pwrpas cyffredin a heddwch.

5.15 p.m.

I know from talking to armed forces veterans in my own constituency that this is one of the roles that the sovereign has performed that is most cherished. She does not see herself simply as the Queen of the United Kingdom, but very much the head of a wider commonwealth. While discussions about republicanism will always go on, such movements rarely suggest separation from the Commonwealth. During her reign, Her Majesty has used this symbolic role in a wide variety of ways with a wide variety people in a wide variety of countries, but always with the aim of drawing them together and fostering the conversation about citizenship in a modern world. During her reign, the Queen has often referred to the Commonwealth as the original world wide web. In a world getting faster, smaller, ever changing, perhaps this is another lasting legacy to us all as a nation to help us understand the world we live in more acutely and to understand the importance of the ties that bind, not just the elements that divide. In this respect, I once again reflect on the insightfulness of President Obama, who observed that

Gwn o siarad â chyn-filwyr y lluoedd arfog yn fy etholaeth i bod hon yn un o'r rolau mae'r sofran wedi'i pherfformio sy'n cael ei thrysori fwyaf. Nid yw'n gweld ei hun yn Frenhines y Deyrnas Unedig yn unig, ond yn bennaeth ar Gymanwlad ehangach. Er y bydd trafodaethau am weriniaetholdeb yn parhau, yn anaml mae mudiadau o'r fath yn awgrymu gwahanu oddi wrth y Gymanwlad. Yn ystod ei theyrnasiad, mae Ei Mawrhydi wedi defnyddio'r rôl symbolaidd hon mewn amrywiol ffyrdd gydag amrywiol bobl mewn amrywiol wledydd, ond bob tro gyda'r nod o ddod â phawb ynghyd a meithrin sgwrs am ddinasyddiaeth yn y byd modern. Yn ystod ei theyrnasiad, mae'r Frenhines wedi cyfeirio'n aml at y Gymanwlad fel y we fyd-eang gwreiddiol. Mewn byd sy'n cyflymu, yn lleihau ac yn newid yn barhaol, efallai bod hyn yn etifeddiaeth barhaol arall i ni fel cenedl i'n helpu i ddeall yn fwy craff y byd yr ydym yn byw ynddo ac i ddeall pwysigrwydd y cysylltiadau sy'n rhwymo, nid yn unig yr elfennau sy'n rhannu. Yn hyn o beth, rwyf unwaith eto yn myfyrio ar graffter yr Arlywydd Obama, a nododd:

'there is no doubt…that the only way I could have a sturdy sense of…who I was depended on digging beneath the surface differences of people.'

nid oes amheuaeth mai yr unig ffordd y gallwn gael ymdeimlad cadarn o bwy yr oeddwn oedd trwy gloddio o dan y gwahaniaethau amlwg pobl.

The Commonwealth has enabled us as a country to dig beneath the surface differences of other countries and, as a consequence, our sense of place in the world has strengthened and our tolerance of differences has grown considerably. People around the world view our head of state in the highest regard, and the dignified service provided by Her Majesty has given the UK enormous prestige. We must accept that, with the advent of global communications, particularly the

Mae'r Gymanwlad wedi'n galluogi, fel gwlad, i gloddio o dan wahaniaethau amlwg gwledydd eraill ac, o ganlyniad, mae ein hymdeimlad o le yn y byd wedi cryfhau ac mae ein goddefgarwch tuag at wahaniaethau wedi tyfu'n sylweddol. Mae gan bobl ledled y byd y parch mwyaf at bennaeth ein gwladwriaeth, ac mae gwasanaeth urddasol Ei Mawrhydi yn destun bri enfawr i'r DU. Rhaid inni dderbyn, gyda dyfodiad cyfathrebu byd-eang, yn enwedig y

internet, it was inevitable that the royal family would come under intense scrutiny and that their lives would be followed by billions as a soap opera. Throughout her reign, Her Majesty and the royal family have shown immeasurable strength and decorum, even during the most challenging of times. Like many, I have relatives overseas, many on the west coast of America where the USA's newest royal family, the Kardashians, also reside. It sometimes requires a chat with my relatives on the west coast to appreciate just how important Her Majesty has been to our image abroad and our confidence at home. It can be said that familiarity often breeds contempt, in which case it is an exceptional achievement of our Queen that after 60 years, her popularity is greater than ever. So, today, regardless of whether you are a royalist, republican or non-committal, we can all share in the congratulations and thanks offered to a Queen who has served Wales with the utmost devotion and care.

**Mohammad Asghar:** It gives me great pleasure to add my voice today to the tributes to Her Majesty The Queen on the occasion of her Diamond Jubilee. For 60 years, the Queen has served this country with dedication and loyalty. She has been and remains the single fixed point in a fast-changing world. In Shakespeare's words:

'constant as the northern star, / Of whose true-fixed and resting quality / There is no fellow in the firmament.'

On her accession to the throne, the Queen said:

'I declare before you all that my whole life, whether it be long or short, shall be devoted to your service and the service of our great imperial family to which we all belong.'

Ma'am, you have done a wonderful job. It is that great imperial family that I wish to speak about today. I was born in Peshawar, and it was the Royal Indian Air Force that took my family from India to Pakistan. Otherwise, history would have been different and I might not be here. I owe to the Royal Indian Air

rhyngrwyd, ei bod yn anochel y byddai'r teulu brenhinol yn dod yn destun craffu dwys ac y byddai biliynau yn dilyn eu bywydau fel opera sebon. Drwy gydol ei theyrnasiad, mae Ei Mawrhydi a'r teulu brenhinol wedi dangos cryfder a gwedduster difesur, hyd yn oed ar yr adegau mwyaf heriol. Fel llawer, mae gennyf deulu yn byw dramor, ac mae llawer ohonynt yn byw ar arfordir gorllewinol America lle mae teulu brenhinol mwyaf newydd yr Unol Daleithiau, sef y Kardashians, hefyd yn byw. Weithiau, rhaid imi gael sgwrs gyda fy nheulu ar arfordir y gorllewin i werthfawrogi pa mor bwysig fu Ei Mawrhydi i'n delwedd dramor ac i'n hyder adref. Mae yna ddywediad, 'cyffredin pob cynefin', felly mae'n llwyddiant eithriadol bod poblogrwydd ein Brenhines, ar ôl 60 mlynedd, yn fwy nag erioed. Felly, heddiw, p'un ai ydych yn frenhinwr, yn weriniaethwr neu'n ddiduedd, gallwn oll ymuno i longyfarch a diolch i Frenhines, sydd wedi gwasanaethu Cymru gyda'r ymroddiad a'r gofal mwyaf.

**Mohammad Asghar:** Mae'n bleser mawr gennyf gyfrannu at y teyrngedau i Ei Mawrhydi Y Frenhines ar achlysur ei Jiwbilî Ddiemwnt. Am 60 mlynedd, mae'r Frenhines wedi gwasanaethu'r wlad hon gydag ymroddiad a ffyddlondeb. Mae hi wedi bod, ac yn parhau i fod, yn ffigur sefydlog mewn byd sy'n prysur newid. Yng ngeiriau Shakespeare:

'*constant as the northern star, / Of whose true-fixed and resting quality / There is no fellow in the firmament*.'

Wrth esgyn i'r orsedd, dywedodd y Frenhines:

Rwyf yn datgan wrth bawb y bydd fy mywyd cyfan, boed yn hir neu'n fyr, yn ymroddedig i'ch gwasanaethu ac i wasanaethu'r teulu ymerodrol mawr y mae pawb yn perthyn iddo.

Madam, rydych wedi gwneud gwaith ardderchog. Rwyf am siarad am y teulu ymerodrol mawr hwnnw heddiw. Cefais fy ngeni ym Mheshawar, a'r Llu Awyr Brenhinol yn India a gludodd fy nheulu o India i Bacistan. Fel arall, fe allai hanes fod wedi bod yn wahanol ac mae'n bosibl na

Force a great tribute and to those gallant British air force officers who saved our family. Peshawar is now in Pakistan, but, at that time, it was British India. One of the great achievements of the Queen's reign has been the transformation of empire into commonwealth. The Commonwealth consists of 54 countries, with one application for membership, from South Sudan, being processed. It covers 1.8 billion people, 30% of the world's population. It is a loose association of former British colonies and dependencies, along with some countries that have no historical ties to Britain, such as Rwanda and Mozambique. It is a voluntary association of independent states with the aim of promoting democracy, good government, human rights and economic development.

fyddwn i yma. Mae arnaf ddyled fawr i'r Llu Awyr Brenhinol yn India a'r swyddogion dewr o'r llu awyr Prydeinig a achubodd ein teulu. Bellach, mae Peshawar ym Mhacistan, ond, ar y pryd, roedd o fewn India Brydeinig. Un o lwyddiannau mawr teyrnasiad y Frenhines fu trawsnewid ymerodraeth yn gymanwlad. Mae'r Gymanwlad yn cynnwys 54 gwlad, ac mae cais arall am aelodaeth, o Dde Swdan, yn cael ei brosesu. Mae 1.8 biliwn o bobl ynddi, sef 30% o boblogaeth y byd. Math o gymdeithas ydyw sy'n cynnwys cyn-wladfeydd Prydeinig a gwledydd dibynnol, ynghyd â rhai gwledydd nad oes ganddynt gysylltiadau hanesyddol â Phrydain, fel Rwanda a Mozambique. Mae'n gymdeithas wirfoddol o wladwriaethau annibynnol gyda'r nod o hybu democratiaeth, llywodraethu da, hawliau dynol a datblygu economaidd.

In 1961, it was declared that racial equality would be a cornerstone of the new Commonwealth at a time when many African and Caribbean nations were joining the organisation. This led to South Africa withdrawing from the Commonwealth due to the country's apartheid policies. It was not until 1994 that South Africa rejoined the Commonwealth under its great President, Nelson Mandela. Further declarations followed: Singapore in 1971, Lusaka 1979 and Harare in 1991, emphasising the Commonwealth's commitment to human rights and democracy. This has caused stresses in the organisation. Pakistan, Nigeria, Fiji and Zimbabwe have all had their membership suspended at some time, and Fiji and Zimbabwe remain suspended today.

Ym 1961, gwnaed datganiad y byddai cydraddoldeb hiliol yn un o gonglfeini'r Gymanwlad newydd ar adeg pan oedd llawer o wledydd o Affrica a'r Caribî yn ymuno â'r sefydliad. Arweiniodd hyn ymadawiad De Affrica â'r Gymanwlad o ganlyniad i'w pholisïau apartheid. Dim ond ym 1994 yr ail-ymunodd De Affrica â'r Gymanwlad o dan ei Harlywydd gwych, Nelson Mandela. Dilynwyd hynny gan ddatganiadau pellach: Singapore ym 1971, Lusaka ym 1979 a Harare ym 1991, gan bwysleisio ymrwymiad y Gymanwlad i hawliau dynol a democratiaeth. Mae hyn wedi achosi straen o fewn y sefydliad. Mae Pacistan, Nigeria, Fiji a Zimbabwe oll wedi'u gwahardd ar ryw adeg, ac mae Fiji a Zimbabwe yn parhau i fod wedi'u gwahardd hyd heddiw.

It is remarkable that the Commonwealth remains united as a force for promoting human rights, racial equality and democracy in the world. This is to the credit of the Queen, who, as head of the Commonwealth, is the glue that binds the organisation together. Britain could have no better ambassador than the Queen.

Mae'n nodedig bod y Gymanwlad yn parhau i fod yn unedig fel grym ar gyfer hyrwyddo hawliau dynol, cydraddoldeb hiliol a democratiaeth yn y byd. Mae hynny'n glod i'r Frenhines am mai hi, fel pennaeth y Gymanwlad, yw'r glud sy'n glynu'r sefydliad ynghyd. Ni allai Prydain gael gwell llysgennad na'r Frenhines.

Presiding Officer, I said earlier that we live in a fast changing world. However, over 60 years, the Queen has demonstrated the monarchy's ability to adapt to modern times. At the time of Queen Victoria's Diamond Jubilee, the monarch was a remote figure,

Llywydd, dywedais yn gynharach ein bod yn byw mewn byd sy'n prysur newid. Fodd bynnag, dros 60 mlynedd, mae'r Frenhines wedi dangos gallu'r frenhiniaeth i addasu i'r oes fodern. Ar adeg Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines Victoria, roedd y frenhines yn

seen rarely by her people. Today, the Queen is estimated to have met 4 million people in person—including me, twice at least. She is the most widely travelled head of state this country has ever had, and her jubilee tour of Britain has been welcomed by large, enthusiastic crowds wherever she has gone. She remains at the very heart of the nation, doing her duty and serving our country. She has played the greatest role as a mother, daughter, wife and sister. We all must give her credit for what she has given not only to this nation, but to her great family. She is not only the Queen of the United Kingdom, she is the Queen of hearts of the Commonwealth.

ffigur pell a oedd prin yn cael ei gweld gan ei phobl. Heddiw, amcangyfrifir bod y Frenhines wedi cwrdd â 4 miliwn o bobl—gan fy nghynnwys i, o leiaf ddwywaith. Hi yw'r pennaeth gwladwriaeth sydd wedi teithio fwyaf a gafodd y wlad hon erioed, ac mae ei thaith jiwbilî o amgylch Prydain wedi cael croeso gan dorfeydd mawr a brwdfrydig ym mhobman. Mae hi'n parhau i fod wrth galon y genedl, yn gwneud ei dyletswydd ac yn gwasanaethu ein gwlad. Mae wedi chwarae ei rhan bwysicaf fel mam, merch, gwraig a chwaer. Rhaid rhoi clod iddi am yr hyn y mae wedi'i roi i'r wlad, yn ogystal â'r hyn y mae wedi'i roi i'w theulu arbennig. Nid Brenhines y Deyrnas Unedig yn unig yw hi, ond rhiain deg y Gymanwlad.

**Alun Ffred Jones:** Rwy'n ymuno yn y gwerthfawrogiad o weithgarwch y Frenhines Elizabeth dros gyfnod o 60 mlynedd. Y mae wedi cyflawni'r gwaith hwn â chryn urddas a synnwyr cyffredin, yn enwedig o gofio rhai o'r Prif Weinidogion y bu'n rhaid iddi hi ymdrin â nhw yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn un sydd wedi bod yn weithgar ag elusennau, rwy'n hapus iawn i gydnabod ymdrechion amryw o'r teulu brenhinol wrth gefnogi achosion da—mae rhywun yn meddwl yn arbennig am y Tywysog Charles a'i waith gyda phobl ifanc yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw, ac am y diweddar Diana a'i hymgyrch yn erbyn ffrwydron daear.

**Alun Ffred Jones:** I also wish to contribute to the appreciation expressed of the work of Queen Elizabeth over 60 years. She has undertaken this work with dignity and common sense, in spite of some of the Prime Ministers she has had to deal with in that time. As someone who has worked with charities, I am happy to recognise the efforts of various members of the royal family in supporting good causes—one thinks in particular of Prince Charles and his work with young people in providing opportunities for them, and of the late Diana and her campaign against landmines.

A minnau'n Aelod sy'n cynrychioli tref frenhinol Caernarfon a'i chastell, sef castell Edward I, rwy'n siŵr y byddai llawer o'r trigolion am i mi gyflwyno eu llongyfarchiadau hwythau i'r Frenhines. Cafodd y Frenhines ei chroesawu i'r castell ddwy flynedd yn ôl gan y maer ar y pryd, y Cynghorydd Hywel Roberts—sy'n gynghorydd y Blaid—ac roedd hi wedi dotio at y gwelliannau a wnaed i'r castell, yn arbennig y mynediad i bobl anabl a ychwanegwyd rai blynyddoedd yn ôl. Mae pethau wedi gwella yn y castell ers iddo ddychwelyd i ddwylo pobl Caernarfon a phobl Cymru.

As the Member who represents the royal borough of Caernarfon and its castle, built by Edwards I, I am sure that many residents of the town would like for me to express their congratulations to the Queen. The Queen was welcomed to the castle two years ago by the mayor at the time, Councillor Hywel Roberts—who is a Plaid councillor—and she was delighted to see the improvements made to the castle, particularly the disabled entrance added a few years ago. Things have improved at the castle since it was returned to the people of Caernarfon and the people of Wales.

Mae fy mam yng nghyfraith wedi cydoesi, fwy neu lai, gyda'r Frenhines, ac wedi magu ei theulu yn ystod yr un cyfnod. Mae'n deg dweud bod ganddi dipyn o barch tuag ati. Hynny yw, mae gan fy mam yng nghyfraith

My mother in law has co-existed, more or less, with the Queen, having brought up her family during the same period. It is fair to say that she has some respect for her. My mother in law has respect for the Queen, that is, as a

dipyn o barch at y Frenhines fel cyd-fam sydd wedi cael ei thrafferthion fel ymhob teulu arall. Rwy'n cynnwys fy mam yng nghyfraith yn y llongyfarchiadau hyn, a phob mam arall a fagodd blant yn ystod y blynyddoedd caled yn dilyn yr ail ryfel byd, a hynny yn aml iawn mewn amgylchiadau eithriadol o anodd.

fellow mother who has experienced family troubles like every other family. I include my mother in law in these congratulations, along with every other mother who raised children during those difficult years following the second world war, often in exceptionally arduous circumstances.

Wrth i mi ddymuno'n dda i'r Frenhines, ac o weld y cynnig ger ein bron heddiw, mae'n resyn na fydd rhai o weithwyr y gwasanaeth iechyd yng Nghymru—porthorion a nyrsys yn eu plith—yn cael tâl gŵyl y banc os bydd angen iddynt weithio ar ddydd Mawrth y jiwbilî. Wrth gwrs, ni fydd yr amodau hynny yn ymestyn i bob gweithiwr yn y gwasanaeth iechyd, oherwydd bydd y rheolwyr yn cael eu talu fel arfer.

As I wish the Queen well, and looking at the motion before us, it is regrettable that some health service workers in Wales—porters and nurses included—will not receive bank holiday pay for working on jubilee Tuesday. Of course, those conditions will not be extended to every health service worker, because managers will be paid as usual.

Cyn gorffen y sylwadau hyn y prynhawn yma, byddwn yn anonest pe na bawn yn cyfeirio at draddodiad gweriniaethol y Cymry—traddodiad anrhydeddus iawn. Rwyf innau yn weriniaethwr, fel amryw o bobl yn y Siambr hon a thu allan. Traddodiad ydyw sydd wedi bod yn rhan annatod o radicaliaeth Cymru, sy'n draddodiad arall y credaf y gall pawb yn y Siambr ymfalchïo ynddo. Fodd bynnag, heddiw, mae cyfle i longyfarch ac rwy'n hapus i ychwanegu fy llais i'r llongyfarchiadau hynny am oes o weithgarwch.

Before I conclude my contribution, it would be disingenuous of me to not refer to the republican tradition of Wales—a very honourable tradition. I am a republican, as are many in this Chamber and beyond. This tradition has been an integral part of Welsh radicalism, which is another tradition of which everyone in this Chamber can be proud. However, today is an opportunity to congratulate, and I am happy to add my voice to those congratulations on a lifetime of service.

**Antoinette Sandbach:** I am very grateful for the opportunity to make a contribution to this debate. Her Majesty the Queen has had a long and dedicated relationship with Wales. She made her first visit when she was just 17 and has been a regular visitor since then, and she is the patron of 15 Welsh charities and bodies, from the veterans' association to the Welsh Rugby Union and the Royal Welsh Agricultural Society. The benefit that Her Majesty the Queen brings to Wales can be seen in the recent response of the public to the marriage of the Duke and Duchess of Cambridge, who have chosen to make Anglesey their home and have boosted interest in the island and the number of visits made to it.

**Antoinette Sandbach:** Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Bu perthynas hir ac ymroddedig rhwng Ei Mawrhydi Y Frenhines â Chymru. Daeth ar ei hymweliad cyntaf pan oedd yn ddim ond 17 oed ac mae wedi ymweld yn gyson ers hynny. Mae hi'n noddwr i 15 o elusennau a chyrff yng Nghymru, o gymdeithas y cyn-filwyr i Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Mae budd Ei Mawrhydi Y Frenhines i Gymru i'w weld yn ymateb diweddar y cyhoedd i briodas Dug a Duges Caergrawnt, sydd wedi dewis byw ar Ynys Môn ac wedi rhoi hwb i ddiddordeb yn yr ynys a nifer yr ymweliadau iddi.

Wales and the rest of the UK are extremely lucky to have had a head of state with such experience who has been a constant and

Mae Cymru a gweddill y DU yn hynod lwcus o gael pennaeth gwladwriaeth mor brofiadol sydd wedi bod yn bresenoldeb cyson a

steadfast presence in turbulent times. From the post-war era of rationing through to the cold war and beyond, the Queen has helped to steer our country through enormous social and economic upheaval and change. She has known 12 Prime Ministers, from Winston Churchill to David Cameron. Not only has she been able to provide them with the benefits of her experience and judgment, she has performed her duty as a constitutional monarch with diligence, dedication, humour, kindness, courtesy and charm, and she has ensured that the right balance of power has been maintained between the head of state and the elected representatives of the people. I believe that it is quite right to pay tribute and give thanks for her example of service, loyalty and dedication to the nation at this time of her Diamond Jubilee.

chadarn mewn cyfnodau cythryblus. O'r cyfnod ar ôl y rhyfel o ddogni hyd at y rhyfel oer a thu hwnt, mae'r Frenhines wedi helpu i lywio ein gwlad drwy chwyldro a newid cymdeithasol ac economaidd enfawr. Mae hi wedi adnabod 12 Prif Weinidog, o Winston Churchill i David Cameron, ac maent wedi cael budd o'i phrofiad a'i barn. Yn ogystal â hynny, mae hi wedi perfformio ei dyletswydd fel brenhines gyfansoddiadol gyda diwydrwydd, ymroddiad, hiwmor, caredigrwydd, cwrteisi a chyfaredd, ac mae hi wedi sicrhau cynnal y cydbwysedd cywir rhwng pennaeth y wladwriaeth a chynrychiolwyr etholedig y bobl. Credaf ei bod yn hollol iawn i dalu teyrnged a rhoi diolch am ei gwasanaeth, teyrngarwch ac ymroddiad rhagorol i'r genedl ar adeg ei Jiwbilî Ddiemwnt.

**Mark Isherwood:** When, as a loyal subject of Her Majesty the Queen, I celebrated her Silver Jubilee in 1977, little did I imagine that, 35 years later, I would have the honour of speaking in a debate on her Diamond Jubilee. This 85-year-old great grandmother first visited Wales 68 years ago as a princess and made her first visit as Queen after her accession to the throne in June 1952. She was inducted into the Welsh Gorsedd of the Bards at the 1946 National Eisteddfod. Even the gold for her wedding ring was from Wales.

**Mark Isherwood:** Wrth i mi, yn ddeiliad ffyddlon i Ei Mawrhydi Y Frenhines, ddathlu ei Jiwbilî Arian ym 1977, ni feddyliais byth y byddwn, 35 mlynedd yn ddiweddarach, yn cael y fraint o siarad mewn dadl ar ei Jiwbilî Ddiemwnt. Ymwelodd yr hen nain 85 oed hon â Chymru am y tro cyntaf 68 mlynedd yn ôl fel tywysoges ac fe ddaeth yma ar ei hymweliad cyntaf fel Brenhines ar ôl esgyn i'r orsedd ym mis Mehefin 1952. Daeth yn aelod o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol 1946. Roedd hyd yn oed yr aur yn ei modrwy briodas yn dod o Gymru.

As the embodiment of our island's history, she crucially represents permanence and continuity in an uncertain and changing world. She has already worked with 12 Prime Ministers—second only to George III, who worked with 14, and two more than Queen Victoria—one First Secretary of Wales and two First Ministers of Wales. As we have heard, Queen Elizabeth II is the head of the Commonwealth, a voluntary association of 54 independent countries. She is currently the head of state in 15 Commonwealth realms in addition to the UK and, incredibly, has worked with a combined total of 156 Prime Ministers during her reign. This, of course, does not cover Commonwealth nations that do not have the Queen as their head of state. From Australia to Antigua, Canada to Cameroon, the Commonwealth exists to foster international co-operation and trade links between people all over the world.

Mae hi'n ymgorfforiad o hanes ein hynys, ac yn hanfodol o ran cynrychioli sefydlogrwydd a pharhad mewn byd ansicr a newidiol. Mae hi eisoes wedi gweithio gyda 12 Prif Weinidog—yn ail yn unig i George III, a weithiodd gyda 14, a dau yn fwy na'r Frenhines Victoria—un Prif Ysgrifennydd Cymru a dau Brif Weinidog Cymru. Fel y clywsom, mae'r Frenhines Elizabeth II yn bennaeth y Gymanwlad, cymdeithas wirfoddol o 54 gwlad annibynnol. Ar hyn o bryd, hi yw pennaeth y wladwriaeth mewn 15 o deyrnasoedd yn y Gymanwlad yn ychwanegol i'r DU ac, yn anhygoel, mae hi wedi gweithio gyda chyfanswm cyfunol o 156 o Brif Weinidogion yn ystod ei theyrnasiad. Nid yw hynny, wrth gwrs, yn cynnwys gwledydd y Gymanwlad nad yw'r Frenhines yn bennaeth eu gwladwriaeth. O Awstralia i Antigwa, ac o Ganada i Gameroon, mae'r Gymanwlad yn bodoli i

feithrin cydweithrediad rhyngwladol a chysylltiadau masnach rhwng pobl ar draws y byd.

Whereas absolute monarchs serve as the sole source of political power, the UK has evolved into a constitutional monarchy employing a parliamentary system in which the monarch is the Government's symbolic head. Thus, in Britain and Wales, the Queen reigns, whereas the Prime Minister and First Minister rule. The rebellion in 1070 by Hereward the Wake in England, in 1294 by Prince Madog in Wales and in 1297 by William Wallace in Scotland were all rebellions by Britons against Norman rule. Elizabeth II is a direct descendant of Henry VII, via his daughter Margaret, older sister of Henry VIII. Margaret married into the Scottish royal family and her direct descendant was James VI of Scotland, who succeeded Elizabeth I on the throne of England in 1603 and therefore became King James I of a United Kingdom.

Tra bod brenhiniaeth absoliwt yn gwasanaethu fel unig ffynhonnell o rym gwleidyddol, mae'r DU wedi datblygu i fod yn frenhiniaeth gyfansoddiadol sy'n defnyddio system seneddol gyda'r brenin neu'r frenhines yn bennaeth symbolaidd ar y Llywodraeth. Felly, ym Mhrydain a Chymru, mae'r Frenhines yn teyrnasu, ond y Prif Weinidog a Phrif Weinidog Cymru sy'n llywodraethu. Roedd y gwrthryfel yn 1070 gan Hereward the Wake yn Lloegr, yn 1294 gan y Tywysog Madog yng Nghymru, ac yn 1297 gan William Wallace yn yr Alban oll yn wrthryfeloedd gan Brydeinwyr yn erbyn y Normaniaid. Mae Elisabeth II yn ddisgynnydd uniongyrchol i Harri VII, drwy ei ferch Margaret, chwaer hŷn Harri VIII. Priododd Margaret deulu brenhinol yr Alban ac roedd Iago VI o'r Alban yn ddisgynnydd uniongyrchol iddi. Olynodd ef Elisabeth I ar orsedd Lloegr ym 1603 ac felly daeth yn Frenin Iago I o Deyrnas Unedig.

5.30 p.m.

Henry VII came from an old-established Anglesey family, which claimed descent from Cadwaladr, who was, in legend, the last ancient British king. He was descended through the paternal line from Ednyfed Fychan, the seneschal or steward of Gwynedd, and through this seneschal's wife from Rhys ap Tewdwr, the King of Deheubarth in south Wales. To the bards of Wales, Henry was a candidate for *y mab darogan*—the son of prophecy—who would free the Welsh from oppression. As such, when he ascended the throne, he reunited the Britons in the west with their fellow countrymen and countrywomen, *y Cymry*, in the lost lands to the east.

Daeth Harri VII o deulu hen-sefydledig o Ynys Môn a oedd yn arddel ei bod yn disgyn o Cadwaladr, sef, yn ôl chwedl, y brenin Prydeinig hynafol olaf. Roedd yn disgyn o Ednyfed Fychan drwy linach ar ochr y tad, distain neu stiward Gwynedd, a thrwy wraig y distain hwnnw o Rhys ap Tewdwr, brenin Deheubarth yn ne Cymru. I feirdd Cymru, roedd Harri'n ymgeisydd ar gyfer y mab darogan a fyddai'n rhyddhau'r Cymry o ormes. Yn unol â hynny, pan esgynnodd i'r orsedd, unodd y Brythoniaid yn y gorllewin gyda'u cydwladwyr, y Cymry, yn y tiroedd coll i'r dwyrain.

After the Queen's visit to Wales in August 1960, the then MP George Thomas, later Viscount Tonypandy, felt compelled to condemn republican protesters, stating:

Ar ôl ymweliad y Frenhines â Chymru ym mis Awst 1960, teimlodd George Thomas, a oedd yn Aelod Seneddol ar y pryd ac a ddaeth yn Is-iarll Tonypandy yn ddiweddarach, orfodaeth i gondemnio protestwyr gweriniaethol, gan nodi:

'The boycotters look pretty silly. Their

Mae'r boicotwyr yn edrych yn eithaf gwirion.

collective announcement that they would stay away caused little more than a minor stampede...by people anxious to claim their vacant chairs.'

Achosodd eu cyhoeddiad ar y cyd y byddent yn aros i ffwrdd ychydig yn fwy na rhuthr bach...gan bobl a oedd yn awyddus i hawlio eu cadeiriau gwag.

This clearly resonates today, when a discourteous and unrepresentative rump, united only in their quest to destroy Britain and betray the inheritance of centuries, seek to dismember the UK at home and emasculate it overseas.

Mae hyn yn amlwg yn taro tant heddiw, pan fo torf anghwrtais ac anghynrychiadol, a gaiff ei huno yn ei hymgais i ddinistrio Prydain a bradychu etifeddiaeth canrifoedd yn unig, yn chwalu'r DU gartref a'i gwanhau dramor.

The Queen's visits have taken in almost every corner of Wales. They range from her declaration of pride in the Welsh history of the monarchy when, as a young girl, she stood by the statue of Henry VII in Cardiff's City Hall, to her visit to the grieving community of Aberfan after the disaster of 1966. She has visited Royal Welsh Shows, met Welsh battalions and toured the country as part of her golden jubilee celebrations a decade ago. Her diamond jubilee visit included the wonderful service at Llandaff Cathedral, meeting members of Wales's Grand Slam winning rugby team, a return to Aberfan, a tour of the Valleys and a diamonds in the park jamboree in Powys. In north Wales, celebrations include a service of thanksgiving at St Asaph Cathedral last Sunday, a diamond jubilee summer exhibition at Glyndŵr University this Friday, a Queen's jubilee event in Holywell this Saturday and a service for the Queen's diamond jubilee at the Cathedral Church of Our Lady of Sorrows, Wrexham this coming Sunday.

Mae'r Frenhines wedi ymweld â bron pob cwr o Gymru. Mae'r ymweliadau'n amrywio o'i datganiad o falchder yn hanes Cymreig y frenhiniaeth pan, yn ferch ifanc, gwnaeth sefyll wrth y cerflun o Harri VII yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, at ei hymweliad â chymuned Aberfan yn ei galar wedi'r trychineb ym 1966. Mae wedi ymweld â Sioe Frenhinol Cymru, wedi cyfarfod â bataliynau Cymreig a theithio'r wlad fel rhan o'i dathliadau jiwbilî aur ddegawd yn ôl. Roedd ei hymweliad jiwbilî diemwnt yn cynnwys y gwasanaeth gwych yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, cwrdd ag aelodau o dîm rygbi Cymru a enillodd y Gamp Lawn, dychwelyd i Aberfan, taith o amgylch y Cymoedd a jambori diemwntau yn y parc ym Mhowys. Yn y gogledd, roedd dathliadau'n cynnwys gwasanaeth o ddiolchgarwch yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ddydd Sul diwethaf, arddangosfa haf y jiwbilî diemwnt ym Mhrifysgol Glyndŵr ddydd Gwener, digwyddiad jiwbilî'r Frenhines yn Nhreffynnon ddydd Sadwrn a gwasanaeth ar gyfer jiwbilî diemwnt y Frenhines yn Eglwys Gadeiriol Ein Mair y Gofidiau, yn Wrecsam ddydd Sul nesaf.

Let us give thanks for the 60-year reign of Elizabeth our Queen, and pray for her continued health and wisdom.

Gadewch inni ddiolch am deyrnasiad 60 mlynedd Elisabeth ein Brenhines, a gweddïo am ei doethineb a'i hiechyd parhaus.

**Nick Ramsay:** To be honest, all the possible historical points that I could have made in my contribution—and many more—have been made with far more eloquence than I could possibly have managed by my colleague, Mark Isherwood. [*Laughter.*] Therefore, I will simply thank the Government for bringing forward this debate today, and put on record my thanks to Queen Elizabeth II for her 60 years of sterling service, which have benefited the UK and Wales massively.

**Nick Ramsay:** I fod yn onest, gwnaethpwyd yr holl bwyntiau hanesyddol posibl y gallwn fod wedi'u gwneud yn fy nghyfraniad a llawer mwy—gyda llawer yn fwy o huodledd nag y gallwn i fod wedi ei wneud gan fy nghydweithiwr, Mark Isherwood. [*Chwerthin.*] Felly, yn syml, rwy'n diolch i'r Llywodraeth am gyflwyno'r ddadl hon heddiw, ac yn cyfleu fy niolch i'r Frenhines Elisabeth II am ei 60 mlynedd o wasanaeth rhagorol, sydd wedi bod o fudd aruthrol i'r

DU ac i Gymru.

**The First Minister:** There is not much to add to what Members have already said. I welcome all the comments that have been made. I listened carefully to Mark Isherwood's speech; just as a matter of accuracy, there have, in fact, been three people who have held my position, not two. There was also a rebellion in 1294 by a Welsh prince, which would have come 12 years after the last native prince was killed. Apart from that, I applaud his history lesson. In fairness, however, he reminds us of the common history that unites this island.

**Y Prif Weinidog**: Nid oes llawer i'w ychwanegu at yr hyn y mae Aelodau eisoes wedi'i ddweud. Rwy'n croesawu'r holl sylwadau a wnaed. Gwrandewais yn ofalus ar araith Mark Isherwood. Fel mater o gywirdeb, mewn gwirionedd, mae tri o bobl wedi dal fy swydd, nid dau. Roedd yna hefyd wrthryfel yn 1294 gan dywysog Cymreig, a fyddai wedi dod 12 mlynedd ar ôl i'r tywysog brodorol olaf gael ei ladd. Ar wahân i hynny, cymeradwyaf ei wers hanes. A bod yn deg, fodd bynnag, mae'n ein hatgoffa o'r hanes cyffredin sy'n uno'r ynys hon.

It is also remarkable—other speakers have referred to this—to see the growth and resilience of the Commonwealth, and the fact that we now have, as the Member for Clwyd South mentioned, members joining the Commonwealth that were not under British rule at any point in their history. Rwanda was under Belgian rule for many years.

Mae hefyd yn hynod—mae siaradwyr eraill wedi cyfeirio at hyn—i weld twf a gwydnwch y Gymanwlad, a'r ffaith bod aelodau'n ymuno â'r Gymanwlad bellach, fel y dywedodd yr Aelod dros Dde Clwyd, nad oeddent o dan reolaeth Prydain ar unrhyw adeg yn eu hanes. Roedd Rwanda o dan reolaeth Gwlad Belg am flynyddoedd lawer.

I think that I am also right in saying that only one country has ever left the Commonwealth and not returned, and that is the Republic of Ireland. I was amazed when I saw Her Majesty the Queen visit the Republic of Ireland—I never thought that I would see the day that a British Queen would visit Ireland, given all the raw scars that were in place across that island until very recently. I do not think that anyone else other than her could have done what she did and brought people together. It played a very great role in healing many of the wounds still in place from 1916 onwards. Certainly, the way that she conducted herself meant that she endeared herself to the people of Ireland. I do not think that any other personality could have done what she did.

Rwy'n meddwl fy mod hefyd yn iawn i ddweud mai dim ond un wlad sydd erioed wedi gadael y Gymanwlad a pheidio â dychwelyd, sef Gweriniaeth Iwerddon. Cefais fy synnu pan ymwelodd Ei Mawrhydi Y Frenhines â Gweriniaeth Iwerddon—nid oeddwn erioed wedi credu y byddwn yn gweld Brenhines Brydeinig yn ymweld ag Iwerddon, o ystyried yr holl greithiau amrwd a oedd yn bodoli ar yr ynys honno tan yn ddiweddar iawn. Nid wyf yn credu y gallai unrhyw un arall fod wedi gwneud yr hyn a wnaeth y Frenhines, gan ddod â phobl at ei gilydd. Chwaraeodd rôl fawr yn y gwaith o iacháu llawer o'r clwyfau sydd wedi bodoli ers 1916. Yn sicr, mae'r ffordd y gwnaeth gynnal ei hun yn golygu ei bod wedi ennyn hoffter pobl Iwerddon. Nid wyf yn credu y gallai unrhyw bersonoliaeth eraill fod wedi gwneud yr hyn a wnaeth.

I thank Members for their contributions. We now all look forward to the celebrations over the course of the coming week. I am sure that we will all be celebrating on Monday with Her Majesty as we mark this auspicious occasion.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Rydym yn awr i gyd yn edrych ymlaen at y dathliadau yn ystod yr wythnos sydd i ddod. Rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn dathlu ddydd Llun gydag Ei Mawrhydi wrth nodi'r achlysur pwysig hwn.

**The Presiding Officer:** Thank you, First Minister. The question is that amendment 1 is

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1.

agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, the amendment is agreed.

A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4997 fel y'i diwygiwyd:*

*Motion NDM4997 as amended:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*yn llongyfarch Ei Mawrhydi Y Frenhines ar achlysur ei Jiwbilî Ddiemwnt ac yn talu teyrnged i'w chefnogaeth ddiwyro i Gymru dros y 60 mlynedd ddiwethaf, gan gydnabod cyfraniad anferth Ei Mawrhydi Y Frenhines ac aelodau eraill y Teulu Brenhinol at y sectorau elusennol a gwirfoddol yma yng Nghymru.*

*congratulates Her Majesty the Queen on the occasion of her Diamond Jubilee and pays tribute to her steadfast support for Wales over the last 60 years, recognising the enormous contribution shown by Her Majesty the Queen and other members of the Royal Family to the charitable and voluntary sectors here in Wales.*

**The Presiding Officer:** The question is that the motion as amended be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, I am delighted to say that the amended motion has been agreed unanimously, under Standing Order No. 12.36. Thank you very much.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw bod y cynnig fel y'i diwygiwyd cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, mae'n bleser gennyf ddweud bod y cynnig diwygiedig wedi'i gytuno yn unfrydol, o dan Reol Sefydlog Rhif 12.36. Diolch yn fawr iawn.

*Derbyniwyd cynnig NDM4997 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4997 as amended agreed.*

## Pwynt o Drefn
## Point of Order

**The First Minister:** I wish to raise a point of order under Standing Order No. 12.16(viii) relating to the conduct of business. In the course of exchanges in the Chamber, many things are said in the heat of the moment. Indeed, many exchanges are robust, and I have no complaint about that—I am often the architect of such robustness and I ask for no quarter in return. However, I think that there are boundaries that should not be crossed. I refer to an exchange earlier this afternoon between me and the leader of the opposition where, in response to a point that I was making, he said:

**Y Prif Weinidog:** Rwyf am godi pwynt o drefn o dan Reol Sefydlog Rhif 12.16 (viii) sy'n ymwneud â chynnal busnes. Yn ystod trafodaethau yn y Siambr, dywedir llawer o bethau ym merw'r eiliad. Yn wir, mae llawer o'r trafodaethau yn gadarn, ac nid oes gennyf gŵyn am hynny—rwyf yn aml yn gyfrifol am gadernid o'r fath a ni ofynnaf am unrhyw dosturi. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod ffiniau na ddylid eu croesi. Cyfeiriaf at drafodaeth yn gynharach y prynhawn yma rhyngof i ac arweinydd yr wrthblaid pan, mewn ymateb i bwynt yr oeddwn yn ei wneud, dywedodd:

'Is it not the case, First Minister, that you are the friend of millionaires on paracetamol and Bonjela, but you are the enemy of cancer patients in Wales?'

Onid yw'n wir, Brif Weinidog, mai chi yw cyfaill miliwnyddion ar barasetamol a Bonjela, ond gelyn cleifion canser yng Nghymru?

There are many in the Chamber who will know the experience of many members of my family with cancer. Although I normally make no complaint at all about what is said in the Chamber—I can take it as well as anyone—I think that, on this one occasion, the boundary has been crossed, and I would invite the leader of the opposition to withdraw that comment.

Mae llawer yn y Siambr yn gwybod am brofiad nifer o aelodau o fy nheulu sydd wedi dioddef o ganser. Er nid wyf fel arfer yn gwneud unrhyw gŵyn o gwbl am yr hyn a ddywedir yn y Siambr—gallaf gymryd sylwadau beirniadol cystal ag unrhyw un—rwy'n meddwl, ar yr achlysur hwn, y croeswyd y ffin, ac rwy'n gwahodd arweinydd yr wrthblaid i dynnu'r sylw hwnnw yn ôl.

**Andrew R.T. Davies:** I am grateful for notice of the point of order raised by the First Minister. I am happy to withdraw my comment if the First Minister has taken personal offence. Along with many Members in the Chamber I, too, have suffered due to cancer. I lost my mother at the age of 15 and I know the personal tragedy experienced. Therefore, if personal offence has been caused to the First Minister I certainly withdraw those remarks. I make the point that my remark was about the policy of the Government rather than him as an individual. However, if my remarks have been taken in that context, I withdraw them.

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n ddiolchgar am gael fy hysbysu am y pwynt o drefn a godwyd gan y Prif Weinidog. Rwy'n hapus i dynnu fy sylw yn ôl os yw'r Prif Weinidog wedi ei gymryd fel tramgwydd personol. Ynghyd â nifer o Aelodau yn y Siambr, rwyf i, hefyd, wedi dioddef o ganlyniad i ganser. Collais fy mam yn 15 oed ac rwy'n gwybod am y profiad o drasiedi personol. Felly, os achoswyd tramgwydd personol i'r Prif Weinidog, rwyf yn sicr yn tynnu'r sylwadau hynny yn ôl. Rwyf yn gwneud y pwynt yr oedd fy sylw yn ymwneud â pholisi'r Llywodraeth yn hytrach nag ef fel unigolyn. Fodd bynnag, os cymerwyd fy sylwadau yn y cyd-destun hwnnw, rwyf yn eu tynnu'n ôl.

**The Presiding Officer:** Thank you; that was very gracious. First Minister, are you content?

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr; roedd hynny'n raslon iawn. Brif Weinidog, a ydych yn fodlon?

**The First Minister:** Yes, I heard the reply, thank you.

**Y Prif Weinidog:** Do, clywais yr ateb, diolch.

**The Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

**Y Llywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.37 p.m.*
*The meeting ended at 5.37 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)

Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)